

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

04/06/2014

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd](#)
[Questions to the Minister for Natural Resources and Food](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio](#)
[Questions to the Minister for Housing and Regeneration](#)

[Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch yr Ymchwiliad i Rôl Cymru yn y Broses o Wneud Penderfyniadau yn yr UE](#)
[The Constitutional and Legislative Affairs Committee's Report on its Inquiry into Wales's Role in the EU Decision-making Process](#)

[Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch Gwaith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru](#)
[The Health and Social Care Committee's Report on the Work of Healthcare Inspectorate Wales](#)

[Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Yr Economi Ddigidol](#)
[Welsh Conservatives Debate: The Digital Economy](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)
[Voting Time](#)

[Dadl Fer: Atebolrwydd Rheolwyr GIG Cymru](#)
[Short Debate: Management Accountability in the Welsh NHS](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Prynhawn da. Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

Good afternoon. I call the National Assembly for Wales to order.

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd

Questions to the Minister for Natural Resources and Food

Cynnyrch Cymreig

Welsh Produce

13:31 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

1. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn helpu i gynorthwyo hyrwyddo cynnyrch Cymreig i ddefnyddwyr yng Nghymru? OAQ(4)0160(NRF)

1. How is the Welsh Government helping to support the promotion of Welsh produce to Welsh consumers? OAQ(4)0160(NRF)

13:31 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food

I will be publishing the action plan for food on 12 June that will include my plans to promote Welsh food and drink. Further development of the new food and drink Wales identity will be essential to supporting the industry.

Byddaf yn cyhoeddi'r cynllun gweithredu ar gyfer bwyd ar 12 Mehefin a bydd yn cynnwys fy nghynlluniau i hyrwyddo bwyd a diod o Gymru. Bydd gwaith pellach ar ddatblygu hunaniaeth newydd i fwyd a diod o Gymru yn hanfodol er mwyn cefnogi'r diwydiant.

13:31 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am looking forward to celebrating Welsh farming and Welsh food this weekend by visiting one of my neighbouring farms on Open Farm Sunday. Do you join me in recognising the value of opening up farms to the public, so that we can foster a greater understanding of the role that farming plays in food production in Wales, but also in countryside management? Do you also join me in encouraging people to visit a farm on Sunday?

Rwy'n edrych ymlaen at ddatlu ffermio yng Nghymru a bwyd o Gymru y penwythnos hwn drwy ymweld â fferm gyfagos ar ddydd Sul Fferm Agored. A wnech chi ymuno â mi i gydnabod gwerth agor ffermydd i'r cyhoedd fel y gallwn feithrin gwell dealltwriaeth o rôl ffermio ym maes cynhyrchu bwyd yng Nghymru, a hefyd ym maes rheoli cefn gwlad? A wnech chi hefyd ymuno â mi i annog pobl i ymweld â fferm ddydd Sul?

- 13:31 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I certainly do, and I hope that the Member enjoys her visit on Sunday. Open Farm Sunday is a great initiative; there are 12 farms in Wales that will be joining the scheme this year. I hope that we can regard this as a starting point for something much more fundamental and comprehensive. As part of our overall food strategy, we need to recognise the place of food in our society and our communities, and that means an understanding not only of the food on our plate, but of how it gets to our plate in the first place. That will be a key part of what we will be launching next week.
- Yn bendant, ac rwy'n gobeithio y bydd yr Aelod yn mwynhau ei hymweliad ddydd Sul. Mae Sul Fferm Agored yn fenter wych; bydd 12 o ffermydd yng Nghymru yn ymuno â'r cynllun eleni. Rwy'n gobeithio y gallwn ystyried hwn yn fan cychwyn i rywbeth llawer mwy sylfaenol a chynhwysfawr. Fel rhan o'n strategaeth fwyd gyffredinol, mae angen i ni gydnabod lle bydd yn ein cymdeithas ac yn ein cymunedau ac mae hynny'n golygu deall y bwyd ar ein plât yn ogystal â sut y mae'n cyrraedd ein plât yn y lle cyntaf. Bydd hynny'n rhan allweddol o'r hyn y byddwn yn ei lansio yr wythnos nesaf.
- 13:32 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- One of the issues identified with the True Taste Wales award was the lack of recognition of Welsh food on shelves in England where it could be purchased. With its successor, food and drink Wales, what steps are you taking to ensure that our neighbours over the border in England have a proper opportunity to buy Welsh produce? What key performance indicators will you put in place to ensure that food and drink Wales does not go down the same path as True Taste Wales?
- Un o'r materion a nodwyd mewn perthynas â gwobr Gwir Flas Cymru oedd diffyg cydnabyddiaeth i fwyd o Gymru ar silffoedd yn Lloegr lle y gellid ei brynu. Gyda'i olynydd, Bwyd a Diod Cymru, pa gamau rydych yn eu cymryd i sicrhau bod ein cymdogion dros y ffin yn Lloegr yn cael cyfle priodol i brynu cynnyrch o Gymru? Pa ddangosyddion perfformiad allweddol fyddwch chi'n eu rhoi ar waith i sicrhau nad yw Bwyd a Diod Cymru yn dilyn yr un trywydd â Gwir Flas Cymru?
- 13:32 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- There are fundamental differences between the two initiatives; I hope that the Member appreciates and understands that. Food and drink Wales's identity is one that promotes the country and the food from that country to suppliers and buyers and to the industry; it is not a consumer brand per se. However, what we have done, and what we continue to do, is work with retailers and buyers throughout the food industry in the United Kingdom to ensure that Welsh brands and Welsh foods are available throughout England in all the major multiples. What we have seen is tremendous growth in that area over the last few years. As an example of that, I would mention Puffin Produce Ltd, which Paul Davies has visited on a number of occasions and of which he has been very supportive. That brand has taken off over the last few years, supplying consumers not only in Wales, but elsewhere as well.
- Mae gwahaniaethau sylfaenol rhwng y ddwy fenter; rwy'n gobeithio bod yr Aelod yn sylweddoli ac yn deall hynny. Mae hunaniaeth Bwyd a Diod Cymru yn un sy'n hyrwyddo'r wlad a'r bwyd o'r wlad honno i gyflenwyr a phrynwyr, ac i'r diwydiant; nid brand defnyddwyr ydyw fel y cyfryw. Fodd bynnag, yr hyn rydym wedi'i wneud a'r hyn rydym yn parhau i'w wneud yw gweithio gyda manwerthwyr a phrynwyr ar draws y diwydiant bwyd yn y Deyrnas Unedig i sicrhau bod brandiau Cymreig a bwydydd o Gymru ar gael ledled Lloegr ym mhob un o'r prif siopau cadwyn. Gwelsom dwf aruthrol yn y maes dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Un enghraifft o hyn yw Puffin Produce Cyf, y mae Paul Davies wedi ymweld â hwy ar sawl achlysur a bu'n gefnogol iawn iddynt. Mae'r brand hwn wedi profi llwyddiant cynyddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn cyflenwi defnyddwyr yng Nghymru ac mewn mannau eraill hefyd.
- 13:33 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, byddwch yn gwybod bod prisiau yn y farchnad gig eidion yn isel ac o gonsyrn i ffermwyr ar hyn o bryd. Pa drafodaethau a gawsoch â Hybu Cig Cymru a pha gymorth pellach rydych wedi ei roi iddo i'w alluogi i hyrwyddo cig eidion Cymreig ymhellach, i gynyddu'r galw am y cig eidion hwnnw ac i gynyddu'r prisiau drwy wneud hynny hefyd?
- Minister, you know that prices in the market for beef are low and of concern to farmers at present. What discussions have you had with Hybu Cig Cymru and what further support have you given to enable it to promote Welsh beef further, to increase demand for beef and to increase the prices by doing so?
- 13:34 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Mae'r Aelod yn iawn i ddweud bod prisiau cig eidion wedi cwmpo yn ystod y misoedd diwethaf, a hynny am sawl rheswm oherwydd y ffordd y mae'r farchnad yn bihafio ar hyn o bryd. Bydd Aelodau hefyd yn ymwybodol bod bwrdd Hybu Cig Cymru wedi ystyried hyn yn ei gyfarfod ar 9 Mai ac wedi lansio adolygiad o'r sector cig eidion. Bydd yn adrodd yn ôl yn yr Hydref.
- The Member is right to say that beef prices have fallen in recent months, for several reasons because of the way that the market is currently behaving. Members will also be aware that the Hybu Cig Cymru board considered this at its meeting on 9 May and launched a review of the beef sector. It will report back in the autumn.
- 13:34 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Question 2, OAQ(4)0167(NRF), has been withdrawn. Tynnwyd Cwestiwn 2, OAQ (4) 0167 (NRF) yn ôl.

Diwydiant Cig Coch

Red Meat Industry

13:34 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymorth Llywodraeth Cymru i'r diwydiant cig coch yng Nghymru? OAQ(4)0164(NRF)

3. Will the Minister make a statement regarding Welsh Government support for the red meat industry in Wales? OAQ(4)0164(NRF)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:34 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I recognise the importance of the red meat industry to our economy and communities and we are working hard to ensure its success. Hybu Cig Cymru plays a vital role in this work and we are promoting Welsh red meat at home, in Europe and across the world.

Rwy'n cydnabod pwysigrwydd y diwydiant cig coch i'n heconomi a'n cymunedau ac rydym yn gweithio'n galed i sicrhau ei lwyddiant. Mae gan Hybu Cig Cymru ran hanfodol yn y gwaith ac rydym yn hyrwyddo cig coch Cymru gartref, yn Ewrop ac ar draws y byd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:35 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you, Minister, for your answer. I appreciate the answer that you just provided to Elin Jones as well. I appreciate that you are aware, of course, of the continued fluctuations in the beef market over recent months. However, the retail price for Welsh beef has not fluctuated—in fact, there has been an increased margin for some retailers—yet the farm-gate price is the lowest that it has been for two years. I am sure that the Minister will appreciate the frustrations, particularly in light of the horse meat scandal last year, after which retailers and producers assured farmers that they would be working more closely together. What supportive and/or facilitating role can the Welsh Government play in the short term to bring together all those farmers, producers and retailers, so that there is a stronger commitment in the supply chain?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Rwy'n gwerthfawrogi'r ateb rydych newydd ei roi i Elin Jones hefyd. Rwy'n derbyn eich bod yn ymwybodol o'r amrywiadau parhaus yn y farchnad gig eidion dros y misoedd diwethaf wrth gwrs. Fodd bynnag, nid yw pris manwerthu cig eidion Cymru wedi amrywio—yn wir, gwelwyd cynnydd yn elw rhai manwerthwyr—eto i gyd mae'r pris wrth gât y fferm yn is nag y bu ers dwy flynedd. Rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn gwerthfawrogi'r rhwystredigaethau, yn enwedig yng ngoleuni'r sgandal cig ceffyl y llynedd a arweiniodd at roi sicrwydd gan fanwerthwyr a chynhyrchwyr i ffermwyr y byddent yn gweithio'n agosach gyda'i gilydd. Pa rôl y gall Llywodraeth Cymru ei chwarae yn y tymor byr o ran cefnogi a/neu hwyluso'r broses o ddod â'r holl ffermwyr, cynhyrchwyr a manwerthwyr hynny at ei gilydd fel bod ymrwymiad cryfach o fewn y gadwyn gyflenwi?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:35 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I am aware that the Member met with Hybu Cig Cymru this morning to discuss these and other matters. We know also that there is an increase in the supply of beef on the market today, partly as a result of imports and partly as a consequence of increased supply from this country. We also know that there has been a small reduction in demand from consumers, and that has led to the reduction in the prices available to producers. Now, we need to understand these matters. What I am doing is investing in the future of agriculture. We have had these debates around the rural development plan before, and I am sure that we will have these debates in the future. However, the way forward for beef—as for other sectors—is to invest in efficiency of production, and then to invest in the marketing. I am confident in the work that Hybu Cig Cymru is doing, and has embarked upon in the last few weeks.

Rwy'n ymwybodol fod yr Aelod wedi cyfarfod â Hybu Cig Cymru y bore yma i drafod y materion hyn a phethau eraill. Gwyddom hefyd fod cynnydd yn y cyflenwad o gig eidion ar y farchnad heddiw, yn rhannol o ganlyniad i fewnforion ac yn rhannol o ganlyniad i gynnydd yn y cyflenwad o'r wlad hon. Rydym hefyd yn gwybod bod gostyngiad bychan wedi'i weld yn y galw gan ddefnyddwyr ac mae hynny wedi arwain at ostyngiad yn y prisiau i gynhyrchwyr. Yn awr, mae angen i ni ddeall y materion hyn. Yr hyn rwyf yn ei wneud yw buddsoddi yn nyfodol amaethyddiaeth. Rydym wedi cael trafodaethau fel hyn ynglŷn â'r cynllun datblygu gwledig o'r blaen ac rwy'n siŵr y byddwn yn cael trafodaethau o'r fath yn y dyfodol. Fodd bynnag, y ffordd ymlaen ar gyfer cig eidion—ac ar gyfer sectorau eraill—yw buddsoddi mewn cynhyrchiant effeithlon ac yna buddsoddi mewn marchnata. Rwy'n hyderus ynghylch yr hyn y mae Hybu Cig Cymru yn ei wneud a'r gwaith y mae wedi'i roi ar y gweill dros yr ychydig wythnosau diwethaf.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:36

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the Minister for his answer. There is, of course, a longer-term vision for the red meat industry. I appreciate what you have just said regarding using RDP money to improve efficiencies and increase production. However, there are a number of issues that need to be addressed regarding how we achieve these goals. How do we increase the number of suckler cows, how do we increase the carcass weight, and how do we increase the capacity of Wales in relation to primary slaughtering and secondary processing facilities? Animals are being sent to England for slaughter and for processing, and we are losing valuable revenue that could be reinvested in the Welsh economy. So, how are you working with your colleague the Minister for Economy, Science and Transport to develop that industry's capacity in Wales, and how are you sending a clear message to large meat suppliers that Wales is the place to come and has the ability to deal in quality red meat?

Diolch i'r Gweinidog am ei ateb. Wrth gwrs, ceir gweledigaeth fwy hirdymor ar gyfer y diwydiant cig coch. Rwy'n gwerthfawrogi'r hyn rydych newydd ei ddweud ynglŷn â defnyddio arian y Cynllun Datblygu Gwledig i wella arbedion effeithlonrwydd a chynyddu cynhyrchiant. Fodd bynnag, ceir nifer o faterion y mae angen mynd i'r afael â hwy o ran sut y cyflawnwn y nodau hyn. Sut rydym yn cynyddu nifer y gwartheg sugno, pwysau carcass a chapasiti Cymru mewn perthynas â chyfleusterau lladd sylfaenol a phrosesu eilaidd? Mae anifeiliaid yn cael eu hanfon i Loegr i'w lladd a'u prosesu ac rydym yn colli referniw gwerthfawr y gellid ei ail-fuddsoddi yn economi Cymru. Felly, sut rydych yn gweithio gyda'ch cydweithiwr, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, i ddatblygu capasiti'r diwydiant yng Nghymru a sut rydych yn anfon neges glir i gyflenwyr cig mawr mai Cymru yw'r lle i ddod a bod gallu yma i farchnata cig coch o ansawdd?

13:37

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I think that there is recognition in the industry of the quality of produce in Wales. Carcass weights have increased in the recent period, and that is part of the reason why we have had the increased supplies in the market. However, in terms of the overall capacity of the industry in Wales, one of the issues facing many meat processors is over-capacity and a lack of throughput, in some facilities, partly for the reason that you have given and partly for other reasons. So, I think that we need to understand what is happening in the sector as a whole. I very much welcome the work that Hybu Cig Cymru has done, and I would very much like to continue the conversation about how we can use the rural development plan to invest in the sector as a whole, and invest in the whole of the supply chain. If we can do that, I hope that we can ensure that we have not only a supply of excellent meat from Wales, but also a profitable industry.

Rwy'n meddwl bod cydnabyddiaeth o fewn y diwydiant i ansawdd cynnyrch yng Nghymru. Mae pwysau carcass wedi codi yn ystod y cyfnod diweddar ac mae hynny'n rhan o'r rheswm pam rydym wedi gweld cynnydd yn y cyflenwadau yn y farchnad. Fodd bynnag, o ran capasiti cyffredinol y diwydiant yng Nghymru, un o'r problemau sy'n wynebu llawer o broseswyr cig yw gorgapasiti a diffyg darpariaeth ar gyfer lladd a phrosesu mewn rhai cyfleusterau, yn rhannol am y rheswm a roddwyd gennych ac yn rhannol am resymau eraill. Felly rwy'n meddwl bod angen i ni ddeall yr hyn sy'n digwydd yn y sector yn ei gyfanrwydd. Rwy'n croesawu'r gwaith y mae Hybu Cig Cymru wedi'i wneud yn fawr iawn a byddwn yn awyddus iawn i barhau â'r drafodaeth ynglŷn â sut y gallwn ddefnyddio'r cynllun datblygu gwledig i fuddsoddi yn y sector yn ei gyfanrwydd a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi gyfan. Os gallwn wneud hynny, rwy'n gobeithio y gallwn sicrhau bod gennym gyflenwad o gig rhagorol o Gymru, a diwydiant proffidiol yn ogystal â hynny.

13:38

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call on the Plaid Cymru spokesperson, Llyr Gruffydd.

Galwaf ar lefarydd Plaid Cymru, Llyr Gruffydd.

13:38

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Wrth gwrs, rydym i gyd yn cydnabod y trafferthion prisiau dros y misoedd diwethaf, ac rydym hefyd yn cydnabod bwriad y Llywodraeth i geisio datblygu sector mwy gwydn dros y blynyddoedd i ddod. Fodd bynnag, y realiti yw, wrth gwrs, bod y trafferthion presennol yn arwain at ddiffyg hyder, sy'n golygu y bydd llai o barodrwydd, efallai, i fuddsoddi er mwyn creu sector cryfach yn y dyfodol. Felly, pa gyswllt uniongyrchol ydych chi wedi ei gael yn y misoedd diwethaf gyda'r archfarchnadoedd yn benodol ar y mater hwn?

Of course, we all recognise the difficulties with prices over the last few months, and we also acknowledge the Government's intention to try to develop a more resilient sector over the coming years. However, the reality is, of course, that the current difficulties are leading to a lack of confidence, which means that there will be less willingness, perhaps, to invest in order to create a stronger sector in the future. So, what direct contact have you had in the last few months with the supermarkets in particular on this issue?

- 13:39 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Rydw i a fy swyddogion yn trafod pob un sector—nid dim ond y sector cig eidion—gyda'r archfarchnadoedd yn ystod y flwyddyn. Mae cyfarfodydd wedi bod yn digwydd, ac maent yn parhau i ddigwydd. Fodd bynnag, a gaf ddod yn ôl at ddechrau dy gwestiwn, a oedd yn sôn am y misoedd diwethaf? Rydym wedi gweld dirywiad dros y degawd diwethaf yn y sector cig eidion, felly, er bod y mater o brisiau presennol yn gatalyst i'r trafodaethau rydym yn eu cael ar hyn o bryd, rydym yn gwneud camgymeriad os ydym yn meddwl mai problem dros dro yw hon, a phroblem y gallwn ei datrys yn ystod y misoedd nesaf.
- My officials and I discuss each sector—not just the beef sector—with supermarkets during the year. Meetings have been going on, and they continue to occur. However, may I come back to the beginning of your question, talking about the last few months? We have seen a decline over the last decade in the beef sector, therefore, although the issue of current prices is the catalyst for the discussions that we are having at the moment, we are making a mistake if we think that this is a temporary problem, and the problem can be resolved during the next few months.
- 13:39 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Mae hwnnw'n 'sentiment' rwy'n cytuno ag ef. Fodd bynnag, fel rydych yn ei ddweud, mae'r ffaith bod y realiti yn golygu bod y bwlch rhwng y pris 'retail' a'r pris mae'r ffermwyr yn ei dderbyn ar hyn o bryd ar ei letaf yn amlwg yn mynd i arwain at yr angen i roi mwy o flaenoriaeth i'r mater hwn.
- That is a sentiment that I agree with. However, as you say, the fact that the reality means that the gap between the retail price and the price that farmers receive is currently at its widest is obviously going to lead to the need to give greater priority to this issue.
- Cyffyrddwyd â'r adnoddau sydd ar gael i'r sector, ac mae'r adnoddau sydd ar gael i Hybu Cig Cymru yn elfen bwysig oherwydd y cyfraniad pwysig mae'n ei wneud i fudd y sector hwnnw. A allwch roi diweddariad ar y trafodaethau rydych yn eu cael ar ddiwygio'r lefi, oherwydd mae hwnnw wedi bod yn cael ei drafod ers talwm?
- The resources available to the sector have already been mentioned, and the resources available to Hybu Cig Cymru are an important element because of the important contribution that they can make to that sector. Can you give an update on the discussions that you are having on the reform of the levy, because that has been under discussion for a long time?
- 13:40 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Rwyf wedi gofyn i godi'r mater hwn gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig pan fyddaf yn cyfarfod ag ef y tro nesaf. Mae hwn yn rhywbeth rwyf wedi bod yn ei drafod, gyda chytundeb pawb yn y Siambr, ers rhai blynnyddoedd. Rwyf wedi cael llond bol o aros am weithredu. Credaf fod rhaid inni ddatrys y broblem o sut rydym yn cael a dosbarthu'r lefi yn y Deyrnas Unedig; mae'n dechrau dod yn argyfwng.
- I have asked to raise this issue with the Secretary of State for Environment, Food and Rural Affairs when I meet with him next. This is something that I have been discussing, with the agreement of everyone in this Chamber, for some years. I am tired of waiting for action. I believe that we must solve the problem of how we get and distribute the levy in the United Kingdom; it is starting to become critical.
- TB Gwartheg** **Bovine TB**
- 13:40 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 4. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gamau gweithredu Llywodraeth Cymru tuag at ddileu TB gwartheg? OAQ(4)0152(NRF)*
- 4. Will the Minister provide an update on Welsh Government action towards eradicating Bovine TB? OAQ(4)0152(NRF)*
- 13:41 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The Welsh Government is taking forward a comprehensive approach to TB eradication in Wales that aims to tackle all sources of TB infection. Key elements of the TB eradication programme in Wales are to continue to strengthen cattle control measures, alongside dealing with the wildlife reservoir of infection.
- Mae Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â dull cynhwysfawr o ddileu TB yng Nghymru sy'n anelu at fynd i'r afael â phob un o ffynonellau haint TB. Elfennau allweddol y rhaglen i ddileu TB yng Nghymru yw parhau i gryfhau mesurau rheoli gwartheg ochr yn ochr ag ymdrin â chronfa'r haint mewn bywyd gwyllt.
- 13:41 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Recently, we have seen DEFRA take a u-turn by halting the badger cull in England after research showed that it was ineffective. What words of wisdom can you give your London counterparts on successfully dealing with the serious problem of bovine TB?
- Yn ddiweddar, gwelsom dro pedol gan DEFRA wrth iddi atal y cynllun difa moch daear yn Lloegr ar ôl i ymchwil ddangos ei fod yn aneffeithiol. Pa eiriau doeth allwch chi eu rhoi i'ch cymheiriaid yn Llundain ynglŷn ag ymdrin yn llwyddiannus â phroblem ddirifol TB mewn gwartheg?

- 13:41 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that question. I have just done an interview on Radio 4 in which I talked about the plastic bag levy and congratulated our friends across Offa's Dyke for following our lead. This may be a case where DEFRA needs to look harder at what we are doing in Wales and understanding what we are doing in Wales. Certainly, the significant reductions in the incidence of bovine TB in Wales have been a consequence of policies and of decisions and of following through on those policies and decisions. I think that DEFRA has a lot to learn from what we have done on this side of the border.
- Diolch i chi am y cwestiwn. Rwyf newydd wneud cyfweiliad ar Radio 4 yn sôn am yr ardoll ar fagiau plastig ac yn llongyfarch ein cyfeillion dros Glawdd Offa am ddilyn ein hesiampl. Gall hyn fod yn achos lle mae angen i DEFRA edrych yn fanylach ar yr hyn rydym yn ei wneud yng Nghymru, a'i ddeall. Yn sicr, mae'r gostyngiadau sylweddol yn nifer yr achosion o TB mewn gwartheg yng Nghymru yn deillio o bolisiau a phenderfyniadau a gweithredu'r penderfyniadau hynny. Credaf fod gan DEFRA lawer i'w ddysgu o'r hyn rydym wedi'i wneud ar yr ochr hon i'r ffin.
- 13:42 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I welcome Monday's announcement on the new panel to advise on animal welfare and health in Wales, but I am concerned, as others are, that the rate in decline of bovine TB is similar in the intensive action areas in Wales as it is outside that area, which would seem to indicate that the vaccine is not being effective. Can you explain this, given the considerable extra resources that have been put in to the IAAs? What impact do you feel that the new panel will have on changing this trend?
- Weinidog, rwy'n croesawu'r cyhoeddiad a wnaed ddydd Llun ar y panel newydd i roi cyngor ar les ac iechyd anifeiliaid yng Nghymru, ond fel eraill rwy'n pryderu bod cyfradd y gostyngiad yn nifer yr achosion o TB mewn gwartheg yn debyg yn yr ardaloedd triniaeth ddwys yng Nghymru i'r hyn ydyw y tu allan i'r ardaloedd hynny, sy'n awgrymu nad yw'r brechlyn yn effeithiol. A allwch esbonio hyn o ystyried yr adnoddau ychwanegol sylweddol a ddarparwyd ar gyfer yr ardaloedd triniaeth ddwys? Yn eich barn chi, beth fydd effaith y panel newydd o ran newid y duedd hon?
- 13:42 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- If there is a fault line in the distribution of the decline of bovine TB, it follows the border between England and Wales. In Wales, we are seeing significant declines across the whole face of the country—the decline in the incidence of bovine TB is at over 30%. That is not happening 1 mile over the border in England due to the difference in policies being followed there. The reductions that we are seeing—the Member is absolutely right in her analysis—in the IAAs and in the rest of Wales are due to the comprehensive, holistic nature of our policies, working together as a package to deliver support for our farming community and for the veterinary profession and to deliver a framework that will control and, I hope, eradicate bovine TB from our countryside.
- Os oes anghysondeb ym mhatrwm y gostyngiad yn nifer yr achosion o TB mewn gwartheg, mae'n dilyn y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Yng Nghymru, gwelwn ostyngiadau sylweddol ar draws y wlad i gyd—mae'r gostyngiad yn nifer yr achosion o TB mewn gwartheg dros 30%. Nid yw hynny'n digwydd 1 filltir dros y ffin yn Lloegr oherwydd y gwahaniaeth yn y polisiau a ddilynir yno. Mae'r gostyngiadau a welwn—mae'r Aelod yn hollol gywir yn ei dadansoddiad—yn yr ardaloedd triniaeth ddwys ac yng ngweddill Cymru yn deillio o natur gynhwysfawr, gyfannol ein polisiau, sy'n gweithio gyda'i gilydd fel pecyn i gynorthwyo ein cymuned ffermio a'r proffesiwn milfeddygol ac i greu fframwaith a fydd yn rheoli ac rwy'n gobeithio, yn dileu TB mewn gwartheg o'n hardaloedd gwledig.
- 13:43 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Rwyf innau'n croesawu'r ffaith eich bod wedi sefydlu'r grŵp newydd ar les ac iechyd anifeiliaid. A fydd y grŵp hwn yn gallu cyhoeddi barn gyhoeddus annibynnol ar effaith eich rhaglen difa'r diciâu mewn gwartheg? Un o'r rhesymau y mae'n anodd gwneud pen na chynffon o'r smonach yn Lloegr—a chytunaf fod smonach yn Lloegr—yw nad oes barn annibynnol o'r Llywodraeth yn Lloegr nac yng Nghymru ychwaith. A fydd y grŵp felly yn gallu rhoi annibyniaeth barn ac efallai wedyn mynd gam yn nes at ateb rhai o'r cwestiynau a godwyd gan Aelodau eraill?
- I also welcome the fact that you have established a new group on animal welfare and health. Will this group be able to publicly issue an independent opinion on the impact of your bovine TB eradication programme? One of the reasons why it is difficult to make head or tail of the debacle in England—and I agree that it is a debacle in England—is that there is no view that is independent of Government in England or in Wales. Will the group therefore be able to issue an independent opinion, thereby taking us a step closer, perhaps, to answering some of the questions raised by other Members?
- 13:44 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Fy mhrofiad i yw ei bod yn amhosibl cadw unrhyw beth yn dawel yn y wlad hon. Felly, rwy'n hapus i roi ymrwymiad i chi y bydd y grŵp hwn yn cynnig barn annibynnol a chynghor annibynnol i mi, a byddaf yn hapus iawn i gyhoeddi'r farn honno.
- My experience is that it is impossible to keep anything quiet in this country. Therefore, I am happy to give you a commitment that this group will offer an independent opinion and independent advice to me, and I will be very happy to publish that opinion.

Coedwigaeth

Forestry

- 13:44 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd coedwigaeth i'r economi wledig hirdymor?
OAQ(4)0161(NRF)
- 13:44 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
The importance of forestry to the rural economy of Wales is described in our strategy for trees and forestry, 'Woodlands for Wales'. This strategy sets out our vision of the long-term economic, social and environmental benefits woodlands provide.
- 13:45 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I would like to thank the Minister for his response. As you are no doubt aware, it is standard practice within the biodiversity conditions of a felling licence to retain 10% of plantations as unproductive broadleaves rather than conifers. However, I am told by forestry professionals that, in some cases, NRW is now requiring that they replace 10% of all trees felled with broadleaves, rather than 10% of the plantation as a whole. As you can appreciate, Minister, this is potentially leading to an erosion of the proportion of productive timber that this country can look to harvest in the future. Will you please address this issue with NRW, as I believe that it is more a matter of interpretation than an issue based in policy?
- 13:45 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
If the Member has any specific matters that he wishes to raise with me, I would be grateful if he would write to me with those individual matters. I am happy to take them up.
- 13:46 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I would be happy indeed, Minister, to do that. Following on from the Environment and Sustainability Committee's recent visit to BSW Timber at Newbridge-on-Wye, we heard that there are serious concerns within the sector about the current restrictive practice with regard to restocking policies and the impact that this potentially has on investor confidence in building additional timber treatment and harvesting facilities. In that context, Minister, what assessment have you made of current Welsh Government policy, particularly in the context of the success of some of the other home nations, notably Scotland, in attracting a disproportionate amount of the current investment for the future of the forestry industry?
5. Will the Minister make a statement on the importance of forestry to the long term rural economy?
OAQ(4)0161(NRF)
- Mae pwysigrwydd coedwigaeth i economi wledig Cymru yn cael ei ddisgrifio yn ein strategaeth ar gyfer coed a choedwigaeth, 'Coetiroedd i Gymru'. Mae'r strategaeth hon yn nodi ein gweledigaeth ynghylch y manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol hirdymor y mae coetiroedd yn eu cynnig.
- Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei ymateb. Fel y gwyddoch mae'n siŵr, arfer safonol o fewn amodau bioamrywiaeth y drwydded cwmpo coed yw cadw 10% o blanhigfeydd fel coed llydanddail anghynhyrchiol yn hytrach na choed conwydd. Fodd bynnag, rwy'n cael ar ddeall gan weithwyr proffesiynol ym maes coedwigaeth fod CNC bellach mewn rhai achosion yn ei gwneud yn ofynnol iddynt blannu coed llydanddail yn lle 10% o'r holl goed a gaiff eu torri, yn hytrach na 10% o'r blanhigfa gyfan. Fel y gallwch werthfawrogi, Weinidog, gallai hyn arwain at erydu'r gyfran o bren cynhyrchiol y gall y wlad obeithio ei gynhaefu yn y dyfodol. Os gwelwch yn dda, a wnewch chi drafod y mater gyda CNC gan fy mod yn credu mai mater o ddehongliad yw hyn yn hytrach na pholisi?
- Os oes gan yr Aelod unrhyw faterion penodol y mae'n dymuno eu codi gyda mi, byddwn yn ddiolchgar pe bai'n ysgrifennu ataf â'r materion unigol hynny. Rwy'n fodlon ymdrin â hwy.
- Byddwn yn fodlon gwneud hynny, Weinidog. Yn dilyn ymweliad diweddar y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd â BSW Timber yn y Bontnewydd-ar-Wy, clywsom fod pryderon difrifol o fewn y sector ynglŷn â'r arferion cyfyngol ar hyn o bryd mewn perthynas â pholisïau ailstocio a'r effaith y gallai hyn ei chael ar hyder buddsoddwyr wrth adeiladu cyfleusterau ychwanegol ar gyfer trin a chynaeafu coed. Yn y cyd-destun hwn, Weinidog, pa asesiad a wnaethoch o bolisi cyfredol Llywodraeth Cymru, yn enwedig yng nghyd-destun llwyddiant rhai o'r gwledydd cartref eraill, yn enwedig yr Alban, i ddenu cyfran anghymesur o'r buddsoddiad presennol yn nyfodol y diwydiant coedwigaeth?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

- 13:46 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I hope that the new rural development plan will help to address some of the issues in terms of capacity and support for the industry that the Member addresses. I have visited BSW in Newbridge myself and have met directors from BSW on other occasions over the last few months. If there are specific issues about that business, I am more than happy to debate and discuss those issues if the Member would contact me in writing on that. In terms of the overall approach and the overall policy, I want to say this: we are committed to ensuring that timber provides green growth to support a green economy in Wales. We want to see that happen. I hope that the measures we will outline in the RDP will help to address that, and when I make the announcements on the new rural development plan next month, perhaps Members will have the opportunity to determine whether we are achieving those objectives or not.
- Rwy'n gobeithio y bydd y cynllun datblygu gwledig newydd yn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r materion o ran capasiti a chymorth i'r diwydiant y mae'r Aelod yn cyfeirio atynt. Rwyf wedi ymweld â BSW yn y Bontnewydd-ar-Wy fy hun ac wedi cwrdd â chyfarwyddwyr o BSW ar achlysuron eraill dros yr ychydig fisoedd diwethaf. Os oes materion penodol yn codi ynglŷn â'r busnes hwnnw, byddwn yn fwy na hapus i ddaclau a thrafod y materion hynny pe bai'r Aelod yn cysylltu â mi drwy lythyr yn eu cylch. O ran y dull gweithredu a'r polisi cyffredinol, rwyf am ddweud hyn: rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod coed yn darparu twf gwyrdd i gefnogi economi werdd yng Nghymru. Rydym yn awyddus i weld hynny'n digwydd. Rwy'n gobeithio y bydd y mesurau y byddwn yn eu hamlinellu yn y Cynllun Datblygu Gwledig yn helpu i fynd i'r afael â hynny a phan fyddaf yn gwneud y cyhoeddiadau ar y cynllun datblygu gwledig newydd y mis nesaf, efallai y caiff yr Aelodau gyfle i benderfynu a ydym yn cyflawni'r amcanion hynny ai peidio.
- 13:47 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- In the Wales tree health strategy, you indicate that there is often limited evidence available on the potential of many pests and diseases to cause damage to our trees and woodlands. May I ask how the Government is working with the HE sector to improve that evidence base?
- Yn strategaeth iechyd coed Cymru, rydych yn nodi mai cyfyngedig yn aml yw'r dystiolaeth sydd ar gael ynglŷn â photensial llawer o blâu a chlefydau i achosi niwed i'n coed a'n coetiroedd. A gaf fi ofyn sut y mae'r Llywodraeth yn gweithio gyda'r sector Addysg Uwch i wella'r sylfaen dystiolaeth honno?
- 13:48 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We are looking towards developing a relationship with what the Member describes as the HE sector, both with the industry and the wider education sector, that will provide us with the sort of expertise that the Member would argue that we require. At present, I am confident that we do have the resources and expertise available to us. There are some areas where we need to strengthen the resources within Government, and probably within NRW as well in terms of the forestry teams, and we are looking at doing that within Government over the coming months.
- Rydym yn anelu i ddatblygu cydberthynas â'r hyn y mae'r Aelod yn ei ddisgrifio fel y sector Addysg Uwch, gyda'r diwydiant a gyda'r sector addysg yn ehangach, er mwyn i ni gael y math o arbenigedd y byddai'r Aelod yn dadlau sydd ei angen arnom. Ar hyn o bryd, rwy'n hyderus fod gennym yr adnoddau a'r arbenigedd sydd ar gael i ni. Ceir rhai meysydd lle y mae angen i ni gryfhau'r adnoddau o fewn y Llywodraeth, ac o fewn CNC hefyd yn ôl pob tebyg o ran y timau coedwigaeth, a bwriadwn wneud hynny o fewn y Llywodraeth dros y misoedd nesaf.
- 13:48 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yn dilyn ymlaen o'r sylwadau yr oedd William Powell yn eu dweud, mae'ch panel cynghori ar strategaeth coetiroedd yn dweud mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn llwyddo i gael y gwerth gorau o'i gytundebau. Y rheswm am hynny, medd y panel, yw bod y prosesau yn gymhleth, yn aneglur ac yn anghyson. Beth sydd wedi mynd o'i le?
- Following on from William Powell's comments, your advisory panel on the woodlands strategy says in evidence to the Environment and Sustainability Committee that Natural Resources Wales does not get the best value out of its contracts. The reason for that, according to the panel, is that the processes are complex, inconsistent and unclear. What has gone wrong?
- 13:49 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Nid wyf yn cydnabod y dadansoddiad hwnnw. Os yw hynny'n wir, mae'n fater i reolwyr NRW, ond mae'n rhaid dweud fy mod yn hyderus bod NRW wedi creu fframwaith, strwythurau a phrosesau tu fewn i'r sefydliad i sicrhau ei fod yn gallu gweinyddu'r sector yn y ffordd y byddwn yn licio ei gweld.
- I do not recognise that analysis. If that is the case, that is an issue for NRW management, but I have to say that I am confident that NRW has created the necessary framework, structures and processes within the institution to ensure that it is able to administer the sector in the way that we would want to see.

Clymog Japan

Japanese Knotweed

13:49	Peter Black Bywgraffiad Biography	<p>6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ymdrin â chlymog Japan? OAQ(4)0155(NRF)</p>	<p>6. Will the Minister make a statement on actions the Welsh Government is taking to deal with Japanese knotweed? OAQ(4)0155(NRF)</p>	Senedd.tv Fideo Video
13:49	Alun Davies Bywgraffiad Biography	<p>The Member will be aware that I issued a written statement on this matter earlier in the week. The Welsh Government is currently supporting two projects investigating the control of Japanese knotweed. One project is looking at a bio control and the other, chemical control. In addition, we tackle invasive plants by working with a range of organisations via the Wales invasive non-native species working group.</p>	<p>Bydd yr Aelod yn ymwybodol fy mod wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig ar y mater yn gynharach yn yr wythnos. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi dau brosiect sy'n ymchwilio i'r gwaith o reoli clymog Siapan. Mae un prosiect yn edrych ar fesurau bioreoli ac un arall yn edrych ar reolaeth gemegol. Yn ogystal, rydym yn mynd i'r afael â phlanhigion goresgynol gan weithio gydag amryw o sefydliadau drwy weithgor rhywogaethau estron goresgynol Cymru.</p>	Senedd.tv Fideo Video
13:50	Peter Black Bywgraffiad Biography	<p>Thank you for that answer, Minister. You will be aware that the Anti-Social Behaviour Crime and Policing Act 2014 introduced powers to permit a local authority, or the police, to make a community protection notice to tackle ongoing problems of nuisances that negatively affect the quality of life for a community. Those powers could be used to address problems caused by widespread species, such as Japanese knotweed. What discussions have you had with local government about using the powers in this Act to deal with particular problems on private land?</p>	<p>Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Byddwch yn ymwybodol fod Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 wedi cyflwyno pwerau i ganiatáu i awdurdod lleol neu'r heddlu wneud hysbysiadau gwarchod y gymuned i fynd i'r afael â phroblemau niwsans parhaus sy'n cael effaith negyddol ar ansawdd bywyd y gymuned. Gellid defnyddio pwerau o'r fath i fynd i'r afael â phroblemau a achosir gan rywogaethau cyffredin fel clymog Siapan. Pa drafodaethau a gawsoch gyda llywodraeth leol ynglŷn â defnyddio'r pwerau yn y Ddeddf hon i ymdrin â phroblemau penodol ar dir preifat?</p>	Senedd.tv Fideo Video
13:50	Alun Davies Bywgraffiad Biography	<p>The powers in this Act that we have been debating with the Home Office and DEFRA through the passage of that Act were to do, as Members will be aware, with the control of dogs, rather than with the control of invasive non-native species. If we believe that there are powers available to us through this legislation, I will be more than happy to look at how we use those powers to ensure that local government has the tools that it requires to deal with this issue.</p>	<p>Fel y bydd yr Aelodau yn cofio, roedd y pwerau yn y Ddeddf hon y buom yn eu trafod gyda'r Swyddfa Gartref a DEFRA wrth roi'r Ddeddf mewn grym yn ymwneud â rheoli cŵn yn hytrach na rheoli rhywogaethau estron goresgynol. Os credwn fod pwerau ar gael i ni drwy'r ddeddfwriaeth hon, byddaf yn fwy na pharod i edrych ar sut y gallwn ddefnyddio'r pwerau hynny er mwyn sicrhau bod gan lywodraeth leol yr adnoddau sydd eu hangen arni i ymdrin â'r mater.</p>	Senedd.tv Fideo Video
13:51	Mike Hedges Bywgraffiad Biography	<p>I will start by thanking the Minister for his written progress update, issued earlier this week, on dealing with knotweed. I think that my interest in this topic is well documented.</p> <p>Should his diary allow, would the Minister be interested in visiting Swansea University with Julie James and me to see the groundbreaking chemical research being carried out into controlling knotweed? Does the Minister agree with me that this is a great example of where Wales is leading, in terms of chemical research and trials?</p>	<p>Rwyf am ddechrau drwy ddiolch i'r Gweinidog am ei adroddiad cynnydd ysgrifenedig a gyhoeddwyd yn gynharach yr wythnos hon ar ymdrin â chlymog Siapan. Credaf fod fy niddordeb yn y pwnc wedi'i gofnodi'n drwyadl.</p> <p>Os yw ei ddyddiadur yn caniatáu hynny, a fyddai diddordeb gan y Gweinidog mewn ymweld â Phrifysgol Abertawe gyda Julie James a mi i weld y gwaith ymchwil cemegol arloesol sydd ar y gweill ar reoli clymog Siapan? A yw'r Gweinidog yn cytuno â mi fod hon yn enghraifft wych o Gymru'n arwain o ran ymchwil cemegol a threialon?</p>	Senedd.tv Fideo Video
13:51	Alun Davies Bywgraffiad Biography	<p>That is an irresistible invitation. I will be delighted to visit Swansea with Mike and Julie to see that research that is being carried out in the university there. I think that Mike is absolutely right to point out that this is groundbreaking work and work where Wales is leading the way, and I will be delighted to see that for myself.</p>	<p>Dyna wahoddiad na allwn ei wrthod. Byddwn yn falch iawn o ymweld ag Abertawe gyda Mike a Julie i weld yr ymchwil sydd ar y gweill yn y brifysgol yno. Credaf fod Mike yn hollol iawn i nodi bod hwn yn waith sy'n torri tir newydd ac yn faes y mae Cymru yn arwain ynddo. Byddwn yn falch iawn o weld hynny drosod fy hun.</p>	Senedd.tv Fideo Video

13:51 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

Minister, thank you for your recent visit to Penllergare Trust in my region. However, you may not be aware that on the other side of the dual carriageway from the site there is Government forestry in which small pockets of both Japanese knotweed and *Phytophthora* have been identified by NRW. I welcome your written statement yesterday regarding the trials at Swansea University, but those are long-term solutions. I appreciate Peter Black's creative approach to this, but can you tell me what action you can take now to prevent knotweed from spreading from Government land to conservation sites, such as Penllergare woods?

Weinidog, diolch i chi am eich ymweliad diweddar ag Ymddiriedolaeth Penlle'r-gaer yn fy rhanbarth. Fodd bynnag, efallai na fyddwch yn ymwybodol fod CNC wedi nodi pocedi bach o glymog Siapan a *Phytophthora* yng nghoedwig y Llywodraeth ar yr ochr arall i'r ffordd ddeuol o'r safle. Rwy'n croesawu eich datganiad ysgrifenedig ddoe ynghylch y treialon ym Mhrifysgol Abertawe ond atebion hirdymor yw'r rheini. Rwy'n gwerthfawrogi ymagwedd greadigol Peter Black tuag at hyn ond a allwch ddweud wrthyf pa gamau y gallwch eu cymryd yn awr i atal clymog Siapan rhag lledaenu o dir y Llywodraeth i safleoedd cadwraeth fel coedwig Penlle'r-gaer?

13:52 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

I very much enjoyed the visit we had to Penllergare some weeks ago. The work that is being done there by the local action group is to be welcomed, and they are to be congratulated on the work that they undertake there.

May I say that we need to examine all the methodologies available to us to control knotweed, in this case, and other invasive species? My view is that we need to invest in exactly the type of research that Mike Hedges described in Swansea University to provide a solution that will be a durable solution and that will eradicate the problem and not simply manage it.

Mwynheais yn fawr iawn yr ymweliad â Phenlle'r-gaer rai wythnosau yn ôl. Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud yno gan y grŵp gweithredu lleol i'w groesawu ac maent i'w llongyfarch ar y gwaith a gyflawnant yno.

A gaf fi ddweud bod angen i ni edrych ar yr holl fethodolegau sydd ar gael i ni er mwyn rheoli clymog Siapan yn yr achos hwn, a rhywogaethau goresgynnol eraill? Yn fy marn i, mae angen i ni fuddsoddi yn yr union fath o ymchwil y disgrifiodd Mike Hedges sydd ar waith ym Mhrifysgol Abertawe er mwyn dod o hyd i ateb parhaol a fydd yn dileu'r broblem yn hytrach na dim ond ei rheoli.

13:53 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

Bydd y Gweinidog yn ymwybodol iawn o'm diddordeb yn y maes hwn, yn dilyn yr adroddiad a wnaethom fel pwyllgor a'r ymateb a gefais ganddo ym mis Chwefror. Rwy'n ddiolchgar iawn am yr ymdrech i symud ymlaen at ddatrysiad cynaliadwy, ac mae'r defnydd o'r llysluod—sef y gair Cymraeg cywir rwy'n credu—i ddelio â chlymog Siapan yn ddatrysiad cynaliadwy. Rwy'n gobeithio y bydd modd i Lywodraeth Cymru sicrhau y bydd y profion yma yn parhau, yn ogystal â'r profion cemegol ym Mhrifysgol Abertawe.

The Minister will be most aware of my interest in this area, following the report drawn up by us as a committee and the response that I received from him in February. I am very grateful to him for the efforts to move towards a sustainable solution, and the use of psyllids—I think that I am using the correct terminology here—to deal with the problem of Japanese knotweed is a sustainable solution. I hope that the Welsh Government will be able to ensure that these tests will continue, as well as the chemical tests at Swansea University.

13:53 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

Diolch am eich geiriau. Rwy'n gallu cadarnhau y bydd yr ymdrech yma yn parhau. Bydd y buddsoddiad yn parhau, ac rydym yn hyderus y byddwn yn dod o hyd i ffordd o ddatrys y broblem, gan wneud hynny mewn ffordd gynaliadwy.

I am grateful for your words. I can confirm that this effort will continue. The investment will continue and we are confident that we will find a way to resolve this problem, and do so in a sustainable way.

Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol

Areas of Outstanding Natural Beauty

13:54 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymorth Llywodraeth Cymru i Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol? OAQ(4)0154(NRF)

7. Will the Minister make a statement on Welsh Government support for Areas of Outstanding Natural Beauty? OAQ(4)0154(NRF)

13:54

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The policy statement for protected landscapes, to be published in June, will set out the Government's vision for Wales's areas of outstanding natural beauty. Following on from this, the Minister for Culture and Sport is committed to undertaking a governance review of designated landscapes, including AONBs.

Mae'r datganiad polisi ar dirweddau gwarchoddedig sydd i'w gyhoeddi ym mis Mehefin yn nodi gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol Cymru. Yn sgîl hynny, mae'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon wedi ymrwymo i gynnal adolygiad o drefniadau llywodraethu tirweddau dynodedig, gan gynnwys ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:54

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, Minister. One of the things that AONBs are deprived of, in a sense, is a statutory framework that requires the promotion of those areas. However, that said, the Clwydian range and Dee valley AONB, which traverses my constituency, is a fine example of what can be achieved under the current arrangements. I know that you were present, Minister, for the launch of the Clwydian range food trail, for example, which is an excellent initiative, helping people to visit various parts of the AONB and, indeed, proving to be a boon for the market town of Ruthin and other places in my constituency. What support are you able to give for the development of similar food trails, perhaps in other parts of Wales? How can we capitalise on the good practice in the Clwydian range and Dee valley AONB so that all parts of Wales are able to benefit from this, where they have this designation?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Ar un ystyr, un o'r pethau y mae ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol wedi'u hamddifadu ohonynt yw fframwaith statudol sy'n galw am hyrwyddo'r ardaloedd hynny. Ar ôl dweud hynny, fodd bynnag, mae AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy sy'n croesi fy etholaeth yn enghraifft wych o'r hyn y gellir ei gyflawni o dan y trefniadau presennol. Weinidog, gwn eich bod wedi mynychu lansiad llwybr bwyd Bryniau Clwyd, er enghraifft, sy'n fenter ragorol i helpu pobl i ymweld â gwahanol rannau o'r AHNE ac yn wir, mae'n hwb i dref farchnad Rhuthun a manau eraill yn fy etholaeth. Pa gymorth y gallwch chi ei roi ar gyfer datblygu llwybrau bwyd tebyg mewn rhannau eraill o Gymru? Sut y gallwn fanteisio ar yr arfer da yn AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy fel bod modd i bob rhan o Gymru sydd â'r dynodiad elwa o hyn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:55

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The food trail was, of course, established by the local action group—one of the LEADER groups. We are currently looking at how we can continue to fund and support those LEADER groups through the new rural development plan. However, I must congratulate the Member on his work to support and promote these areas. I was very impressed to read a press release from Darren Millar the other week in which he said,

'I always enjoy a day out at Loggerheads and on my latest visit was very impressed by what the volunteers have achieved.'

With such erudite PR, I am sure these places are in very safe hands. [Laughter.]

Sefydlwyd y llwybr bwyd, wrth gwrs, gan y grŵp gweithredu lleolun o'r grwpiau LEADER. Ar hyn o bryd rydym yn edrych i weld sut y gallwn barhau i ariannu a chefnogi'r grwpiau LEADER hynny drwy'r cynllun datblygu gwledig newydd. Fodd bynnag, mae'n rhaid i mi longyfarch yr Aelod ar ei waith yn cefnogi a hyrwyddo'r ardaloedd hyn. Roeddwn yn falch iawn o ddarllen datganiad i'r wasg gan Darren Millar yr wythnos o'r blaen lle dywedodd,

'Rwyf bob amser yn mwynhau diwrnod allan yn Loggerheads ac ar fy ymweliad diweddaraf, gwnaeth yr hyn y mae'r gwirfoddolwyr wedi'i gyflawni argraff fawr arnaf.'

Gyda Chysylltiadau Cyhoeddus huawdl o'r fath, rwy'n siŵr fod y lleoedd hyn mewn dwylo diogel iawn. [Chwerthin.]

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:56

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In many areas of outstanding natural beauty, local businesses like bed and breakfasts and caravan parks play a vital role in the economy. How does the Welsh Government plan to help those local businesses to grow and develop in order that our tourism industry can thrive and attract visitors?

Mewn llawer o ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol, mae busnesau lleol fel mentrau gwely a brecwast a pharciau carafanau yn chwarae rhan hanfodol yn yr economi. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu helpu'r busnesau lleol hynny i dyfu a datblygu fel y gall ein diwydiant twristiaeth ffynnu a denu ymwelwyr?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:56

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I absolutely agree with the point you made about designations leading to an economic payback. It is absolutely essential. Many of us heard the speech given by my friend the Minister for Culture and Sport yesterday, in which he talked about changes to governance and how we can use designations in a more creative way, if you like, in order to improve not only the management of different parts of the Welsh countryside, but also to enhance the economic value of these designations to Wales and to Welsh communities. I look forward to that review. However, in the meantime, what I am hoping to do—and this is important for those of us who represent Valleys areas, shall we say, not just more rural parts of Wales—is to ensure that we are able to create the sort of LEADER group, as we discussed with Darren Millar, that is able to invest in these initiatives, will add value and will promote and support local businesses. That will be a part of the new rural development plan.

Cynnwys Cymunedau mewn Ailgylchu

13:57

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnwys cymunedau mewn ailgylchu? OAQ(4)0163(NRF)

13:57

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

'Towards Zero Waste', the waste strategy for Wales, recognises the important role of the community sector in helping Wales to achieve sustainable waste management. The sector can also help to create employment and training opportunities for the socially excluded.

13:57

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome what the Minister has said. Is he aware that, in my constituency, we have a number of examples of successful social enterprises working in the field of recycling, including Too Good To Waste, which addresses the issue of unwanted furniture, E-Cycle, which works in the area of computer recycling, having taken over the work of the former Remploy factory, and, indeed, Greenstream Flooring, which recycles carpet tiles? Your colleague the Deputy Minister for Skills and Technology was able to visit and see how it has applied the Jobs Growth Wales programme very successfully. Would you agree with me that this is a sector that we want to encourage in Wales and that Welsh Government programmes are providing the opportunity to do just that?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cytunaf yn llwyr â'r pwynt a wnaethoch ynglŷn â dynodiadau'n arwain at fanteision economaidd. Mae'n gwbl hanfodol. Clywodd llawer ohonom araith fy nghyfaill, y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon, ddoe pan soniodd am newidiadau i lywodraethu a sut y gallwn ddefnyddio dynodiadau mewn ffordd fwy creadigol, os dymunwch, er mwyn gwella nid yn unig y gwaith o reoli gwahanol rannau o gefn gwlad Cymru, ond hefyd er mwyn gwella gwerth economaidd y dynodiadau hyn i Gymru a chymunedau Cymru. Rwy'n edrych ymlaen at yr adolygiad hwnnw. Fodd bynnag, yn y cyfamser, yr hyn rwy'n gobeithio ei wneud—ac mae hyn yn bwysig ar gyfer y rhai ohonom sy'n cynrychioli ardaloedd y Cymoedd er enghraifft, nid rhannau mwy gwledig Cymru yn unig—yw sicrhau ein bod, fel y trafodasom â Darren Millar, yn gallu creu'r math o grŵp LEADER sy'n gallu buddsoddi yn y mentrau hyn, ychwanegu gwerth, a hyrwyddo a chefnogi busnesau lleol. Bydd hynny'n rhan o'r cynllun datblygu gwledig newydd.

Community Engagement in Recycling

8. Will the Minister make a statement on community engagement in recycling? OAQ(4)0163(NRF)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff', y strategaeth wastraff ar gyfer Cymru, yn cydnabod rôl bwysig y sector cymunedol yn helpu Cymru i gyflawni trefniadau rheoli gwastraff cynaliadwy. Hefyd, gall y sector helpu i greu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant ar gyfer pobl wedi'u hallgáu'n gymdeithasol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n croesawu'r hyn y mae'r Gweinidog wedi'i ddweud. A yw'n ymwybodol fod gennym nifer o enghreifftiau o fentrau cymdeithasol llwyddiannus yn fy etholaeth i sy'n gweithio ym maes ailgylchu, gan gynnwys Too Good To Waste, sy'n mynd i'r afael â dodrefn nad oes eu hangen; E-Gylchu, sy'n gweithio ym maes ailgylchu cyfrifiaduron ar ôl etifeddu gwaith yr hen ffatri Remploy; ac yn wir, Greenstream Flooring sy'n ailgylchu teils carped? Gallodd eich cydweithiwr, y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, ymweld â'r fenter a gweld sut y mae wedi defnyddio'r rhaglen Twf Swyddi Cymru yn llwyddiannus iawn. A fydddech yn cytuno â mi bod hwn yn sector rydym am ei annog yng Nghymru a bod rhaglenni Llywodraeth Cymru yn cynnig cyfle i wneud hyn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:58

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, absolutely. I am delighted that the Member has raised the issue of Greenstream Flooring. I know that my colleague the Deputy Minister was very impressed during his recent visit there. The way in which we make recycling a mainstream part of how our economy works is absolutely essential. We talk about a circular economy simply in terms of some of our major manufacturers, but we also need to talk about a circular economy in terms of recycling domestic and industrial products for re-use within our communities. There are a number of different examples, such as Greenstream Flooring, across Wales. Certainly, what we want to be doing in terms of taking this forward is to support all of those community recycling organisations.

Byddwn, yn bendant. Rwyf wrth fy modd fod yr Aelod wedi cyfeirio at Greenstream Flooring. Gwn fod y fenter wedi creu cryn argraff ar fy nghydeithiwr, y Dirprwy Weinidog, yn ystod ei ymweliad diweddar yno. Mae'r ffordd rydym yn cynnwys ailgylchu ym mhreif ffrwd y modd y mae ein heconomi yn gweithio yn gwbl hanfodol. Rydym yn siarad am economi gylchol yn syml o ran rhai o'n prif gynhyrchwyr ond mae angen i ni siarad hefyd am economi gylchol o ran ailgylchu cynnyrch domestig a diwydiannol i'w haildefnyddio o fewn ein cymunedau. Mae nifer o enghreifftiau gwahanol, megis Greenstream Flooring, i'w gweld ledled Cymru. Yn sicr, yr hyn rydym am ei wneud o ran datblygu'r maes yw cefnogi pob un o'r sefydliadau ailgylchu cymunedol hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:59

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I welcome the news that household recycling rates in Wales have reached 54% for the 12 months ending in December 2013. This represents an increase of 2% over the same period in the previous year—well done. What action does the Welsh Government intend to take to further engage and encourage Welsh communities to improve these rates even further in future?

Weinidog, rwy'n croesawu'r newyddion fod cyfraddau ailgylchu gwastraff y cartref yng Nghymru wedi cyrraedd 54% ar gyfer y 12 mis a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2013. Mae'n gynnydd o 2% dros yr un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol—da iawn. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cymryd i ymgysylltu â chymunedau Cymru a'u hannog i wella'r cyfraddau ymhellach yn y dyfodol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:59

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful to the Member for congratulating the Government on the work that has been undertaken, both by this Government and by local authorities across Wales. I accept his kind words and we look forward to taking these strategies forward.

Diolch i'r Aelod am longyfarch y Llywodraeth ar y gwaith a gyflawnwyd gan y Llywodraeth hon ac awdurdodau lleol ledled Cymru. Rwy'n derbyn ei eiriau caredig ac edrychwn ymlaen at ddatblygu'r strategaethau hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:59

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A ydych yn ymwybodol, Weinidog, o fwriad Cyngor Sir Powys i gau y ganolfan ailgylchu ym Machynlleth, sy'n golygu nad oes un ganolfan ailgylchu yn agosach na'r Drenewydd a'r Trallwng, sydd 30 milltir i ffwrdd? Gan fod Machynlleth yn ganolbwynt i Biosffer Dyfi, sef dynodiad rhyngwladol o ardechogrydd amgylcheddol, oni fyddai'n briodol bod y cyngor sir yn gweithio gyda'r gymuned leol i weld ym mha ffordd mae'r gymuned leol yn gallu cefnogi a pharhau gyda gwaith ailgylchu ym Machynlleth?

Are you aware, Minister, of the intention of Powys County Council to close the recycling centre in Machynlleth, which will mean that there is not a single recycling centre nearer than Newtown and Welshpool, which is 30 miles away? As Machynlleth is the heart of the Dyfi Biosphere, an international designation of environmental excellence, is it not appropriate that the council should work with the local community to see how that community can support and continue with recycling work in Machynlleth?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:00

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Byddwn yn gobeithio bod awdurdodau lleol ar draws y wlad—nid yw hyn am Bowys yn unig—yn cydweithio yn y ffordd yr ydych wedi ei ddisgrifio gyda'r cymunedau lleol i sicrhau bod ailgylchu yn rhywbeth sy'n gallu digwydd yn gwbl naturiol yn y gymuned, lle bynnag y mae. Mae dau aelod o Gyngor Sir Powys yn y Siambr hon, ac rwy'n credu bod y ddau wedi clywed beth rydych wedi ei ddweud.

I would hope that local authorities across the country—this is not just about Powys—collaborate in the way that you have described with the local communities to ensure that recycling is something that can happen quite naturally in the community, wherever it is. There are two members of Powys County Council in the Chamber, and I think that they have both heard what you have said.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:01 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, as it is Volunteers' Week, I am sure that you will join me in recognising the work of Student Volunteering Cardiff, in particular its environmental charity champions who work in partnership with Cardiff Digs and Keep Cardiff Tidy to lead a range of recycling and waste management projects in their local community. What is the Welsh Government doing to promote and share best practice examples such as this with other student communities in Wales, where there have historically been a number of issues with waste management?

Weinidog, gan ei bod yn Wythnos y Gwirfoddolwyr, rwy'n siŵr y gwnewch ymuno â mi i gydnabod gwaith Gwirfoddoli Myfyrwyr Caerdydd, yn enwedig ei hyrwyddwyr elusennau amgylcheddol sy'n gweithio mewn partneriaeth â Llety Caerdydd a Cadwch Gaerdydd yn Daclus wrth arwain amrywiaeth o brosiectau ailgylchu a rheoli gwastraff yn eu cymuned leol. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo a rhannu enghreifftiau o arfer gorau o'r fath gyda chymunedau o fyfyrwyr eraill yng Nghymru, lle cafwyd llawer o broblemau gyda rheoli gwastraff yn hanesyddol?

14:01 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I am not aware of any programmes that are specifically targeted at the student population; if there are, I will write to you to correct myself. I know that this is something that the Member for Cardiff Central, Jenny Rathbone, has raised with me on a number of occasions, and it is something that she has taken forward over the last few years.

Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw raglenni sydd wedi'u targedu'n benodol at fyfyrwyr; os oes, ysgrifennaf atoch i gywiro fy hun. Gwn fod hyn yn rhywbeth y mae'r Aelod dros Ganol Caerdydd, Jenny Rathbone, wedi'i godi gyda mi ar nifer o achlysuron ac mae'n rhywbeth y mae hi wedi'i ddatblygu dros y blynyddoedd diwethaf.

Nwy Anghonfensiynol

Unconventional Gas

14:01 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar archwilio ac echdynnu nwy anghonfensiynol? OAQ(4)0166(NRF)

9. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's policy on the exploration and extraction of unconventional gas? OAQ(4)0166(NRF)

14:02 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

'Energy Wales' recognises the role of gas in supporting our move to a low-carbon energy system. Given the challenges of energy security, we understand the need to evaluate the potential unconventional gas resource in Wales, but full consideration of all the available evidence relating to its development is required.

Mae 'Ynni Cymru' yn cydnabod rôl nwy yn cefnogi ein newid i system ynni carbon isel. O ystyried yr heriau o ran diogelu ffynonellau ynni, rydym yn deall yr angen i werthuso adnoddau posibl nwy anghonfensiynol yng Nghymru ond mae angen ystyriaeth lawn o'r holl dystiolaeth sydd ar gael mewn perthynas â'i ddatblygu.

14:02 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that answer, Minister, particularly the last point of that answer when you talked about 'full consideration'. I am sure that many other Members have constituencies where applications are being made for test drilling, with the possibility of gaining licences for fracking. Therefore, could you tell me whether you or other Cabinet members have had discussions with officials from the Office of Unconventional Gas and Oil in the Department of Energy and Climate Change, which has this responsibility, in relation to fracking in Wales, particularly in the south Wales coalfield area, with a particular emphasis on the detailed analysis of the impacts of fracking? Will you consider placing a moratorium, as in other European countries, on fracking applications until the Welsh Government has accepted and agreed such an analysis and evaluation?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog, yn enwedig y pwynt olaf pan sonioch am 'ystyriaeth lawn'. Rwy'n siŵr bod ceisiadau'n cael eu cyflwyno ar gyfer cynnal prawf drilio gyda'r posibilrwydd o gael trwyddedau ar gyfer ffracio yn etholaethau llawer o Aelodau eraill. Felly, a allech ddweud wrthyf a ydych chi neu aelodau eraill y Cabinet wedi cael trafodaethau gyda swyddogion o Swyddfa Nwy ac Olew Anghonfensiynol yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd sydd â chyfrifoldeb dros ffracio yng Nghymru, yn enwedig yn ardal maes glo de Cymru, gyda phwyslais arbennig ar y dadansoddiad manwl o effeithiau ffracio? A wnewch chi ystyried gosod moratoriwm, fel mewn gwledydd eraill yn Ewrop, ar geisiadau ffracio hyd nes y bydd Llywodraeth Cymru wedi derbyn ac wedi cytuno ar ddadansoddiad a gwerthusiad o'r fath?

14:03

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

To answer your question directly, officials from Welsh Government are having conversations of the sort that you described with DECC about these matters. However, may I say this? What we need in Wales is an understanding of the process involved to ensure that any future exploitation of unconventional gas happens in a controlled way, where environmental and safety matters are taken seriously. That means that we need the implementation of the Silk recommendations to provide that level of certainty and of knowledge of the systems and processes in place. This Government will continue to ensure that environmental issues and wider safety matters are at the heart of our cautionary approach to these matters.

I ateb eich cwestiwn yn uniongyrchol, mae swyddogion o Lywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau o'r math a ddisgrifiwyd gennych gyda'r adran ynni a newid hinsawdd ar y materion hyn. Fodd bynnag, a gaf i ddweud hyn? Yr hyn rydym ei angen yng Nghymru yw dealltwriaeth o'r broses dan sylw i sicrhau bod unrhyw ddatblygiad nwy anghonfensiynol yn y dyfodol yn digwydd mewn ffordd reoledig, lle rhoddir ystyriaeth ddifrifol i faterion amgylcheddol a diogelwch. Mae hynny'n golygu bod angen gweithredu argymhellion Silk er mwyn cynnig y lefel honno o sicrwydd a gwybodaeth am y systemau a'r prosesau sydd ar waith. Bydd y Llywodraeth yn parhau i sicrhau bod materion amgylcheddol a materion diogelwch ehangach wrth wraidd ein dull rhagofalus o fynd i'r afael â'r materion hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:03

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition

In the south Wales area, in particular the Vale of Glamorgan, the licences were granted and permitted back in 2008 to the company that is seeking to exploit that licence. Natural Resources Wales has a big input into the planning process regarding environmental matters. In some countries, there is a consideration in place, when the planning application is put before councils, to have buffer zones. Have you commissioned any work from Natural Resources Wales to inform your decision-making process around the use of buffer zones, such as in America and Australia, I believe, because I have had it put to me by constituents that this would be a welcome addition to the consideration when the applications are before the planning authorities?

Yn ardal de Cymru, yn enwedig Bro Morgannwg, rhoddwyd trwyddedau a chaniatâd yn ôl yn 2008 i'r cwmni sy'n ceisio ymelwa ar y drwydded honno. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru fewnbwn mawr yn y broses gynllunio mewn perthynas â materion amgylcheddol. Mewn rhai gwledydd, mae creu clustogfeydd yn ystyriaeth wrth gyflwyno cais cynllunio gerbron cynghorau. A ydych wedi comisiynu unrhyw waith gan Cyfoeth Naturiol Cymru i lywio eich prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau ynglŷn â defnyddio clustogfeydd, fel y gwneir yn America ac Awstralia, rwy'n credu, oherwydd dywedodd etholwyr wrthyf y byddai hyn yn ychwanegiad i'w groesawu wrth i geisiadau gael eu cyflwyno gerbron yr awdurdodau cynllunio?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:04

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Clearly, as you indicated in your closing words, those are planning issues and the Minister for planning is in his place and will have heard your question.

Yn amlwg, fel y dywedasoch wrth gloi, materion cynllunio yw'r rhain. Mae'r Gweinidog cynllunio yn ei sedd a bydd wedi clywed eich cwestiwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:04

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, mae cwmnïau fel hyn yn mynd i barhau i arbrofi mewn ardaloedd fel Cwm Afan ac yn ardaloedd de Cymru hyd nes bod arweiniad clir gan Lywodraeth Cymru ar yr hyn y mae'n dymuno gweld yn digwydd o gwmpas yr agenda ffracio a nwy anghonfensiynol yng Nghymru. Felly, a ydych chi'n gallu gwneud darn o ymchwil, yn enwedig yn ardaloedd de Cymru lle mae yna ardaloedd mwyngloddio glo sy'n dal yn eithaf bregus? Nid ydym yn gwybod ar hyn o bryd os ydynt yn gallu gwneud y gwaith yma. A fedrwrch chi, Weinidog, gymryd arweiniad yn hynny o beth? Mae cynghorau yn mynd i barhau i arbrofi hyd nes bod arweiniad gennych chi.

Minister, such companies will continue to test in areas such as the Afan Valley and in south Wales areas until there is clear guidance from the Welsh Government on what it wants to see happening around the fracking agenda, and unconventional gas in Wales. So, can you carry out a piece of research, particularly in the south Wales area where there are some mining areas that are still relatively vulnerable? We do not know at present whether they can carry out this work. Minister, can you take a lead in that regard? Councils will continue to test until they get that leadership from you.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:05

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae pobl yn mynd i arbrofi os ydynt yn meddwl bod yna botensial i ecsbloetio unrhyw adnoddau sydd ar gael, ac mae ganddynt perffaieth hawl i wneud hynny. Yr hyn rydym ni wedi'i wneud yw dangos y math o arweinyddiaeth rydych chi wedi bod yn sôn amdano. Nid ydym wedi dilyn y llwybr y mae DEFRA a DECC wedi'i gymryd, sef sicrhau bod 'exploitation' yn digwydd beth bynnag fo goblygiadau amgylcheddol neu ddiogelwch. Rydym ni yn y fan hon yn ystyried potential unrhyw adnoddau nwy sydd gennym yng Nghymru ac, ar yr un pryd, yn sicrhau bod gennym y math o bolisiau mewn lle fydd yn creu fframwaith a fydd yn sicrhau y materion amgylcheddol a diogelwch rydych wedi gofyn amdanynt.

People are going to test if they think that there is any potential of exploiting any resources available, and they have every right to do that. What we have done is to demonstrate the kind of leadership that you have been talking about. We have not followed the path that DEFRA and DECC have taken, which is to ensure that exploitation will happen whatever the environmental or safety implications. We are considering the potential of any gas resources that we have in Wales and, at the same time, are ensuring that we have the kind of policies in place that will create a framework to ensure the environmental and safety matters that you have asked for.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:06

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, thank you for your answers so far. Do you share the concerns that I and many of my constituents have over the fact that there appears to be a dash to simplify and speed up the licensing process and the granting of exploration licences? Do you agree that any action that undermines appropriate health and safety considerations and that, as appears to be the case, starts putting profit before people's health, should be resisted?

Weinidog, diolch i chi am eich atebion hyd yn hyn. A ydych yn rhannu'r pryderon sydd gennyf i a llawer o fy etholwyr ynglŷn â'r ffaith ei bod yn ymddangos fod rhuthr i symleiddio a chyflymu'r broses drwyddedu a rhoi trwyddedau chwilio? A ydych yn cytuno y dylid gwrthwynebu unrhyw gamau sy'n tanseilio ystyriaethau iechyd a diogelwch priodol ac sy'n dechrau rhoi elw cyn iechyd pobl, fel sydd i'w weld yn digwydd?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:06

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Absolutely. It concerns me that the Westminster Government seeks to embark on this headlong rush in terms of the exploitation of unconventional gas in the way that it is currently being led. As I have said in previous answers, we take a cautionary approach to ensure that we understand what reserves are potentially available to us. The gas itself is a form of methane, so we do not have issues with the product in terms of it being a bridging fuel from some of the fossil fuels that we have used through to a low-carbon, renewable-based energy economy. We do not have an issue with the gas; we are talking about the process of exploitation. In understanding the process of exploitation, we need to understand the implications of doing so and the methodologies and chemicals involved. We are following that precautionary approach, which, I think, will ensure that we have the confidence of the people of Wales in what we do and what we decide in the future.

Yn hollol. Mae'n peri pryder i mi fod Llywodraeth San Steffan yn rhuthro'n fyrbwyll i ddatblygu nwy anghonfensiynol yn y ffordd y mae'n mynd ati ar hyn o bryd. Fel y dywedais mewn atebion blaenorol, rydym yn mabwysiadu dull rhagofalus er mwyn sicrhau ein bod yn deall pa gronfeydd a allai fod ar gael i ni. Math o fethan yw'r nwy ei hun, felly nid oes gennym broblemau o ran y cynnyrch yn yr ystyr ei fod yn danwydd sy'n pontio rhwng rhai o'r tanwyddau ffosil rydym wedi'u defnyddio ag economi ynni carbon isel adnewyddadwy. Nid oes gennym broblem gyda'r nwy; sôn yr ydym am y broses o'i ddatblygu. Wrth ddeall y broses o'i ddatblygu, mae angen i ni ddeall y goblygiadau o wneud hynny a'r methodolegau a'r cemegau sydd ynghlwm wrth hynny. Rydym yn gweithredu mewn dull rhagofalus a fydd, rwy'n credu, yn sicrhau bod gan bobl Cymru hyder yn yr hyn a wnawn a'r hyn a benderfynwn yn y dyfodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Sector Bwyd

The Food Sector

14:08

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weithgarwch Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r sector bwyd?
OAQ(4)0162(NRF)

10. Will the Minister make a statement on Welsh Government activity to promote the food sector?
OAQ(4)0162(NRF)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:08

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will be publishing the action plan for food on 12 June, which will include my plans to promote Welsh food and drink. Further development of the new Food and Drink Wales identity will be essential to supporting the industry.

Byddaf yn cyhoeddi'r cynllun gweithredu ar gyfer bwyd ar 12 Mehefin a bydd yn cynnwys fy nghynlluniau i hyrwyddo bwyd a diod o Gymru. Bydd gwaith pellach ar ddatblygu hunaniaeth newydd i fwyd a diod o Gymru yn hanfodol er mwyn cefnogi'r diwydiant.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:08

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. One of the areas that has a great profile is the red meat sector in Wales, whether it be lamb or beef. The pork sector is far smaller. However, there has been a huge contraction in the processing sector in the last couple of years. In north Wales, for example, there is not a large red meat abattoir any more, despite there being a huge amount of stock in that area. Has the Minister, via the rural development plan and in discussion with colleagues across Government, any ambition to increase the capacity for processing, so that the added value element can be achieved here in Wales, rather than a lot of the beef and sheep moving across the border, with the loss of levy income, as well as the loss of value to other parts of the United Kingdom?

Diolch i chi, Weinidog. Un o'r meysydd sydd â phroffil gwych yw'r sector cig coch yng Nghymru, boed yn gig oen neu'n gig eidion. Mae'r sector porc yn llawer llai o faint. Fodd bynnag, mae'r sector prosesu wedi crebachu'n helaeth dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Yng ngogledd Cymru, er enghraifft, ni cheir lladd-dy cig coch mawr bellach er bod llawer iawn o stoc yn yr ardal honno. A oes gan y Gweinidog, drwy'r cynllun datblygu gwledig ac mewn trafodaethau â chydweithwyr ar draws y Llywodraeth, unrhyw uchelgais i gynyddu'r capasiti ar gyfer prosesu fel bod modd cyflawni'r elfen gwerth ychwanegol yma yng Nghymru yn hytrach na bod llawer o'r eidion a'r defaid yn symud dros y ffin, gan golli incwm lefi, yn ogystal â cholli gwerth i rannau eraill o'r Deyrnas Unedig?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:09

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Absolutely. I should also say that I am very grateful to the leader of the opposition for his steadfast support of the Government in the way that we have sought to support the red meat sector in terms of developing exports and developing the sector as a whole. I know that we have our differences from time to time, but certainly your support for the work of promoting Wales is something that we are grateful for. In terms of how the red meat sector develops in the future, we need to ensure that we have the capacity to do exactly as the leader of the opposition says, that is, to add value in Wales, to ensure that levy income remains in Wales, and to continue to promote red meat both at home and abroad in the future. The sector must make the investment decisions based on what is viable within the marketplace. That means that we will need to ensure that we have an efficient production sector that is able to provide high-quality, consistent supplies to processors to enable them to actually make the investments that are required in future. The whole purpose of the investments that we are seeking to make in the rural development plan—I know that we have had our differences about it in the past—is to ensure that we are able to do that, and that is a fundamental foundation stone upon which the industry that he describes can and will be built.

Yn bendant. Dylwn ddweud hefyd fy mod yn ddiolchgar iawn i arweinydd yr wrthblaid am ei gefnogaeth gadarn i'r Llywodraeth yn y ffordd rydym wedi ceisio cefnogi'r sector cig coch o ran datblygu allforion a datblygu'r sector yn ei gyfanrwydd. Gwn ein bod wedi anghytuno o bryd i'w gilydd, ond yn sicr, mae eich cefnogaeth i'r gwaith o hyrwyddo Cymru yn rhywbeth rydym yn ddiolchgar amdano. O ran sut y mae'r sector cig coch yn datblygu yn y dyfodol, mae angen i ni sicrhau bod gennym y gallu i wneud yn union fel y mae arweinydd yr wrthblaid yn ei ddweud, sef ychwanegu gwerth yng Nghymru er mwyn sicrhau bod incwm y lefi'n parhau yng Nghymru, a pharhau i hyrwyddo cig coch yn y wlad hon a thramor yn y dyfodol. Rhaid i'r sector wneud penderfyniadau buddsoddi yn seiliedig ar yr hyn sy'n ymarferol o fewn y farchnad. Mae hynny'n golygu y bydd angen i ni sicrhau bod gennym sector cynhyrchu effeithlon sy'n gallu darparu cyflenwadau cyson o ansawdd uchel i broseswyr i'w galluogi i fynd ati i wneud y buddsoddiadau y bydd eu hangen yn y dyfodol. Holl bwrpas y buddsoddiadau y ceisiwn eu gwneud yn y cynllun datblygu gwledig—gwn ein bod wedi anghytuno ynghylch hyn yn y gorffennol—yw sicrhau ein bod yn gallu gwneud hynny a'i bod yn garreg sylfaen hanfodol ar gyfer adeiladu'r diwydiant y mae'n ei ddisgrifio.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cyfraddau Ailgylchu

Recycling Rates

14:10

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

11. A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i gynyddu cyfraddau ailgylchu? OAQ(4)0165(NRF)

11. Will the Minister outline Welsh Government plans to increase recycling rates? OAQ(4)0165(NRF)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:10

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Welsh Government has set statutory targets intended to ensure that Welsh local authorities recycle 70% of municipal waste by 2025. Some £66 million of revenue support is being provided to local authorities this year. The collaborative change programme is providing support to local authorities, including an additional £4 million of capital grants this year.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau statudol gyda'r bwriad o sicrhau bod awdurdodau lleol Cymru yn ailgylchu 70% o wastraff trefol erbyn 2025. Mae tua £66 miliwn o gymorth refeniw yn cael ei ddarparu i awdurdodau lleol eleni. Mae'r rhaglen newid gydweithredol yn cynorthwyo awdurdodau lleol, gan gynnwys swm ychwanegol o £4 miliwn o grantiau cyfalaf eleni.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:10

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, thank you for that answer. Figures released last month showed that recycling rates in Wales have increased, but the Wales Rural Observatory's rural services survey showed that only 51% of communities in rural areas surveyed reported having a regular door-to-door recycling collection. That is a drop from 61% in 2007 and 70% in 2010. It is apparent that it is far easier for residents in urban areas to recycle. What steps are you taking to ensure that, wherever you live in Wales, whether it is an urban area or a rural area, you have an opportunity to recycle? I must say that Conwy has just introduced recycling in my area, which is a rural area, which is excellent. However, there are clearly other areas where that facility is not available.

Weinidog, diolch i chi am eich ateb. Dangosodd ffigurau a ryddhawyd y mis diwethaf fod cyfraddau ailgylchu yng Nghymru wedi cynyddu ond dangosodd arolwg Arsyllfa Wledig Cymru o wasanaethau gwledig mai dim ond 51% o'r cymunedau mewn ardaloedd gwledig a arolygwyd a ddywedodd fod gwastraff ailgylchu yn cael ei gasglu'n rheolaidd o ddrws i ddrws. Mae hynny'n ostyngiad o 61% yn 2007 a 70% yn 2010. Mae'n amlwg fod ailgylchu'n llawer haws i drigolion mewn ardaloedd trefol. Pa gamau rydych yn eu rhoi ar waith i sicrhau bod pobl yn cael cyfle i ailgylchu lle bynnag y maent yn byw yng Nghymru, boed mewn ardal drefol neu ardal wledig? Rhaid i mi ddweud bod Conwy newydd gyflwyno ailgylchu yn fy ardal i, sy'n ardal wledig, ac mae hynny'n newyddion ardderchog. Fodd bynnag, mae'n amlwg nad yw'r cyfleuster ar gael mewn rhai ardaloedd eraill.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:11

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There are differences between different local authority areas, clearly, and we would expect that. However, I would reject the assertion that it is more difficult to recycle in a rural area than it is in an urban area. I do not accept that. What we have to ensure is that all local authorities put in place the mechanisms and processes to enable people to recycle their household waste, and I would support, and we have supported and continue to support, local authorities in doing so. What we try to avoid doing is telling local authorities how they have to do that. Clearly, for the reasons that the Member has given, different local authorities will take different decisions.

Mae'n amlwg fod gwahaniaethau rhwng ardaloedd awdurdodau lleol, a byddem yn disgwyl hynny. Fodd bynnag, byddwn yn gwrthod yr honiad ei bod yn anos ailgylchu mewn ardal wledig nag mewn ardal drefol. Nid wyf yn derbyn hynny. Yr hyn y mae'n rhaid i ni ei sicrhau yw bod pob awdurdod lleol yn sefydlu systemau a phrosesau er mwyn galluogi pobl i ailgylchu eu gwastraff cartref. Rydym wedi cynorthwyo awdurdodau lleol i wneud hynny, rydym yn gwneud hynny'n awr ac yn bwriadu parhau i wneud hynny. Yr hyn rydym yn ceisio osgoi ei wneud yw dweud wrth awdurdodau lleol sut y dylent wneud hynny. Yn amlwg, am y rhesymau y mae'r Aelod wedi'u rhoi, bydd gwahanol awdurdodau lleol yn gwneud penderfyniadau gwahanol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:12

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weindog, rydych yn ymwybodol, rwy'n siŵr bod cyngorau megis Gwynedd, a Thorfaen erbyn hyn, yn sôn am newid sut mor aml mae gwastraff cyffredin yn cael ei gasglu oherwydd eu bod yn dweud nad yw'n bosibl iddynt gyrraedd targed Llywodraeth Cymru. Rwy'n derbyn bod arian yn mynd i mewn—swm digon sylweddol, a dweud a gwir—i'r cynllun, ond onid oes rhaid i ni erbyn hyn edrych ar adolygu cynllun gwastraff strategol y Llywodraeth er mwyn sicrhau bod marchnadoedd yn cael eu creu ar gyfer rhai defnyddiau nad ydynt yn cael eu casglu mewn un sir, ond sydd yn cael eu casglu mewn siroedd eraill?

Minister, I am sure that you are aware that councils such as Gwynedd, and Torfaen by now, are talking about changing how often they collect ordinary refuse because they say that it is not possible for them to attain the Welsh Government target. I accept that funding is going into the scheme, and it is quite respectable funding as well, but is it not high time that we review the Government's strategic waste plan in order to ensure that markets are created for some materials that are not collected in one county, but are collected in other counties?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:13

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Wel, mae hynny wedi bod yn digwydd ac yn digwydd ar hyn o bryd ym mhob rhan o Gymru mewn ffyrdd gwahanol gyda 'recyclates' gwahanol. Felly, mae hynny wedi bod yn digwydd ers rhai blynnyddoedd. Rwy'n gwybod, fel cyn-arweinydd cyngor, ni fyddai'r Aelod eisiau i Lywodraeth Cymru mynnu bod llywodraeth leol yn gweithredu yn yr un ffordd ar draws y wlad. Rwy'n credu y byddem yn cytuno bod angen sicrhau bod lle i gyngorau wneud y penderfyniadau sydd yn addas ar gyfer eu hardaloedd eu hunain.

Well, that has been happening and is happening at present in all parts of Wales in different ways for different recyclates. So, that has been happening for some years. I know that, as a former council leader, the Member would not want the Welsh Government to insist that local authorities act in a one-size-fits-all manner across the country. I think that we would agree that we need to ensure that there is scope for local councils to make the decisions that are appropriate to their own areas.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Ffermwyr

Farmers

14:13	<p>Paul Davies Bywgraffiad Biography</p> <p><i>12. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynorthwyo ffermwyr yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0156(NRF)</i></p>	<p><i>12. Will the Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to support farmers in west Wales? OAQ(4)0156(NRF)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:13	<p>Alun Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi ffermwyr a chymunedau gwledig ledled Cymru mewn modd cynaliadwy.</p>	<p>The Welsh Government is committed to sustainably supporting farmers and rural communities across Wales.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:14	<p>Paul Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. Fel y byddech yn ymwybodol, mae llawer o bryder ymysg ffermwyr ynghylch y system tablau arfaethedig ar gyfer taliadau iawndal TB yn ddiweddar. Rwy'n deall eich bod wedi cwrdd ag undebau ffermwyr, sydd wedi cyflwyno eu cynigion eu hunain mewn perthynas â hyn. A wnech, felly, ymrwymo i edrych ar y cynigion a gyflwynwyd gan yr undebau, a allwch ddweud wrthym ba waith yr ydych eisoes wedi ei wneud yn y maes hwn ers i'r ymgynghoriad gau mis diwethaf?</p>	<p>I am grateful to the Minister for that reply. As you will be aware, there is a great deal of concern among farmers as regards the proposed tables for TB compensation payments. I understand that you have met with the farmers' unions, which have presented their own proposals in relation to this. Will you therefore make a commitment to review the proposals submitted by the unions, and can you tell us what you have already done in this field since the consultation closed last month?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:14	<p>Alun Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Fel y mae'r Aelod wedi ei awgrymu, rwyf wedi bod yn ystyried yr ymgynghoriad a'r atebion a gawsom, ac rwyf wedi bod yn eu trafod gyda rhai pobl. Rwy'n gallu dweud y byddaf yn gwneud datganiad ar y ffordd ymlaen yn ystod yr wythnosau nesaf.</p>	<p>As the Member has suggested, I have been considering the consultation responses received, and I have been discussing these. I can say that I will be making a statement on the way forward over the next few weeks.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Amaethwyr Rhostir		Moorland Farmers	
14:15	<p>Elin Jones Bywgraffiad Biography</p> <p><i>13. Pa fesurau y mae'r Gweinidog yn eu hystyried o fewn y Cynllun Datblygu Gwledig i gynorthwyo amaethwyr rhostir? OAQ(4)0157(NRF)</i></p>	<p><i>13. What measures is the Minister considering within the Rural Development Plan to support moorland farmers? OAQ(4)0157(NRF)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:15	<p>Alun Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Rwyf wedi bod yn ystyried sut rydym yn cefnogi ardaloedd yn y rhostir ac fe fyddaf yn gwneud datganiad ar hynny wrth inni drafod y rhaglen datblygu gwledig nesaf.</p>	<p>I have been considering how we can support the moorland areas and I will make a statement on that as we discuss the next rural development programme.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:15	<p>Elin Jones Bywgraffiad Biography</p> <p>O ran y trafodaethau rydych chi wedi eu cael gyda ffermwyr y rhostir, maent yn dweud wrthyf eu bod wedi'u calonogi gan y ffaith eich bod wedi deall eu pryderon ynglŷn ag impact y newidiadau i'r taliad sengl ar eu busnesau fferm. Fel yr ydych wedi sôn, gan eich bod ar fin gwneud penderfyniad ar yr RDP, a ydych chi'n gallu cadarnhau i ni ac i ffermwyr y rhostir y prynhawn yma, eich bod yn parhau i fod o'r farn bod angen cynllun a fydd yn rhoi cefnogaeth i ffermwyr y rhostir a chynllun penodol o fewn yr RDP?</p>	<p>In terms of the discussions that you have had with moorland farmers, they tell me that they are encouraged by the fact that you have understood their concerns about the impact of the changes to the single payment on their farm businesses. As you have mentioned, because you are about to make a decision on the RDP, can you confirm to us and to the moorland farmers this afternoon that you are still of the view that there is a need for a scheme that will give support to moorland farmers and a specific plan within the RDP?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:15 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwyf wedi bod yn trafod yn fanwl iawn gyda ffermwyr yn y rhostir sydd wedi gweld impact y penderfyniadau, ac rwyf wedi bod yn dadansoddi'r wybodaeth rwyf wedi'i chael. Rwyf wedi dadansoddi'r wybodaeth ar y rhostir yn ei gyfanrwydd ac ar rai ffermydd a fydd yn cael yr impact fwyaf. Dywedais yn y Siambwr y mis diwethaf y bydd 93 o ffermydd a fydd yn dioddef oherwydd y penderfyniadau hyn. Erbyn hyn, rydym yn meddwl bod y ffigur yn lot llai na hynny—llai na 50—ac felly rydym yn ystyried sut y byddwn yn cynnig cymorth i rai ffermydd a fydd ei angen. Fodd bynnag, pan fyddwn yn gwneud hynny, byddwn yn edrych ar y math o daliadau cyhoeddus y mae'r fferm yn eu derbyn—piler 1 a philer 2. Pan rydych chi'n ychwanegu'r ddau at ei gilydd, mae'r llun yn newid rhywfaint.

I have been discussing in great detail with the moorland farmers who have seen the impact of the decisions, and I have been analysing the information that I have received. I have analysed the information on the moorland in its entirety and on some farms that will have the greatest impact. I told the Chamber last month that 93 farms will suffer because of these decisions. By now, we think that the figure is a lot less than that—below 50—and we are therefore considering how we can provide support to farms that will need it. However, when we do that, we will be looking at the kind of public payments that the farm receives—pillar 1 and pillar 2. When you add both together, the picture does alter somewhat.

Diwydiant Coed Meddal

14:16 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ragolygon y diwydiant coed meddal yng Nghymru? OAQ(4)0153(NRF)

14. Will the Minister make a statement on the forecast for the softwood industry in Wales? OAQ(4)0153(NRF)

14:16 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Bydd y rhagolwg cynhyrchu ar gyfer y 50 mlynedd nesaf, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yn helpu i ddangos i ba raddau y dylai'r sector prosesu coed fuddsoddi a chynllunio ei weithgareddau yn y dyfodol. Dylai'r wybodaeth annog buddsoddiad yn y defnydd o bren domestig, a fydd, yn ei dro, yn cefnogi twf economaidd a rheoli coetiroedd.

The recently published 50-year production forecast will help to inform the level to which the wood processing sector should invest and direct its activities in the future. The information should encourage investment in domestic timber utilisation, which, in turn, will support economic growth and woodland management.

14:17 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

A ydych chi'n hyderus y bydd digon o goed meddal i ddiwallu angen y farchnad i'r dyfodol, o gofio bod y rhan fwyaf o'r coed hwnnw'n dod o goedlannau sydd ym meddiant y Llywodraeth?

Are you confident that there will be sufficient softwood to meet market needs for the future, bearing in mind that the majority of that wood comes from woodlands in the possession of the Government?

14:17 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Ydw. Mae'r rhagolwg rydym wedi ei gael yn awgrymu y bydd yr 'harvest' blyneddol yn codi yn ystod yr 20 mlynedd nesaf ac wedyn yn dirywio rhywfaint ar ôl hynny. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymateb i hynny ac rwy'n mawr obeithio ac yn disgwyl y byddwn yn gallu sicrhau y bydd y diwydiant pren yn un a fydd yn cryfhau yn y dyfodol.

Yes. The forecast that we have received suggests that the annual harvest will increase over the next 20 years and then start to decline following that. Natural Resources Wales is responding to that and I very much hope and expect that we will be able to ensure that the timber industry is one that will grow more robust in the future.

Amddiffynfeydd Arfordirol

14:18 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwaith atgyweirio i amddiffynfeydd arfordirol yn dilyn stormydd gaeaf 2014? OAQ(4)0159(NRF)

15. Will the Minister make a statement on the coastal defence repairs following the winter 2014 storms? OAQ(4)0159(NRF)

Coastal Defence

14:18	Alun Davies Bywgraffiad Biography Following the winter storms, I have provided local authorities and Natural Resources Wales with £7.2 million of funding to make emergency repairs to damaged defences. Local authorities are continuing the work to complete these repairs and rebuild the resilience of communities across Wales.	Yn dilyn y stormydd y gaeaf, rwyf wedi rhoi £7.2 miliwn o gyllid i awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer gwneud gwaith atgyweirio brys i amddiffynfeydd a ddifrodwyd. Mae awdurdodau lleol yn parhau â'r gwaith o gwblhau'r atgyweiriadau hyn ac ailadeiladu gallu cymunedau i wrthsefyll llifogydd ledled Cymru.	Senedd.tv Fideo Video
14:18	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography Tourism, as you well know, plays a vital role in ensuring that our coastal communities have a thriving economy. In your statement to the Chamber on 6 May, you highlighted the need to ensure that investment in protecting our coast is also used to drive economic regeneration and growth. However, it appears that this message is not always getting across. You are very familiar, no doubt, that in Llandudno, Conwy County Borough Council has chosen to dump 50,000 tonnes of rocks onto Llandudno's very widely acclaimed north shore beach and there is now a potential negative impact—	Mae twristiaeth, fel y gwyddoch yn dda, yn chwarae rhan hanfodol yn sicrhau economi ffyniannus ar gyfer ein cymunedau arfordirol. Yn eich datganiad i'r Siambr ar 6 Mai, tynnwyd sylw at yr angen i sicrhau bod buddsoddi yn y gwaith o ddiogelu ein harfordir yn cael ei ddefnyddio hefyd i ysgogi adfywiad economaidd a thwŵ. Fodd bynnag, ymddengys nad yw'r neges hon yn bob amser yn cael ei chlywed. Rydych yn gyfarwydd iawn, yn ddiau, fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn Llandudno wedi dewis gwaredu 50,000 o dunelli o greigiau ar draeth gogleddol poblogaidd iawn Llandudno ac mae effeithiau negyddol posibl bellach —	Senedd.tv Fideo Video
14:19	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography Will you come to the question?	A wnewch chi ddod at y cwestiwn?	Senedd.tv Fideo Video
14:19	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography Okay. Will the Minister join me in agreeing that local authorities must have due regard to the importance of our vital tourist industry and economic growth when deciding to take it upon themselves to implement coastal sea defence works?	Iawn. A yw'r Gweinidog yn cytuno â mi fod yn rhaid i awdurdodau lleol roi sylw priodol i bwysigrwydd ein diwydiant twristiaeth allweddol a thwŵ economaidd wrth benderfynu cyflawni gwaith ar amddiffynfeydd arfordirol?	Senedd.tv Fideo Video
14:19	Alun Davies Bywgraffiad Biography Clearly, I will agree with the Member on that matter. It is important that local authorities act in a responsible manner. It is also important, of course, that Members act in a responsible manner. I have just received a letter from Conwy County Borough Council, as it happens. It says,	Yn amlwg, rwy'n cytuno gyda'r Aelod ynglŷn â'r mater. Mae'n bwysig fod awdurdodau lleol yn gweithredu mewn modd cyfrifol. Mae hefyd yn bwysig, wrth gwrs, fod yr Aelodau yn gweithredu mewn modd cyfrifol. Rwyf newydd gael llythyr gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, fel y mae'n digwydd. Mae'n dweud,	Senedd.tv Fideo Video
	'You may have read in the media, or been informed by our local Assembly Member, Janet Finch Saunders, that the works have been carried out without due process or, indeed, unlawfully. Such comments are ill informed and, I suspect, deliberately misleading.'	'Efallai eich bod wedi darllen yn y wasg, neu wedi cael gwybod gan ein Haelod Cynulliad lleol, Janet Finch Saunders, fod y gwaith wedi cael ei wneud heb ddilyn y prosesau priodol neu'n anghyfreithlon yn wir. Mae sylwadau o'r fath yn gyfeiliornus ac rwy'n tybio, yn fwiadol gamarweiniol.'	
	This is from Conwy County Borough Council. [Interruption.] The authority goes on to say this:	Daw hwn oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. [Torri ar draws.] Mae'r awdurdod yn mynd ymlaen i ddweud hyn:	
	'The purpose of this letter—[Interruption.]	'Diben y llythyr hwn—[Torri ar draws.]	
14:20	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography Order. Let us listen to the rest of the quote.	Trefn. Gadewch i ni wrando ar weddill y dyfyniad.	Senedd.tv Fideo Video
14:20	Alun Davies Bywgraffiad Biography The letter goes on to say,	Mae'r llythyr yn mynd yn ei flaen i ddweud,	Senedd.tv Fideo Video

'The purpose of this letter is to thank you for your support in continuing to provide protection to Llandudno from the increasing risks of coastal flooding and, to provide you with assurance that the allegations from our local Assembly Member of unlawful or imprudent spending of a Welsh Government grant are unfounded.'

'Diben y llythyr hwn yw diolch i chi am eich cymorth yn parhau i ddiogelu Llandudno rhag risgiau cynyddol o lifogydd arfordirol ac i roi sicrwydd i chi fod honiadau ein Haelod Cynulliad lleol ein bod yn gwario grant Llywodraeth Cymru mewn modd anghyfreithlon neu annoeth yn ddi-sail.'

14:20 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Minister.

Diolch yn fawr iawn, Weinidog.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio

Questions to the Minister for Housing and Regeneration

Tai Amlfeddiannaeth

Houses in Multiple Occupation

14:20 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

1. A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion am y gofynion diogelwch tân ar gyfer tai amlfeddiannaeth? OAQ(4)0396(HR)

1. Will the Minister provide details of the fire safety requirements for HMOs? OAQ(4)0396(HR)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:20 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Tai ac Adfywio / The Minister for Housing and Regeneration

I thank the Member for Pontypridd for his question. Managers of houses in multiple occupation are required to make sure that fire escapes are kept clear and maintained, and that equipment and fire alarms are in working order.

Diolch i'r Aelod dros Bontypridd am ei gwestiwn. Mae'n ofynnol i reolwyr tai amlfeddiannaeth wneud yn siŵr bod diangfeydd tân yn cael eu cadw'n glir a'u cynnal a bod offer a larymau tân yn gweithio'n iawn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:20 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, Minister. Currently, fire checks, as you know, are carried out every five years by the local authority and, in areas where there is a high density of HMOs, often student areas, there are often a lot of vulnerable individuals and a high turnover. Would you, at the next opportunity, Minister, consider reviewing requirements to increase the frequency of fire safety checks and also look at the potential for including the fire service in the actual granting of licences?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Fel y gwyddoch, at hyn o bryd cynhelir archwiliadau tân bob pum mlynedd gan yr awdurdod lleol ac mewn ardaloedd lle ceir dwysedd uchel o dai amlfeddiannaeth, ardaloedd myfyrwyr yn aml, ceir llawer o unigolion sy'n agored i niwed a throsiant uchel yn aml. Weinidog, a fydddech yn ystyried adolygu'r gofynion i gynyddu amllder archwiliadau diogelwch tân ar y cyfle nesaf a hefyd yn ystyried edrych ar y posibilrwydd o gynnwys y gwasanaeth tân wrth fynd ati i roi trwyddedau?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:21 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am very grateful to the Member for raising such an important point with me. I am always happy to consider reviewing existing arrangements and policies, with caution around making sure that these proposals could be properly implemented at the appropriate time. I will consider this, as the HMO review is currently under way, and see whether the landlord registration and licensing proposals in the Housing (Wales) Bill could also assist in this process.

Diolch yn fawr i'r Aelod am godi pwynt mor bwysig. Rwyf bob amser yn hapus i ystyried adolygu'r trefniadau a'r polisiau presennol, gan ofalu gwneud yn siŵr y gellid rhoi'r cynigion hyn ar waith yn briodol ar yr adeg iawn. Byddaf yn ystyried hyn, gan fod yr adolygiad tai amlfeddiannaeth ar y gweill ar hyn o bryd, ac yn gweld a allai'r cynigion ar gyfer cofrestru a thrwyddedu landlordiaid yn y Bil Tai (Cymru) gynorthwyo'r broses hon hefyd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:21 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Presiding Officer. Minister, on the face of the legislation, it does appear that environmental laws, planning laws and other regulations in relation to HMOs do not match up. For example, it is five for a family unit without the HMO route being taken in environmental laws, and six in planning laws. What work have you undertaken to ensure that the laws governing the safety requirements for HMOs dovetail?

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Weinidog, ar wyneb y ddeddfwriaeth, ymddengys nad yw deddfau amgylcheddol, deddfau cynllunio a rheoliadau eraill mewn perthynas â thai amlfeddiannaeth yn cyd-fynd â'i gilydd. Er enghraifft, mae'n bump ar gyfer uned deuluol heb ddilyn y llwybr tai amlfeddiannaeth mewn deddfau amgylcheddol ac yn chwech yn y deddfau cynllunio. Pa waith a wnaed gennych i sicrhau bod y deddfau sy'n rheoli gofynion diogelwch ar gyfer tai amlfeddiannaeth yn gyson â'i gilydd?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:22	Carl Sargeant Bywgraffiad Biography	I do not think that there is a mix-up or confusion around the laws. They are very clear. However, I think that the Member is right to raise the issue about clarity across the whole sector. This is something that we are looking at with the HMO review that is about to take place, and we will consider that during the process of that review.	Nid wyf yn credu bod cymhlethdod na dryswch ynglŷn â'r deddfau. Maent yn glir iawn. Fodd bynnag, rwy'n credu bod yr Aelod yn iawn i godi'r mater ynghylch eglurder ar draws y sector cyfan. Dyma rywbeth rydym yn ei ystyried mewn perthynas â'r adolygiad tai amlfeddiannaeth sydd ar fin digwydd a byddwn yn ystyried hyn yn ystod y cyfryw adolygiad.	Senedd.tv Fideo Video
14:22	Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography	Mae yna risg uwch o dân mewn tai amlfeddiannaeth ac mae yna reolau clir ynglŷn ag ysmegu yn yr ardaloedd cyffredin sy'n cael eu rhannu yn y tai hynny. A ydych chi'n teimlo bod y rheolau hynny yn cael eu gweithredu a'u gorfodi yn ddigon effeithiol?	There is a higher risk of fire in houses in multiple occupation and there are clear rules and regulations about smoking in the communal areas that are shared in those houses. Do you believe that those rules are implemented and enforced robustly enough?	Senedd.tv Fideo Video
14:23	Carl Sargeant Bywgraffiad Biography	I think that this relates back to the question that Mick Antoniw asked. We can have the laws and legislation in place, but it is about ensuring that they are properly adhered to. Under the legislation currently in place, local authorities use the housing health and safety rating system to assess fire safety needs, but it is about ensuring that it is properly managed by the local authorities in that whole process.	Rwy'n credu bod hyn yn cyfeirio'n ôl at y cwestiwn a ofynnodd Mick Antoniw. Gall y deddfau a'r ddeddfwriaeth fod ar waith ond mae a wnelo â sicrhau eu bod yn cael eu dilyn. O dan y ddeddfwriaeth sydd mewn grym ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol yn defnyddio'r system fesur iechyd a diogelwch tai er mwyn asesu anghenion diogelwch tân ond mae'n ymwneud â sicrhau bod y system yn cael ei rheoli'n briodol gan yr awdurdodau lleol drwy'r broses gyfan.	Senedd.tv Fideo Video
14:23	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	I call on the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.	Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.	Senedd.tv Fideo Video
14:23	Peter Black Bywgraffiad Biography	Thank you, Presiding Officer. Minister, you will know that most public sector rented accommodation has smoke detectors and some also have carbon monoxide detectors. Would you consider using the powers available to you in the new Housing (Wales) Bill to try to insist that HMOs and other privately rented properties also include smoke detectors as a requirement?	Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, byddwch yn gwybod bod y rhan fwyaf o adeiladau llety rhent y sector cyhoeddus yn cynnwys synwryddion mwg ac mae rhai hefyd yn cynnwys synwryddion carbon monocsid. A fydddech yn ystyried defnyddio'r pwerau sydd ar gael i chi yn y Bil Tai (Cymru) newydd er mwyn ceisio mynnu bod tai amlfeddiannaeth ac eiddo rhent preifat arall hefyd yn cynnwys synwryddion mwg fel gofyniad?	Senedd.tv Fideo Video
14:23	Carl Sargeant Bywgraffiad Biography	This is something that I will give further consideration to.	Mae hyn yn rhywbeth y byddaf yn ei ystyried ymhellach.	Senedd.tv Fideo Video
14:23	Peter Black Bywgraffiad Biography	Thank you for that answer, Minister. I also throw in carbon monoxide detectors on top of that as well. May I ask, in terms of section 28 of that Housing (Wales) Bill, you have not yet published the guidance that you will be issuing on that, and the committee recommended that that guidance should be published before the Bill was passed in this Assembly: will you consider giving us some advance notice of what that guidance will contain before Stage 3?	Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Rwyf hefyd yn ychwanegu synwryddion carbon monocsid at hynny. A gaf fi ofyn, o ran adran 28 o Fil Tai (Cymru), nid ydych wedi cyhoeddi'r canllawiau y byddwch yn eu cyhoeddi ar hynny eto, ac argymhellodd y pwyllgor y dylai'r canllawiau gael eu cyhoeddi cyn pasio'r Bil yn y Cynulliad hwn: a fyddwch yn ystyried ein hysbysu ymlaen llaw o'r hyn y bydd y canllawiau hynny yn ei gynnwys cyn Cam 3?	Senedd.tv Fideo Video
14:24	Carl Sargeant Bywgraffiad Biography	If the guidance is already prepared, I would be happy to share that with committee and with Members. This is predicated on whether it is ready or not. As soon as it is, I will share that with Members.	Os yw'r cyfarwyddyd eisoes wedi'i baratoi, byddwn yn hapus i rannu hynny â'r pwyllgor a'r Aelodau. Mae'n dibynnu a yw'n barod ai peidio. Cyn gynted ag y bydd, byddaf yn rhannu hynny gyda'r Aelodau.	Senedd.tv Fideo Video

Bil Rhentu Cartrefi (Cymru)

Renting Homes (Wales) Bill

- 14:24 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
2. A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i gyfyngu ar y defnydd o Sail 8, Atodlen 2 i Ddeddf Tai 1988 gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru hyd nes ei diddymu yn y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) arfaethedig? OAQ(4)0407(HR)
- 14:24 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I thank the Member for Cardiff North for her question. 'No', is the answer, but, as you indicate, the secure contract proposed under the renting homes Bill will not include the equivalent of ground 8. In the meantime, the use of ground 8 is a matter for individual housing associations, although, in practice, it is used only rarely.
- 14:25 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
It is disappointing that I have heard of Welsh registered social landlords who are still using ground 8, which means that courts are unable to suspend possession indefinitely on the condition that the tenant makes reasonable arrangements for the repayment of arrears. Seeing that tenants are now left vulnerable to eviction, pending the abolition of ground 8, are there no regulatory powers that the Minister could exercise to afford tenants protection in the meantime before the legislation comes in?
- 14:25 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I recognise the Member's concern in raising this question. I am sympathetic to the concern that she has, which is why I do not propose to include this in the equivalent of ground 8 in the rented homes secure contract. However, the Member alluded to the numbers raised with her. It is my understanding that, of the 1,340 possession orders made for rent arrears on housing associations during 2010-11, only 17 were used around ground 8. So, proportionately it is less than 1.3%. However, I recognise the point that the Member raises. We will address this during the next stage of the Bill.
- 14:26 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
As Community Housing Cymru emphasises, registered social landlords, without exception, prefer to go down the route of engaging with a tenant rather than reaching a ground 8 or court situation. Although some opt to use mandatory eviction for serious rent arrears from housing association tenants they emphasise that it is very much as a last resort. What consideration, therefore, have you given to the concern expressed by Community Housing Cymru and its strong proposal that ground 8 should be retained as an option for serious cases of arrears, and as an important reminder for tenants about the importance of paying rent?
- 2. Does the Minister have any plans to limit the use of Ground 8, Schedule 2 to the Housing Act 1988 by registered social landlords in Wales pending its abolition in the forthcoming Renting Homes (Wales) Bill? OAQ(4)0407(HR)*
- Diolch i'r Aelod dros Ogledd Caerdydd am ei chwestiwn. 'Na', yw'r ateb, ond fel y dywedwch, ni fydd y contract diogel arfaethedig o dan y Bil rhentu cartrefi yn cynnwys yr hyn sy'n cyfateb i sail 8. Yn y cyfamser, mater i gymdeithasau tai unigol yw'r defnydd o sail 8, er mai anaml y caiff ei ddefnyddio'n ymarferol.
- Mae'n peri siom i mi fy mod wedi clywed am landlordiaid cofrestredig yng Nghymru sy'n dal i ddefnyddio sail 8, gan olygu bod llysoedd yn methu ag atal meddiant am gyfnod amhenodol ar yr amod bod y tenant yn gwneud trefniadau rhesymol ar gyfer ad-dalu ôl-ddyledion. Gan ystyried bod tenantiaid bellach yn cael eu gadael yn agored i'w troi allan, hyd nes y diddymir sail 8, a oes unrhyw bwerau rheoleiddio y gallai'r Gweinidog eu defnyddio i ddiogelu tenantiaid yn y cyfamser cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym?
- Rwy'n cydnabod pryder yr Aelod yn codi'r cwestiwn hwn. Rwy'n cydymdeimlo â'i phryder a dyna pam nad wyf yn bwriadu cynnwys hwn yn yr hyn sy'n cyfateb i sail 8 yng nghontract diogel tai rhent. Fodd bynnag, cyfeiriodd yr Aelod at y niferoedd a ddaeth i'w sylw. O'r 1,340 o orchmynion ildio meddiant a wnaed mewn perthynas ag ôl-ddyledion rhent i gymdeithasau tai yn ystod 2010-11, rwy'n deall mai dim ond 17 a ddefnyddiwyd mewn perthynas â sail 8. Felly mae'n cyfateb i lai na 1.3%. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod y pwynt y mae'r Aelod yn ei wneud. Byddwn yn ymdrin â hyn yn ystod cam nesaf y Bil.
- Fel y mae Tai Cymunedol Cymru yn pwysleisio, yn ddiethriad bydd yn well gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig weithredu drwy ymgysylltu â thenant yn hytrach na chyrraedd sefyllfa sail wyth neu achos llys. Er bod rhai'n dewis defnyddio mesurau troi allan gorfodol am ôl-ddyledion rhent difrifol gan denantiaid cymdeithasau tai, maent yn pwysleisio mai dewis olaf yw hynny'n bendant. Felly pa ystyriaeth a roddwyd gennych i'r pryder a fynegwyd gan Cartrefi Cymunedol Cymru a'u cynnig cryf y dylid cadw sail 8 fel opsiwn ar gyfer achosion difrifol o ôl-ddyledion ac fel dull pwysig o atgoffa tenantiaid am bwysigrwydd talu rhent?

14:26 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We have taken all of the evidence, and we have had discussions with organisations around this. As I said to Julie Morgan, I am minded to remove this process during the stages of the renting homes Bill, through the deliberations and scrutiny of committee, although anything might happen during that process, of course.

Rydym wedi ystyried yr holl dystiolaeth ac rydym wedi cael trafodaethau gyda sefydliadau ynglŷn â hyn. Fel y dywedais wrth Julie Morgan, rwyf o blaid cael gwared ar y broses hon yn ystod camau'r Bil rhentu cartrefi, drwy drafodaethau a gwaith craffu'r pwyllgor, er y gallai unrhyw beth ddigwydd yn ystod y broses honno wrth gws.

14:27 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Question 3, OAQ(4)0410(HR), was withdrawn. Tynnwyd cwestiwn 3, OAQ (4) 0410 (AD), yn ôl.

Cartrefi Gwag

Empty Homes

14:27 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

4. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gamau sy'n cael eu cymryd i leihau nifer y cartrefi gwag yng Nghymru? OAQ(4)0398(HR)

4. Will the Minister provide an update on action being taken to reduce the number of empty homes in Wales? OAQ(4)0398(HR)

14:27 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the Member for the opportunity to again highlight the great work that is being carried out across the country to bring empty homes back into use. We remain well on our way to meeting our commitment to bring 5,000 empty homes back into use during this Government term.

Diolch i'r Aelod am y cyfle eto i dynnu sylw at y gwaith gwych sy'n cael ei wneud ar draws y wlad i ddod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd. Rydym yn parhau ar y trywydd i gyflawni ein hymrwymiad i ddod â 5,000 o gartrefi gwag yn ôl i ddefnydd yn ystod tymor y Llywodraeth hon.

14:27 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that reply, Minister. Empty properties represent a wasted opportunity to provide much-needed homes for the people of Wales. The Welsh Government has a target to bring 5,000 empty properties back into use by the end of 2016, although a freedom of information request in June last year revealed that there were nearly 32,000 empty homes in Wales. How confident is the Minister that he will meet his target and what studies has he undertaken into ways to further reduce the number of empty homes in Wales?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Mae eiddo gwag yn gyfle a wastraffwyd i ddarparu cartrefi mawr eu hangen i bobl Cymru. Targed Llywodraeth Cymru yw dod â 5,000 eiddo gwag yn ôl i ddefnydd erbyn diwedd 2016, er bod cais rhyddid gwybodaeth ym mis Mehefin y llynedd wedi datgelu bod bron i 32,000 o dai gwag yng Nghymru. Pa mor hyderus yw'r Gweinidog y bydd yn cyrraedd ei darged a pha astudiaethau a gyflawnodd ar ffyrdd pellach o leihau nifer y cartrefi gwag yng Nghymru?

14:28 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am confident that we will meet the target as proposed in our manifesto.

Rwy'n hyderus y byddwn yn cyrraedd y targed fel yr amlinellwyd yn ein manifestto.

14:28 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I have seen the success of the Welsh Government's empty homes scheme operating in my Delyn constituency, but to develop that success we need joint working between the Welsh Government, local authorities, landlords and housing organisations. It is important that people—the public—are aware of what is available. What steps have been taken to develop that awareness?

Rwyf wedi gweld llwyddiant cynllun tai gwag Llywodraeth Cymru sy'n gweithredu yn fy etholaeth yn Delyn, ond er mwyn datblygu'r llwyddiant, mae angen gwaith ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, landlordiaid a sefydliadau tai. Mae'n bwysig bod pobl—y cyhoedd—yn ymwybodol o'r hyn sydd ar gael. Pa gamau sydd wedi'u cymryd i ddatblygu'r ymwybyddiaeth honno?

14:28	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>I thank the Member for her question. I visited the very property that she talks about in her constituency. It is a great scheme. We have invested over £20 million in terms of the grant funding available for this recyclable grant, which is why it is so effective. It is about communication between local authorities and the third party. It is a really important piece of work. Again, we attended an empty homes conference earlier this year to share best practice so that people can understand how best to get the message out and how best we can get the best use of the £20 million available.</p>	<p>Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn. Ymwelais â'r union eiddo y mae'n sôn amdano yn ei hetholaeth. Mae'n gynllun gwych. Rydym wedi buddsoddi dros £20 miliwn o ran y cyllid grant sydd ar gael ar gyfer y grant hwn y gellir ei ailgylchu, a dyna pam y mae mor effeithiol. Mae'n ymwneud â chyfathrebu rhwng awdurdodau lleol a'r trydydd parti. Mae'n waith pwysig iawn mewn gwirionedd. Unwaith eto, mynychasom gynhadledd ar gartrefi gwag yn gynharach eleni er mwyn rhannu arfer gorau fel y gall pobl ddeall pa ffyrdd sydd orau ar gyfer cael y neges allan a sut i wneud y defnydd gorau o'r £20 miliwn sydd ar gael.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:29	<p>Elin Jones Bywgraffiad Biography</p> <p>Weinidog, ym Mil Tai (Cymru) mae pwerau i awdurdodau lleol i fedru gosod treth ychwanegol ar eiddo gwag. Ar adegau, mewn ardaloedd gwledig yn enwedig, mae landlordiaid yn gallu ei chael yn anodd i osod eiddo gwag i denantiaid. Mae'n anodd ffeindio tenant ar gyfer yr eiddo, hynny yw. A fyddwch chi'n rhoi canllawiau i awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn gallu ymateb i'r problemau hyn sy'n gallu codi, er gwaethaf pob ymdrech gan landlord penodol?</p>	<p>Minister, in the Housing (Wales) Bill there are powers for local authorities to be able to set an additional tax on empty properties. At times, particularly in rural areas, landlords find it difficult to let vacant property for tenants. It is difficult to find tenants for properties, in other words. Will you be giving local authorities guidelines to ensure that they are able to resolve some of these problems that can arise, despite all the efforts of particular landlords?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:29	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>Indeed, there will be the opportunity for a consultation for local authorities to have discretion and categories that they can consider when, and if, they implement these proposals during the Bill process.</p>	<p>Yn sicr, bydd cyfle i ymgynghori ar ddisgresiwn i awdurdodau lleol a chategoriâu y gallant eu hystyried pan, ac os, y gweithredant y cynigion hyn yn ystod proses y Bil.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Cartrefi Llai		Smaller Homes	
14:30	<p>William Graham Bywgraffiad Biography</p> <p><i>5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y cartrefi llai sydd wedi'u hadeiladu yng Nghymru ers 2010? OAQ(4)0405(HR)</i></p>	<p><i>5. Will the Minister make a statement on the number of smaller homes that have been built in Wales since 2010? OAQ(4)0405(HR)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:30	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>I thank the Member for South Wales East for his question. I assume that you are referring to one or two-bedroomed properties. From the start of January 2010 to the end of December 2013, over 8,100 smaller properties were built in Wales.</p>	<p>Diolch i'r Aelod dros Ddwyrain De Cymru am ei gwestiwn. Rwy'n cymryd eich bod yn cyfeirio at eiddo un neu ddwy ystafell wely. O ddechrau Ionawr 2010 hyd at ddiwedd Rhagfyr 2013, adeiladwyd dros 8,100 eiddo llai o faint yng Nghymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:30	<p>William Graham Bywgraffiad Biography</p> <p>I am most grateful to the Minister for his answer. Will he accept that the number of new homes being built in Wales is remarkably low compared with the number being built in the United Kingdom proportionately? What will he do to increase the number of homes to be built over the next two years?</p>	<p>Diolch yn fawr i'r Gweinidog am ei ateb. A wnaiff dderbyn bod nifer y cartrefi newydd sy'n cael eu hadeiladu yng Nghymru yn hynod o isel o'i gymharu â'r nifer cyfatebol sy'n cael eu hadeiladu yn y Deyrnas Unedig? Beth y mae'n bwriadu ei wneud i gynyddu nifer y tai sydd i'w hadeiladu dros y ddwy flynedd nesaf?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:30	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>We have increased our target from 7,500 to 10,000 affordable homes over the last few weeks. We are committed to engaging with the private sector, housing associations, and indeed, Flintshire local authority—my own local authority—today announced its proposal to build an additional 100 council properties, which are the first to be built in 25 years. That is about delivery.</p>	<p>Rydym wedi cynyddu ein targed o 7,500 i 10,000 o gartrefi fforddiadwy dros yr ychydig wythnosau diwethaf. Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'r sector preifat, cymdeithasau tai, a heddiw yn wir, cyhoeddodd awdurdod lleol Sir y Fflint—fy awdurdod lleol fy hun—ei gynnig i adeiladu 100 o dai cyngor ychwanegol, sef yr eiddo cyntaf i gael ei adeiladu mewn 25 mlynedd. Mae a wnelo hynny â chyflawni.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:31	<p>Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography</p> <p>Weinidog, pe byddai'r dreth ystafell wely yn gweithio i'w llawn botensial, byddai hynny yn golygu y byddai angen creu mwy o dai llai yma yng Nghymru. Fodd bynnag, fel rydym yn gwybod, mae cymdeithasau tai a phobl yn y sector wedi dweud nad yw'r gofyn yno oherwydd nid yw pobl yn symud mewn i'r tai llai rhag ofn iddynt gael eu heffeithio gan y dreth ystafell wely yn y dyfodol. Felly, pa drafodaethau yr ydych yn eu cael ynglŷn â'r math o dai a fydd ar gael yn y dyfodol pan na fydd, gobeithio, y dreth ystafell wely yn bodoli rhagor?</p>	<p>Minister, if the bedroom tax were to work to its full potential, that would mean that we would need to build a greater number of smaller homes in Wales. However, as we know, housing associations and people working within the sector have said that the demand is not there because people are not moving into smaller homes in case they are affected by the bedroom tax in future. So, what discussions are you having about the kinds of homes that will be available in the future, when, hopefully, the bedroom tax will no longer exist?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:31	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>The Member raises a really important question. The fundamental issue that we agree on is whether the bedroom tax is appropriate or not. We think that it should be abolished and I know that that view is shared by Members. The fact of the matter is that, while this in place, we have a discrepancy between the amount of smaller properties available and the time lag in terms of developing them and moving people on. I have, in the past, raised with Ministers in London the point—which has fallen on deaf ears—that the introduction the bedroom tax was wrong and the fact that we cannot keep up with the progress in terms of delivering smaller properties and the impact that the bedroom tax is having on individuals.</p> <p>Looking into the future, one and two-bedroomed properties would not be a priority of mine; I would like to create family homes with good space. In the current process, people are being penalised and potentially are losing their properties because of the bedroom tax that we do not want in Wales.</p>	<p>Mae'r Aelod yn codi cwestiwn pwysig iawn. Y mater sylfaenol rydym yn cytuno arno yw pa un a yw'r dreth ystafell wely yn briodol ai peidio. Rydym yn credu y dylid ei diddymu ac rwy'n gwybod bod yr Aelodau'n rhannu'r farn honno. Tra'i bod yn weithredol, y gwir amdani yw bod anghysondeb rhwng faint o eiddo llai sydd ar gael a'r oedi o ran yr amser rhwng eu datblygu a symud pobl ymlaen. Yn y gorffennol, crybwyllais wrth Weinidogion yn Llundain—pwynt na wrandawyd arno—fod cyflwyno'r dreth ystafell wely yn anghywir a'r ffaith na allwn gadw i fyny gyda'r cynnydd o ran darparu eiddo llai a'r effaith y mae'r dreth ystafell wely yn ei chael ar unigolion.</p> <p>Gan edrych i'r dyfodol, ni fyddai eiddo un a dwy ystafell wely yn flaenoriaeth i mi; hoffwn greu cartrefi i deuluoedd gyda digon o le ynddynt. O fewn y broses ar hyn o bryd, mae pobl yn cael eu cosbi ac o bosibl yn colli eu heiddo oherwydd treth ystafell wely nad ydym ei heisiau yng Nghymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Y Sector Rhentu Preifat		The Private Rental Sector	
14:32	<p>Eluned Parrott Bywgraffiad Biography</p> <p><i>6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ansawdd tai yn y sector rhentu preifat yng Nghymru? OAQ(4)0408(HR)</i></p>	<p><i>6. Will the Minister make a statement on the quality of housing in the private rental sector in Wales? OAQ(4)0408(HR)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:33	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>I thank the Member for her question. There are issues with the condition of a sizeable minority of properties. My proposals in the housing Bill aim to improve management standards, which will have a positive impact on quality as landlords and agents are reminded of their obligations.</p>	<p>Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn. Mae problemau'n codi ynglŷn â chyflwr lleiafrif sylweddol o eiddo. Mae fy nghynigion yn y Bil tai yn anelu at wella safonau rheoli a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd wrth i landlordiaid ac asiantau gael eu hatgoffa o'u rhwymedigaethau.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

- 14:33 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that answer, Minister. I understand that one of the policy intentions behind the housing Bill is to raise quality in part through a new licensing and registration scheme. However, we know that there are a number of rogue landlords who simply ignore the existing licensing scheme that we have for houses in multiple occupation and who operate entirely outside the system, making life miserable for their tenants and their neighbours alike. What work have you undertaken to assess the size of this problem in Wales, and how will the new housing Bill tackle those rogue operators who frankly have already ignored one licensing regime?
- Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Rwy'n deall mai un o fwrïadau'r polisi sy'n sail i'r Bil tai yw gwella ansawdd yn rhannol drwy gynllun trwyddedu a chofrestru newydd. Fodd bynnag, gwyddom fod nifer o landlordiaid diegwyddor yn anwybyddu'r cynllun trwyddedu presennol sydd gennym ar gyfer tai amfeddiannaeth ac sy'n gweithredu y tu allan i'r system yn llwyr gan wneud bywyd yn ddiflas i'w tenantiaid a'u cymdogion fel ei gilydd. Pa waith a wnaethoch i asesu maint y broblem hon yng Nghymru a sut y bydd y Bil tai newydd yn mynd i'r afael â gweithredwyr diegwyddor o'r fath sydd, a bod yn onest, eisoes wedi anwybyddu un gyfundrefn drwyddedu?
- 14:33 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The Member raises the issue of HMO landlords in her question. The element of this licensing scheme is around the private rented sector and not HMOs, and there is already a scheme in place. However, we have looked very carefully at schemes that are already in place in terms of the licensing scheme and we are confident that we will be able to implement this and manage it effectively through the process of regulation and enforcement if we need to.
- Mae'r Aelod yn codi mater landlordiaid tai amfeddiannaeth yn ei chwestiwn. Mae'r elfen hon o'r cynllun trwyddedu yn ymwneud â'r sector rhentu preifat yn hytrach na thai amfeddiannaeth, ac mae cynllun ar waith yn barod. Fodd bynnag, rydym wedi edrych yn ofalus iawn ar gynlluniau sydd eisoes ar waith o ran y cynllun trwyddedu ac rydym yn hyderus y byddwn yn gallu gweithredu hyn a'i reoli'n effeithiol drwy broses rheoleiddio a gorfodi os oes angen.
- 14:34 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Given the evidence from Scotland about the regulation of the private rented sector and the impact that that has had on enforcement, particularly around the difficulty in enforcing and monitoring private landlords, what are you doing to make sure that the legislation in Wales does not have a similar impact here, and, in particular, that landlords that are providing good-quality accommodation are not going to be penalised at the cost of those who slip under the radar and do not ever want to comply with legislation?
- O ystyried y dystiolaeth o'r Alban ynghylch y modd y rheoleiddir y sector rhentu preifat a'r effaith y mae hynny wedi'i chael ar orfodaeth, yn enwedig o ran yr anhawster i orfodi a monitro landlordiaid preifat, beth rydych yn ei wneud i sicrhau nad yw'r ddeddfwriaeth yng Nghymru yn cael effaith debyg yma ac yn benodol, nad yw landlordiaid sy'n darparu llety o ansawdd da yn mynd i gael eu cosbi ar draul y rhai sy'n llithro o dan y radar a byth eisiau cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth?
- 14:35 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I will make two points. First, the Member needs to read the housing Bill, because it looks nothing like the Scottish model and, therefore, we will not have the same problems as the Scottish model. Secondly, the good landlords who operate in Wales have nothing to fear in terms of the registration scheme. The fact of the matter is that we are seeking to tackle bad landlords in Wales, and I am disappointed that, through the process of the Bill, the Conservative benches have not been able to support the issue around the private rented sector.
- Mae gennyf ddau bwynt i'w gwneud. Yn gyntaf, mae angen i'r Aelod ddarllen y Bil tai gan nad yw'n debyg i fodel yr Alban o gwbl ac felly, ni fyddwn yn wynebu'r un problemau â model yr Alban. Yn ail, nid oes gan landlordiaid da sy'n gweithredu yng Nghymru ddim i'w ofni o ran y cynllun cofrestru. Y ffaith amdani yw ein bod yn ceisio mynd i'r afael â landlordiaid gwael yng Nghymru ac rwy'n siomedig nad yw meinciau'r Ceidwadwyr, drwy broses y Bil, wedi gallu cefnogi'r mater sy'n ymwneud â'r sector rhentu preifat.
- 14:35 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Mae ardaloedd cyfan mewn trefi a dinasoedd lle mae prifysgolion a cholegau addysg bellach—ond prifysgolion yn bennaf—yn dioddef oherwydd bod ardaloedd cyfan yn mynd i edrych yn flêr oherwydd cyflwr gwael y tai, sy'n cael eu rhentu wrth gwrs gan fyfyrwyr. A fydd eich Bil chi yn gwneud unrhyw beth i alluogi awdurdodau lleol i gael gwell trefn ar yr ardaloedd hyn, sy'n effeithio, wrth gwrs, ar fywydau'r trigolion sy'n byw yn yr ardaloedd hynny?
- Entire areas in towns and cities where there are universities and further education colleges—but mainly universities—suffer because these areas start to look untidy because of the poor condition of the houses, which are, of course, rented by students. Will your Bill do anything to enable local authorities to get a better handle on these areas, as, of course, they affect the lives of other residents?

14:36	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>This is the very reason that we are introducing the landlord licensing scheme. Evidence provided by NUS Cymru, and other organisations, says that there is dangerous accommodation out there, which is unlicensed, and people—young people, often—in our university towns, away for their first time from home, are in a dangerous situation. Therefore, the licensing scheme will address this, with enforcement powers for local authorities.</p>	<p>Dyma'r union reswm pam rydym yn cyflwyno'r cynllun trwyddedu landlordiaid. Mae tystiolaeth a ddarparwyd gan NUS Cymru a sefydliadau eraill yn dweud bod adeiladau llety peryglus ar gael, llety heb ei drwyddedu, ac mae pobl—pobl ifanc yn aml—yn ein trefi prifysgol, sydd i ffwrdd o gartref am y tro cyntaf, mewn sefyllfa beryglus. Felly bydd y cynllun trwyddedu yn mynd i'r afael â hyn, gyda phwerau gorfodi ar gyfer awdurdodau lleol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
<p>Ardaloedd Poblog iawn</p>		<p>Areas of High-density Population</p>	
14:36	<p>Eluned Parrott Bywgraffiad Biography</p> <p><i>7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwasanaethau a ddarperir i denantiaid mewn ardaloedd poblog iawn? OAQ(4)0409(HR)</i></p>	<p><i>7. Will the Minister make a statement on the services provided to tenants in areas of high density population? OAQ(4)0409(HR)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:36	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>Social landlords provide a wide range of housing services for their tenants in social housing, based on local circumstances and identified need.</p>	<p>Mae landlordiaid cymdeithasol yn darparu ystod eang o wasanaethau tai i'w tenantiaid mewn tai cymdeithasol, yn seiliedig ar amgylchiadau lleol ac anghenion dynodedig.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:36	<p>Eluned Parrott Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you, Minister. Population changes in places such as Roath and Cathays in Cardiff, and in parts of other university towns in Wales, over the past 30 years or so, have seen population densities increase very, very markedly. This has had a major impact on the local services provided by local authorities as well, for example, and particularly, waste collection. Will you be issuing guidance under the forthcoming Planning (Wales) Bill to enable local authorities to manage and plan for the changing balance of local communities, for example, perhaps by limiting the density of HMOs in local areas?</p>	<p>Diolch i chi, Weinidog. Mae newidiadau poblogaeth mewn mannau megis y Rhath a Cathays yng Nghaerdydd ac mewn rhannau o drefi prifysgol eraill yng Nghymru dros y 30 mlynedd diwethaf, wedi golygu bod dwysedd poblogaethau wedi cynyddu'n amlwg iawn. Mae hyn wedi cael effaith fawr hefyd ar wasanaethau lleol a ddarperir gan awdurdodau lleol er enghraifft, ac yn arbennig, casglu gwastraff. A fyddwch yn cyhoeddi canllawiau o dan y Bil Cynllunio (Cymru) sydd i ddod er mwyn galluogi awdurdodau lleol i reoli a chynllunio ar gyfer y newid yng nghydbwysedd cymunedau lleol, er enghraifft drwy gyfyngu ar ddwysedd tai amlfeddiannaeth mewn ardaloedd lleol efallai?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:37	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>Of course, my colleagues Jenny Rathbone and Julie Morgan have raised these very issues with me around communities, particularly in Cardiff, in relation to density issues and populations around university complexes. We are doing a review of HMOs, and I think that it is an important piece of work that will have to look at density. We welcome students to our communities, and we welcome student accommodation in our communities. However, in some areas, it is disproportionate, and we have to look at a model where we can manage the process and have some management around planning systems, rather than having effective communities for only part of a year.</p>	<p>Wrth gwrs, mae fy nghydweithwyr Jenny Rathbone a Julie Morgan wedi codi'r materion hyn sy'n ymwneud â chymunedau, yn enwedig yng Nghaerdydd, mewn perthynas â materion dwysedd a phoblogaethau o gwmpas cyfaddiladau prifysgol. Rydym yn cynnal adolygiad o dai amlfeddiannaeth ac rwy'n credu ei fod yn waith pwysig y bydd yn rhaid iddo edrych ar ddwysedd. Rydym yn croesawu myfyrwyr i'n cymunedau ac rydym yn croesawu adeiladau llety i fyfyrwyr yn ein cymunedau. Fodd bynnag, mewn rhai ardaloedd, mae'n anghymesur, a rhaid i ni edrych ar fodel lle y gallwn reoli'r broses a chael rhywfaint o reolaeth o ran systemau cynllunio yn hytrach na chael cymunedau sydd ond yn effeithiol am ran o'r flwyddyn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:38 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I declare an interest here, as my eldest daughter is a student who has gone through the rented sector. However, what does surprise me time and again in student towns and cities across Wales is the poor information that is out there for students. They are signing legal contracts to become tenants, and they take a huge responsibility on board. Can the Minister inform us what talks he has had with universities and the student unions in order to provide comprehensive information and support for young people, who, for the first time, are putting their names to properties that they are ultimately—although they are only tenants—responsible for in terms of the upkeep, and, in some instances, they end up falling foul of the law?

Rwy'n datgan buddiant yma gan fod fy merch hynaf yn fyfyrwr sydd wedi mynd drwy'r sector rhentu. Fodd bynnag, yr hyn sy'n fy synnu dro ôl tro mewn trefi a dinasoedd myfyrwyr ar draws Cymru yw'r prinder gwybodaeth sydd ar gael i fyfyrwyr. Maent yn arwyddo contractau cyfreithiol i ddod yn denantiaid ac yn ymroi i ysgwyddo cyfrifoldeb enfawr. A all y Gweinidog roi gwybod i ni pa drafodaethau y mae wedi'u cael â phrifysgolion ac undebau myfyrwyr er mwyn darparu gwybodaeth gynhwysfawr a chymorth i bobl ifanc sy'n arwyddo cytundebau eiddo am y tro cyntaf, eiddo y maent yn y pen draw yn gyfrifol amdano o ran cynnal a chadw—er mai dim ond tenantiaid ydynt—ac mewn rhai achosion, yn arwain at wneud iddynt dorri'r gyfraith?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:38 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for his question. I think that, under that hard exterior, you are actually softening up to the PRS system, because, actually, what we are doing here, with that system, will be giving information. Also, the renting homes Bill will have contractual information that will be clear and understood by all—by landlord and tenant. I went to see a scheme operating in Leeds—a very similar PRS system to the one that we are introducing in Wales—and the very issue that the Member raises is addressed within the scheme process. So, I would be grateful for his vote at Stage 3 in this Chamber.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. O dan yr wyneb caled, rwy'n credu eich bod yn dechrau meirioli tuag at system PRS gan mai'r hyn a wnawn yma mewn gwirionedd gyda'r system honno fydd rhoi gwybodaeth. Hefyd, bydd y Bil rhentu cartrefi yn cynnwys gwybodaeth am gontractau a fydd yn eglur ac yn hawdd i bawb ei deall—yn landlordiaid ac yn denantiaid. Ymwelais â chynllun sy'n gweithredu yn Leeds—system PRS debyg iawn i'r un rydym yn ei chyflwyno yng Nghymru—ac mae'r union fater y mae'r Aelod yn ei godi yn cael sylw ym mhroses y cynllun. Felly byddwn yn ddiolchgar am ei bleidlais ar Gam 3 yn y Siambur hon.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:39 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Wrth gwrs, mewn ardaloedd poblog y mae'r digartrefedd mwyaf yng Nghymru, ac mae nifer o bobl sydd wedi bod yn ddiartref yn dioddef cylch di-ddiwedd o denantiaeth wahanol, wrth iddynt gael tenantiaeth, efallai, am chwe mis yn unig. Mae eich arweinydd chi, Ed Miliband, wedi cynnig tenantiaeth tair blynedd fel y norm o hyn ymlaen. A oes modd, felly, i ddefnyddio Bil Tai (Cymru) i roi gofyniad statudol o denantiaeth am o leiaf flwyddyn i bobl ddiartref wrth iddynt symud o ddiartrefedd i sefyllfa lle maent yn denant i landlord preifat?

Of course, the highest incidence of homelessness is to be found in densely populated areas in Wales, and many people who have been homeless suffer an endless cycle of different tenancies, as they perhaps get only six-month tenancies. Your leader, Ed Miliband, has proposed three-year tenancies as the norm from here on in. Would it be possible, therefore, to use the Housing (Wales) Bill to introduce a statutory requirement of at least a year's tenancy for homeless people as they move from homelessness to a situation where they becomes tenants to a private landlord?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:40 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have certainly considered this, and the issue around introducing longer terms could have a negative impact in terms of the sector not wishing to take individuals on for a longer period. A six-month period gives an opportunity to build a tenancy relationship. During the process of the Bill, I am considering undertaking a review at a certain point in time and including the ability to extend that period of time, if that is thought to be appropriate.

Rwy'n sicr wedi ystyried hyn a gallai'r mater sy'n ymwneud â chyflwyno cyfnodau hwy gael effaith negyddol o ran y ffaith nad yw'r sector yn dymuno cynnig tenantiaeth i unigolion am gyfnod hwy. Mae cyfnod o chwe mis yn rhoi cyfle i feithrin cydberthynas â thenantiaid. Yn ystod proses y Bil, rwy'n ystyried cynnal adolygiad ar adeg benodol a chynnwys y gallu i ymestyn y cyfnod hwnnw o amser os credir y byddai'n briodol gwneud hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cartrefi Newydd

New Homes

14:40 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

8. A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisiau llywodraeth Cymru i gynyddu darpariaeth cartrefi newydd yng Nghymru? OAQ(4)0403(HR)

8. Will the Minister outline the Welsh Government's policies to increase the provision of new homes in Wales? OAQ(4)0403(HR)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:40 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- There are a number of initiatives in place designed to support house building activity in Wales, including Help to Buy-Wales, housing finance grant and social housing grant.
- Mae nifer o fentrau ar waith sydd wedi'u cynllunio i gefnogi gweithgaredd adeiladu tai yng Nghymru, gan gynnwys Cymorth i Brynu Cymru, y grant cyllid tai a'r grant tai cymdeithasol.
- 14:41 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The Minister may be aware that, in 1990, nine out of 10 of the largest construction firms in the UK were UK-owned but, by 2010, only one of those companies was UK-owned. Therefore, they are operating in a globalised world. How, therefore, are you seeking to reward companies and people for supplying housing of the type required where it is needed? Where it is supplied, is the prime influence on the affordability of housing?
- Efallai y bydd y Gweinidog yn gwybod bod naw allan o 10 cwmni adeiladu mwyaf y DU ym 1990 yn deillio o'r DU ond erbyn 2010, dim ond un o'r cwmnïau hynny oedd yn deillio o'r DU. Felly maent yn gweithredu ar lwyfan byd-eang. Sut felly rydych yn ceisio gwobrwyo cwmnïau a phobl am ddarparu tai o'r math gofynnol lle mae eu hangen? Lle cânt eu darparu, a yw'r prif ddylanwad ar ba mor fforddiadwy yw tai?
- 14:41 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I meet with the Home Builders Federation on a regular basis. I met with it only three weeks ago. We have a very good relationship moving forward. There is a lot of confidence in the market and there is certainly an increase in development around that. I think that we need to create a mixture of housing available so that there is choice—for example, an increase in private sector housing, but also affordable social housing, too. Our target on the latter, as you will be aware, is to increase it from 7,500 to 10,000, which I mentioned earlier.
- Rwy'n cyfarfod â'r Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi yn rheolaidd. Cefais gyfarfod â hwy dair wythnos yn ôl. Mae gennym gydbertynas dda iawn wrth edrych tua'r dyfodol. Mae yna lawer o hyder yn y farchnad ac yn sicr, gwelir cynnydd yn nifer y datblygiadau sy'n deillio o hynny. Credaf fod angen i ni greu cymysgedd o dai fel bod dewis—er enghraifft, cynnydd mewn tai sector preifat, a thai cymdeithasol fforddiadwy yn ogystal. Ein targed ar yr olaf, fel y byddwch yn gwybod, yw ei gynyddu o 7,500 i 10,000, fel y crybwyllais yn gynharach.
- 14:42 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that. As you indicate, overall supply is the biggest influence on affordability. Whereas social housing for rent is within the affordable criteria, it is not the definition of affordable housing. I also meet with the HBF and the managing directors of major and small construction companies. They advise that, having fallen behind the rest of the UK in terms of houses built, Help to Buy is helping to stimulate the market now, but that future pressures are likely to come from the shortage of skills and materials. Working with your colleagues in other relevant ministries in the Welsh Government, what consideration are you giving to that approaching problem?
- Diolch i chi am hynny. Fel y nodwch, y cyflenwad cyffredinol yw'r dylanwad mwyaf ar fforddiadwyedd. Er bod tai cymdeithasol i'w rhentu o fewn y meini prawf fforddiadwyedd, nid dyna'r diffiniad o dai fforddiadwy. Rwyf hefyd yn cyfarfod â'r Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi a rheolwr-gyfarwyddwyr cwmnïau adeiladu mawr a bach. Ar ôl cael ein gadael ar ôl gan weddill y DU o ran y tai a adeiladwyd, maent yn dweud bod Cymorth i Brynu yn helpu i ysgogi'r farchnad bellach ond mae'r pwysau yn y dyfodol yn debygol o ddeillio o brinder sgiliau a deunyddiau. Gan weithio gyda'ch cydweithwyr mewn adrannau perthnasol eraill o fewn Llywodraeth Cymru, pa ystyriaeth rydych yn ei rhoi i'r broblem honno sy'n agosáu?
- 14:42 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Indeed. I share the concerns of the industry, but we are addressing them. I recently met with the Deputy Minister for Skills and Technology to discuss construction skills and how we can provide new opportunities in the form of short courses on the development of building skills, such as brick work, roofing and so on. Looking ahead to the future proposals that were brought forward by this Assembly and by Ann Jones on sprinklers, I have also asked the Deputy Minister for skills to look at colleges that currently provide opportunities for upskilling plumbers and training multi-skilled apprentices to be able to install sprinklers that are now part of the legislation introduced by this Assembly.
- Yn wir. Rwy'n rhannu pryderon y diwydiant ond rydym yn mynd i'r afael â hwy. Cefais gyfarfod yn ddiweddar gyda'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg i drafod sgiliau adeiladu a sut y gallwn gynnig cyfleoedd newydd ar ffurf cyrsiau byr ar ddatblygu sgiliau adeiladu, megis gwaith brics, toi ac yn y blaen. Gan edrych ymlaen at y cynigion yn y dyfodol a ddygwyd ymlaen gan y Cynulliad hwn gan Ann Jones ar systemau chwistrellu, rwyf hefyd wedi gofyn i'r Dirprwy Weinidog Sgiliau i edrych ar golegau sydd ar hyn o bryd yn darparu cyfleoedd ar gyfer gwella sgiliau plymwyr a hyfforddi prentisiaid amlsgiliau i allu gosod systemau chwistrellu sydd bellach yn rhan o'r ddeddfwriaeth a gyflwynwyd gan y Cynulliad hwn.

14:43	<p>Mike Hedges Bywgraffiad Biography</p> <p>Do you join me in welcoming recent figures showing that, thanks to Welsh Labour Government funding, Swansea has seen over 300 affordable new homes built since 2010?</p>	<p>A wnewch chi ymuno â mi i groesawu'r ffigurau diweddar sy'n dangos bod dros 300 o gartrefi newydd fforddiadwy wedi'u hadeiladu yn Abertawe ers 2010 diolch i gyllid gan Lywodraeth Lafur Cymru?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:43	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>Yes, I do. I welcome this very good news. In the first years of this Government, nearly 4,500 affordable homes have been delivered across Wales, thanks to this Welsh Labour Government.</p>	<p>Gwnaf. Rwy'n croesawu'r newyddion da. Yn ystod blynyddoedd cyntaf y Llywodraeth hon, cafodd bron 4,500 o dai fforddiadwy eu darparu ledled Cymru, diolch i Lywodraeth Lafur Cymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:43	<p>Aled Roberts Bywgraffiad Biography</p> <p>Weinidog, rydych eisoes wedi cyfeirio'r prynhawn yma at furiad Cyngor Sir y Fflint i adeiladu tai cyngor o'r newydd. Rydych hefyd wedi sôn am y bil Tai. Mae hwnnw'n galluogi Llywodraeth Cymru i edrych o'r newydd ar y 'housing revenue subsidy'. A yw eich trafodaethau chi gyda'r cyngorau ynghylch sut mae'r 'subsidy' yn cael ei ad-dalu hefyd wedi edrych ar y modd y gall rhai cyngorau ystyried dechrau ailadeiladu tai cyngor o fewn eu hardaloedd lle maent wedi cadw'r stoc dai?</p>	<p>Minister, you have already referred this afternoon to the intention of Flintshire County Council to build new council houses. You have also mentioned the housing Bill, which would enable the Welsh Government to look afresh at the housing revenue subsidy. Have your discussions with the councils regarding the way in which the subsidy is repaid also considered the way in which some councils can look at starting to rebuild council houses within those areas where they have retained their housing stock?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:44	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>'Yes' to all of those questions.</p>	<p>'Do' i bob un o'r cwestiynau hynny.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:44	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I call the Plaid Cymru spokesperson, Jocelyn Davies.</p>	<p>Galwaf ar lefarydd Plaid Cymru, Jocelyn Davies.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:44	<p>Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you, Presiding Officer. There are, of course, many empty properties across the country, and you will know that Community Housing Cymru has reported a surge in empty homes, as housing associations struggle to let the larger properties in the wake of the bedroom tax. So, the UK Government's solution to so-called under-occupancy is causing more empty homes. Would you agree that building new homes is only part of the solution to the housing problem when thousands of properties continue to sit empty across the country?</p>	<p>Diolch i chi, Lywydd. Mae llawer o eiddo gwag ar draws y wlad wrth gwrs a byddwch yn gwybod bod Cartrefi Cymunedol Cymru wedi dweud bod ymchwydd yn nifer y cartrefi gwag wrth i gymdeithasau tai ei chael hi'n anodd gosod eiddo mwy o faint yn sgîl y dreth ystafell wely. Felly mae ateb Llywodraeth y DU i'r hyn a elwir yn danfeddiannaeth yn creu mwy o gartrefi gwag. A fydddech yn cytuno mai dim ond rhan o'r ateb i'r broblem dai yw adeiladu cartrefi newydd pan fo miloedd o adeiladau'n parhau'n wag ledled y wlad?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:45	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>Indeed. This is the indirect consequence of not thinking this policy through in the first place. We have outlined all of the issues on that. In fact, for housing associations with empty stock, being unable to fill that stock causes a financial liability to that organisation and puts them at risk as well. So, this is not just about tenants either. It is about organisations potentially having some financial issues moving forward. Let us hope that we finish the bedroom tax once and for all if and when there is a change of Government at the next general election.</p>	<p>Yn wir. Dyma ganlyniad anuniongyrchol peidio â meddwl drwy'r polisi yn y lle cyntaf. Rydym wedi amlinellu pob un o'r materion hynny. Yn wir, i gymdeithasau tai gyda stoc o dai gwag, mae methu â llenwi'r stoc yn creu dyled ariannol i'r sefydliad ac yn eu rhoi hwy mewn perygl hefyd. Felly nid mater sy'n ymwneud â thenantiaid yn unig yw hyn. Mae'n ymwneud â'r posibilrwydd y gallai sefydliadau wynebu problemau ariannol wrth edrych tua'r dyfodol. Gadewch i ni obeithio y byddwn yn rhoi diwedd ar y dreth ystafell wely unwaith ac am byth os a phan geir newid Llywodraeth yn yr etholiad cyffredinol nesaf.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:45 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I know that the Members opposite are shaking their heads, but the evidence is there for all to see. In the wake of the bedroom tax, and given that the number of un-let larger homes is increasing as they are impossible for housing associations to let, what does the Government plan to do to support bringing those larger properties back into use while we still have the bedroom tax?

Gwn fod yr Aelodau gyferbyn yn ysgwyd eu pennau, ond mae'r dystiolaeth yno i bawb ei gweld. Yn sgil y dreth ystafell wely, ac o ystyried bod nifer y cartrefi mwy o faint sydd heb eu gosod yn cynyddu gan ei bod yn amhosibl i gymdeithasau tai eu gosod, beth y mae'r Llywodraeth yn bwriadu ei wneud i sicrhau bod eiddo mwy o faint o'r fath yn dod yn ôl i ddefnydd tra bydd y dreth ystafell wely yn dal i fodoli?

14:46 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I think that this is very difficult, but housing associations are very innovative in the way that they use their stock. I know that some authorities and associations are looking at how they can have partitions within a building to make them multi-use. It is not ideal, but it brings the stock back into use, in terms of smaller properties. I visited one up in north Wales recently. What we have to do is give flexibility to the associations to use the limited resources that they have to make the best use of their properties. I am always interested in working with them to ensure that this can happen.

Rwy'n credu bod hyn yn anodd iawn ond mae cymdeithasau tai yn arloesol iawn o ran y ffordd y maent yn defnyddio eu stoc. Gwn fod rhai awdurdodau lleol a chymdeithasau yn edrych ar ffyrdd o greu rhaniadau mewn adeiladau i'w gwneud yn adeiladau amldefnydd. Nid yw'n ddelfrydol ond mae'n dod â'r stoc yn ôl i ddefnydd o ran eiddo llai. Ymwelais ag un yng ngogledd Cymru yn ddiweddar. Yr hyn y mae'n rhaid i ni ei wneud yw cynnig hyblygrwydd i'r cymdeithasau hyn allu defnyddio'r adnoddau cyfyngedig sydd ganddynt i wneud y defnydd gorau o'u heiddo. Rwyf bob amser â diddordeb mewn gweithio gyda hwy i sicrhau y gall hyn ddigwydd.

Caniatadau Cynllunio Ôl-weithredol

Retrospective Planning Permissions

14:46 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y caniatadau cynllunio ôl-weithredol a roddwyd yn ystod 2011-2013? OAQ(4)0399(HR)

9. Will the Minister make a statement on the number of retrospective planning permissions granted during 2011-2013? OAQ(4)0399(HR)

14:47 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the Member for his question. The Welsh Government does not collect these data.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Nid yw Llywodraeth Cymru yn casglu'r data hwn.

14:47 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister, for that response. A number of constituents have raised with me issues that relate directly to the issue of retrospective planning applications. One is the fact that, often, the original planning permission is not being complied with and that applicants then resort to retrospective applications in order to seek to overturn them. This is potentially—in their view and, indeed, in mine—bringing the Welsh planning system into some disrepute. What specific measures would you be prepared to consider undertaking to address this issue, Minister, and do you have any sympathy with those who advocate an additional charge being levied on retrospective planning applications so as to bear down on the practice?

Diolch i chi am eich ymateb, Weinidog. Mae nifer o etholwyr wedi sôn wrthyf am faterion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â cheisiadau cynllunio ôl-weithredol. Un ohonynt yw'r ffaith fod diffyg cydymffurfiaeth â'r caniatâd gwreiddiol yn aml a bod ymgeiswyr wedyn yn troi at geisiadau ôl-weithredol er mwyn ceisio eu gwyrddroi. Yn eu barn hwy, ac yn wir, yn fy marn i, gallai hyn ddwyn anfrï ar system gynllunio Cymru. Pa fesurau penodol y byddech yn barod i ystyried eu rhoi ar waith er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, Weinidog, ac a oes gennych unrhyw gydymdeimlad â'r rhai sy'n argymhell codi tâl ychwanegol ar geisiadau cynllunio ôl-weithredol er mwyn cyfyngu ar yr arfer?

14:47 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Well, of course. There will be individuals who will seek to exploit any loopholes in a system. The new planning Bill for Wales, through the planning consultation document, considered introducing powers to allow local planning authorities to require the submission of retrospective planning applications, and to introduce a power to enable local planning authorities to refuse to determine a retrospective planning application where an enforcement notice had been served. That will be a matter for committee to consider.

Wel, wrth gwrs. Bydd yna unigolion bob amser sy'n ceisio manteisio ar fylchau mewn system. Mae'r Bil cynllunio newydd ar gyfer Cymru, drwy'r ddogfen ymgynghori ar gynllunio, wedi ystyried cyflwyno pwerau i adael i awdurdodau cynllunio lleol ei gwneud yn ofynnol cyflwyno ceisiadau cynllunio ôl-weithredol ac i gyflwyno pŵer i alluogi awdurdodau cynllunio lleol i wrthod penderfynu ar gais cynllunio ôl-weithredol os oes hysbysiad gorfodi wedi ei gyflwyno. Bydd hynny'n fater i'r pwyllgor ei ystyried.

14:48 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, a planning authority in a locally very controversial case in my region directed those in a very recent breach of planning law to seek a certificate of lawful development rather than insisting on a retrospective planning application. These certificates are not intended as cheap shortcuts for those who ignore the law. Should planning authorities continue to insist on using planning applications—preferably not retrospective—and is there space in the planning Bill to try to deter practice that means one law for one and another law for others?

Weinidog, mewn achos dadleuol iawn yn lleol yn fy rhanbarth, cyfarwyddodd awdurdod cynllunio y rhai a oedd newydd dorri'r gyfraith gynllunio i geisio am dystysgrif datblygiad cyfreithlon yn hytrach na mynnu cais cynllunio ôl-weithredol. Ni fwriadwyd i'r dystysgrifau hyn fod yn llwybrau hawdd a rhad i rai sy'n anwybyddu'r gyfraith. A ddylai awdurdodau cynllunio barhau i fynnu defnyddio ceisiadau cynllunio—nid rhai ôl-weithredol o ddewis—ac a oes lle yn y Bil cynllunio i geisio atal arferion sy'n golygu bod un gyfraith i rai pobl a chyfraith arall i bobl eraill?

14:49 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I have no idea which planning application the Member is talking about, but I will be happy to address the broader matter. What the planning Bill is seeking to address is an enabling Bill to ensure that, wherever you are in Wales and whatever planning committee you attend, you are treated with fairness. That is most important. We can provide the legislation to ensure that that happens, but we also have to ensure that the people interpreting the planning law interpret it on a fair basis wherever you are in Wales.

Nid oes gennyf unrhyw syniad pa gais cynllunio y mae'r Aelod yn siarad amdano ond byddaf yn hapus i fynd i'r afael â'r mater mwy cyffredinol. Mae'r Bil cynllunio yn ceisio bod yn Fil sy'n galluogi er mwyn sicrhau eich bod yn cael eich trin yn deg ni waeth ble rydych yng Nghymru na pha bwyllgor cynllunio a fynychwch. Mae hynny'n bwysig tu hwnt. Gallwn ddarparu'r ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau bod hynny'n digwydd ond rhaid i ni hefyd sicrhau bod y bobl sy'n dehongli'r gyfraith gynllunio yn ei dehongli ar sail deg ni waeth ble rydych yng Nghymru.

Pobl Ddigartref

14:49 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

10. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi pobl ddigartref? OAQ(4)0406(HR)

10. What is the Welsh Government doing to support homeless people? OAQ(4)0406(HR)

14:49 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the Member for Llanelli for his question. We support homeless people through funding, guidance and legislation. We have protected our funding for our Supporting People programme, which helps the most vulnerable people to keep their homes.

Diolch i'r Aelod dros Lanelli am ei gwestiwn. Rydym yn cefnogi pobl ddigartref drwy gyllido, canllawiau a deddfwriaeth. Rydym wedi diogelu ein cyllid ar gyfer ein rhaglen Cefnogi Pobl sy'n helpu'r bobl fwyaf agored i niwed i gadw eu cartrefi.

14:49 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch am eich ateb, Weinidog. Mae'n debyg bod ambell sir yng Nghymru, gan gynnwys sir Gâr, meddai un o'r digartref yn Llanelli yn ddiweddar, heb gartrefi gwarchodol. A yw'r Gweinidog yn cytuno â mi y dylai awdurdodau yng Nghymru gydweithio i sicrhau bod cartrefi gwarchodol ar gael i'w cynnig i'r digartref mewn lleoedd ac eithrio'r dinasoedd yn unig?

Thank you for your answer, Minister. Some counties in Wales, it seems, including Carmarthenshire, according to one homeless person in Llanelli recently, do not have sheltered accommodation. Does the Minister agree that authorities in Wales should collaborate in order to ensure that there are sheltered homes available for homeless people in areas outwith our cities?

14:50

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that the whole issue of homelessness is a really live situation, considering where we are with the Housing (Wales) Bill. We are seeking to change the way we deal with homelessness completely, and rather than looking at homelessness at the end, where people present without a home, actually, we are looking at the preventative end. So, we assess early on to see if we can work with people, to make sure that they have a roof over their head. It is a fundamental right to have a home, and it is something that my team, and local authorities across Wales, are looking at, to enable a new way of dealing with homelessness legislation. I hope that this will be a game changer and that authorities across the UK will look at Wales as a model that they can adopt across the country.

Rwy'n credu bod holl fater digartrefedd yn sefyllfa wirioneddol fyw o ystyried lle'r ydym gyda'r Bil Tai (Cymru). Rydym yn ceisio newid y ffordd rydym yn ymdrin â digartrefedd yn llwyr ac yn hytrach nag edrych ar ddigartrefedd ar y diwedd, lle gwelwn bobl heb gartref, rydym mewn gwirionedd yn edrych ar y pen ataliol. Felly rydym yn asesu'n gynnar i weld os gallwn weithio gyda phobl i wneud yn siŵr bod ganddynt do uwch eu pennau. Mae cael cartref yn hawl sylfaenol ac mae'n rhywbeth y mae fy nhîm ac awdurdodau lleol ar draws Cymru yn edrych arno er mwyn ein galluogi i ymdrin â deddfwriaeth digartrefedd mewn ffordd newydd. Rwy'n gobeithio y bydd hyn yn newid pethau ac y bydd awdurdodau ledled y DU yn edrych ar Gymru fel model y gallant ei fabwysiadu ar draws y wlad.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:51

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, the extreme end of homelessness, obviously, is rough sleeping. At Christmas, I went out with one of the charities here in Cardiff to see at first hand the experience that they deal with on a day-to-day basis. They said that one of the problems about understanding the extent of rough sleeping across the whole of Wales is that there are no central data over the size of the problem. Apparently, historically, those data used to be collected, but several years ago, the Welsh Government ceased to collect them and have therefore not been able to inform their policies and the charities' policies on the scale of this problem. Are you committed to reintroducing the collection of those data from around Wales so that your policy and the charities can work together on an informed basis to put measures in place to help these people?

Weinidog, mae'n amlwg mai pegwn eithaf digartrefedd yw cysgu ar y stryd. Adeg y Nadolig, euthum allan gydag un o'r elusennau yma yng Nghaerdydd i weld dros of fy hun sut brofiadau y maent yn eu hwynebu o ddydd i ddydd. Dywedasant mai un o'r problemau ynglŷn â deall faint o bobl sy'n cysgu ar y stryd yng Nghymru gyfan yw diffyg data canolog ynghylch maint y broblem. Mae'n debyg fod data o'r fath yn cael ei gasglu o'r blaen ond sawl blwyddyn yn ôl, rhoddodd Llywodraeth Cymru y gorau i'w gasglu ac felly nid yw'r data wedi gallu llywio ei pholisïau a pholisïau elusennau eraill o ran maint y broblem. A ydych wedi ymrwymo i ailgyflwyno trefniadau ar gyfer casglu data o'r fath o bob rhan o Gymru fel y gall eich polisi a'r elusennau weithio gyda'i gilydd ar sail y wybodaeth er mwyn rhoi mesurau ar waith i helpu'r bobl hyn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:51

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Absolutely, and we will be funding a scheme to look at how we measure the number of rough sleepers. The problem with the scheme that was stopped was that it measured one snapshot in time, on one night, and it was really difficult to establish rough sleepers that sometimes were rough sleepers and sometimes were not—it did not capture a full picture. We will be making an investment, and, in fact, I think that Denbighshire uses a great model that fully assesses rough sleepers within the county of Denbighshire, and we will therefore be aligning that on an all-Wales basis to see how we can collect data better in order that charities and we can address this very issue.

Yn bendant, a byddwn yn ariannu cynllun i edrych ar sut rydym yn mesur nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd. Y broblem gyda'r cynllun a ddaeth i ben oedd ei fod yn mesur un darlun mewn amser ar un noson ac roedd yn anodd pennu pwy oedd yn cysgu allan weithiau a ddim dro arall—nid oedd yn cynnig darlun llawn. Byddwn yn sicrhau buddsoddiad, ac yn wir, rwy'n meddwl bod Sir Ddinbych yn defnyddio model gwych sy'n asesu'n llawn faint o bobl sy'n cysgu ar y stryd yn Sir Ddinbych, a byddwn felly'n cysoni hynny ar sail Cymru gyfan i weld sut y gallwn gasglu data'n well er mwyn i elusennau a ninnau allu mynd i'r afael â'r union fater hwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:52

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I was recently at Neath train station, talking to the women who work in the cafe there, and they said that the police had recently stopped customers from buying toast for homeless people who just happened to be outside the train station. They were feeling quite frustrated about this, because they were saying, 'Well, if I could send them on somewhere, then they might not need the provisions that we have here at the cafe'. I wonder whether you could talk to the local housing associations to see whether there are emergency provisions in the area, because I know that, in comparison to Swansea, there is less of that type of provision, especially in the evenings and at the time when people are perhaps hanging around and waiting for money from those who are getting off the evening trains. I wonder if that is something that you could potentially bring up.

Weinidog, yn ddiweddar roeddwn yng ngorsaf Castell-nedd yn siarad â menywod sy'n gweithio yn y caffi yno a dywedasant fod yr heddlu yn ddiweddar wedi atal cwsmeriaid rhag prynu tost i bobl ddiartref a ddiwyddai fod y tu allan i'r orsaf drenau. Roeddent yn teimlo'n eithaf rhwystredig ynglŷn â hyn, gan ddweud: 'Wel, pe gallwn eu hanfon ymlaen i rywle, yna efallai na fyddent angen y darpariaethau sydd gennym yma yn y caffi.' Tybed a allech siarad â'r cymdeithasau tai lleol i weld a oes darpariaethau argyfwng yn yr ardal gan fy mod yn gwybod bod llai o'r math hwn o ddarpariaeth ar gael o gymharu ag Abertawe yn enwedig yn y nos ac ar yr adeg pan fo pobl efallai'n loetran ac yn aros am arian gan bobl sy'n dod oddi ar y trenau nos. Tybed a yw hynny'n rhywbeth y gallech ei grybwyll.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:53

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is very sad that we are actually having questions about homeless people. We are very lucky to be in a privileged position to be in a home, and we do not recognise people on the streets tonight, actually, living rough, and waiting for toast from people is an astonishing place to be in this century.

Mae'n drist iawn ein bod yn cael cwestiynau am bobl ddiartref o gwbl. Rydym yn ffodus iawn o fod yn ddigon breintiedig i fyw mewn cartref, ac nid ydym mewn gwirionedd yn cydnabod bod pobl yn byw ar y stryd heno ac yn aros am dost gan bobl yn sefyllfa anhygoel i fod ynddi yn y ganrif hon.

I would be happy to look at this issue, if the Member would care to write to me in more detail, to see whether, locally, there are any more provisions that can be assessed that would be positive for the constituents that she represents.

Byddwn yn hapus i edrych ar y mater hwn pe bai'r Aelod yn ysgrifennu ataf i roi mwy o fanylion er mwyn gweld a oes mwy o ddarpariaethau y gellir eu hasesu'n lleol a fyddai'n gadarnhaol i'r etholwyr y mae'n eu cynrychioli.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:53

Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Youth homelessness is a particularly complex problem, but family breakdown remains the key cause of it. How are you working with colleagues across Government to ensure that family mediation services for young homeless people are effective and can reunite young people with their families where appropriate?

Mae digartrefedd ymysg pobl ifanc yn broblem arbennig o gymhleth ond mae chwalfa deuluol yn parhau i fod yn un o'r prif achosion. Sut rydych yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws y Llywodraeth i sicrhau bod gwasanaethau cyfryngu teuluol ar gyfer pobl ifanc ddiartref yn effeithiol ac yn gallu aduno pobl ifanc â'u teuluoedd lle bo'n briodol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:54

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course, this is a really important part of the homeless legislation, which is a package of tools that can enforce a real game changer in a person's life, where losing a home, or a place to stay in safety of an evening, is an important part of your life. I recently attended Llamau in Cardiff, which demonstrated an excellent programme in which they look at intervention and support between families. It is something that I would encourage all authorities to consider very seriously with regard to how they operate that homeless prevention in and across Wales.

Wrth gwrs, dyma ran bwysig iawn o'r ddeddfwriaeth ddiartrefedd, sy'n becyn o adnoddau ar gyfer newid pethau go iawn ym mywyd unigolion, lle mae colli cartref neu le i aros yn ddiogel gyda'r nos yn rhan bwysig o'ch bywyd. Yn ddiweddar, ymwelais â Llamau yng Nghaerdydd, sy'n gweithredu rhaglen ardderchog yn edrych ar ymyrraeth a chefnogaeth rhwng teuluoedd. Mae'n rhywbeth y byddwn yn annog pob awdurdod i ystyried yn ddifrifol iawn o ran sut y maent yn gweithredu mesurau i atal digartrefedd ym mhob rhan o Gymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Aelodau o Fyrddau Cymdeithasau Tai

Board Members of Housing Associations

14:54

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

11. A wnaiff y Gweinidog amlinellu faint o aelodau o fyrddau cymdeithasau tai yng Nghymru sy'n fenywod sydd wedi eu cofrestru'n anabl? OAQ(4)0402(HR)

11. Will the Minister outline how many board members sitting on housing associations in Wales are women who are registered disabled? OAQ(4)0402(HR)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:54 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- There are 157 women board members sitting on boards of housing associations in Wales. Fourteen women have declared that they are registered disabled.
- Mae yna 157 o fenywod yn aelodau o fyrdau cymdeithasau tai yng Nghymru. Mae pedair ar ddeg o fenywod wedi datgan eu bod wedi'u cofrestru'n anabl.
- 14:55 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- It is my belief that not-for-profit boards and bodies that receive funding from the taxpayer should be representative of the communities that they serve. What is the Welsh Government doing to promote diversity within housing associations by encouraging more people—particularly females and disabled people—to join management boards?
- Yn fy marn i, dylai byrddau a chyrff dielw sy'n cael arian gan y trethdalwr gynrychioli'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo amrywiaeth o fewn cymdeithasau tai drwy annog mwy o fenywod—yn enwedig menywod a phobl anabl—i ymuno â byrddau rheoli?
- 14:55 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Of course, I have written, as the Member may be aware, to all housing associations across Wales, asking them to declare their exact membership, gender and equality breakdowns. I have also been very keen to work with Community Housing Cymru on a pact with organisations to ensure that they can make sure that there is a clear diversity make-up on the board. I agree with the Member that we should seriously consider that, if any body receives funding from the Welsh Government, we should be clear on what the accountability is on these boards. I believe that it is not 37%, as it currently is; equality for me on gender balance is 50:50.
- Wrth gwrs, fel y gŵyr yr Aelod o bosibl, rwyf wedi ysgrifennu at yr holl gymdeithasau tai ledled Cymru, yn gofyn iddynt ddatgan eu hunion aelodaeth, a dadansoddiadau ar sail rhyw a chydraddoldeb. Rwyf wedi bod yn awyddus iawn hefyd i weithio gyda Cartrefi Cymunedol Cymru ar gytundeb gyda sefydliadau i sicrhau y gallant wneud yn siŵr fod eu bwrdd yn cynnwys amrywiaeth eglur o aelodau. Rwy'n cytuno â'r Aelod y dylem ystyried o ddirif, os yw corff yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru, y dylem fod yn eglur ynglŷn ag atebolrwydd ar y byrddau hyn. Nid wyf yn credu bod 37%, fel y mae ar hyn o bryd, yn gydradd; cydraddoldeb rhwng y rhywiau i mi yw 50:50.
- Digartrefedd** **Homelessness**
- 14:56 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 12. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y pŵer newydd arfaethedig i gynghorau lleol gyflawni eu dyletswydd o ran digartrefedd drwy'r sector rhentu preifat?*
OAQ(4)0397(HR)
- 12. Will the Minister make a statement on the proposed new power for local councils to discharge their homelessness duty to the private rented sector?*
OAQ(4)0397(HR)
- 14:56 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The Housing (Wales) Bill will give local authorities more powers to discharge their homelessness duties through the private rented sector. This will enable them to make best use of local housing resources to find the best solutions to meet the needs of homeless people.
- Bydd y Bil Tai (Cymru) yn rhoi mwy o bwerau i awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswyddau digartrefedd drwy'r sector rhentu preifat. Bydd hyn yn eu galluogi i wneud y defnydd gorau o adnoddau tai lleol er mwyn dod o hyd i'r atebion gorau ar gyfer diwallu anghenion pobl ddigartref.
- 14:56 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that answer, Minister. You will know that, in England, the discharge to the private rented sector is to a 12-month tenancy; I understand that you have given an assurance to Simon Thomas that you will be looking at that particular issue. Also, in England, there is a further provision that if a household becomes unintentionally homeless within two years of taking the tenancy in the private rented sector, a reapplication duty applies, whereby local authorities have to reconsider rehousing them again. Will you also incorporate that in the Bill, so that we are on a level playing field with England, but also so that we have that further safeguard for homeless people who have been discharged into the private rented sector?
- Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Yn Lloegr, gwyddoch fod trosglwyddo i'r sector rhentu preifat yn seiliedig ar denantiaeth 12 mis; rwy'n deall eich bod wedi rhoi sicrwydd i Simon Thomas y byddwch yn edrych ar y mater penodol hwn. Hefyd yn Lloegr, ceir darpariaeth bellach os yw teulu'n mynd yn ddigartref yn anfwriadol o fewn dwy flynedd i gymryd y denantiaeth yn y sector rhentu preifat, daw dyletswydd ailymgeisio yn gymwys, lle y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ailystyried eu hailgartrefu eto. A wnewch chi ymgorffori hynny hefyd yn y Bil, fel ein bod ar yr un lefel â Lloegr, ond hefyd er mwyn i ni sicrhau diogelwch pellach i bobl ddigartref sydd wedi'u trosglwyddo i'r sector rhentu preifat?

14:57

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course, I welcome the Member's comments and I will give that some further consideration as we move forward. I have given a commitment to Simon Thomas to look at the potential to amend this once a review has taken place. At this moment in time, I am committed to the discharge point of six months, but I will give further consideration to that and to the suggestions that the Member has made today. We have to be very careful around the issue of having a level playing field with England, because it is a devolved Government and we can make some better choices than those that are made in England. I hope that the homelessness prevention method is something that we can do through the housing Bill.

Wrth gwrs, rwy'n croesawu sylwadau'r Aelod a byddaf yn eu hystyried ymhellach wrth i ni symud ymlaen. Rwyf wedi rhoi ymrwymiad i Simon Thomas fy mod am edrych ar y potensial i newid hyn ar ôl i adolygiad gael ei gynnal. Ar hyn o bryd, rwyf wedi ymrwmo i drosglwyddo ar ôl chwe mis ond byddaf yn rhoi ystyriaeth bellach i hynny ac i'r awgrymiadau a wnaeth yr Aelod heddiw. Mae'n rhaid i ni fod yn ofalus iawn ynglŷn â'r mater o fod ar yr un lefel â Lloegr, gan ein bod yn Llywodraeth ddatganoledig a gallwn wneud rhai dewisiadau gwell na'r rhai a wneir yn Lloegr. Rwy'n gobeithio y bydd y dull o atal digartrefedd yn rhywbeth y gallwn ei wneud drwy'r Bil tai.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:58

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course, that could not be delivered without agreement by the Council of Mortgage Lenders. In Wales, as you will be aware, the private rented sector comprises 16% of housing stock but I understand that 45% of those tenants receive a local housing allowance and discharging the homelessness duty is expected to increase that proportion to possibly more than half. How do you respond, therefore, to concern expressed to me as recently as today by landlords' representatives that the legislation is making it harder for them to supply housing for this purpose, that they are already dealing with portfolios that are being sold off now and that the 80% of landlords who only have one property and the remainder need incentives to invest to meet this need and to work with the Government and tenants to identify ways—such as energy efficiency improvements through the Energy Companies Obligation and Nest—to drive forward the improvements that everybody needs?

Wrth gwrs, ni ellir cyflawni hynny heb gytundeb y Cyngor Benthycwyr Morgeisi. Yng Nghymru, fel y gwyrddoch, mae 16% o'r stoc dai yn y sector rhentu preifat ond rwy'n deall bod 45% o'r tenantiaid hynny yn derbyn lwfans tai lleol a disgwylir i'r gwaith o gyflawni'r ddyletswydd ddigartrefedd gynyddu'r gyfran honno i fwy na hanner o bosibl. Sut rydych yn ymateb, felly, i'r pryder a fynegwyd heddiw ddiwethaf gan gynrychiolwyr landlordiaid fod y ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn anoddach iddynt gyflenwi tai ar gyfer y diben hwn, eu bod eisoes yn delio â phortffolios sy'n cael eu gwerthu yn awr a bod 80% o landlordiaid sydd ond yn berchen ar un eiddo a'r gweddill angen cymhellion i fuddsoddi er mwyn diwallu'r angen hwn ac i weithio gyda'r Llywodraeth a thenantiaid i nodi ffyrdd—megis gwelliannau effeithlonrwydd ynni drwy'r rhwymedigaeth cwmni ynni a Nyth—ar gyfer bwrw ymlaen â'r gwelliannau y mae eu hangen ar bawb?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:59

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First, I do not agree with you that there is legislation that is prohibitive for landlords, which is stopping them from doing this. Actually, there are landlords who are doing this, so I do not accept that there is something that is stopping people from making the choice as to whether they do this or not. As regards the other point around incentives, I am very keen to work with landlords, because I know from working with the private rented sector and the discharge of the homelessness duty that there are risks for everybody; therefore the PRS system that I will be introducing with the will of this Assembly will give us the opportunity to make sure that we have a registration scheme that will be very clear on appropriate accommodation to discharge homeless people into. It may be something that I will be considering in terms of how we can enable them, through the schemes that the Member raises around new boilers or lagging that may enhance the property. It may be something that could be an incentive that we could come to some agreement about in the future.

Yn gyntaf, nid wyf yn cytuno â chi fod y ddeddfwriaeth yn rhy gyfyngus ar gyfer landlordiaid ac mai dyna sy'n eu rhwystro rhag gwneud hyn. A dweud y gwir, mae yna landlordiaid sy'n gwneud hyn felly nid wyf yn derbyn fod rhywbeth sy'n atal pobl rhag dewis a ydynt am wneud hyn ai peidio. O ran y pwynt arall am gymhellion, rwy'n awyddus iawn i weithio gyda landlordiaid am fy mod yn ddyletswydd ddigartrefedd, fod yna risgiau i bawb; felly, bydd y system PRS y byddaf yn ei chyflwyno yn ôl dymuniad y Cynulliad hwn yn rhoi cyfle i ni wneud yn siŵr fod gennym gynllun cofrestru a fydd yn eglur iawn ar fater llety addas ar gyfer pobl ddigartref. Gall fod yn rhywbeth y byddaf yn ei ystyried o ran sut i'w galluogi drwy'r cynlluniau y mae'r Aelod yn cyfeirio atynt mewn perthynas â boeleri neu lagin newydd a allai wella'r eiddo. Efallai y bydd yn gymhelliant y gallem ddod i ryw gytundeb yn ei gylch yn y dyfodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:00

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Question 13, OAQ(4)0401(HR), has been withdrawn.

Tynnwyd cwestiwn 13, OAQ (4) 0401 (AD), yn ôl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cynllun Cymorth i Brynu-Cymru

Help to Buy-Wales Scheme

15:00	<p>Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography</p> <p><i>14. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weithredu cynllun Cymorth i Brynu Cymru? OAQ(4)0400(HR)</i></p>	<p><i>14. Will the Minister make a statement on the implementation of the Help to Buy Wales scheme? OAQ(4)0400(HR)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:00	<p>Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography</p> <p><i>15. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynllun Cymorth i Brynu Cymru? OAQ(4)0404(HR)</i></p>	<p><i>15. Will the Minister provide an update on the Help to Buy Wales scheme? OAQ(4)0404(HR)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:00	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>I understand that you have given permission for questions 14 and 15 to be grouped. The Help to Buy-Wales scheme is performing well and has already supported the construction and purchase of over 160 properties in Wales.</p>	<p>Deallaf eich bod wedi rhoi caniatâd i gwestiynau 14 a 15 gael eu grwpio. Mae cynllun Cymorth i Brynu Cymru yn perfformio'n dda ac eisoes wedi cefnogi adeiladu a phrynu dros 160 eiddo yng Nghymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:00	<p>Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography</p> <p>In February, it was reported that there has been a 12% fall in the number of new homes built. With the Welsh Government's Help to Buy scheme, which does actually provide 20% of the equity for a new home to be provided by the Welsh Government, I am just wondering, given the lack of new homes that you are currently building, whether there are any thoughts of you extending the scheme, perhaps to the many empty properties that we have on the books within Wales. I wonder whether you have given that possibility any consideration.</p>	<p>Ym mis Chwefror, soniwyd bod 12% o ostyngiad yn nifer y cartrefi newydd a adeiladwyd. Gyda chynllun Cymorth i Brynu Llywodraeth Cymru, sy'n darparu 20% o'r ecwiti am gartref newydd a roddir gan Lywodraeth Cymru, o ystyried prinder y cartrefi newydd rydych yn eu hadeiladu ar hyn o bryd, tybed a oes unrhyw syniadau gennych ynglŷn ag ymestyn y cynllun efallai i gynnwys yr holl eiddo gwag sydd gennym yng Nghymru. Tybed a ydych wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i'r posibilrwydd hwn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:01	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>I have given that consideration. We will not be introducing this to any homes other than new homes. It is exactly the same scheme as is operating in England.</p>	<p>Rwyf wedi ystyried hynny. Ni fyddwn yn cyflwyno hyn mewn perthynas ag unrhyw gartrefi ac eithrio cartrefi newydd. Mae'n union yr un cynllun â'r hyn sy'n weithredol yn Lloegr.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:01	<p>Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, that is not in fact correct. It applies to all homes in England, not just new homes. In fact, it has shown—. I am very grateful for the written answers that you have given to me because less than a quarter of the amount that has been lent so far under the Help to Buy-Wales scheme has been lent to homebuyers in north Wales and, in particular, rural areas like Denbighshire and Ynys Môn have had no participants in the scheme at all. There is a concern, which I have been raising with you consistently, that this is negatively impacting on rural areas because there are far fewer new builds in rural areas. I know, Minister, that you committed to looking at it. Have you finished your inquiry in that regard? What conclusions have you reached?</p>	<p>Weinidog, nid yw hynny'n gywir mewn gwirionedd. Mae'n berthnasol i bob cartref yn Lloegr, nid cartrefi newydd yn unig. Yn wir, mae wedi dangos-. Diolch yn fawr am yr atebion ysgrifenedig a gefais gennych oherwydd benthycwyd llai na chwarter y swm a fenthycwyd hyd yn hyn o dan gynllun Cymorth i Brynu Cymru i brynwyr tai yng ngogledd Cymru ac yn fwy penodol, nid oes neb o ardaloedd gwledig fel Sir Ddinbych ac Ynys Môn wedi cymryd rhan yn y cynllun o gwbl. Rwyf wedi tynnu eich sylw'n gyson at y pryder fod hyn yn cael effaith negyddol ar ardaloedd gwledig am fod llawer llai o adeiladu o'r newydd yn digwydd mewn ardaloedd o'r fath. Weinidog, gwn eich bod wedi ymrwymo i edrych ar y mater. A ydych wedi gorffen eich ymchwiliad yn hynny o beth? Beth oedd eich casgliadau?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:01	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>Let me just remind the Member that over a fifth of all completions through the scheme have been in mid and north Wales, which includes rural areas. The details of each completed sale through the Help to Buy-Wales scheme can be found on the Welsh Government website and I urge the Member to look at that.</p>	<p>Gadewch i mi atgoffa'r Aelod fod dros un rhan o bump o'r holl dai a gwblhawyd drwy'r cynllun wedi bod yng nghanolbarth a gogledd Cymru, sy'n cynnwys ardaloedd gwledig. Mae manylion pob gwerthiant a gwblhawyd drwy gynllun Cymorth i Brynu Cymru i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru ac rwy'n annog yr Aelod i edrych arni.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

15:02

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch yr Ymchwiliad i Rôl Cymru yn y Broses o Wneud Penderfyniadau yn yr UE

I call on the Chairman of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, David Melding, to move the motion.

Cynnig NDM5518 David Melding

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar ei ymchwiliad i rôl Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mawrth 2014.

The Constitutional and Legislative Affairs Committee's Report on its Inquiry into Wales's Role in the EU Decision-making Process

Llywydd / The Presiding

Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, David Melding, i gynnig y cynnig.

Motion NDM5518 David Melding

To propose that the National Assembly for Wales:

Notes the report of the Constitutional and Legislative Affairs Committee on its inquiry into Wales' role in the EU decision-making process, which was laid in the Table Office on 6 March 2014.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:02

David Melding [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move the motion.

It is a pleasure to introduce today's report. It was in fact published in March as the culmination of a long inquiry into how Welsh interests are represented and how Wales's voice is heard in EU decision making. It was an enlightening piece of work for us. We found many things that were curious and inspiring and learned a lot about the whole process, which is not always very clearly understood. We are very grateful to all the witnesses who helped us in our inquiry, including Ministers from this administration, London and also Edinburgh. In June and October, we undertook two rapporteur visits to Brussels and spoke to a wide range of people there, including Welsh MEPs and officials from EU institutions and other organisations. Again, we are very grateful for the very full co-operation that we received.

As the key findings and observations from this inquiry show, a strong voice for Wales in the EU is vital, and not least now that a new European Parliament has been elected. We made 13 recommendations, 12 of which relate to the Welsh Government, and I will highlight some of these as I go through the report now. Most of the evidence that we took was related in some way to the activities of the Government here, and so most of the things that I will say will in fact be about the Welsh Government's role in EU decision making.

Cynigaf y cynnig.

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r adroddiad heddiw. Cafodd ei gyhoeddi ym mis Mawrth mewn gwirionedd, yn benllanw ymchwiliad hir i sut y caiff buddiannau Cymru eu cynrychioli a sut y mae llais Cymru yn cael ei glywed yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE. Roedd yn waith a'n goleuodd yn fawr. Gwelsom lawer o bethau a ddenodd ein chwilfrydedd ac a'n hysbrydolodd, a dysgasom lawer am yr holl broses nad yw bob amser yn hawdd iawn i'w deall. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r holl dystion a'n cynorthwyodd gyda'n hymchwiliad gan gynnwys Gweinidogion y weinyddiaeth hon, a Llundain a Chaeredin hefyd. Ym mis Mehefin a mis Hydref, cynhaliwyd dau ymweliad rapporteur â Brwsel a siaradasom ag ystod eang o bobl yno, gan gynnwys aelodau o senedd Ewrop o Gymru a swyddogion yn sefydliadau'r UE a sefydliadau eraill. Unwaith eto, rydym yn ddiolchgar iawn am y cydweithrediad llawn a gawsom.

Fel y dengys canfyddiadau a sylwadau allweddol yr ymchwiliad hwn, mae sicrhau llais cryf i Gymru yn yr UE yn hanfodol ac yn fwy felly gan fod Senedd Ewropeaidd newydd wedi cael ei hethol bellach. Gwnaethom 13 o argymhellion, 12 ohonynt yn ymwneud â Llywodraeth Cymru, a byddaf yn tynnu sylw at rai o'r rhain wrth i mi fynd drwy'r adroddiad yn awr. Roedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth a gasglwyd gennym yn gysylltiedig mewn rhyw ffordd â gweithgareddau'r Llywodraeth hon, felly mewn gwirionedd, bydd y rhan fwyaf o'r pethau y byddaf yn eu dweud yn ymwneud â rôl Llywodraeth Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I will look first at how we gain effective influence. The evidence clearly demonstrated to us that good communication, an effective presence, the timing of engagement and strong personal contacts were all crucial to gain influence in Brussels. The qualities of these networks, the relationships with key players and the culture of co-operation that then develops are very important. Broadly, we found that there were excellent networks and working relationships in place, and that Wales greatly benefits from them and is likely to continue to do so. However, there is always scope for improvement, and we did identify some ways in which these relationships could be strengthened, extended and perhaps used more imaginatively. The timing of engagement is crucial. Broadly speaking, early engagement is the best form of engagement, particularly with the Commission as it develops its policy proposals. If we want Welsh concerns to be reflected, we have to be aware of the importance of intervening early.

I will say a few things about the need for a strategic approach. In order to maximise our effectiveness in the EU, it is crucial for the Welsh Government to identify clearly its priorities, to set strategic goals and ways that it can deliver them, and to monitor those carefully. That inevitably means that the Welsh Government has to take a very active approach to engagement and a very flexible one.

Unfortunately, there are aspects of the Welsh Government's existing EU strategy that can appear somewhat aspirational. That is not a problem if it is then followed up by a clear path to implementing these aspirations, but we do not see many targets or milestones built into the process for the evaluation or measurement of success. I feel that this is something of a problem at the moment.

In a constructive response to our report, there are just one or two signs in that response of a fairly flat and unimaginative assessment of the situation, and, perhaps, a rather descriptive approach to what is going on at the moment. I think that we need to go a bit beyond that because the structures are robust and the culture is broadly a robust one, and we should set higher ambitions for what we achieve through it.

Therefore, we recommend that the Welsh Government reviews and revises its EU strategy, with each priority area having clear targets set with information about how they are to be delivered and who will be involved in the consultation, design, planning and delivery. Such a focused approach is achievable. It is fair to say that we found pleasing evidence that the Welsh Government, through its soft diplomacy in particular, has built excellent relations in Brussels in the areas of agriculture and structural funds. However, this best practice needs to be made common practice in the Welsh Government's engagement with the EU in all areas that have particular significance for Wales. As a consequence, we have recommended that the Welsh Government regularly reviews its use of soft diplomacy, identifying its priorities for EU engagement to ensure that it can achieve its strategic vision and goals.

Byddaf yn edrych yn gyntaf ar sut rydym yn sicrhau dylanwad effeithiol. Dengys y dystiolaeth yn glir fod cyfathrebu da, presenoldeb effeithiol, amseriad mentrau ymgysylltu a chysylltiadau personol cryf i gyd yn hanfodol er mwyn cael dylanwad ym Mrwsel. Mae nodweddion y rhwydweithiau hyn, y cydberthnasau â chwaraewyr allweddol a'r diwylliant o gydweithio sy'n datblygu yn sgîl hynny yn bwysig iawn. Yn fras, gwelom fod rhwydweithiau a chydberthnasau gwaith rhagorol yn bodoli a bod Cymru yn elwa'n fawr ohonynt ac yn debygol o barhau i wneud hynny. Er hynny, mae lle bob amser i wella ac rydym wedi nodi rhai ffyrdd y gellid cryfhau'r cydberthnasau hyn, eu hymestyn ac efallai eu defnyddio'n fwy dychmygus. Mae amseriad mentrau ymgysylltu yn hanfodol. Yn gyffredinol, ymgysylltu'n gynnar yw'r ffordd orau o ymgysylltu, yn enwedig gyda'r Comisiwn wrth iddo ddatblygu ei gynigion polisi. Os ydym am dynnu sylw at bryderon Cymreig, rhaid i ni fod yn ymwybodol o bwysigrwydd ymyrryd yn gynnar.

Soniaf ychydig am yr angen am ddull strategol. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar ein heffeithiolrwydd yn yr UE, mae'n hanfodol i Lywodraeth Cymru nodi ei blaenoriaethau'n eglur, gosod nodau strategol a ffyrdd o'u cyflawni, a monitro hynny'n ofalus. Yn anochel, golyga hynny fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru feithrin ymagwedd weithredol a hyblyg iawn tuag at ymgysylltu.

Yn anffodus, mae agweddau ar strategaeth bresennol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr UE yn gallu ymddangos braidd yn uchelgeisiol. Nid yw hyn yn broblem os yw'n arwain at lwybr clir ar gyfer gweithredu'r dyheadau hyn ond nid ydym yn gweld llawer o dargedau na cherrig milltir yn cael eu cynnwys yn y broses o werthuso na mesur llwyddiant. Rwy'n teimlo bod hyn yn broblem braidd ar hyn o bryd.

Mewn ymateb adeiladol i'n hadroddiad, dim ond un neu ddau arwydd a geir yn y cyfryw ymateb o asesiad eithaf gwastad a diddychymyg o'r sefyllfa ac ymagwedd eithaf disgrifiadol efallai o'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd. Credaf fod angen i ni fynd ychydig ymhellach na hynny am fod y strwythurau yn gadarn a'r diwylliant yn un cadarn ar y cyfan, a dylem osod uchelgeisiau uwch ar gyfer yr hyn a gyflawnwn drwyddo.

Felly rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ac yn diwygio ei strategaeth ar gyfer yr UE, gan bennu targedau clir ar gyfer pob maes blaenoriaeth gyda gwybodaeth ynglŷn â sut y cânt eu cyflawni a phwy fydd yn rhan o'r ymgynghoriad a'r gwaith o ddylunio, cynllunio a chyflawni. Mae modd cyflawni dull â ffocws o'r fath. Mae'n deg dweud ein bod wedi gweld tystiolaeth galonogol fod Llywodraeth Cymru, drwy ei diplomyddiaeth feddal yn arbennig, wedi meithrin cydberthnasau ardderchog ym Mrwsel ym meysydd amaethyddiaeth a chronfeydd strwythurol. Fodd bynnag, mae angen i arfer da o'r fath ddod yn arfer cyffredin drwy ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â'r UE ym mhob maes sydd ag arwyddocâd penodol i Gymru. O ganlyniad, rydym wedi argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei defnydd o ddiplomyddiaeth feddal yn rheolaidd, gan nodi ei blaenoriaethau ar gyfer ymgysylltu â'r UE er mwyn sicrhau y gall gyflawni ei gweledigaeth a'i nodau strategol.

We have recommended that the Wales House could be improved and strengthened by having a business and a third sector presence, with the Welsh Government actively supporting and encouraging this change. It could be a really vital hub; it is in part now, but it could go further. We have also recommended that the Welsh Government provides leadership by playing a more strategic and co-ordinating role in the organisations that are present in the Wales House and those that should be brought into that operation. That is particularly important when we look at new EU funding programmes for 2014-20, including Horizon 2020.

I will now turn to the relationships with the UK Government. This really is the heart of the so-called Bridgend question, put forward by the First Minister and regarding concerns about the rights of devolved Ministers to speak at council in particular. It was one of the key motivations for our inquiry. In practice, we found that there was not a great problem in the way that relations currently operate. However, there were, perhaps, some issues about how a lot of this is dependent on good chemistry in current relationships. The First Minister acknowledged that JMC Europe is working well, and could address most of the Bridgend questions that he raised, as long as there is a degree of goodwill among all the parties. At the moment, we found evidence that that goodwill exists. It was our view that JMC Europe was the critical body for Wales, in terms of how the Welsh Government influences EU decision making through the UK Government. In recognition, therefore, of this importance, we recommend that the Welsh Government makes an annual statement on how JMC Europe is working, from the point of view of the Welsh Government.

I will now say a few words about the European Parliament. It has been reformed remarkably in the decision-making process as a result of the Treaty of Lisbon. The new power that the European Parliament has is something that we should not, in any way, ignore. Therefore, relations with MEPs are very important. Once again, we thought that there was a pretty good track record here, but perhaps this could be more co-ordinated and more thorough as well. It is good with the Welsh MEPs, but we should not forget all of the MEPs who have a particular interest in issues that are of especial concern to the Welsh Government, and developing those broader contacts is very important. Therefore, we recommend that the Welsh Government reviews its approach to engaging with Welsh MEPs and, in doing so, also covers issues like the one that I have just mentioned of not forgetting MEPs in general from other countries.

I want to say a few words about the Committee of the Regions and the European Economic and Social Committee. However, I want to leave time for my reply, so I will just say that these are important treaty bodies and we need to take their role very seriously. They need a bit more support, and that is something that we could, perhaps, focus upon. In particular, we feel that there could be a report here back from our members of the Committee of the Regions and a statement made on its work.

Rydym wedi argymhell y gellid gwella Tŷ Cymru a'i gryfhau drwy gael presenoldeb busnes a'r trydydd sector, gyda Llywodraeth Cymru yn mynd ati i gefnogi ac annog y newid hwn. Gallai fod yn ganolbwynt gwirioneddol allweddol; mae felly eisoes yn rhannol ond gallai fynd ymhellach. Rydym hefyd wedi argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnig arweinyddiaeth drwy chwarae rhan fwy strategol a chydgyssylltiedig yn y cyrff sy'n bresennol yn Nhŷ Cymru a'r rhai y dylid eu dwyn i mewn i'r gwaith hwnnw. Mae'n arbennig o bwysig wrth ystyried rhaglenni ariannu newydd yr UE ar gyfer 2014-20, gan gynnwys Horizon 2020.

Trof yn awr at y berthynas gyda Llywodraeth y DU. Dyma mewn gwirionedd yw calon cwestiwn Pen-y-bont ar Ogwr fel y'i gelwir, a gyflwynwyd gan y Prif Weinidog ac sy'n ymwneud â phryderon ynghylch hawliau Gweinidogion datganoledig i siarad yn y cyngor yn benodol. Roedd yn un o'r ysgogiadau allweddol ar gyfer ein hymchwiliad. Yn ymarferol, canfuom nad oedd problem fawr o ran y ffordd y mae'r cydberthnasau yn gweithredu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, efallai fod rhai materion yn codi ynghylch sut y mae llawer o hyn yn dibynnu ar gemeg da mewn cydberthnasau cyfredol. Cydnabu'r Prif Weinidog fod Cyd-bwyllgor Gweinidogion Ewrop yn gweithio'n dda a gallai fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r cwestiynau Pen-y-bont ar Ogwr a godwyd ganddo cyn belled â bod rhywfaint o ewyllys da ymhlith yr holl bleidiau. Ar hyn o bryd, gwelom dystiolaeth fod ewyllys da yn bodoli. Yn ein barn ni, Cyd-bwyllgor Gweinidogion Ewrop oedd y corff allweddol i Gymru o ran sut y mae Llywodraeth Cymru yn dylanwadu ar benderfyniadau drwy Lywodraeth y DU. I gydnabod y pwysigrwydd hwn felly, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud datganiad blynyddol ar sut y mae Cyd-bwyllgor Gweinidogion Ewrop yn gweithio o safbwynt Llywodraeth Cymru.

Rwyf am sôn ychydig am y Senedd Ewropeaidd. Mae wedi cael ei diwygio'n hynod o ran y broses o wneud penderfyniadau o ganlyniad i Gytundeb Lisbon. Mae'r pŵer newydd sydd gan y Senedd Ewropeaidd yn rhywbeth na ddylem ei anwybyddu mewn unrhyw ffordd. Felly, mae cydberthynas ag aelodau o senedd Ewrop yn bwysig iawn. Unwaith eto, credem fod record eithaf da yma ond efallai y gallai hyn fod yn fwy cydgyssylltiedig ac yn fwy trylwyr yn ogystal. Mae'n gweithio'n dda gydag ASEau Cymru, ond ni ddylem anghofio'r holl ASEau sydd â diddordeb arbennig mewn materion sy'n peri pryder neilltuoel i Lywodraeth Cymru ac mae datblygu'r cysylltiadau ehangach hynny'n bwysig iawn. Felly rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei dull o ymgysylltu ag ASEau o Gymru ac wrth wneud hynny, yn cynnwys materion fel yr un rwyf newydd ei grybwyll hefyd, sef peidio ag anghofio ASEau o wledydd eraill yn gyffredinol.

Hoffwn ddweud ychydig eiriau am Bwyllgor y Rhanbarthau a Phwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop. Fodd bynnag, hoffwn adael amser ar gyfer fy ateb felly rwyf am ddweud yn syml bod y rhain yn gyrrff pwysig o dan y cytundeb ac mae angen i ni roi ystyriaeth ddifrifol iawn i'w rôl. Maent angen ychydig mwy o gymorth ac efallai fod hynny'n rhywbeth y gallem ganolbwyntio arno. Yn benodol, teimlwn y gallai ein haelodau o Bwyllgor y Rhanbarthau adrodd yn ôl i ni a chynhyrchu datganiad ar ei waith.

I will conclude by saying that there is a lot of evidence of a robust approach by the Welsh Government. Generally, we were pleased by what is going on. There needs to be a slightly more formal and robust structure, and there needs to be more effective strategic engagement and, perhaps, we need to raise some of our expectations about what we can achieve. However, the work that is currently being undertaken is, in many ways, achieving some of the core aims that we need to see in an EU engagement strategy, but we have indicated some ways in which it can be strengthened still further.

15:12

Mick Antoniw [Bywgraffiad Biography](#)

I very much welcome the report. Of course, this is a report that will be followed in due course by the report of the Enterprise and Business Committee, which has been looking at EU funding. The reason that this is an important report is that our voice and our representation in Wales have a significant impact not just on funding, but in terms of the partnerships and relationships that we develop with a number of European countries. The report highlights a series of issues that are worth looking at and are worth reviewing.

There are a couple of points that I would particularly like to focus on. First, on the Committee of the Regions—and I am the representative of the Welsh Government's party on the Committee of the Regions—this is a body, a tool in the armoury effectively, that gives us a voice in Brussels. Why is it important? It is as important as you want to make it in terms of what you want to achieve. It enables us to assist in gaining access to the Commission, to gain access to key individuals in Europe, and it is also a way to showcase and to promote the interests of Wales and what we are doing in Wales. It was very interesting that, at the last plenary session, I was able to join in the debate on the fact that Europe is now considering extending legislation with regard to the elimination of the use of plastic bags. Therefore, with regard to the charge of 5p for a bag, which has been followed by England and Scotland, I was able to say that not only is Wales leading in the UK, but it appears to be leading in Europe as well.

What is important is that this is not some pleasure trip where someone goes over for the sake of it; it is something where there has to be accountability to the Assembly and the Welsh Government, and also there has to be a specific purpose to what we are doing and we have to be a part of a strategy. That is what is beginning to be established. That is why I welcome the recommendation about a report, so that the work that Rhodri Glyn and I are doing is reported to the Assembly, so that we are accountable for what we do and what we say while participating in that process, and that is scrutinised by Members and forms part of a broader strategy.

Rwyf am gloi drwy ddweud bod llawer o dystiolaeth fod dull cadarn ar waith gan Lywodraeth Cymru. Yn gyffredinol, roeddem yn falch o'r hyn sy'n digwydd. Mae angen strwythur ychydig yn fwy ffurfiol a chadarn ac ymgysylltiad strategol mwy effeithiol, ac efallai fod angen codi rhai o'n disgwyliadau o ran yr hyn y gallwn ei gyflawni. Fodd bynnag, mewn sawl ffordd mae'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd yn cyflawni rhai o'r nodau craidd y mae angen i ni eu gweld mewn strategaeth ymgysylltu ar gyfer yr UE, ond rydym wedi nodi rhai ffyrdd y gellir ei chryfhau ymhellach.

Rwy'n croesawu'r adroddiad yn fawr iawn. Wrth gwrs, dyma adroddiad a fydd yn cael ei ddilyn maes o law gan adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes, sydd wedi bod yn edrych ar arian yr UE. Y rheswm pam y mae hwn yn adroddiad pwysig yw bod ein llais a'n cynrychiolaeth yng Nghymru yn cael effaith sylweddol nid yn unig ar gyllid, ond o ran y partneriaethau a'r cydberthnasau a ddatblygwn gyda nifer o wledydd Ewropeaidd. Mae'r adroddiad yn amlygu cyfres o faterion sy'n werth edrych arnynt a'u hadolygu.

Mae un neu ddau o bwyntiau yr hoffwn ganolbwyntio arnynt yn benodol. Yn gyntaf, ynghylch Pwyllgor y Rhanbarthau—ac rwy'n gynrychiolydd plaid Llywodraeth Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau—dyma gorff sy'n arf yn yr arfogaeth ar gyfer rhoi llais i ni ym Mrwsel i bob pwrpas. Pam y mae'n bwysig? Mae mor bwysig ag y dymunwch ei wneud o ran yr hyn rydych am ei gyflawni. Mae'n ein helpu i sicrhau mynediad i'r Comisiwn, i sicrhau mynediad at unigolion allweddol yn Ewrop, ac mae hefyd yn ffordd o arddangos ac o hyrwyddo buddiannau Cymru a'r hyn rydym yn ei wneud yng Nghymru. Yn y sesiwn lawn ddiwethaf, roedd hi'n ddiddorol fy mod wedi gallu ymuno yn y drafodaeth ynghylch y ffaith fod Ewrop yn awr yn ystyried ymestyn y ddeddfwriaeth mewn perthynas â dileu'r defnydd o fapiau plastig. Felly, o ran codi tâl o 5c am fag, arfer y mae Lloegr a'r Alban wedi'i ddilyn, roeddwn yn gallu dweud nid yn unig fod Cymru wedi arwain ar hyn yn y DU ond ei bod hi'n ymddangos ei bod yn arwain ar hyn yn Ewrop yn ogystal.

Yr hyn sy'n bwysig yw'r ffaith nad taith bleser yw hon lle bydd rhywun yn mynd drosodd er mwyn mynd drosodd; mae'n rhywbeth sy'n galw am atebolrwydd i'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru a hefyd, rhaid bod diben penodol i'r hyn rydym yn ei wneud a rhaid i ni fod yn rhan o strategaeth. Dyna'r hyn sy'n dechrau cael ei sefydlu. Dyna pam rwy'n croesawu'r argymhelliad ynghylch adroddiad, fel bod y gwaith y mae Rhodri Glyn a minnau yn ei wneud yn cael ei adrodd i'r Cynulliad, fel ein bod yn atebol am yr hyn a wnawn a'r hyn a ddywedwn wrth gymryd rhan yn y broses honno, proses a gaiff ei chraffu gan yr Aelodau ac sy'n rhan o strategaeth ehangach.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

What is also important is the fact that there should be an annual report. That adds to the whole process—the accountability and the review—because that illustrates and expresses the importance with which we regard these European affairs. One thing that is important, Minister, is recommendation 3 in particular, because in your reply to the recommendations you accept recommendation 3, and you refer to the co-ordination that has been going on in terms of the various bodies. I think that that needs to be a bit stronger; we need to look at formalising that. The reason I say that is because there is a whole series of bodies from higher education, local government, and so on, that play a very important role out there, but the extent to which they are part of a common strategy and common interest is not clear. To some extent, there appears to be a certain amount of competition between bodies and between higher education bodies and so on, and I think collectively, perhaps with a slightly greater formalisation of that structure, we can achieve more and raise and increase the professionalism and profile that Wales has. I think it is disappointing, for example, that CBI Wales does not have a presence there, because I think there needs to be a more specific business interest there as well.

In summary, I think this is a very useful report, and I look forward to seeing the outcome of it in due course. I also look forward to what I hope will be an annual debate on European issues and far greater scrutiny of the role that the various agencies and individuals involved in various European committees, and so on, play within a strategic role in this Assembly.

15:16

Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am delighted also to contribute to today's debate regarding the recent Constitutional and Legislative Affairs Committee report into Wales's role in the EU decision-making process. This report is very timely given the focus on the EU of late and the recent European elections. While I congratulate all of Wales's new MEPs, it would be remiss not to congratulate Kay Swinburne and those of the parties re-elected also, all of whom have done so much for Wales and I know will continue to do so.

On that note, it would be good at this juncture perhaps to highlight recommendation 7, namely

'that the Welsh Government reviews its approach to engaging with Welsh MEPs'.

Paragraph 75 of the report sets it out well. This recommendation was evidenced in the report, as

'it was felt that the Welsh Government could do more to engage and provide relevant information to all four Welsh MEPs'.

Mater arall o bwys yw'r ffaith y dylai'r adroddiad fod yn flynyddol. Mae hynny'n ychwanegu at y broses gyfan—yr atebolrwydd a'r broses o adolygu—gan fod hynny'n dangos ac yn mynegi'r pwys a rown i'r materion Ewropeaidd hyn. Un peth sy'n bwysig, Weinidog, yw argymhelliad 3 yn arbennig, oherwydd yn eich ymateb i'r argymhellion rydych yn derbyn argymhelliad 3 a chyfeiriwch at y cydlyniant a gafwyd rhwng y gwahanol gyrff. Rwy'n credu bod angen cryfhau ychydig ar hynny; mae angen i ni ystyried ei ffurfioli. Y rheswm rwy'n dweud hyn yw bod cyfres gyfan o gyrff addysg uwch, llywodraeth leol ac yn y blaen yn chwarae rhan bwysig iawn yn Ewrop ond nid yw'n eglur i ba raddau y maent yn rhan o strategaeth gyffredin a diddordeb cyffredin. I ryw raddau, ymddengys bod rhywfaint o gystadleuaeth rhwng gyrff a rhwng gyrff addysg uwch ac yn y blaen, a gydag ychydig mwy o ffurfioli ar strwythur hwnnw efallai, rwy'n credu y gallwn gyflawni mwy gyda'n gilydd a datblygu a chynyddu proffesiynoldeb a phroffil Cymru. Credaf ei bod yn siomedig, er enghraifft, nad oes gan CBI Cymru bresenoldeb yno gan fy mod yn credu bod angen rhoi sylw mwy penodol i fusnes yno hefyd.

I grynhoi, rwy'n credu bod hwn yn adroddiad defnyddiol iawn ac edrychaf ymlaen at weld ei ganlyniadau maes o law. Rwyf hefyd yn edrych ymlaen at yr hyn rwy'n gobeithio a fydd yn ddadl flynyddol ar faterion Ewropeaidd a llawer mwy o graffu ar gyfraniad y gwahanol asiantaethau ac unigolion sy'n rhan o wahanol bwyllgorau yn Ewrop, ac yn y blaen, o fewn rôl strategol yn y Cynulliad hwn.

Rwyf hefyd yn falch iawn o gyfrannu at y ddadl heddiw ynghylch adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ddiweddar ar rôl Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE. Mae'r adroddiad yn amserol iawn o ystyried y ffocws ar yr UE a'r etholiadau Ewropeaidd yn ddiweddar. Er fy mod yn llongyfarch pob un o ASEau newydd Cymru, ni fyddai'n briodol i mi beidio â llongyfarch Kay Swinburne a'r rhai a ail-etholwyd o'r pleidiau y mae pob un ohonynt wedi gwneud cymaint dros Gymru a gwn y byddant yn parhau i wneud hynny.

Ar y nodyn hwnnw, efallai y byddai'n beth da ar yr adeg hon i dynnu sylw at argymhelliad 7, sef

'bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei dull o ymgysylltu ag ASEau Cymru.'

Mae paragraff 75 yr adroddiad yn ei osod yn dda. Cafwyd tystiolaeth i gefnogi'r argymhelliad yn yr adroddiad oherwydd

'teimlwyd y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i ymgysylltu a darparu gwybodaeth berthnasol i'r pedwar ASE o Gymru.'

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In particular, there was perceived to be a lack of information on Welsh Government positions on EU policy and legislative developments, with the exception of a number of key areas. The lack of systematic briefing by Welsh Government to all Welsh MEPs on some but not all dossiers was contrasted with the briefings by UKRep to all UK MEPs. The UK Government is very clearly setting out its positions, but, as on too many other issues, the Welsh Government either does not have a position or neglects to lobby, negotiate or inform decision makers.

I know from my own experience of dealing with Kay Swinburne that her expertise and influence, together with the other MEPs in Wales, has led to a number of successes, particularly in South Wales West, most notably helping to secure finance to build the new university campus in Swansea. This is a clear example of where teamwork really does deliver results for Wales, and, as set out in this report, the Welsh Government has to join the rest of us, and I say it again in this Chamber, in the Team Wales approach. I pay tribute to all the MEPs for this approach, across parties.

A further recommendation that I would like to tease out of this report is recommendation 4, namely that

‘the Welsh Government continues to place a high priority on its involvement in the preparation of the UK speaking note’

and policy dossiers. This is only right and proper given the member state in EU negotiations is the United Kingdom of Great Britain, of which we are part. The mature approach that I have, at times, witnessed between Ministers here and in Westminster is a testament to much of the good work behind the scenes. He is not in the Chamber at the moment, but I know that Alun Davies and his counterparts have had robust exchanges, but, when representing the member state in negotiations, they speak as one. I only wish that the First Minister would join in this Team Wales approach and embrace the mature exchange between either ends of the M4.

In my final remarks, I would like to commend this report and its recommendations. I note with sadness that not all of the recommendations were accepted. So, Members, we have an opportunity through European programmes to transform Wales, but it will require this Team Wales approach that has been formed by our MEPs. Long may it develop and long may it last.

Yn benodol, ystyrid bod diffyg gwybodaeth am safbwyntiau Llywodraeth Cymru ar bolisi'r UE a datblygiadau deddfwriaethol ac eithrio nifer o feysydd allweddol. Cafodd diffyg cyfarwyddyd systematig gan Lywodraeth Cymru i bob ASE o Gymru ynghylch rhai coflenni, er nad pob un, ei gyferbynnu â chyfarwyddyd UKRep i bob ASE o'r DU. Mae'n amlwg iawn fod Llywodraeth y DU yn nodi ei safbwyntiau ond, fel ar ormod o faterion eraill, nid oes gan Lywodraeth Cymru safbwynt neu mae'n esgeuluso'r broses o lobio, trafod neu roi gwybodaeth i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

Rwy'n gwybod o fy mhrofiad fy hun o ymdrin â Kay Swinburne fod ei harbenigedd a'i dylanwad, ynghyd ag ASEau eraill Cymru, wedi arwain at nifer o lwyddiannau, yn enwedig yng Ngorllewin De Cymru, yn fwyaf nodedig drwy helpu i sicrhau cyllid i adeiladu'r campws prifysgol newydd yn Abertawe. Mae hon yn enghraifft amlwg o waith tîm yn sicrhau canlyniadau ar gyfer Cymru mewn gwirionedd ac fel y mae'r adroddiad yn nodi, rhaid i Lywodraeth Cymru ymuno â'r gweddill ohonom, ac rwy'n ei ddweud eto yn y Siambr hon, yn y dull Tîm Cymru o fynd ati. Rwy'n talu teyrnged i'r holl Aelodau o Senedd Ewrop am weithredu ymagwedd o'r fath ar draws y pleidiau.

Argymhelliad arall yr hoffwn dynnu sylw ato yn yr adroddiad hwn yw argymhelliad 4, sef

‘bod Llywodraeth Cymru yn parhau i roi blaenoriaeth uchel i'w chyfraniad at y gwaith o baratoi nodyn annerch y DU’

a choflenni polisi. Nid yw hyn ond yn iawn ac yn briodol o ystyried mai'r aelod-wladwriaeth yn nhreffodaethau'r UE yw Teyrnas Unedig Prydain Fawr rydym yn rhan ohoni. Mae'r dull aeddfed y bûm yn dyst iddo ar brydiau rhwng Gweinidogion yma ac yn San Steffan yn brawf o lawer o'r gwaith da y tu ôl i'r llenni. Nid yw yn y Siambr ar hyn o bryd, ond gwn fod Alun Davies a'i gymheiriaid wedi cael dadleuon bywiog ond wrth gynrychioli'r aelod-wladwriaeth mewn trafodaethau, maent yn siarad fel un. O na bai'r Prif Weinidog yn ymuno mewn dull Tîm Cymru o'r fath ac yn croesawu trafod aeddfed rhwng y pen yma a'r pen arall i'r M4.

Yn fy sylwadau terfynol, hoffwn gymeradwyo'r adroddiad hwn a'i argymhellion. Nodaf gyda thristwch nad yw pob un o'r argymhellion wedi'u derbyn. Felly, Aelodau, mae gennym gyfle drwy raglenni Ewropeaidd i drawsnewid Cymru ond bydd angen dull Tîm Cymru a ffurfiwyd gan ein ASEau er mwyn gwneud hynny. Boed iddo ddatblygu a hir y parhaed.

We have all just come out of a bruising European election campaign, though I have to say to Byron Davies that the election is over now; I think some of your comments were more directed at a fortnight ago. That election campaign had something called an aftershock, or an earthquake, rather, in UK politics. I do not see it as an earthquake; I do see it as the aftershock of the banking crisis, which led to the crisis in capitalism, which led to the euro crisis, which has led to a lack of faith among many of our people in the EU in its institutions and in the way that the voice of Wales is represented in those institutions.

This report that we are debating today may be as dry as dust for many people who do not generally follow these things, but it is an important report. It is particularly important as a counter argument and an antidote to those who see an easy quick fix to international relations and global capitalism—namely that we simply withdraw from dealing with those institutions. We in Plaid Cymru recognise that that would not solve the fundamental questions of democracy, justice and equality between workers in Europe. We particularly reject the hypocrisy of those who would restrict the free movement of Welsh workers and are now elected MEPs, but took advantage of that free movement to stuff migrant workers into bunkhouses and make personal profit on the back of that. Even having done that, their business went bust, owing over £100,000 to local businesses. I think that is the kind of hypocrisy that we need to fight, not the slow and turgid decision making that Europe represents. It does not represent that fundamental hypocrisy to the people of Wales.

We recognise that the EU is in need of reform. Indeed, our message as Plaid Cymru, of a direct voice for Wales in Europe, and maximising the role of non-member nation states and regions, could be seen as being far more radical and revolutionary than those who would seek to return to past certainties that have already been swept away by global change. Not only does the union need to connect better with its citizens, but the large member states themselves cannot be the only way for citizens to access the EU and its institutions. Non-member states and citizen bodies have to also have a voice. This report shows, in part, how Wales can deliver that.

The Chair is a great diplomat, apart from when he is remonstrating with some of us here. So, I have to say, in a different way, as regards the Government's response to this report, I am very disappointed with it. I think it is weak-willed, half-hearted and will not help bridge that democratic deficit. That is because the Government, though it says it accepts all recommendations except one, and the one that is not relevant to it, says that on the basis that it is doing these things already. I would ask you to look back and examine again what the report says and genuinely question whether you are achieving this. I do not think this committee would have embarked on our inquiry, or written this report for the Assembly's consideration, if we thought this was already being done, to be honest.

Mae pawb ohonom newydd wynebu ymgyrch galed etholiadau Ewrop er bod yn rhaid i mi ddweud wrth Byron Davies fod yr etholiad ar ben yn awr; rwy'n credu y byddai rhai o'ch sylwadau yn fwy perthnasol bythefnos yn ôl. Roedd rhywbeth a elwir yn ôl-gryniad, neu ddaeargryn yn hytrach, i'r ymgyrch etholiadol honno yng ngwleidyddiaeth y DU. Nid wyf yn ei ystyried yn ddaeargryn; rwy'n ei weld fel ôl-gryniad yn dilyn yr argyfwng bancio, a arweiniodd at argyfwng mewn cyfalafiaeth, a arweiniodd at argyfwng yr ewro, sydd wedi arwain at ddiffyg ffydd llawer o'n pobl yn yr UE, yn ei sefydliadau ac yn y ffordd y caiff llais Cymru ei chynrychioli yn y sefydliadau hynny.

Gall yr adroddiad hwn rydym yn ei drafod heddiw fod mor sych â llwch i lawer o bobl nad ydynt yn dilyn y pethau hyn fel y cyfryw, ond mae'n adroddiad pwysig. Mae'n arbennig o bwysig fel gwrthdadl a gwrthwenwyn i'r rhai sy'n ei weld yn ateb cyflym hawdd o ran cysylltiadau rhyngwladol a chyfalafiaeth fyd-eang—sef ein bod yn syml yn tynnu'n ôl o ymdrin â'r sefydliadau hynny. Rydym ni ym Mhlaid Cymru yn cydnabod na fyddai hynny'n datrys cwestiynau sylfaenol democratiaeth, cyfiawnder a chydraddoldeb rhwng gweithwyr yn Ewrop. Yn benodol, gwrthodwn ragrith y rhai a fyddai'n cyfyngu ar allu gweithwyr Cymru i symud yn rhydd ac sydd bellach yn ASEau etholedig, ond yn manteisio ar symud rhydd o'r fath er mwyn stwffio gweithwyr mudol i mewn i dai bynciau a gwneud elw personol ar gefn hynny. Hyd yn oed ar ôl gwneud hynny, aeth eu busnes i'r wal gyda dyledion o dros £100,000 i fusnesau lleol. Rwy'n meddwl mai dyna'r math o ragrith y mae angen i ni ei ymladd, nid y prosesau penderfynu araf a chwyddedig a welir yn Ewrop. Nid yw'n cynrychioli'r rhagrith sylfaenol hwnnw i bobl Cymru.

Rydym yn cydnabod bod angen diwygio'r UE. Yn wir, gellid ystyried bod ein neges ym Mhlaid Cymru ynghylch llais uniongyrchol i Gymru yn Ewrop a manteisio i'r eithaf ar rôl cenedl-wladwriaethau nad ydynt yn aelodau a rhanbarthau, yn llawer mwy radical a chwyldroadol na'r rhai a fyddai'n dymuno dychwelyd i sicrwydd y gorffennol a ysgubwyd ymaith eisoes gan newid byd-eang. Nid yn unig y mae angen i'r undeb gysylltu'n well â'i ddinasyddion, ond ni all yr aelod-wladwriaethau mawr eu hunain fod yr unig ffordd i ddinasyddion gael mynediad i'r UE a'i sefydliadau. Mae gan genedl-wladwriaethau nad ydynt yn aelodau lais hefyd. Dengys yr adroddiad hwn yn rhannol sut y gall Cymru gyflawni hynny.

Mae'r Cadeirydd yn ddiplomydd gwych ar wahân i pan fydd yn dadlau gyda rhai ohonom yma. Felly rhaid i mi ddweud mewn ffordd wahanol, o ran ymateb y Llywodraeth i'r adroddiad hwn, mae'n fy siomi'n fawr. Rwy'n credu ei fod yn wan, yn llugoer ac ni fydd yn helpu i bontio'r diffyg democrataidd. Mae hynny oherwydd bod y Llywodraeth, er yn dweud ei bod yn derbyn yr holl argymhellion ac eithrio un, a'r un nad yw'n berthnasol iddi, yn dweud hynny ar y sail ei bod yn gwneud y pethau hyn eisoes. Byddwn yn gofyn i chi i edrych yn ôl eto ar yr hyn y mae'r adroddiad yn ei ddweud a chwestiynu mewn gwirionedd pa un a ydych yn cyflawni hyn. I fod yn onest, nid wyf yn credu y byddai'r pwyllgor wedi cychwyn ar ein hymchwiliad nac wedi llunio'r adroddiad hwn i'r Cynulliad ei ystyried pe baem o'r farn fod hyn eisoes yn cael ei wneud.

For example, recommendation 2 calls for representatives of business and the third sector to be co-located in Brussels as part of the Welsh presence. Mick Antoniw touched on this. The Government says that it accepts this, but says that it will deal with this as the opportunities arise. I want to see something a bit more proactive from the Government on leading the way on that.

Recommendations 4 and 8, which Byron Davies touched upon, relate to how the Welsh Government can influence the UK speaking notes. Though I accept that, while we are a member of the UK, that is the avenue down which we go, it does not seem unreasonable to me that the Welsh Government should produce some kind of statements on the EU policy proposals that are really relevant to Wales and upon which the Welsh public may have a view.

Recommendations 12 and 13 are the overarching ones that talk about, for example, an annual debate here in the Chamber on the Welsh Government's EU strategy. I recognise that the Government has accepted that; I look forward to debating that and holding the Government to account on that. However, I think that it has been mealy-mouthed about the EU strategy, putting that strategy off because there are EU electoral cycles or because we need a new President of the Commission, when we already engage with structural policy reform now, as well as the common agricultural policy. I think we need an active, ongoing EU strategy from the Welsh Government that can be updated annually, debated annually, and on which we can hold the Government to account annually.

I welcome the recommendation on a written or oral statement from Assembly Member representatives on the Committee of the Regions to the Assembly. That is something that the Assembly has to take forward, so I hope that the Business Committee members, and the Presiding Officer and Deputy Presiding Officer, take that on board. I think that would enrich our understanding of the work of the Committee of the Regions and the voice of Wales in Europe.

We have to get a strong message out to the Welsh public that the European Union, and our membership of it, does work for Wales. It works for Welsh institutions, it works for the Welsh economy, it works for Welsh HE through Horizon 2020 and so forth. Unless we have that proper, honest and open debate, we will lose our link with Europe.

Er enghraifft, mae argymhelliad 2 yn galw am gyd-leoli cynrychiolwyr busnes a'r trydydd sector ym Mrwsel fel rhan o'r presenoldeb Cymreig. Cyfyrrdodd Mick Antoniw ar hyn. Mae'r Llywodraeth yn dweud ei bod yn derbyn y pwynt ond mae'n dweud y bydd yn ymdrin â hyn wrth i'r cyfle godi. Rwyf am weld y Llywodraeth yn arwain y ffordd yn fwy rhagweithiol ar hynny.

Mae argymhellion 4 ac 8 a grybwyllwyd gan Byron Davies yn ymwneud â sut y gall Llywodraeth Cymru ddylanwadu ar nodiadau annerch y DU. Er fy mod yn derbyn bod ein bod yn aelod o'r DU ac mai dyna'r ffordd y gwnawn bethau, nid yw'n ymddangos yn afresymol i mi y dylai Llywodraeth Cymru lunio rhyw fath o ddatganiadau ar gynigion polisi'r UE sy'n wirioneddol berthnasol i Gymru ac y gallai'r cyhoedd yng Nghymru fod â barn yn eu cylch.

Argymhellion 12 a 13 yw'r rhai trosfwaol sy'n sôn er enghraifft am ddadl flynyddol yma yn y Siambr ar strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr UE. Rwy'n cydnabod bod y Llywodraeth wedi derbyn hynny; edrychaf ymlaen at drafod hyn a dwyn y Llywodraeth i gyfrif o ran hynny. Fodd bynnag, rwy'n credu iddi fod yn weniethus ynghylch strategaeth yr UE gan ohirio'r strategaeth honno oherwydd cylchoedd etholiadol yr UE neu am fod angen Llywydd newydd ar y Comisiwn, a ninnau eisoes yn ymwneud â diwygio polisi strwythurol yn awr yn ogystal â'r polisi amaethyddol cyffredin. Rwy'n credu bod angen i Lywodraeth Cymru gael strategaeth weithredol, barhaus ar gyfer yr UE, strategaeth y gellir ei diweddarau'n flynyddol, ei thrafod yn flynyddol ac un y gallwn ddwyn y Llywodraeth i gyfrif yn ei chylch yn flynyddol.

Croesawaf yr argymhelliad ynghylch datganiad ysgrifenedig neu ar lafar gan gynrychiolwyr Aelodau'r Cynulliad ar Bwyllgor y Rhanbarthau i'r Cynulliad. Mae hynny'n rhywbeth sy'n rhaid i'r Cynulliad fwrw ymlaen ag ef felly rwy'n gobeithio bod aelodau'r Pwyllgor Busnes, y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn rhoi sylw i hynny. Rwy'n meddwl y byddai hynny'n cyfoethogi ein dealltwriaeth o waith Pwyllgor y Rhanbarthau a llais Cymru yn Ewrop.

Mae'n rhaid i ni gael neges gref allan i'r cyhoedd yng Nghymru fod yr Undeb Ewropeaidd a'n haelodaeth ohono yn gwneud gwaith dros Gymru. Mae'n gweithio dros sefydliadau yng Nghymru, mae'n gweithio dros economi Cymru, mae'n gweithio dros Addysg Uwch yng Nghymru drwy Horizon 2020 ac yn y blaen. Oni bai ein bod yn cael y ddadl briodol, agored a gonest honno, byddwn yn colli ein cysylltiad ag Ewrop.

I am also glad to contribute. The European Union, as we know, is incredibly important to Wales's economy and our society, so it is vital to understand how the European Union structures work and then how Wales can usefully engage with them. However, the truth is that those structures are enormously complex and I think that we have to accept that, if the structures are complex for a committee of parliamentarians to engage with and understand then they are also complex for the public to understand, and there is a role for politicians to play in making things clearer to the public so that people are able to understand the issues as they affect them, as Simon Thomas mentioned. However, there are a number of both formal and informal routes by which a region, as we are described, can engage effectively with the European Union. In terms of this particular inquiry, our terms of reference were partially to explore whether Wales could have an effective voice in Europe. However, I would suggest that engagement is a two-way process, and it became very clear to me as we undertook this inquiry that it is not only important to be able to speak; it is perhaps even more important to be able to listen and to have an opportunity to understand the thinking processes behind some of the policy directions that are being taken. This is because, in order to be able to influence policy, to access funding streams and set up partnerships, we have to be able to understand those broader, grand challenges that the EU is seeking to address, and we have to be able to ensure that the strategies we develop are aligned with those if we want to access those kinds of funding streams.

It was very clear to me as well that those regions and nations that seem to get the most out of their European Union membership are the ones who listen most carefully and are involved in policy conversations at the very earliest stage. We do have people representing us in those conversations. As we have heard, we have our MEPs, who I believe do work and have worked historically as a very effective Welsh block on our behalf. We also have our representation in Wales House as an office for the Welsh Government and also as an office that enables higher education in particular but others too to engage with policy makers through engagement events and providing us with information and briefings and so on. We have representatives on the Committee of the Regions and on the Economic and Social Council too. All of these individuals have an opportunity to be involved in those conversations on our behalf.

Rwyf hefyd yn falch o gyfrannu. Mae'r Undeb Ewropeaidd fel y gwyddom amdano yn hynod o bwysig i economi Cymru a'n cymdeithas, felly mae'n hanfodol deall sut y mae strwythurau'r Undeb Ewropeaidd yn gweithio ac yna sut y gall Cymru ymgysylltu'n ddefnyddiol â hwy. Fodd bynnag, y gwir yw bod y strwythurau hynny'n hynod o gymhleth ac rwy'n credu bod yn rhaid i ni dderbyn os yw'r strwythurau'n gymhleth i bwyllgor o seneddwyr ymgysylltu â hwy a'u deall, yna maent yn gymhleth hefyd i'r cyhoedd eu deall ac mae gan wleidyddion rôl i'w chwarae yn gwneud pethau'n gliriach i'r cyhoedd fel bod pobl yn gallu deall y materion fel y maent yn effeithio arnynt, fel y soniodd Simon Thomas. Fodd bynnag, mae nifer o lwybrau ffurfiol ac anffurfiol y gall rhanbarth, fel y cawn ein disgrifio, ymgysylltu'n effeithiol â'r Undeb Ewropeaidd. O ran yr ymchwiliad penodol hwn, ein cylch gorchwyl yn rhannol oedd archwilio a allai Cymru gael llais effeithiol yn Ewrop. Fodd bynnag, byddwn yn awgrymu bod ymgysylltiad yn broses ddwy ffordd a daeth yn amlwg iawn i mi wrth i ni gynnal yr ymchwiliad nad gallu siarad yn unig sy'n bwysig; efallai ei bod hyd yn oed yn bwysicach i ni allu gwrando a chael cyfle i ddeall y prosesau meddwl sy'n sail i rai o'r cyfarwyddiadau polisi a wneir. Y rheswm am hynny yw hyn: er mwyn gallu dylanwadu ar bolisi, i gael gafael ar ffrydiau ariannu a sefydlu partneriaethau, mae'n rhaid i ni allu deall yr heriau ehangach, mwy o faint y mae'r UE yn ceisio mynd i'r afael â hwy ac mae'n rhaid i ni allu sicrhau bod y strategaethau a ddatblygwn yn cyd-fynd â'r rheini os ydym am gael mynediad at y mathau hynny o ffrydiau ariannu.

Roedd yn amlwg iawn i mi hefyd mai'r rhanbarthau a'r cenhedloedd sydd i'w gweld yn elwa fwyaf o'u haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd yw'r rhai sy'n gwrando'n fwyaf gofalus ac sy'n cymryd rhan mewn sgysiaau polisi ar y cam cynharaf un. Mae gennym bobl yn ein cynrychioli yn y sgysiaau hynny. Fel y clywsom, mae gennym ein ASEau y credaf eu bod yn gwneud gwaith, ac sydd wedi bod yn gwneud gwaith, fel bloc Cymreig effeithiol iawn ar ein rhan. Hefyd, mae gennym ein cynrychiolaeth yn Nhŷ Cymru fel swyddfa i Lywodraeth Cymru a hefyd fel swyddfa sy'n galluogi addysg uwch yn benodol ond eraill hefyd i ymgysylltu â llunwyr polisi drwy ddigwyddiadau ymgysylltu a darparu gwybodaeth a sesiynau briffio ac yn y blaen. Mae gennym gynrychiolwyr ar Bwyllgor y Rhanbarthau ac ar y Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol hefyd. Mae pob un o'r unigolion hyn yn cael cyfle i gymryd rhan yn y sgysiaau hynny ar ein rhan.

Now, I personally would like to see some expansion of our activity in Brussels and an expansion perhaps in Wales House to see us being able to exert the kind of influence that we would wish to have. I think that it is noticeable that there are some regions that invest very significantly in making sure that they have people able to engage with the policy makers there. However, looking at budgetary constraints, I think that there are three things we could do without huge resource implications that would improve the effectiveness of our engagement with the European Union. The first of those, as referenced in the opening to this debate, is a more targeted strategic approach. With the greatest respect, Minister, I do not believe that we have a strategic approach. A strategy has specific objectives, measurable outcomes and specific actions identified. We do not have that, but we need it so that all of our representatives in Brussels can be sure that they are singing from the same hymn sheet and so they know what your priorities are and what they are trying to achieve on our behalf. We have heard from our MEPs and also from representatives, as I think Mick Antoniw alluded to, that they do not feel confident that they know what those strategic priorities are. Therefore, Minister, you cannot say that we have a clear strategy. We clearly do not.

Secondly, we can work with organisations like the Federation of Small Businesses, the Confederation of British Industry and chambers of commerce in Wales to discuss ways to improve the presence of Welsh businesses in Wales House and to find ways for them to have a platform to engage with policy makers too, because businesses in particular are going to be very important in funding streams like Horizon 2020 and brokering partnerships across Europe. We need their involvement; it is not an add-on but a core part of the work we ought to be doing. Thirdly, I think that we can make much more use of secondment opportunities for Welsh Government staff to go to share and also then to develop expertise in the European Commission. How better for Wales to be involved at the beginning of the conversation than for it to have been Welsh officials working in Europe in the first place starting those conversations for us? There is an opportunity there that is underutilised and it is an opportunity that others use to very great effect. It is something that we need to think on.

Yn awr, yn bersonol byddwn yn hoffi gweld rhywfaint o ehangu ar ein gweithgaredd ym Mrwsel ac ehangu Tŷ Cymru efallai i ni allu cael y math o ddylanwad y byddem yn dymuno ei gael. Rwy'n meddwl ei bod yn amlwg fod rhai rhanbarthau yn buddsoddi yn sylweddol iawn er mwyn sicrhau bod ganddynt bobl sy'n gallu ymgysylltu â llunwyr polisi yno. Fodd bynnag, gan edrych ar gyfyngiadau cyllidebol, credaf fod tri pheth y gallem ei wneud heb oblygiadau enfawr o ran adnoddau a fyddai'n gwella effeithiolrwydd ein hymgysylltiad â'r Undeb Ewropeaidd. Fel y cyfeiriwyd ato wrth agor y drafodaeth hon, y cyntaf yw dull strategol wedi'i dargedu'n well. Gyda phob parch, Weinidog, nid wyf yn credu bod gennym ddull strategol. Mae gan strategaeth amcanion penodol, canlyniadau mesuradwy a chatau gweithredu penodol wedi'u nodi. Nid oes gennym hynny ond rydym angen strategaeth o'r fath er mwyn gwneud yn siŵr bod pob un o'n cynrychiolwyr ym Mrwsel yn cyfleu'r un negeseuon ac er mwyn iddynt wybod beth yw eich blaenoriaethau a'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni ar ein rhan. Fel y crybwyllodd Mick Antoniw, rydym wedi clywed ein haelodau o senedd Ewrop a'n cynrychiolwyr yn dweud nad ydynt yn teimlo'n hyderus eu bod yn gwybod beth yw'r blaenoriaethau strategol hynny. Felly, Weinidog, ni allwch ddweud bod gennym strategaeth glir. Mae'n amlwg nad yw hynny'n wir.

Yn ail, gallwn weithio gyda sefydliadau fel y Ffederasiwn Busnesau Bach, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain a siambrau masnach yng Nghymru i drafod ffyrdd o wella presenoldeb busnesau Cymru yn Nhŷ Cymru ac i ddod o hyd i ffyrdd iddynt hwythau hefyd gael llwyfan i ymgysylltu â llunwyr polisi, oherwydd mae busnesau yn arbennig yn mynd i fod yn bwysig iawn mewn ffyrddiau ariannu megis Horizon 2020 a phartneriaethau broceru ar draws Ewrop. Rydym angen eu cyfraniad; nid ychwanegiad mohono, ond rhan greiddiol o'r gwaith y dylem fod yn ei wneud. Yn drydydd, credaf y gallwn wneud llawer mwy o ddefnydd o gyfleoedd secondio er mwyn i staff Llywodraeth Cymru fynd i rannu a datblygu arbenigedd yn y Comisiwn Ewropeaidd. Pa ffordd well i Gymru gymryd rhan ar ddechrau'r sgwrs na sicrhau bod swyddogion Cymru yn gweithio yn Ewrop yn y lle cyntaf yn dechrau'r sgyrsiau hynny ar ein rhan? Dyma gyfle na wneir digon o ddefnyddio ohono ac mae'n gyfle y mae eraill yn ei ddefnyddio'n effeithiol iawn. Mae'n rhywbeth y mae angen i ni feddwl amdano.

15:30

Suzy Davies [Bywgraffiad Biography](#)

I hope that Members will find an opportunity to look at this very focused and succinct report—I think I prefer that description to 'dry as dust', Simon—and I think that its brevity might also recommend itself to some civil servants. I think that it is quite surprising to see how exactly Wales does and does not influence decision making in the EU. It is a common complaint, is it not, that the way that the EU works is bureaucratic, unaccountable and obfuscatory, and resentment about that was certainly demonstrated in the European elections only a couple of weeks ago? While our inquiry did not uncover evidence to contradict those general observations, it did illuminate how particular representatives of Wales pick their way through the maze to exert meaningful influence with the Commission on the initial design of EU proposals, as well as later refinement via the UK's representation on the Council of Ministers.

Rwy'n gobeithio y daw'r Aelodau o hyd i gyfle i edrych ar yr adroddiad cryno hwn sydd â ffocws clir iawn—rwy'n credu ei bod hi'n well gennyf y disgrifiad hwnnw yn hytrach na 'sych fel llwch' Simon—ac rwy'n meddwl y gallai'r ffaith ei fod yn gryno apelio at rai gweision sifil hefyd. Credaf fod gweld sut yn union y mae Cymru yn dylanwadu, neu'n methu â dylanwadu, ar y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE yn agoriad llygad. Mae'n gŵyn gyffredin, onid yw, bod y ffordd y mae'r UE yn gweithio yn fiwrocraidd, yn anatebol ac yn ddryslyd ac yn sicr, gwelwyd dicter ynglŷn â hynny yn ystod yr etholiadau Ewropeaidd ychydig wythnosau yn ôl. Er na ddatgelodd ein hymchwiliad dystiolaeth a oedd yn gwrth-ddweud y sylwadau cyffredinol hynny, roedd yn taflu goleuni ar y modd y mae cynrychiolwyr penodol o Gymru yn gwneud eu ffordd drwy'r ddrwsfa er mwyn dylanwadu'n ystyrion o fewn y Comisiwn ar gynllun cychwynnol cynigion yr UE, yn ogystal â'u gwella yn nes ymlaen drwy gynrychiolwyr y DU ar Gyngor y Gweinidogion.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

However, it also threw into relief those relationships where Wales, and more particularly, Welsh Government, are not making the most of opportunities. So, I am very pleased to see that the Government responded positively to the report's many recommendations.

Relationships are the primary means by which Welsh influence is felt in Brussels. We heard that the Commission, the EU executive, welcomes representations from sub-member state parliaments, not just their governments, and this offers an opportunity for this legislature, and, I suspect, wider civil society, to introduce ideas and warning shots at very early stages of policy development, provided, of course, that we know what the Commission is considering as an area of work. That very early intelligence, it seemed to me, was just as likely to arise from the informal networking that pervades and encloses Brussels as it is from the formal slow communication channels. Certainly, it seemed a more fruitful way of introducing Welsh opinion and advice into the Commission's policy formation than the circuitous route set out for the Committee of the Regions and the European Economic and Social Committee, neither of which are reaching their potential in this regard, although that is a reflection on process rather than the individuals involved in those committees.

From the domestic end, we received strong evidence about how a Welsh Government view on a particular piece of EU policy or legislation is incorporated into the UK view at the council table. While there is a degree of formality in that process, in the shape of the memorandum of understanding and the joint ministerial council, there remains a clear reliance on mutual, respectful relationships between the relevant UK Minister and officials and their equivalents in the devolved administrations.

Not all of Wales's opportunities are being exploited, however. Wales House may be highly regarded—we certainly heard that—but it is not a home to Welsh business, as others have said today, in the way that Scotland House is. While member states, collectively, may no longer be consistently the largest part of the UK export market, it would be a mistake for Welsh business to believe that Wales has exhausted its entitlement to both trade and influence on economic policy in the EU. This especially is evidence that we should all be considering for our manifestos for 2016.

Of all the elements in Welsh society, it is the Welsh Government that has the greatest number of routes into EU decision making, so I do not think that it is overstating the case to say that it has a duty to keep other component parts of the decision-making process fully informed about its own priorities—I think that other Members have mentioned this, too—namely MEPs in Brussels, Ministers and officials in the nations of the UK, and most importantly, this Assembly on behalf of and including the people of Wales, who need to know what this Government expects from its relationship, via the UK, with the EU.

Fodd bynnag, roedd hefyd yn bwrw cysgod dros y cydberthnasau hynny lle nad yw Cymru, a Llywodraeth Cymru yn fwy penodol, yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd. Felly rwy'n falch iawn bod y Llywodraeth wedi ymateb yn gadarnhaol i'r nifer o argymhellion a wneir yn yr adroddiad.

Cydberthnasau yw prif ddull Cymru o gael dylanwad ym Mrwsel. Clywsom fod y Comisiwn, gweithrediaeth yr UE, yn croesawu sylwadau gan seneddau ar lefel islaw'r aelod-wladwriaethau, nid eu llywodraethau yn unig, ac mae hyn yn cynnig cyfle i'r ddeddfwrfa hon a'r gymdeithas sifil ehangach rwy'n credu, i gyflwyno syniadau a rhybuddion ar gamau cynharaf un y broses o ddatblygu polisi, ar yr amod, wrth gwrs, ein bod yn gwybod beth y mae'r Comisiwn yn ei ystyried fel maes gwaith. Ymddangosai i mi fod y wybodaeth gynnar iawn honno yr un mor debygol o godi o'r rhwydweithio anffurfiol sy'n treiddio drwy bopeth ac yn amgáu Brwsel ag y mae o godi o'r sianelau cyfathrebu ffurfiol araf. Yn sicr, ymddangosai'n ffordd fwy ffrwythlon o gyflwyno barn a chyngor o Gymru i broses y Comisiwn o ffurfio polisiâu na'r ffordd gwmpasog a nodwyd ar gyfer Pwyllgor y Rhanbarthau a Phwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop, nad yw'r un ohonynt yn cyrraedd eu potensial yn hyn o beth, er mai adlewyrchiad ar broses yw hynny yn hytrach nag ar yr unigolion sy'n aelodau o'r pwyllgorau hynny.

O safbwynt domestig, cawsom dystiolaeth gref ynglŷn â sut y mae safbwynt Llywodraeth Cymru ar bolisi neu ddeddfwriaeth benodol yr UE yn cael ei gynnwys yn safbwynt y DU wrth fwrdd y cyngor. Er bod rhywfaint o ffurfioldeb yn y broses honno ar ffurf y memorandwm cydddealltwriaeth a'r cydbwyllgor gweinidogion, mae dibyniaeth eglur ar gydberthnasau cydfuddiannol, parchus yn parhau i fod rhwng Gweinidog a swyddogion perthnasol y DU a'u swyddogion cyfatebol yn y gweinyddiaethau datganoledig.

Ni ddatblygir holl gyfleoedd Cymru er hynny. Efallai fod enw da gan Dŷ Cymru—clywsom hynny'n bendant—ond nid yw'n gartref i fusnes o Gymru, fel y mae eraill wedi'i ddweud heddiw, yn y ffordd y mae Tŷ'r Alban yn gartref i fusnes o'r Alban. Efallai nad yr aelod-wladwriaethau gyda'i gilydd bellach yw'r rhan fwyaf o'r farchnad allforio y DU yn gyson, ond byddai'n gamgymeriad i fusnesau Cymru gredu bod Cymru wedi disbyddu ei hawl i fasnachu a dylanwadu ar bolisi economaidd yn yr UE. Mae hyn yn arbennig yn dystiolaeth y dylem oll ei hystyried ar gyfer ein manifestos yn 2016.

O'r holl elfennau yng nghymdeithas Cymru, Llywodraeth Cymru sydd â'r nifer fwyaf o lwybrau i brosesau gwneud penderfyniadau yr UE, felly nid wyf yn credu fy mod yn gorliwio wrth ddweud bod ganddi ddyletswydd i oleuo cydrannau eraill y broses o wneud penderfyniadau ynghylch ei blaenoriaethau ei hun—rwy'n credu bod Aelodau eraill wedi sôn am hyn hefyd—sef ASEau ym Mrwsel, Gweinidogion a swyddogion yng ngwledydd y DU ac yn bwysicaf oll, y Cynulliad hwn ar ran, ac yn cynnwys pobl Cymru, sydd angen gwybod beth y mae'r Llywodraeth hon yn ei ddisgwyl o'i chydberthynas, drwy'r DU, â'r UE.

I think that this probably comes to the nub of the evidence that we received. There is a need for a clear and clearly communicated Welsh Government strategy, telling us what it wants to achieve for Wales as a result of being part of an EU member state. If we know that, we need to worry less about the lack of transparency inherent in soft diplomacy, in networking and in the trialogue discussions on EU legislation, which all take place behind closed doors. A strategy with identifiable priorities, clear aims, readily updatable, as Eluned Parrott indicated, with measurable results would help our MEPs fight particular corners and help Ministers and our MEPs identify other member states or sub-states with similar priorities so that useful relationships and alliances can be sought. It would also help us as Assembly Members to hold Welsh Government to account. In particular, I think that it will help Welsh Government be proactive in its work with those Whitehall departments that have not quite grasped working in the environment of devolution. This is a point that we have made in previous reports in this Assembly and it is disappointing that we have to make it again. However, we as Assembly Members should not accept the excuse that Welsh Government can be slow to consult. Devolved Government should be making the running, using their resources on both sides of the channel, to proactively check the EU horizon for policy that affects us, and that we should be trying to influence.

Rwy'n credu bod hyn yn ôl pob tebyg yn dod i wraidd y dystiolaeth a gawsom. Mae angen strategaeth glir, wedi'i chyfleu'n eglur gan Lywodraeth Cymru, yn dweud wrthym beth y mae am ei gyflawni ar ran Cymru o ganlyniad i fod yn rhan o aelod-wladwriaeth yr Undeb Ewropeaidd. Pe baem yn gwybod hynny, ni fyddai angen i ni boeni cymaint am y diffyg tryloywder sy'n gynhenid i ddiplomyddiaeth feddal wrth rwydweithio ac yn y trafodaethau tairochrog ar ddeddfwriaeth yr UE sy'n digwydd y tu ôl i ddrysau caeedig. Byddai strategaeth â blaenoriaethau y gellir eu hadnabod, nodau clir, hawdd i'w diweddarau, fel y nododd Eluned Parrott, gyda chanlyniadau mesuradwy, yn helpu ein haelodau o senedd Ewrop i ymladd dros achosion penodol ac yn helpu Gweinidogion a'n haelodau o senedd Ewrop i nodi aelod-wladwriaethau eraill neu genhedloedd ar lefel islaw'r aelod-wladwriaethau sydd â blaenoriaethau tebyg fel bod modd meithrin cydberthnasau a chynghreiriau defnyddiol. Byddai hefyd yn ein helpu fel Aelodau Cynulliad i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Yn benodol, rwy'n meddwl y bydd yn help i Lywodraeth Cymru fod yn rhagweithiol yn ei gwaith gyda'r adrannau hynny o Whitehall sydd heb ddealltwriaeth llwyr o waith mewn amgylchedd datganoledig. Dyma bwynt a wnaethom mewn adroddiadau blaenorol yn y Cynulliad hwn ac mae'n siom fod yn rhaid i ni ei grybwyll eto. Fodd bynnag, fel Aelodau Cynulliad ni ddylem dderbyn yr esgus y gall Llywodraeth Cymru fod yn araf i ymgynghori. Llywodraeth ddatganoledig a ddylai wneud y gwaith rhedeg, gan ddefnyddio'u hadnoddau ar ddwy ochr y sianel i edrych ar orwel yr UE yn rhagweithiol am bolisiau sy'n effeithio arnom ac y dylem fod yn ceisio dylanwadu arnynt.

15:35 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Dafydd Elis-Thomas.

Galwaf ar Dafydd Elis-Thomas.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:35 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr, Fonesig Lywydd. A gaf i ddechrau drwy groesawu'r geiriau a ddywedwyd oddi ar yr orsedd yn Nhŷ'r Arglwyddi yn gynharach heddiw gan Ei Mawrhydi y Frenhines, wrth draddodi araith sy'n gosod allan raglen Llywodraeth y Deyrnas Unedig? Mae'r Llywodraeth am hyrwyddo diwygio'r Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys swyddogaeth gryfach i'r aelod-wladwriaethau a'r seneddau cenedlaethol, a chan fynd ymlaen i bwysleisio ei bod am ddangos arweiniad yn yr ymdrech i geisio cael cytundeb ar newid hinsawdd.

Thank you very much, Dame Presiding Officer. May I start by welcoming the words spoken from the throne in the House of Lords earlier today by Her Majesty the Queen, in delivering the Queen's Speech that sets out the programme of the UK Government? The Government will promote the reform of the European Union, including a stronger role for member states and national parliaments, and it went on to emphasise that it wishes to champion efforts to secure a global agreement on climate change.

Fodd bynnag, mae'n bwysig, rwy'n meddwl, inni ddweud yn y fan hon nad jest mater o gryfhau a diwygio statws yr aelod-wladwriaeth a seneddau'r hen aelodau o'r Undeb Ewropeaidd a arwyddodd y cytundebau presennol yw'r hyn yr ydym ni'n ceisio ei wneud. Dyna yw thema'r adroddiad hwn, ac rwy'n ei groesawu'n fawr iawn. Mae'n gosod allan yn glir iawn yr ymdrechion y mae Llywodraeth Cymru wedi eu gwneud o ddifrif ers datganoli, ac, yn arbennig, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, i gael dylanwad. Rwy'n cytuno'n llwyr â'm cydweithiwr Eluned Parrott nad mater o gael llais yn Ewrop ydyw bellach, ond mater o gael dylanwad, ac o gael deialog—neu drialog, a defnyddio un o hoff dermau y sefydliadau Ewropeaidd—go iawn gyda'r sefydliadau.

However, I think that it is also important that we state here that just strengthening and reforming the status of the member states and the parliaments of the old members of the European Union that have signed up to the current treaties is not what we are endeavouring to do. That is the theme of this report, and I welcome it very much. It sets out very clearly the efforts that the Welsh Government has made in earnest since devolution, and, particularly, over the past few years, to have a real influence. I agree entirely with my colleague Eluned Parrott that it is no longer a matter of having a voice in Europe, but a matter of bringing influence to bear, and of having a dialogue—or a trialogue, to use one of the favourite terms of the European institutions—a real dialogue with the institutions.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Yn yr ysbryd hwnnw, felly, rwyf am awgrymu i'r tŷ hwn bod darn arall o waith sydd eisiau ei wneud, sef edrych ar i ba raddau y mae ein dull ni o weithio—er ein bod dim ond wedi ei wneud, fwy neu lai, ers yr etholiad diwethaf—yn prif-ffrydio cwestiynau Ewropeaidd yng ngwaith ein pwyllgorau, yn hytrach na chael pwyllgor Ewropeaidd penodedig, yn llwyddo. Mae sawl senedd a chynulliad yng ngweddill Ewrop sydd wedi bod yn dadlau dros y materion hyn—beth yw'r ffordd hawsaf inni fynegi ein perthynas â'r Undeb Ewropeaidd?

Fodd bynnag, rwy'n meddwl bod colled ac ennill wedi digwydd yn y math o weithdrefn sydd gennym yn y fan hon. Un peth, efallai, nad ydym yn ei wneud cystal yw craffu ar y ddeddfwriaeth fanwl, fel y mae'n dod yn ffurfiol o'r Undeb Ewropeaidd. Er, wrth gwrs, mae'n deg imi ddweud fy mod i wedi bod yn darllen yr adroddiad hwn ochr yn ochr efo'r adroddiad a gynhyrchwyd, eto, gan Dŷ'r Arglwyddi, a gan y pwyllgor Ewropeaidd, sy'n delio â swyddogaethau'r seneddau yn yr Undeb Ewropeaidd. Cyhoeddwyd hwnnw hefyd ym mis Mawrth.

Yr hyn sy'n bwysig am yr adroddiadau hyn yw eu bod yn dangos cymhlethdod y berthynas, ond hefyd cymhlethdod perthynas yn arwain at gryfder dylanwadu. O fy mhrofiad i yn ymwneud â'r gwaith a wnaethom yn y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar y polisi amaeth cyffredin a'r polisi pysgodfeydd cyffredin, roedd cael cynrychiolaeth Gymreig a oedd yn cydweithio nid jest ag Aelodau Seneddol Ewropeaidd Cymru, ond ag Aelodau o gyffelyb fryd yn y rhanbarthau deddfwriaethol, ac yn y cenhedloedd llai, a hyd yn oed yn yr Alban—er bod y rheini yn byhaffio'n fwy fel cenedl fawr yn hytrach nag fel rhanbarth Ewropeaidd yn aml iawn—lle roedd hynny'n bosib, ynglŷn â pholisi, yn arwain at ddatblygiadau. Rwy'n siŵr y bydd hyn yn dwyn ffrwyth, yn enwedig yn natblygiad y diwydiant pysgota yn y môr rhyngom ni ac Iwerddon yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Fodd bynnag, rwy'n teimlo bod y cwestiwn o ddadansoddi sybsidiaredd deddfwriaethol yn un nad ydyw wedi gweithio mor effeithiol ag y gallai. Efallai nad ydym wedi cyfrannu ddigon fel Cynulliad i'r broses honno. Rwy'n meddwl bod yn rhaid inni barhau i edrych o'r newydd ar y ffordd yr ydym yn ymwneud â'r Undeb Ewropeaidd, a'i holl sefydliadau, wrth i'r undeb ei hun ddatblygu.

Dyma'r gair olaf, Fonesig Lywydd. Nid wyf yn un o'r bobl hynny sy'n darogan gwae am ganlyniadau etholiad—cyn nac ar ôl etholiad. Y mae mwyafrif o hyd yn Senedd Ewrop gan y chwith-canol a'r dde-ganol gynyddgar ac adeiladol. Dyna le yr ydym ni i fod hefyd fel Cymry. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig inni edrych ar y cyfle newydd sydd gennym, gyda'r pedwar Aelod—ac rwy'n falch bod Aelod o bedair plaid, fel yr oedd o'r blaen, fel bod pob tuddiad y pleidleisiwyd drostynt gan etholwyr Cymru yn cael eu cynrychioli. Mae lan iddyn nhw wedyn i brofi eu bod yn gallu cynrychioli ac y mae lan i ni hefyd i'w defnyddio nhw yn effeithiol yn ein perthynas â'r Undeb Ewropeaidd. Rwyf yn ddiolchgar am yr adroddiad hwn sydd wedi gosod sail inni wneud hynny.

In that spirit, therefore, I want to suggest to this house that there is another piece of work that needs to be done, namely to look at the extent to which our ways of working—although we have only been operating in this way, more or less, since the last election—mainstreaming European questions in the work of our committees, rather than having a dedicated European committee, is succeeding. A number of parliaments and assemblies throughout Europe have been arguing about these issues, in terms of what is the best way for us to express our relationship with the European Union.

However, I think that there have been successes and failures in the kind of regime that we have here. One of the things that we perhaps do not do so well is to scrutinise the detailed legislation as it emerges formally from the European Union. Although, of course, it is fair for me to state that I have been reading this report alongside the report produced, once again, by the House of Lords, and by the European committee therein, which deals with the functions of parliaments in the European Union. That was also published in March.

What is important about these reports is that they illustrate the complexity of the relationship, but also that the complexity of relationships actually lead to strength of influence. From my involvement in the work of the Environment and Sustainability Committee on the common agricultural policy and the common fisheries policy, I am aware that having Welsh representation that collaborated not only with Welsh Members of the European Parliament, but with likeminded MEPs in the legislative regions, and in the smaller nations, and even in Scotland—although they behave more like a major state rather than as a European region very often—where this was possible in relation to policy, led to developments. I am sure that this will bear fruit, particularly in the development of the fishing industry in the seas between us and Ireland during the next few years.

However, I feel that the question of analysing legislative subsidiarity has not worked as effectively as it could have. Perhaps we have not contributed enough as an Assembly to that process. I think that we must continue to look anew at the way in which we deal and are involved with the European Union, and all of its institutions as the union develops.

I have just a final word, Dame Presiding Officer. I am not a harbinger of doom on the results of an election—before or after an election. The progressive and constructive centre-left and centre-right parties still have a majority in the European Parliament. That is where we should place ourselves as a nation, as Wales. I think that it is important that we should look at the new opportunities that we have with the four members—and I am pleased that four parties are represented, as was the case previously, so that all tendencies favoured by the Welsh electorate are represented. It is up to them to prove that they can represent, and it is up to us to make use of them effectively in our relationship with the European Union. I am grateful for this report, which has set the foundation for doing just that.

I call on the Minister for Finance to speak on behalf of the Government.

Galwaf ar y Gweinidog Cyllid i siarad ar ran y Llywodraeth.

Y Gweinidog Cyllid / The Minister for Finance

I would like to thank the Chair, David Melding, and members of the Constitutional and Legislative Affairs Committee for their report on Wales's role in EU decision making. I also welcome and thank all of those who have contributed to this very important debate today. It has been an important debate and is timely in the context of the recent European elections. It is quite clear, and you have all fortunately strengthened this message, that effective engagement with the European Union is clearly vital to the interests of Wales. I think that the committee's report makes a huge contribution to that as we step forward into the next era of engagement. We must engage with Europe, not only in terms of our leadership in the Welsh Government, but also as a Senedd and as an Assembly.

Hoffwn ddiolch i'r Cadeirydd, David Melding, ac aelodau o'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am eu hadroddiad ar rôl Cymru ym mhroses wneud penderfyniadau yr UE. Rwyf hefyd yn croesawu ac yn diolch i bawb a gyfrannodd at y drafodaeth bwysig hon heddiw. Mae wedi bod yn ddadl bwysig ac yn amserol yng nghydestun yr etholiadau Ewropeaidd yn ddiweddar. Yn ffodus, rydych oll wedi cadarnhau'r neges eithaf clir fod ymgysylltu effeithiol â'r Undeb Ewropeaidd yn amlwg yn hanfodol i fuddiannau Cymru. Credaf fod adroddiad y pwyllgor yn cyfrannu'n fawr at hynny wrth i ni gamu ymlaen i'r cyfnod ymgysylltu nesaf. Mae'n rhaid i ni ymgysylltu ag Ewrop, nid yn unig o ran ein harweinyddiaeth yn Llywodraeth Cymru, ond hefyd fel Senedd ac fel Cynulliad.

The committee's report presents a very positive way in which we can engage. It also recognises the way this Government has sought to promote and pursue Welsh interests in the European Union, but rightly sets out some challenges, expressed again today in the debate, and clear actions, which will help strengthen the Welsh Government's role. It is strengthening it with your backing. That is what is so good about this report—it has clearly set out how we can strengthen that.

Mae adroddiad y pwyllgor yn cyflwyno modd cadarnhaol iawn i ni allu ymgysylltu. Mae hefyd yn cydnabod y ffordd y mae'r Llywodraeth hon wedi ceisio hyrwyddo a hybu diddordebau Cymru yn yr Undeb Ewropeaidd ond mae'n gywir i nodi rhai heriau, a fynegwyd eto heddiw yn ystod y ddadl, a chmau gweithredu clir a fydd yn helpu i gryfhau rôl Llywodraeth Cymru. Mae'n ei chryfhau gyda'ch cefnogaeth chi. Dyna'r hyn sydd mor dda am yr adroddiad—mae wedi nodi'n eglur sut y gallwn gryfhau hynny.

You know that the Government is happy to accept all but one of the committee's 13 recommendations. I am keen to assist in meeting the objective of recommendation 8 regarding the proposal for Welsh Government to issue statements on relevant UK Government explanatory memoranda on EU proposals. I would like to propose that the committee or individual Assembly Members or committees be encouraged to request information about any specific explanatory memorandum from the appropriate Minister for his or her response.

Gwyddoch fod y Llywodraeth yn hapus i dderbyn pob un ond un o 13 o argymhellion y pwyllgor. Rwy'n awyddus i helpu i gyrraedd nod argymhelliad 8 mewn perthynas â'r cynnig y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi datganiadau ar femoranda esboniadol perthnasol Llywodraeth y DU ar gynigion yr UE. Hoffwn gynnig bod y pwyllgor neu Aelodau Cynulliad unigol neu bwyllgorau yn cael eu hannog i ofyn am wybodaeth gan y Gweinidog priodol ynglŷn ag unrhyw femorandwm esboniadol penodol a chael ateb ganddo neu ganddi.

In terms of the whole report and the opportunities that it provides for us, it really backs the Welsh Government's view that full and active engagement in the EU is essential to the future success of both Wales and the wider UK. I am glad, Chair, that you welcome our response as constructive, but I recognise that others here would have liked it to be stronger. However, I think that the debate can help us, in responding to the recommendations, to reassure you that we want to deliver on the recommendations to demonstrate that we are being proactive as the Welsh Government and are showing leadership on behalf of Wales. Our responsibilities are quite clear. EU funds currently bring well over £0.5 billion a year into the Welsh economy while the EU's goals for growth and jobs, described in the Europe 2020 strategy, complement our own. It is vital that we fully engage with the institutions of the EU and our European parliamentary representatives. I hope to meet them all shortly to continue—and it is about continuing and Byron Davies made this point—to engage to develop the dialogue, which is so important to Wales.

O ran yr adroddiad cyfan a'r cyfleoedd y mae'n eu rhoi i ni, mae'n cefnogi safbwynt Llywodraeth Cymru fod ymgysylltiad llawn a gweithredol yn yr UE yn hanfodol i lwyddiant Cymru a'r DU yn ehangach yn y dyfodol. Gadeirydd, rwy'n falch eich bod yn croesawu ein hymateb fel rhywbeth adeiladol ond rwy'n cydnabod y byddai eraill yma wedi hoffi iddo fod yn gryfach. Fodd bynnag, rwy'n meddwl y gall y ddadl ein helpu wrth ymateb i'r argymhellion i roi sicrwydd i chi ein bod yn awyddus i gyflawni'r argymhellion er mwyn dangos ein bod yn rhagweithiol fel Llywodraeth Cymru ac i ddangos arweiniad ar ran Cymru. Mae ein cyfrifoldebau yn ddigon clir. Ar hyn o bryd, daw cronfeydd yr UE â chryn dipyn dros £0.5 biliwn y flwyddyn i economi Cymru tra bod nodau yr UE ar gyfer twf a swyddi, a ddisgrifir yn strategaeth Ewrop 2020, yn ategu ein rhai ni ein hunain. Mae'n hanfodol ein bod yn ymgysylltu'n llawn â sefydliadau'r UE a'n cynrychiolwyr seneddol Ewropeaidd. Rwy'n gobeithio eu cyfarfod i gyd cyn bo hir i barhau-mae'n ymwneud â pharhau a gwnaeth Byron Davies y pwynt hwn-i ymgysylltu er mwyn datblygu'r ddeialog sydd mor bwysig i Gymru.

The report endorses the work of the Welsh Government's Brussels office and I am glad that Members have spoken about this today. The Government is committed to maintaining its EU office in Brussels. It is about promoting and protecting the interests of Wales in the EU. It is able to boost, and is demonstrably boosting trade and investment, increasing the profile of Wales internationally, and I know that Members value this point of contact. As Mick Antoniw highlighted, the Welsh Government shares this office, namely Wales House, with not just representatives of the National Assembly for Wales, but with the Welsh Local Government Association and Welsh Higher Education Brussels and it has been an important co-location point in delivering the Welsh agenda for partnership in the EU. So, I have taken new steps, over the past year, to strengthen the impact of Wales House. I have chaired meetings of all staff based there and this is the first time that that has happened. I think that they have been very useful in building pan-Wales interests. They have been welcomed by all participants, but the office is also continuing to develop our links with those wider Welsh representatives and stakeholders in Brussels. As I have said in our response to the report, I welcome the strengthening of this in terms of business and third sector engagement, and, indeed, they often do engage as opportunities arise in terms of meetings held at Wales House and the engagement.

I just want to reflect on the fact that there are opportunities for change and adaptation, which we want to engage in with the EU, and, in terms of the accountability, it is being strengthened via the European Parliament. We talked today about greater democracy and transparency in decision making, which, of course, will enhance the EU's efficiency and its reputation in terms of focusing on the people whom it and we serve together. I will just mention some of the reforms with which we are engaging, which goes back to the trialogue that Dafydd Elis Thomas talked about, with us working with the UK Government and the Assembly. There is, for example, the reform of the European Commission state aid rules through the modernisation programme. That will make it easier for public authorities to provide support for a wide range of economic activities to boost growth.

As a pro-EU Government, we will continue to work with the UK Government and the EU institutions to do all that we can to continue with this to ensure that we are eradicating structural barriers to growth and to help to ensure that Wales, the UK and Europe realise our goals for the benefits of our citizens and communities.

Mae'r adroddiad yn ategu gwaith swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mrwsel ac rwy'n falch fod Aelodau wedi sôn am hyn heddiw. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i gynnal ei swyddfa UE ym Mrwsel. Mae'n ymwneud â hyrwyddo a diogelu buddiannau Cymru yn yr UE. Mae'n gallu ac mae'n amlwg yn rhoi hwb i fasnach a buddsoddi gan gynyddu proffil Cymru yn rhyngwladol, a gwn fod yr Aelodau yn gweld gwerth y pwynt cyswllt hwn. Fel yr amlygodd Mick Antoniw, mae Llywodraeth Cymru yn rhannu'r swyddfa hon, sef Tŷ Cymru, nid yn unig â chynrychiolwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ond gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Addysg Uwch Cymru Brwsel ac mae wedi bod yn bwynt cyd-leoli pwysig wrth gyflwyno agenda Cymru ar gyfer gwaith partneriaeth yn yr UE. Felly rwyf wedi rhoi camau newydd ar waith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i gryfhau effaith Tŷ Cymru. Rwyf wedi cadeirio cyfarfodydd ar gyfer yr holl staff sy'n gweithio yno a dyma'r tro cyntaf i hynny ddigwydd. Rwy'n credu fod y cyfarfodydd wedi bod yn ddefnyddiol iawn wrth adeiladu buddiannau Cymru gyfan. Cawsant eu croesawu gan bawb a gymerodd ran ynddynt, ond mae'r swyddfa hefyd yn parhau i ddatblygu ein cysylltiadau â chynrychiolwyr a rhanddeiliaid ehangach Cymru ym Mrwsel. Fel y dywedais yn ein hymateb i'r adroddiad, rwy'n croesawu camau i gryfhau hyn o ran ymgysylltiad y sector busnes a'r trydydd sector ac yn wir, maent yn aml yn cymryd rhan wrth i gyfleoedd godi o ran y cyfarfodydd a gynhelir yn Nhŷ Cymru a'r ymgysylltiad.

Hoffwn ystyried y ffaith fod cyfleoedd ar gael ar gyfer newid ac addasu y dymunwn fod yn rhan ohonynt gyda'r Undeb Ewropeaidd, ac o ran yr atebolrwydd, mae'n cael ei gryfhau drwy Senedd Ewrop. Buom yn siarad heddiw am fwy o ddemocratiaeth a thryloywder wrth wneud penderfyniadau a fydd, wrth gwrs, yn gwella effeithlonrwydd yr UE a'i enw da o ran canolbwyntio ar y bobl y mae'r Undeb a ninnau yn eu gwasanaethu gyda'n gilydd. Rwyf am sôn am rai o'r diwygiadau rydym yn ymwneud â hwy, sy'n mynd yn ôl at y trialog y siaradodd Dafydd Elis Thomas amdano, gyda ni'n gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r Cynulliad. Mae diwygio rheolau cymorth gwladol y Comisiwn Ewropeaidd drwy'r rhaglen foderneiddio yn un enghraifft. Bydd hynny'n ei gwneud yn haws i awdurdodau cyhoeddus ddarparu cymorth ar gyfer ystod eang o weithgareddau economaidd er mwyn hybu twf.

Fel Llywodraeth sydd o blaid yr UE, byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU a sefydliadau'r UE i wneud popeth o fewn ein gallu i barhau gyda hyn er mwyn sicrhau ein bod yn dileu rhwystrau strwythurol i dwf ac i helpu i sicrhau bod Cymru, y DU ac Ewrop yn gwireddu ein nodau er budd ein dinasyddion a'n cymunedau.

I have mentioned the EU structural funds, which are helping us to develop skills and build physical infrastructure to make our economy more competitive. We will benefit from the support of over £1.8 billion in the 2007-13 round of structural funds, together with match funding worth over £3.8 billion of investment in total. I am glad that we also have the Wales Audit Office report on the structural funds for the past phase, to look at our administration and to give us, again, ways in which we can ensure that we are committing available funds appropriately and adequately, and, of course, that is what the report concluded. The programmes are on track to meet and, in some cases, far exceed most of their key performance targets. That is why we need to look to that in terms of the next steps.

Finally, Llywydd, I think that this is an opportunity for us to move forward. Eluned Parrott mentioned Horizon 2020; this goes beyond the structural funds. The report shows a keen awareness of the importance of a good working relationship between the Welsh Government and Welsh MEPs, and the significance of Welsh Ministers' participation in the Council of the European Union, with which I fully engage.

In terms of the final recommendation in relation to an annual debate, we have had many debates but they tend to be ad hoc, and I would very much welcome us having an annual debate on our EU strategy that takes place following the publication of the annual report and work programme linked to the strategy. However, I want to say that your report has strengthened our position, our role and my role as your Minister with responsibility for the structural funds and the opportunities that the joint ministerial committee on Europe provides for me. I welcome the report and this debate and it will inform our future working relationships within the EU in a constructive way.

Rwyf wedi sôn am gronfeydd strwythurol yr UE sydd yn ein helpu i ddatblygu sgiliau ac adeiladu seilwaith ffisegol er mwyn gwneud ein heconomi yn fwy cystadleuol. Byddwn yn elwa o gefnogaeth mwy na £1.8 biliwn yng nghylch 2007-13 o gronfeydd strwythurol, ynghyd ag arian cyfatebol gwerth dros £3.8 biliwn o fuddsoddiad i gyd. Rwy'n falch hefyd fod gennym adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar y cronfeydd strwythurol ar gyfer y cyfnod diwethaf a edrychai ar ein gweinyddiaeth ac i roi ffyrdd i ni unwaith eto o sicrhau ein bod yn defnyddio'r arian sydd ar gael yn briodol ac yn ddigonol ac wrth gwrs, dyna oedd casgliad yr adroddiad. Mae'r rhaglenni ar y trywydd iawn i gwrdd â'r rhan fwyaf o'u targedau perfformiad allweddol ac mewn rhai achosion, i ragori'n helaeth arnynt. Dyna pam y mae angen i ni edrych ar hynny mewn perthynas â'r camau nesaf.

Yn olaf, Lywydd, rwy'n meddwl bod hwn yn gyfle i ni symud ymlaen. Mae Eluned Parrott wedi crybwyll Horizon 2020; mae hyn yn mynd y tu hwnt i'r cronfeydd strwythurol. Mae'r adroddiad yn dangos ymwybyddiaeth graff o bwysigrwydd cydberthynas waith dda rhwng Llywodraeth Cymru ac ASEau Cymru, ac arwyddocâd cyfranogiad Gweinidogion Cymru yng Nghyngor yr Undeb Ewropeaidd yr ymgysylltaf yn llawn â hwy.

O ran yr argymhelliad terfynol mewn perthynas â dadl flynyddol, rydym wedi cael nifer o ddadleuon, ond maent yn tueddu i fod yn rhai ad hoc a byddwn yn croesawu'n fawr iawn y cyfle i gael dadl flynyddol ar ein strategaeth ar gyfer yr UE i'w chynnal yn sgîl cyhoeddi'r adroddiad blynyddol a'r rhaglen waith sy'n gysylltiedig â'r strategaeth. Fodd bynnag, hoffwn ddweud bod eich adroddiad wedi cryfhau ein sefyllfa, ein rôl a fy rôl i fel eich Gweinidog â chyfrifoldeb dros y cronfeydd strwythurol a'r cyfleoedd y mae cydbwllgor Gweinidogion Ewrop yn eu cynnig i mi. Rwy'n croesawu'r adroddiad a'r ddadl hon a bydd yn llywio ein perthynas waith yn y dyfodol o fewn yr UE mewn ffordd adeiladol.

15:48 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee to reply to the debate, David Melding.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, David Melding, i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:48 **David Melding** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Presiding Officer. I thank everyone who has participated in this debate. I think that some very constructive issues have been raised and there is obvious great interest in the report and in this area of work.

Diolch i chi, Lywydd. Diolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y ddadl hon. Rwy'n meddwl bod rhai materion adeiladol iawn wedi cael eu codi ac mae'n amlwg fod diddordeb mawr yn yr adroddiad a'r maes gwaith hwn.

I say to Mick Antoniw that the Committee of the Regions gets criticised quite a lot at the moment in Brussels, but we thought, after our examination of the way that we engage in the EU, that it is a vital institution for Wales. It is a treaty institution and its time will come again, I think, in terms of its place among the European institutions.

Dywedaf wrth Mick Antoniw fod Pwyllgor y Rhanbarthau yn cael ei feirniadu gryn dipyn ar hyn o bryd ym Mrwsel, ond ar ôl ein harchwiliad o'r ffordd rydym yn cymryd rhan yn yr UE, credwn ei fod yn sefydliad hanfodol i Gymru. Sefydliad cytuniad ydyw a daw ei amser eto, rwy'n credu, o ran ei le ymhlith y sefydliadau Ewropeaidd.

However, already, very key work is done there. For instance, in advancing the course of bilingualism, we have led the way there with Rhodri Glyn Thomas in particular speaking to an opinion on that. So, it is a showcase for Wales; you are quite right. I think that that is something that we need to remember.

Eisoes er hynny, mae gwaith allweddol iawn yn cael ei wneud yno. Er enghraifft, wrth hyrwyddo llwybr dwyieithrwydd, rydym wedi arwain y ffordd yno gyda Rhodri Glyn Thomas yn arbennig yn dweud ei farn ar hynny. Felly mae'n fodd o arddangos yr hyn sydd gan Gymru i'w gynneg; rydych yn llygad eich lle. Rwy'n credu bod hynny'n rhywbeth y mae angen i ni ei gofio.

May I say to Byron Davies that any engagement is very important and the way in which the Welsh Government uses and briefs Welsh MEPs is key and that could be improved? There is engagement; we are not saying that it is absent, but it needs to be used more strategically. You touched on something that I did not mention, namely the speaking note that informs the British Government's negotiating position at European council meetings. It is the key document. I do not think that any of us knew what a speaking note was in European terms until we started this inquiry, but we found how vital it was to influence that and its preparation. Therefore, I am very pleased that you mentioned that.

Simon Thomas started by saying that Byron was still in election mode, although Byron did praise all the MEPs, if I was listening carefully enough. Simon then stayed in election mode, if I may be so frank and made some partisan comments that I will not reply to.

However, you said that the Welsh Government's response, in parts, is a bit flat and reactive. I did say it diplomatically, but I do broadly agree with that view. However, overall, I think that the Welsh Government has been constructive in the way that it has responded to the report and invited the committee to work with it, so I think that we need to focus on that.

You then touched on this business of the Welsh Government issuing policy statements on those aspects of EU legislation that are most important, that is recommendation 8, which is the recommendation that the Welsh Government has rejected, because of the workload that might be involved, but I think that that would be the case only if it was not selective. However, I do welcome what the Minister said on this. I think that you have clearly opened the door on that for the committee to engage with the Welsh Government and see if we can find a productive way forward, so I thank you for that; we will hold you to it.

Eluned Parrott talked about the importance of early engagement and then, generally, the work of Wales House, which figured in other speeches as well. It is an excellent institution for us, if I can call it that, out there. It is well known in Brussels, and this was quite clear when we talked to various people. Those of us who have visited Wales House have received an excellent service, getting a brief from the Government side and then having access, through our own National Assembly officer there, to a range of senior officials. That sort of service can come only if you invest enough in that activity, and it is vital that we enhance and keep Wales House.

A gaf fi ddweud wrth Byron Davies fod unrhyw ymgysylltu yn bwysig iawn ac mae'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio ac yn briffio ASEau Cymru yn allweddol a gellid gwella hynny? Mae ymgysylltu'n digwydd; nid ydym yn dweud ei fod yn absennol ond mae angen iddo gael ei ddefnyddio'n fwy strategol. Rydych wedi cyffwrdd ar rywbeth na soniais amdano, sef y nodyn annerch sy'n llywio safbwynt trafod Llywodraeth Prydain yng nghyfarfodydd y cyngor Ewropeaidd. Dyma'r ddogfen allweddol. Nid wyf yn credu bod unrhyw un ohonom yn gwybod beth oedd nodyn annerch mewn termau Ewropeaidd hyd nes i ni ddechrau'r ymchwiliad hwn ond gwelsom pa mor hanfodol oedd dylanwadu arno a'r gwaith o'i baratoi. Felly, rwy'n falch iawn eich bod wedi crybwyll hynny.

Dechreuodd Simon Thomas drwy ddweud bod Byron yn dal i fod â'i feddwl ar yr etholiad er iddo ganmol holl Aelodau Senedd Ewrop, os clywais yn iawn. Yna, parhaodd Simon â'i feddwl ar yr etholiad, os caf fi fod yn onest, a gwnaeth rai sylwadau pleidiol nad wyf am ymateb iddynt.

Fodd bynnag, dywedasoch fod rhannau o ymateb Llywodraeth Cymru ychydig yn ddiffiach ac yn adweithiol. Dywedais hynny'n ddiplomyddol ond rwy'n cytuno'n fras â'r farn honno. Fodd bynnag, yn gyffredinol rwy'n credu bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn adeiladol yn y ffordd y mae wedi ymateb i'r adroddiad ac wedi gwahoddi y pwyllgor i weithio gyda hi, felly rwy'n credu bod angen i ni ganolbwyntio ar hynny.

Yna, cyfeiriasoch at fater Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi datganiadau polisi ar yr agweddau hynny o ddeddfwriaeth yr UE sydd fwyaf pwysig, sef argymhelliad 8, yr argymhelliad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wrthod oherwydd y llwyth gwaith a allai ei olygu ond credaf na fyddai hynny'n wir pe bai'n ddetholus. Fodd bynnag, rwy'n croesawu'r hyn a ddywedodd y Gweinidog ar y mater. Rwy'n meddwl eich bod wedi agor y drws yn amlwg ar hynny i'r pwyllgor ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a gweld os gallwn ddod o hyd i ffordd gynhyrchiol ymlaen, felly diolch i chi am hynny; gwnawn yn siŵr eich bod yn cadw eich addewid.

Soniodd Eluned Parrott am bwysigrwydd ymgysylltu'n gynnar, ac yna'n gyffredinol am waith Tŷ Cymru y cyfeiriwyd ato mewn areithiau eraill yn ogystal. Mae'n sefydliad rhagorol i ni yn Ewrop, os caf ei alw'n hynny. Mae'n adnabyddus ym Mrwsel ac roedd hyn yn gwbl glir wrth i ni siarad â gwahanol bobl. Mae'r rhai ohonom sydd wedi ymweld â Thŷ Cymru wedi cael gwasanaeth ardderchog, yn cynnwys cyfarwyddyd gan y Llywodraeth cyn cael mynediad, drwy ein swyddog ein hunain yn y Cynulliad Cenedlaethol yno, at amrywiaeth o uwch swyddogion. Drwy fuddsoddi digon mewn gweithgaredd o'r fath yn unig y gellir sicrhau'r math hwn o wasanaeth ac mae'n hanfodol ein bod yn gwella ac yn cadw Tŷ Cymru.

Suzy Davies talked about informal pathways, which are definitely a very big part of our report, and where the soft diplomacy goes on. Relationships are important. They are key, and they have got to be worked at and maintained. I thought that you were right to say that the Welsh Government does have a leadership role here for the whole of Welsh society that needs to engage with Europe. The Welsh Government needs to be able to co-ordinate that and keep people informed in a strategic approach, if I may summarise it. That is something that we have talked about throughout the inquiry.

Dafydd Elis-Thomas, you mentioned the role of national parliaments and the need to scrutinise EU legislation, and that is very important. Of course, now that we are a devolved state, much of what needs to be scrutinised will be in devolved fields, so we need to be a part of that. I am pleased to say that there are now excellent committees—I will be attending one on Monday—that bring all the legislatures of the UK together, under your colleague Tim Boswell. He runs an excellent network to bring us together to talk about how we are ensuring that the principle of subsidiarity is carried into greater effect. However, I do think that the need to scrutinise EU legislation is an important aspect of our work, in co-operation now with the European Parliament, but the parliamentary scrutiny side of the various executive functions is vital.

Again, may I conclude just by thanking the Minister? This was a B+ or A- mark for the Welsh Government, I think it is fair to say, in an area where, probably, other Governments have not been as active, certainly at the regional or national level, as we would say, in the UK. Therefore, I do not want to be faint in my praise, because I think that praise is due, and much of the work needs to be commended. However, I think that now that we are really on track, we need to be more ambitious, and that was the tone of the whole report. I thank you for responding constructively to that. I will finish by echoing what the Minister said: engagement is vital. Thank you very much.

Siaradodd Suzy Davies am lwybrau anffurfiol sy'n bendant yn rhan fawr iawn o'n hadroddiad, a lle y gwelir diplomyddiaeth feddal ar waith. Mae cydberthnasau'n bwysig. Maent yn allweddol ac mae'n rhaid gweithio arnynt a'u cynnal. Roeddech chi'n iawn i ddweud fod rôl gan Lywodraeth Cymru yma ar gyfer arwain y gymdeithas gyfan yng Nghymru sydd angen ymgysylltu ag Ewrop. Mae angen i Lywodraeth Cymru allu cyd-drefnu hynny a rhoi gwybodaeth i bobl drwy ddefnyddio dull strategol o weithredu, os caf fi ei roi'n gryno. Mae hynny'n rhywbeth y siaradasom amdano drwy gydol yr ymchwiliad.

Dafydd Elis-Thomas, soniasoch am rôl seneddau cenedlaethol a'r angen i graffu ar ddeddfwriaeth yr UE, ac mae hynny'n bwysig iawn. Wrth gwrs, gan ein bod bellach yn wladwriaeth ddatganoledig, bydd llawer o'r hyn sydd angen ei graffu mewn meysydd datganoledig felly mae angen i ni fod yn rhan o hynny. Rwy'n falch o ddweud bod yna bellach bwyllgorau ardderchog—byddaf yn mynychu un ddydd Llun—sy'n dod â phob un o ddeddfwrfeydd y DU at ei gilydd o dan eich cydweithiwr, Tim Boswell. Mae'n cynnal rhwydwaith ardderchog i ddod â ni at ein gilydd i siarad am y modd rydym yn sicrhau bod egwyddor sybsidiaredd yn cael ei gweithredu'n fwy effeithlon. Fodd bynnag, rwy'n credu bod yr angen i graffu ar ddeddfwriaeth yr UE yn agwedd bwysig o'n gwaith, mewn cydweithrediad yn awr gyda Senedd Ewrop, ond mae ochr graffu seneddol ar y gwahanol swyddogaethau gweithredol yn hanfodol.

Unwaith eto, a gaf fi orffen drwy ddiolch i'r Gweinidog? Rwy'n credu ei bod yn deg dweud bod y Llywodraeth yn cael marc B+ neu A- am hyn, mewn maes lle nad yw Llywodraethau eraill wedi bod mor weithgar yn ôl pob tebyg, yn bendant ar lefel ranbarthol neu genedlaethol, fel y byddem yn ei ddweud, yn y DU. Felly nid wyf am arbed fy nghanmoliaeth, oherwydd credaf fod canmoliaeth yn ddyledus, ac mae llawer o'r gwaith i'w ganmol. Fodd bynnag, gan ein bod bellach ar y trywydd iawn mewn gwirionedd, rwy'n credu bod angen i ni fod yn fwy uchelgeisiol a dyna oedd tôn yr adroddiad cyfan. Diolch i chi am ymateb yn adeiladol i hynny. Rwyf am orffen drwy adleisio'r hyn a ddywedodd y Gweinidog: mae ymgysylltiad yn hanfodol. Diolch yn fawr iawn i chi.

15:54 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to note the Constitutional and Legislative Affairs Committee's report. Does any Member object? There are no objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Y cynnig yw nodi adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

15:55 **Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch Gwaith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**

I call on the Chair of the Health and Social Care Committee, David Rees, to move the motion.

Cynnig NDM5519 David Rees

The Health and Social Care Committee's Report on the Work of Healthcare Inspectorate Wales **Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, David Rees, i gynnig y cynnig.

Motion NDM5519 David Rees

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Y Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar waith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mawrth 2014.

To propose that the National Assembly for Wales:

Notes the report of the Health and Social Care Committee into the work of Healthcare Inspectorate Wales, which was laid in the Table Office on 21 March 2014.

15:55

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Lywydd. Rwy'n gwneud y cynnig.

Mae'n bleser gennyf agor y ddatl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch gwaith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, neu HIW. Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i roi tystiolaeth i'r pwyllgor, yn enwedig cynrychiolwyr HIW a fu'n cydweithredu'n llawn â'r pwyllgor drwy gydol ein hymchwiliad. Diolch hefyd i'm cydweithwyr ar y pwyllgor am eu hymrwymiad a'u cyfraniad i'r ymchwiliad hwn, ac i'r Gweinidog am ei ymateb. Yn fy marn i, ni allai'r pwyllgor fod wedi edrych ar bwnc mwy pwysig na mwy amserol na'r pwnc hwn. Mae sicrhau bod ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu harchwilio yn briodol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pobl Cymru yn cael y gofal y maen nhw'n ei haeddu.

Cyhoeddodd y pwyllgor ei fwriad i gynnal ymchwiliad i waith HIW yng Ngorffennaf 2013. Ein nod wrth wneud y gwaith hwn oedd bodloni ein hunain bod y gyfundrefn arolygu gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn addas at y diben. Roedd gennym nod clir, sef cynnal sgwrs heriol ac adeiladol ynghylch gweithgareddau ac effeithiolrwydd HIW er mwyn sicrhau ansawdd a diogelwch y gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru. Amserwyd yr ymchwiliad fel ei fod yn dilyn cyhoeddi adroddiad ymchwiliad Francis yn Chwefror 2013, ac ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad hwnnw. Cafodd ein hymchwiliad ei gynllunio yng nghyd-destun y darnau pwysig hyn o waith.

We sought an insight into the regulation and inspection regime in Wales with the aim of reassuring ourselves that circumstances akin to those that led to the Francis inquiry had not arisen, and could not arise, in Wales without detection. It is important to emphasise that at no point during our inquiry did we identify serious issues relating to quality and safety of services, neither did we feel entirely reassured that if we were to currently rely on HIW alone, should such issues arise in the Welsh NHS, they would be detected in a timely or systematic way.

Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:58.

Thank you, Presiding Officer. I move the motion.

I am pleased to open this debate on the Health and Social Care Committee's report on the work of Healthcare Inspectorate Wales. I would like to begin by thanking those who gave their time to give evidence to the committee, particularly representatives of the inspectorate who co-operated fully with the committee throughout our inquiry. My thanks also go to my committee colleagues for their commitment and contribution to this inquiry, and to the Minister for his response. In my view, the committee could not have looked at a more important or timely subject as this one. Ensuring that the quality and safety of healthcare services are examined properly is fundamental to ensuring that the people of Wales receive the care that they deserve.

The committee announced its intention to undertake a review of the work of HIW in July 2013. Our aim in undertaking this work was to satisfy ourselves that the health services inspection regime in Wales is fit for purpose. We set out with a clear aim: to hold a challenging and constructive conversation about the activities and effectiveness of HIW in assuring the quality and safety of healthcare services in Wales. The timing of the inquiry was such that it followed the publication in February 2013 of the report of the Francis inquiry, and the Welsh Government's response to that report in July 2013. It was in the context of these important pieces of work that we framed our inquiry.

Ein nod oedd edrych ar y gyfundrefn reoleiddio ac arolygu yng Nghymru er mwyn cysuro ein hunain nad oedd amgylchiadau sy'n debyg i'r rheini a arweiniodd at ymchwiliad Francis wedi codi—ac na allent godi—yng Nghymru heb gael eu canfod. Er ei bod yn bwysig pwysleisio na ddaeth ein hymchwiliad o hyd i broblemau difrifol o ran ansawdd a diogelwch y gwasanaethau, nid oeddem chwaith yn teimlo'n gwbl hyderus, pe bai problemau o'r fath yn codi o fewn GIG Cymru, y byddent yn cael eu canfod mewn ffordd brydlon neu systematig pe baem yn dibynnu ar Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn unig.

The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:58.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is a matter of deep concern that this very point was illustrated in the recently published report of Professor June Andrews and Mark Butler on their review of care in the Neath Port Talbot and Princess of Wales hospitals. This distressing report raised questions about the effectiveness of Healthcare Inspectorate Wales, particularly in light of the fact that HIW last visited Abertawe Bro Morgannwg health board two years ago and did not see or report on what would have been at the time, according to the Andrews report, highly visible issues of poor practice.

Our report is clear: the committee did not receive the reassurances that it wanted to hear about the role of HIW in ensuring that healthcare providers are examined thoroughly and systematically in terms of the quality and safety of their services. Furthermore, we were not reassured that providers always face sufficient further intervention and review when inspections raise concerns.

We concluded that the purpose and role of HIW has not been defined sufficiently to provide a clear, robust and understood inspection and regulatory regime. Responsibilities have been added to HIW in a piecemeal approach—some may call it a patchwork-quilt approach—as and when legislation from Westminster was enacted, and HIW was seen as the body to take on those roles. Perhaps that was one consequence of the early days of devolution. In our opinion, this lack of clarity has undermined HIW's ability to establish itself as an authoritative regulator. Our report explains that greater clarity about the statutory landscape, which currently appears cluttered and opaque, would help set a clearer direction for HIW and improve its accountability. We also think that this could help address our concerns about HIW's ability to demonstrate its independence from Government in a way that other inspectorates, such as Estyn, are able to do.

In light of this sobering conclusion, we chose to make one overarching recommendation: that the Welsh Government undertake a fundamental review of HIW to reform, develop and improve its functions. We argued that this should be undertaken as a matter of urgency and should consider the key issues raised in our report. Furthermore, we noted that consideration of the need to reform HIW's statutory foundation should form part of that review, and that it should result in a clear outline of HIW's objectives and core purpose.

The Minister's response to our report indicates his agreement in principle with our key recommendation. We welcome the support that the Minister has given to our call for the statutory landscape on which HIW is founded to be reviewed. However, in that response, the Minister notes that a review of this nature will take time, and outlines his plan to publish a Green Paper for an NHS Wales quality Bill before the next Assembly election in 2016. Furthermore, his response warns that HIW requires time to

'stabilise as an organisation following a period of change before a review of its functions can take place'.

Mae'n fater o bryder difrifol bod yr union bwynt hwn wedi'i nodi yn adroddiad yr Athro June Andrews a Mark Butler a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan ar yr adolygiad o ofal yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ac Ysbyty Tywysoges Cymru. Roedd yr adroddiad hwnnw yn peri gofid ac yn codi cwestiynau ynghylch effeithiolrwydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, yn enwedig am mai dwy flynedd yn ôl oedd yr ymweliad diwethaf â Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ac ni sylwodd ac ni adroddodd ar yr hyn a fyddai, yn ôl adroddiad Andrews, wedi bod yn arferion gwael gweladwy iawn ar y pryd.

Mae ein hadroddiad yn glir: ni chafodd y pwyllgor y sicrwydd y dymunai ei gael ynghylch rôl AGIC o ran sicrhau bod darparwyr gofal iechyd yn cael eu harchwilio'n drylwyr ac yn systematig o ran ansawdd a diogelwch eu gwasanaethau. Ar ben hynny, ni chawsom sicrwydd fod darparwyr bob amser yn wynebu digon o ymyrraeth ac adolygu pellach wedi i arolygiadau nodi pryderon.

Daethom i'r casgliad nad yw diben a rôl AGIC wedi cael eu diffinio'n ddigonol i ddarparu cyfundrefn arolygu a rheoleiddio sy'n eglur, yn gadarn ac yn cael ei deall. Ychwanegwyd at gyfrifoldebau AGIC mewn modd tameidiog—byddai rhai'n ei alw'n ddull clytiog—wrth i ddeddfau o San Steffan ddod i rym ac ystyrid mai AGIC oedd y corff i ymgymryd â'r rolau hynny. Efallai mai dyna oedd un o ganlyniadau dyddiau cynnar datganoli. Yn ein barn ni, mae'r diffyg eglurder hwn wedi tansellio gallu AGIC i ymsefydlu'n rheoleiddiwr awdurdodol. Mae ein hadroddiad yn esbonio y byddai mwy o eglurder am y dirwedd statudol, sydd i'w gweld yn anniben ac yn aneglur ar hyn o bryd, yn helpu i osod cyfeiriad diriach ar gyfer AGIC ac yn gwella ei hatebolrwydd. Credwn hefyd y gallai hyn helpu i fynd i'r afael â'n pryderon ynghylch gallu'r AGIC i ddangos ei hannibyniaeth oddi ar y Llywodraeth yn yr un modd ag y gall arolygiaethau eraill, megis Estyn, ei wneud.

Yng ngoleuni'r casgliad sobreiddiol hwn, dewisasom wneud un argymhelliad cyffredinol: bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad sylfaenol o AGIC er mwyn diwygio, datblygu a gwella ei swyddogaethau. Dadleuasom y dylid gwneud hyn ar fyrder a dylai ystyried y materion allweddol a fyngwyd yn ein hadroddiad. Ar ben hynny, nodasom y dylai ystyriaeth o'r angen i ddiwygio sylfaen statudol AGIC fod yn rhan o'r adolygiad hwnnw ac y dylai arwain at amlinellid clir o amcanion AGIC a'i diben craidd.

Mae ymateb y Gweinidog i'n hadroddiad yn dangos ei fod yn cytuno mewn egwyddor â'n prif argymhelliad. Rydym yn croesawu'r gefnogaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i'n galwad am adolygu'r dirwedd statudol y seiliwyd AGIC arni. Fodd bynnag, yn yr ymateb hwnnw, mae'r Gweinidog yn nodi y bydd adolygiad o'r math hwn yn cymryd amser ac mae'n amlinellu ei gynllun i gyhoeddi Papur Gwyrdd ar gyfer Bil ansawdd y GIG yng Nghymru cyn etholiad nesaf y Cynulliad yn 2016. Ar ben hynny, mae ei ymateb yn rhybuddio bod AGIC angen amser i

'sefydlogi fel sefydliad yn dilyn cyfnod o newid cyn y gellir cynnal adolygiad o'i swyddogaethau.'

I acknowledge the need to allow HIW the time to build stronger relationships with other inspectorates across the UK administrations in order to share best practice and enable shared learning. I also note the Minister's comment that time should be given for HIW to complete the much-needed recruitment exercise to increase its capacity, and for relevant reviews and legislative developments to be completed. However, I am keen to hear the Minister's reasoning for waiting until the next Assembly to see the results of the fundamental review of HIW that we have asked for.

In addition to our single overarching recommendation, we highlighted a number of issues that we believe should inform the review that we recommended. The Minister and HIW responded to each of these issues in turn, and we welcome a number of aspects of that response. First, we note that HIW has now published its operational plan for 2014-15, setting out its work programme and priorities for that period. We welcome HIW's acknowledgement of the need to take stock of its performance against its published plans. We are pleased that, in light of our inquiry, HIW has asked the Auditor General for Wales, as part of his programme of value for money studies, to undertake an independent review of the inspectorate's delivery against its work plan and to comment on its overall effectiveness. We look forward to considering the auditor general's conclusions in due course.

The need for HIW to improve significantly the way it accesses and uses intelligence and information was also a clear theme in our inquiry. We know that the need to monitor standards of care has to be built into the provision of health services, via local health boards and community health councils, as well as the overarching national inspection regime that HIW forms a part of. For such a model to work, information has to be shared, so that activity is co-ordinated and focused on the areas of most significant risk. We welcome the actions outlined in the response to ensure the better sharing of information. We urge the Minister to keep a close eye on the extent to which these promises are delivered.

Our report also highlighted the fact that HIW needs to give assurances to patients and the public that it has a coherent plan to make sure that healthcare providers are examined appropriately and held to account. To achieve this, HIW needs to publish its reports more quickly, improve the accessibility of its information, and transform its website so that it is a user-friendly, transparent and comprehensive information portal. We welcome the commitments made by HIW in this regard, and we will keep a watchful eye on its progress in delivering these aims.

Rwy'n cydnabod yr angen i ganiatáu amser i AGIC adeiladu perthynas gryfach gydag arolygiaethau eraill ar draws gweinyddiaethau'r DU er mwyn rhannu arfer gorau a galluogi dysgu ar y cyd. Hefyd, nodaf sylwadau'r Gweinidog y dylid rhoi amser i AGIC gwblhau'r ymarfer recriwtio mawr ei angen er mwyn cynyddu ei chapasiti ac ar gyfer cwblhau adolygiadau perthnasol a datblygiadau deddfwriaethol. Fodd bynnag, rwy'n awyddus i glywed sail resymegol y Gweinidog dros aros nes y Cynulliad nesaf i weld canlyniadau'r adolygiad sylfaenol o AGIC y gofynasom amdano.

Yn ogystal â'n hargymhelliad cyffredinol, rydym wedi tynnu sylw at nifer o faterion y credwn y dylent lywio'r adolygiad a argymhellwyd. Ymatebodd y Gweinidog ac AGIC i bob un o'r materion hyn yn eu tro ac rydym yn croesawu nifer o agweddau ar yr ymateb hwnnw. Yn gyntaf, nodwn fod AGIC bellach wedi cyhoeddi ei chynllun gweithredol ar gyfer 2014-15 yn nodi ei rhaglen waith a'i blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod hwnnw. Rydym yn croesawu'r ffaith fod AGIC yn cydnabod yr angen i bwysu a mesur ei pherfformiad yn erbyn ei chynlluniau cyhoeddedig. Yng ngoleuni ein hymchwiliad, rydym yn falch fod AGIC wedi gofyn i Archwilydd Cyffredinol Cymru, fel rhan o'i raglen o astudiaethau gwerth am arian, gynnal adolygiad annibynnol o gyflawniad yr arolygiaeth yn erbyn ei chynllun gwaith ac i roi sylwadau ar ei heffeithiolrwydd cyffredinol. Edrychwn ymlaen at ystyried casgliadau'r archwilydd cyffredinol maes o law.

Roedd yr angen i AGIC wella'n sylweddol y ffordd y mae'n cael mynediad at wybodaeth ac yn ei defnyddio yn thema amlwg yn ein hymchwiliad hefyd. Gwyddom fod yn rhaid adeiladu'r angen i fonitro safonau gofal i mewn i ddarpariaeth gwasanaethau iechyd drwy fyrdau iechyd lleol a chynghorau iechyd cymuned yn ogystal â'r gyfundrefn arolygu genedlaethol gyffredinol y mae AGIC yn rhan ohoni. Er mwyn i fodel o'r fath weithio, mae'n rhaid rhannu gwybodaeth fel bod gweithgarwch yn cael ei gydgyssylltu a'i dargedu ar y meysydd risg mwyaf arwyddocaol. Rydym yn croesawu'r camau a amlinellir yn yr ymateb ar gyfer sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n well. Rydym yn annog y Gweinidog i gadw llygad barcud ar y gwaith o gyflawni'r addewidion hyn.

Roedd ein hadroddiad hefyd yn tynnu sylw at y ffaith fod angen i AGIC roi sicrwydd i gleifion a'r cyhoedd fod ganddi gynllun cydlynol ar gyfer gwneud yn siŵr fod darparwyr gofal iechyd yn cael eu harchwilio'n briodol a'u dwyn i gyfrif. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i AGIC gyhoeddi ei hadroddiadau yn gyflymach, gwneud ei gwybodaeth yn fwy hygyrch a thrawsnewid ei gwefan fel ei bod yn borth gwybodaeth sy'n hawdd ei ddefnyddio, yn dryloyw ac yn gynhwysfawr. Rydym yn croesawu'r ymrwymadau a wnaed gan AGIC yn hyn o beth a byddwn yn cadw llygad barcud ar ei chynnydd yn cyflawni'r nodau hyn.

The lack of capacity within HIW to fulfil its full range of responsibility was a matter of significant concern to us during our inquiry. We were troubled to hear the chief executive of HIW note that, even with a full complement of staff, it could not undertake the required level of inspection activity. Despite reassurances that the recent recruitment exercise will provide additional resources for the inspectorate, we remain to be convinced that HIW will have adequate capacity to address the myriad responsibilities placed on its shoulders. This concern is only heightened by the fact that HIW has been asked to undertake—on top of its already stretched schedule—a new programme of unannounced dignity and essential care inspections as a consequence of the conclusions of the Andrews report. This is the very report that questions the effectiveness of HIW in undertaking its work. The committee would welcome clarification from the Minister about what additional support will be provided to HIW to deliver adequately this additional and important programme of activity.

Looking to the future, the need to ensure an inspection regime that is resourced adequately, validated robustly, and fit for the purpose of inspecting new models of integrated health and social care, is vital. To this end, we noted the need to avoid over-reliance on self-assessment and called on HIW to clarify what external validation is in place. Furthermore, we call on the Welsh Government to consider how HIW's work sits alongside that of other regulatory inspection bodies, given the move towards integrated care services. In both cases, the Welsh Government refers to its forthcoming legislative programme as the appropriate tool to address the role of HIW.

In drawing these opening remarks to a close, I would like to repeat the Health and Social Care Committee's intention to return to the recommendations that we have made during the course of this Assembly. We intend to ensure that the issues that we have raised in our report are addressed in a timely and robust manner. I cannot recall an inquiry the result of which was more important for the NHS in Wales and, effectively, for the reassurance of the Welsh public.

16:05 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am very pleased to take part in this debate and want to echo the thanks of the committee Chair to those who participated by providing evidence to the committee. Indeed, it was a very enlightening inquiry, which highlighted what are very serious shortcomings in the inspection regime in the national health service. We know that HIW plays a strategic and important role, a vital function, in ensuring that care standards are being met, and, of course, its role post Francis—and post Andrews, I think we can now add—is going to be even more important in the future in terms of trying to allow the public to have confidence that, when they are in need of NHS care, they can be reassured that that is going to be delivered in a safe environment.

Roedd diffyg capasiti AGIC ar gyfer cyflawni ei hystod lawn o gyfrifoldebau yn fater o bryder sylweddol i ni yn ystod ein hymchwiliad. Testun gofid oedd clywed prif weithredwr AGIC yn nodi na allai ymgymryd â'r lefel ofynnol o weithgarwch arolygu gyda chyflenwad llawn o staff hyd yn oed. Er gwaethaf y sicrwydd a roddwyd y bydd yr ymarfer recriwtio diweddar yn darparu adnoddau ychwanegol ar gyfer yr arolygiaeth, nid ydym yn argyhoeddedig y bydd gan AGIC gapasiti digonol i fynd i'r afael â'r lluo o gyfrifoldebau y mae'n eu hysgwyddo. Mae'r pryder hwn yn dwysáu yn sgîl y ffaith fod AGIC wedi cael cais i ymgymryd â rhaglen newydd o archwiliadau dirybudd yn ymwneud ag urddas a gofal hanfodol o ganlyniad i gasgliadau adroddiad Andrews ar ben ei hamserlen dynn bresennol. Dyma'r union adroddiad sy'n cwestiynu effeithiolrwydd AGIC yn gwneud ei gwaith. Byddai'r pwyllgor yn croesawu eglurhad gan y Gweinidog ynglŷn â pha gymorth ychwanegol fydd yn cael ei ddarparu i AGIC er mwyn sicrhau bod y rhaglen waith ychwanegol a phwysig hon yn cael ei chyflawni'n ddigonol.

Gan edrych i'r dyfodol, mae'r angen i sicrhau trefn arolygu sy'n cael adnoddau digonol a'i dilysu'n gadarn, ac sy'n addas i'r pwrpas o archwilio modelau newydd o iechyd a gofal cymdeithasol integredig yn hollbwysig. I'r perwyl hwn, nodasom yr angen i osgoi gorddibyniaeth ar hunanasesu a galwasom ar AGIC i egluro pa gamau dilysu allanol sydd ar waith. Ar ben hynny, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried sut y mae gwaith AGIC yn cydweddu â gwaith cyrff arolygu rheoleiddiol eraill o ystyried y symudiad tuag at wasanaethau gofal integredig. O ran y ddau beth, mae Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at ei rhaglen ddeddfwriaethol sydd i ddod fel yr offeryn priodol i fynd i'r afael â rôl AGIC.

Wrth ddod â'r sylwadau agoriadol hyn i ben, hoffwn ailadrodd bwriad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ddychwelyd at yr argymhellion a wnaed gennym yn ystod y Cynulliad hwn. Rydym yn bwriadu sicrhau bod y materion rydym wedi'u codi yn ein hadroddiad yn cael eu trin mewn modd amserol a chadarn. Ni allaf gofio ymchwiliad lle'r oedd ei ganlyniadau'n bwysicach o ran y GIG yng Nghymru ac i bob pwrpas, o ran rhoi sicrwydd i'r cyhoedd yng Nghymru.

Rwy'n falch iawn o gymryd rhan yn y ddatl hon a hoffwn ategu diolch Cadeirydd y pwyllgor i'r rhai a gymerodd ran drwy ddarparu tystiolaeth ar gyfer y pwyllgor. Yn wir, roedd yn ymchwiliad defnyddiol iawn a dynnai sylw at ddiffygion difrifol iawn yng nghyfundrefn arolygu'r gwasanaeth iechyd gwladol. Rydym yn gwybod bod AGIC yn chwarae rôl strategol a phwysig, sy'n swyddogaeth hanfodol, yn sicrhau bod safonau gofal yn cael eu cyrraedd, ac mae ei rôl yn dilyn adroddiad Francis wrth gwrs—a gallwn ychwanegu bellach, yn dilyn Andrews—yn mynd i fod hyd yn oed yn y bwysicach yn y dyfodol o ran rhoi hyder i'r cyhoedd y gallant fod yn sicr y cânt ofal GIG wedi'i ddarparu mewn amgylchedd diogel pan fyddant ei weni.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

It was, therefore, very alarming to hear the chief executive of HIW tell us that she could not give us the assurances that we were seeking about whether there was a Mid Staffs taking place in Wales. It was concerning that we were told that there were insufficient people on the ground and that, even if it had a full complement of staff, it would not be able to service the NHS in a way that it felt was appropriate. We heard from the chief executive that she wanted her inspectors to be able to visit community hospitals on a triannual basis at least and major district general hospitals on an annual basis, or more frequently if problems are identified. However, even if they have a full complement of staff, it is not going to be able to do that, so there are resource issues that we cannot shy away from, and though this report does not emphasise them, it implies as much throughout the text and the commentary. So, we have a problem with capacity, and we have a problem that clearly needs to be addressed.

That said, there are of course some things that HIW has quite rightly highlighted and worked to address. There is a good example of the collaboration that it has had with other inspectorates in the work that it did on the situation in north Wales with Betsi Cadwaladr and the governance problems at that particular local health board. It was through the intelligence of the Wales Audit Office and HIW working together that they identified that there was a problem that required further investigation, and they collaborated and did a joint piece of work. I would like to see much more of that in the future. I think that it is disappointing, therefore, that the intelligence that it used to be able to deal with, and highlight, and address the problems that were taking place in north Wales just did not seem to be there in quite the same way in ABMU, where we have seen, for example, the criticisms that have been implied in the Andrews report about the failure of HIW to identify some of the problems that were taking place on the wards investigated.

There are a few other issues in the report that I want to draw attention to. One is in relation to the independence of HIW. Of course, HIW sits within the Welsh Government, if you like. It has operational independence, but there are certain elements of its practice that require Ministers to sign things off. For example, intervention has to be signed off by Welsh Ministers. I just wonder how appropriate that is and whether the Minister, perhaps in his response to the debate, can tell us whether he is prepared to give up that requirement for him to have to sign off interventions, because, let us face it, we live in a political environment and, sometimes—

Felly roedd clywed prif weithredwr AGIC yn dweud wrthym na allai roi'r sicrwydd a geisiam ynglŷn ag a oedd sefyllfa Canolbarth Swydd Stafford yn digwydd yng Nghymru yn ein dychryn yn fawr. Mater o bryder oedd clywed nad oedd digon o bobl ar gael a hyd yn oed gyda chyflenwad llawn o staff, ni fyddai'n gallu cynnal y GIG mewn ffordd y teimlai ei bod yn briodol. Clywsom gan y prif weithredwr ei bod eisiau i'w harolygwyr allu ymweld ag ysbytai cymuned bob tair blynedd o leiaf ac ymweld ag ysbytai mawr cyffredinol dosbarth yn flynyddol neu'n amlach pe bai problemau'n cael eu nodi. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda chyflenwad llawn o staff, nid yw'n mynd i allu gwneud hynny, felly mae materion yn codi mewn perthynas ag adnoddau na allwn eu hesgeuluso ac er nad yw'r adroddiad hwn yn eu pwysleisio, mae'n awgrymu hynny drwyddo draw yn y testun a'r sylwebaeth. Felly mae gennym broblem gyda chapasiti ac mae'n amlwg yn broblem sy'n galw am sylw.

Wedi dweud hynny, mae yna rai pethau y mae AGIC wedi tynnu sylw atynt yn gwbl briodol wrth gwrs ac mae wedi gweithio i fynd i'r afael â hwy. Ceir enghraifft dda o'r cydweithio rhyngddi ag arolygiaethau eraill yn y gwaith a wnaeth ar y sefyllfa yng ngogledd Cymru gyda bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr a'r problemau llywodraethu yn y bwrdd iechyd lleol penodol hwnnw. Drwy'r wybodaeth a gaed wrth i Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru weithio gyda'i gilydd y nodwyd bod problem a oedd yn galw am ymchwiliad pellach ac aethant ati i gydweithio a chynhyrchu gwaith ar y cyd. Hoffwn weld llawer mwy o hynny yn y dyfodol. Yn fy marn i, mae'n siomedig felly nad oedd y wybodaeth a ddefnyddiodd i amlygu ac ymdrin â'r problemau yng ngogledd Cymru i'w chael yn yr un ffordd ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, lle y gwelsom y beirniadaethau lluosog yn adroddiad Andrews, er enghraifft, am y modd y methodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru â nodi rhai o'r problemau a oedd yn digwydd ar y wardiau a archwiliwyd.

Hoffwn dynnu sylw at rai materion eraill yn yr adroddiad. Mae un yn ymwneud ag annibyniaeth AGIC. Wrth gwrs, mae AGIC yn rhan o Lywodraeth Cymru, os dymunwch. Mae ganddi annibyniaeth weithredol ond mae elfennau penodol o'i gwaith yn galw am gymeradwyaeth Gweinidogion. Er enghraifft, rhaid i Weinidogion Cymru gymeradwyo ymyriadau. Tybed pa mor briodol yw hynny ac a all y Gweinidog ddweud wrthym yn ei ymateb i'r ddadl a yw'n barod i ildio'r gofyniad hwn i gymeradwyo ymyriadau, oherwydd, gadewch i ni wynebu'r peth, rydym yn byw mewn amgylchedd gwleidyddol ac weithiau—

16:09 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you give way?

A wnewch chi ildio?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:09 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course.

Wrth gwrs.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:09 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am very grateful to you for pointing out the practical implications of not having a properly independent inspectorate, but of course, you can look around the whole of Government. Whatever commissioner we have, apart from the offices that are elected by this house, they are all part of Government, in one way or another.

Diolch yn fawr i chi am dynnu sylw at oblygiadau ymarferol peidio â chael arolygiaeth annibynnol briodol ond wrth gwrs, gallwch edrych ar y Llywodraeth yn ei chyfanrwydd. Pa gomisiynydd bynnag a fydd gennym, ar wahân i'r swyddi a etholir gan y tŷ hwn, maent oll yn rhan o'r Llywodraeth mewn un ffordd neu'r llall.

16:10 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

They are, but if we draw a distinction between Estyn and HIW, Estyn can put schools under special measures very easily, without ministerial sign-off. I am just wondering, as there are parallels there, whether HIW ought to have a similar suite of powers.

Ydynt, ond os gwahaniaethwn rhwng Estyn ac AGIC, gall Estyn roi ysgolion o dan fesurau arbennig yn hawdd iawn heb gymeradwyaeth weinidogol. Gan fod tebygrwydd rhyngddynt, tybed a ddylai AGIC gael set debyg o bwerau.

The Chair, in his opening remarks, made reference to the sharing of intelligence. Of course, community health councils are also struggling to identify their role in Wales and I think that there is a bigger role for community health councils to play in terms of their opportunities to inspect, with their lay members, to identify problems and to give some assurances to patients.

Cyfeiriodd y Cadeirydd yn ei sylwadau agoriadol at rannu gwybodaeth. Wrth gwrs, mae cynghorau iechyd cymuned hefyd yn ei chael yn anodd nodi eu swyddogaeth yng Nghymru ac rwy'n credu bod rhan fwy gan gynghorau iechyd cymuned i'w chwarae o ran eu cyfleoedd i archwilio, gyda'u haelodau lleyg, er mwyn canfod problemau a rhoi sicrwydd i gleifion.

Time does not permit me to go into this next area in great detail, but I just want to put on record that I am concerned, with the shift of health services into the primary and community care arena, that that is not a greater focus of HIW's work. Can the Minister, in his response to the debate, tell us what work he is doing to give assurances about the quality and safety of care in primary and community settings?

Nid yw amser yn caniatáu i mi ymhelaethu'n fanwl iawn ar y maes nesaf ond hoffwn gofnodi fy mod yn bryderus nad yw gwaith AGIC yn canolbwyntio mwy ar y symud sy'n digwydd o fewn y gwasanaethau iechyd tuag at ofal sylfaenol a chymunedol. Yn ei ymateb i'r ddadl, a all y Gweinidog ddweud wrthym pa waith y mae'n ei wneud i roi sicrwydd ynglŷn ag ansawdd a diogelwch gofal mewn sefydliadau iechyd sylfaenol a chymunedol?

16:11 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The aim of our inquiry was to hold a challenging and constructive conversation about the activities and effectiveness of Healthcare Inspectorate Wales and to stress-test the system proactively, if you like. I think that we have been very successful in doing that. It is important to be clear from the start, as others have been, that at no point during the course of our evidence taking did we identify serious issues relating to the quality or safety of services. However, as the Chair has said, as a committee, we did not feel reassured about the role of HIW in ensuring that healthcare providers are examined thoroughly and systematically in terms of the quality and safety of the services that they provide. We were not reassured that providers always face sufficient intervention and review when the high standards that we want for all Welsh patients, all of the time, are not met.

Nod ein hymchwiliad oedd cynnal sgwrs heriol ac adeiladol am weithgareddau ac effeithiolrwydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a phrofi pa mor wydn yw'r system yn rhagweithiol, os dymunwch. Rwy'n credu ein bod wedi gwneud hynny'n llwyddiannus iawn. Mae'n bwysig bod yn glir o'r dechrau, fel y mae eraill wedi bod, nad ydym wedi nodi materion difrifol yn ymwneud ag ansawdd neu ddiogelwch gwasanaethau ar unrhyw adeg yn ystod y broses o gasglu tystiolaeth. Fodd bynnag, fel y dywedodd y Cadeirydd, fel pwyllgor nid oeddem yn teimlo'n hyderus ynghylch rôl AGIC yn sicrhau bod darparwyr gofal iechyd yn cael eu harchwilio'n drylwyr ac yn systematig o ran ansawdd a diogelwch y gwasanaethau y maent yn eu darparu. Ni chawsom sicrwydd fod darparwyr bob amser yn wynebu digon o ymyrraeth ac adolygiadau pan na fydd y safonau uchel rydym eu heisiau ar gyfer holl gleifion Cymru yn cael eu cyrraedd drwy'r amser.

This is arguably the most important proactive inquiry that we have undertaken as a committee, dealing as it does with the fundamentals of healthcare—quality and safety. I am glad that the Welsh Government intends to respond robustly to our key recommendation that a fundamental review should be undertaken of HIW, as a matter of urgency, to reform, develop and improve its regulatory and inspection functions. Our report identified a series of important issues that should form part of that work. Darren Millar has just spoken of some of them, including information sharing, which should be improved, better working with CHCs, and a recognition of the move to closer and more integrated working practices between health and social care.

Any review should begin with a forensic look at the purpose and functions of HIW, which have grown significantly, but in an ad hoc fashion, over the years since its establishment 10 years ago. Hand in hand with that goes appropriate resourcing. We heard overwhelming evidence in our committee that HIW is overstretched and under-resourced. The Wales Audit Office told us that, within Wales, HIW is carrying out functions that are spread over a range of different bodies in England and expressed concerns about the breadth of its work and what that means in terms of resources. Indeed, the auditor general called the range of functions that have been laid at HIW's door 'formidable'. A number of witnesses made persuasive cases for revisiting whether various current functions really belong as core functions of HIW, and the statutory supervision of midwives is probably the most obvious of those.

The Chair has already stated that, as a committee, we did not receive the reassurances that we were looking for—that the purpose and role of HIW has been defined sufficiently to provide a clear, robust and understood inspection and regulatory regime. We came to the view that this lack of clarity has undermined HIW's ability to establish itself as an authoritative regulator. I was very concerned to hear the auditor general warn us during some of our evidence sessions that, in some instances, areas of work had not been looked at because they had been taken out of the work programmes of other regulation and inspection bodies in anticipation of being completed by HIW, only for that not to be the case because capacity constraints and the need to be reactive to unforeseen incidents and concerns can make it difficult for HIW to ensure that thematic reviews are carried out within the timescales originally envisaged.

Several of our key witnesses—including the Care and Social Services Inspectorate for Wales, health boards, the board of CHCs, the Patients Association and the Welsh Independent Healthcare Association—expressed the view that capacity issues were affecting HIW's ability to deliver its functions.

The chief executive of HIW also recognised that the body was struggling to deliver on its responsibilities, attributing many of the capacity concerns raised by witnesses to problems with recruitment. She said that, since the organisation last went through an organisational restructure in 2012, there have been,

Gellid dadlau mai dyma'r ymchwiliad rhagweithiol pwysicaf a gyflawnwyd gennym fel pwyllgor am ei fod yn ymdrin â hanfodion gofal iechyd—ansawdd a diogelwch. Rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymateb yn gadarn i'n hargymhelliad allweddol y dylid cynnal adolygiad sylfaenol o AGIC ar fyrder er mwyn diwygio, datblygu a gwella ei swyddogaethau rheoleiddio ac arolygu. Nododd ein hadroddiad gyfres o faterion pwysig a ddylai fod yn rhan o'r gwaith hwnnw. Soniodd Darren Millar yn awr am rai ohonynt, gan gynnwys rhannu gwybodaeth, proses y dylid ei gwella, gweithio'n well gyda Chynghorau Iechyd Cymuned a chydabyddiaeth o'r symudiad tuag at arferion gwaith agosach a mwy integredig rhwng iechyd a gofal cymdeithasol.

Dylai unrhyw adolygiad ddechrau drwy edrych yn ffrensic ar ddiben a swyddogaethau AGIC, sydd wedi cynyddu'n sylweddol, ond mewn modd ad hoc, dros y 10 mlynedd ers ei sefydlu. Law yn llaw â hynny, mae mater dod o hyd i adnoddau priodol. Clywsom dystiolaeth helaeth yn ein pwyllgor fod AGIC dan ormod o bwysau ac nad yw'n cael ei hariannu'n ddigonol. Dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru wrthym fod AGIC yn cyflawni swyddogaethau yng Nghymru sy'n cael eu rhannu rhwng ystod o gyrrff gwahanol yn Lloegr a mynegodd bryderon ynglŷn ag ehangder ei gwaith a'r hyn y mae hynny'n ei olygu o ran adnoddau. Yn wir, dywedodd yr archwilydd cyffredinol fod yr ystod o swyddogaethau sydd gan AGIC yn aruthrol. Cyflwynodd nifer o dystion achos cryf dros ailedrych i weld a yw'r swyddogaethau cyfredol amrywiol yn perthyn mewn gwirionedd i swyddogaethau craidd AGIC ac mae'n debyg mai goruchwyliaeth statudol dros fydwragedd yw'r swyddogaeth fwyaf amlwg o'r rheini.

Mae'r Cadeirydd eisoes wedi datgan na chawsom y sicrwydd y chwiliem amdano fel pwyllgor—fod diben a rôl AGIC wedi'u diffinio'n ddigonol ar gyfer darparu cyfundrefn arolygu a rheoleiddio sy'n eglur, yn gadarn ac yn cael ei deall. Daethom i'r casgliad fod y diffyg eglurder hwn wedi tansellio gallu AGIC i ymsefydlu'n rheoleidiwr awdurdodol. Gofid mawr i mi oedd clywed yr archwilydd cyffredinol yn rhybuddio yn ystod rhai o'n sesiynau tystiolaeth nad edrychwyd ar rai meysydd gwaith mewn rhai achosion am eu bod wedi'u tynnu allan o raglenni gwaith cyrff rheoleiddio ac arolygu eraill am fod disgwyl i'r AGIC eu cwblhau, ond na ddigwyddodd hynny am fod cyfyngiadau capasiti a'r angen i ymateb i ddigwyddiadau a phryderon annisgwyl yn gallu ei gwneud yn anodd i AGIC sicrhau bod adolygiadau thematig yn cael eu cynnal o fewn yr amserlenni a ragwelwyd yn wreiddiol.

Roedd sawl un o'n prif dystion—gan gynnwys Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, byrddau iechyd, bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned, Cymdeithas y Cleifion a Chymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru—o'r farn y gallai materion capasiti effeithio ar allu AGIC i gyflawni ei swyddogaethau.

Hefyd, cydnabu prif weithredwr AGIC fod y corff yn cael trafferth i gyflawni ei gyfrifoldebau, gan briodoli llawer o'r pryderon capasiti a godwyd gan dystion i broblemau gyda recriwtio. Ers y tro diwethaf i'r sefydliad wynebu ailstrwythuro sefydliadol yn 2012, dywedodd fod,

'some problems in recruiting staff and in being able to retain staff within the organisation'.

However, her deputy went further and added that there were issues in terms of capability and competency, which was a view that was shared by the chief inspector of CSSIW. As a general rule, recruitment and staffing challenges tend not to be about financial resourcing; they tend to be much more complex than that. So, in terms of the future of HIW, appropriate resourcing must be considered in the context of skills, experience, expertise and so on, as well as budgets and workforce size.

Those are my thoughts as to where I would like to see the Minister start in terms of the future of HIW. Addressing the fundamentals of defining the role, responsibilities and functions of HIW is key, and this is tied very much to ensuring appropriate resourcing in its wider sense. I would like to see this work progress as a matter of urgency in order that I can receive those assurances about the work of HIW that our inquiry was unable to provide.

16:16

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think this will be quite a common theme; there are a number of issues that I want to raise, and I too would like to thank all the witnesses, the Chair of the committee and, indeed, my fellow committee members. We had quite eye-opening sessions and we did try to drill down to the core of many issues. I have altered this speech so much during this debate that it is unbelievable.

First of all, I notice that Healthcare Inspectorate Wales,

'exists to ensure that providers meet basic standards'.

That is a definition that the committee did endorse. Who could argue with that? However, later in the report there is reference to a Welsh Government report that looks to the health services,

'to ensure that all that they do is of the highest quality.'

In my opinion, it is fundamental that Healthcare Inspectorate Wales should be seeking assurances that the highest quality is being maintained throughout our services, rather than just the basic standards. I think that it needs to make that its preferred mission statement. We were told that the healthcare inspectorate was overstretched and under-resourced, having problems recruiting and retaining staff. Is this because there is a large staff turnover? If so, we have to ask why. Are pay and working conditions not attractive enough? Is there adequate funding from the Welsh Government? Why cannot it carry out enough unannounced inspections? Unannounced inspections, in my opinion, should be paramount. Those are causes for concern.

'rhai trafferthion wedi bod gyda recriwtio staff ac o ran cadw staff o fewn y sefydliad'.

Fodd bynnag, aeth ei dirprwy ymhellach ac ychwanegodd fod problemau o ran capasiti a chymhwysedd, ac roedd hon yn farn a rennid gan brif arolygydd AGGCC. Yn gyffredinol, mae heriau recriwtio a staffio yn tueddu i beidio ag ymwneud ag adnoddau ariannol; maent yn tueddu i fod yn llawer mwy cymhleth na hynny. Felly, o ran dyfodol AGIC, rhaid ystyried cyflenwi adnoddau priodol yng nghydestun sgiliau, profiad, arbenigedd ac yn y blaen, yn ogystal â chyllidebau a maint y gweithlu.

Dyna fy syniadau ynglŷn â lle y byddwn yn hoffi gweld y Gweinidog yn dechrau o ran dyfodol AGIC. Mae mynd i'r afael â hanfodion diffinio rôl, cyfrifoldebau a swyddogaethau AGIC yn allweddol ac mae hyn yn gysylltiedig iawn â sicrhau adnoddau priodol yn eu hystyr ehangach. Hoffwn weld y gwaith hwn yn datblygu ar fyrder er mwyn i mi allu cael sicrwydd ynglŷn â gwaith AGIC na allodd ein hymchwiliad ei roi.

Rwy'n credu y bydd hon yn thema eithaf cyffredin; mae nifer o faterion rwyf am eu codi a hoffwn ddiolch hefyd i'r holl dystion, i Gadeirydd y pwyllgor ac yn wir, i fy nghyd-aelodau ar y pwyllgor. Cawsom sawl sesiwn a fu'n agoriad llygad a cheisiasom dreiddio i graidd llawer o faterion. Mae'n anhygoel gymaint rwyf wedi ei newid ar yr araith hon yn ystod y ddadl.

Yn gyntaf oll, rwy'n sylwi bod Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru,

'yn bodoli i sicrhau bod darparwyr yn bodloni safonau sylfaenol'.

Dyma ddiffiniad a gymeradwywyd gan y pwyllgor. Pwy all ddadlau â hynny? Fodd bynnag, yn nes ymlaen yn yr adroddiad, ceir cyfeiriad at adroddiad gan Lywodraeth Cymru sy'n disgwyl i'r gwasanaethau iechyd,

'sicrhau bod popeth a wnânt o'r safon uchaf.'

Yn fy marn i, mae'n hollbwysig fod Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn ceisio sicrwydd fod yr ansawdd uchaf yn cael ei gynnal drwy ein holl wasanaethau yn hytrach na dim ond y safonau sylfaenol. Rwy'n credu bod angen iddi ddweud hynny yn ei datganiad cenhadaeth. Dywedwyd wrthym fod yr arolygiaeth gofal iechyd o dan ormod o bwysau ac nad oes ganddi adnoddau digonol, a'i bod yn cael trafferth recriwtio a chadw staff. A yw hyn yn deillio o drosiant staff uchel? Os felly, rhaid i ni ofyn pam. Onid yw'r tâl a'r amodau gwaith yn ddigon deniadol? A yw Llywodraeth Cymru yn ei hariannu'n ddigonol? Pam na all gynnal digon o archwiliadau dirybudd? Yn fy marn i, dylai arolygiadau dirybudd fod o'r pwys mwyaf. Mae'r rhain yn faterion sy'n peri pryder.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I find it hard to accept that Healthcare Inspectorate Wales does not have regular meetings with the Minister. There should be regular feedback and reporting on work in progress, work that is planned and work that is, in fact, completed. That certainly needs to be written into Healthcare Inspectorate Wales's contracts with the Welsh Government. Another serious worry for me in the report is that communication between Healthcare Inspectorate Wales and the community health councils was not good enough, we were told. In fact, I do not think that it even existed, if I am being honest.

The health inspectorate is being given time to stabilise itself and then carry out a further review. Some cynics might say that this is another delaying tactic. From my experience of working with and questioning the Minister for health, a person who I respect very much, I do not think that he is a man of delaying tactics; I certainly hope not. However, I do think, Minister, that your review should be sought as a matter of absolute urgency.

Perhaps the most staggering fact is that very few of the reports on the HIW website relate to hospitals. Its priorities, as you can see, lie elsewhere. I think that that is unacceptable, since some of the major scandals within the NHS—I was going to quote Bridgend, but the Chair of the committee has already done so—relate to wholly substandard hospital care, and the time that people who need treatment have to wait for what is often a life-saving operation. If the healthcare inspectorate is not focusing on hospitals, where do its priorities lie? Are they in primary care? Apparently not. We are told that primary care is one area in which it has not done a great deal of work. So, if not hospitals, if not primary care, what work has it actually been doing?

If the Welsh Government is committed to more integrated health and social care then primary and community care must be subject to more rigorous—not robust, but rigorous—inspections. There should be closer working between the health and the social care inspectorate. For me, that is a no-brainer.

Finally, the committee heard that there is little or no evidence of follow-up on the part of Healthcare Inspectorate Wales to ensure that the local health boards have amended their policy, behaviour and practice as a result of the health inspectorate identifying concerns about the standard of healthcare. If that has even a grain of truth in it, how on earth can health boards improve or maintain their standards of care? I think that Healthcare Inspectorate Wales needs to sharpen its abilities and to publish its findings much more speedily once an inspection has been carried out. The Minister and the Welsh Government need an action plan so that in one year's time, the health inspectorate—if it is still in existence, which is the \$64,000 question—will have raised its own standards from basic to high quality. That is what we all expect when we go into a doctor's surgery, any healthcare clinic, and certainly when we go into hospitals. I am afraid that the evidence that we have seen in reports to committee give cause for concern.

Rwy'n ei chael hi'n anodd derbyn nad yw Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Gweinidog. Dylai fod adborth rheolaidd ac adrodd ar waith sy'n mynd rhagddo, gwaith sydd wedi'i gynllunio a gwaith sydd wedi'i gwblhau. Yn sicr mae angen i hyn gael ei gynnwys yn y contractau rhwng yr Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Llywodraeth Cymru. Pryder difrifol arall i mi yn yr adroddiad yw'r ffaith nad yw cyfathrebu rhwng Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a'r cynghorau iechyd cymuned yn ddigon da yn ôl yr hyn a ddywedwyd wrthym. Yn wir, pe bawn i'n onest, nid wyf yn credu fod cyfathrebu'n digwydd hyd yn oed.

Mae'r arolygiaeth iechyd yn cael amser i sefydlogi a chynhelir adolygiad pellach wedyn. Efallai y byddai rhai mwy sinigaidd yn honni mai tacteg oedi arall yw hon. O fy mhrofiad o holi a gweithio gyda'r Gweinidog iechyd, person rwyf yn ei barchu'n fawr iawn, nid wyf yn credu ei fod yn ddyn sy'n defnyddio tactegau oedi; rwy'n gobeithio hynny'n bendant. Fodd bynnag, Weinidog, rwy'n credu y dylid cynnal eich adolygiad fel mater o'r brys pennaf.

Efallai mai'r ffaith fwyaf syfrdanol yw mai ychydig iawn o'r adroddiadau ar wefan AGIC sy'n ymwneud ag ysbytai. Mae ei blaenoriaethau, fel y gwelwch, mewn manau eraill. Rwy'n credu bod hynny'n annerbyniol gan fod rhai o'r prif sgandalau o fewn y GIG-roeddwn yn mynd i gyfeirio at Ben-y-bont ar Ogwr, ond mae Cadeirydd y pwyllgor eisoes wedi gwneud hynny-yn ymwneud â gofal ysbyty sydd o dan y safon yn gyfan gwbl a'r amser y mae pobl sydd angen triniaeth yn gorfod aros am lawdriniaeth, a honno'n llawdriniaeth sy'n achub bywyd yn aml. Os nad yw'r arolygiaeth gofal iechyd yn canolbwyntio ar ysbytai, ble mae ei blaenoriaethau? Ai mewn gofal sylfaenol y maent? Ymddengys nad yw hynny'n wir. Dywedir wrthym fod gofal sylfaenol yn un maes lle nad yw wedi gwneud llawer iawn o waith ynddo. Felly, os nad ysbytai, os nad gofal sylfaenol, pa waith y mae wedi bod yn ei wneud mewn gwirionedd?

Os yw Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i iechyd a gofal cymdeithasol mwy integredig, yna mae'n rhaid i ofal sylfaenol a chymunedol fod yn destun archwiliadau mwy trylwyr—nid cadarn, ond trylwyr. Dylid sicrhau cydweithio agosach rhwng yr arolygiaethau iechyd a gofal cymdeithasol. I mi, mae hynny'n amlwg.

Yn olaf, clywodd y pwyllgor mai ychydig iawn, os o gwbl, o dystiolaeth a geir o waith dilynol ar ran Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i sicrhau bod y byrddau iechyd lleol wedi addasu eu polisiau, eu hymddygiad a'u hymarfer wedi i'r arolygiaeth iechyd nodi pryderon am safon gofal iechyd. Os oes y gronyn lleiaf o wirionedd yn hyn, sut ar y ddaear y gall byrddau iechyd wella neu gynnal eu safonau gofal? Rwy'n credu bod angen i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wella'i gallu a chyhoeddi ei chanfyddiadau yn llawer mwy cyflym ar ôl cynnal yr arolygiad. Mae angen cynllun gweithredu ar y Gweinidog a Llywodraeth Cymru fel bod yr arolygiaeth iechyd ymhen blwyddyn—os yw'n dal i fodoli, sef y cwestiwn mawr—wedi codi ei safonau ei hun o sylfaenol i ansawdd uchel. Dyna'r hyn rydym i gyd yn ei ddisgwyl wrth fynd i feddygfa, i glinig iechyd, ac yn bendant wrth fynd i ysbyty. Rwy'n ofni bod y dystiolaeth a welsom mewn adroddiadau i'r pwyllgor yn peri pryder.

I think that the committee report illustrates in a sober and relatively dispassionate way that there are serious issues for the Government to look at, in terms of the constitution and operation of Healthcare Inspectorate Wales. It is an example of a good form of committee inquiry, which can lay the groundwork, I hope, for longer term reform. I think that the exercise that we went through was conducted, pretty much, in a non-partisan way, which I think was helpful to getting to some of the detail of the issues.

There is no doubt that what we found in the course of the inquiry did not give us the reassurances that we were looking for about the role of HIW in inspection in relation to healthcare providers. The key conclusion of reform of the statutory foundation of HIW is important because it goes to the heart not just of inspection, but to the nature of that organisation, its culture and role. Clearly, that cannot be done overnight, and I think that we respond positively to what the Minister has already said, in terms of the way he wants to take some of these things forward.

However, in the course of the inquiry, I found myself slightly puzzled at the status of Healthcare Inspectorate Wales, particularly when I looked at it alongside other inspectorates that we have in Wales. It seems strange—and I understand that this is historic and goes back to the first term of the Assembly—that it is constituted within the health department, essentially. It seems strange that it does not have the wider range of intervention powers that it might do. It seems strange that the concept of special measures is not effectively defined, and it seems strange that HIW does not get an annual remit letter from the Minister, in the way that, say, an annual remit letter would be given to Estyn, and that there is not provision for regular dialogue. I mean, I am sure that there is regular dialogue, but there is not provision for formal meetings, as such, on a regular basis between HIW and the Minister, as happens with other inspectorates. I do not think that any of those things can be resolved in a debate this afternoon or on the back of a report; they do require attention and effective review over time to get this right.

I was concerned about a number of things that were said by the chief executive and deputy chief executive of HIW in their evidence, including the way in which they said that they could not give us the kinds of assurances that they understood we would want to expect them to give on a number of specific issues. Therefore, in short—I do not want to repeat what everybody else has said this afternoon—I think that there is an issue that the Government needs to respond to. However, I will end by urging the Minister not to confuse the role of inspection with the role of community health councils, which are somewhat different. There is a danger of confusing those roles in what has been said in the course of one or two contributions this afternoon. We need to get inspection right; it needs to be independent, and people need to have confidence in it.

Rwy'n credu bod adroddiad y pwyllgor yn dangos mewn ffordd sobr a chymharol bwylllog fod problemau difrifol i'r Llywodraeth edrych arnynt o ran cyfansoddiad a gweithrediad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Mae'n enghraifft o ffurf dda ar ymchwiliad pwyllgor a allai osod y sylfeini ar gyfer diwygio mwy hirdymor, rwy'n gobeithio. Rwy'n credu bod yr ymarfer a ddilynydwyd gennym wedi'i gynnal mewn ffordd amhleidiol i raddau helaeth a chredaf fod hynny wedi ein cynorthwyo i edrych yn fanwl ar y materion dan sylw.

Nid oes amheuaeth nad yw'r hyn a welsom yn ystod yr ymchwiliad yn rhoi'r sicrwydd y chwiliem amdano ynglŷn â rôl AGIC yn arolygu darparwyr gofal iechyd. Mae prif ganlyniad diwygio sylfaen statudol AGIC yn bwysig oherwydd ei fod yn mynd at galon nid yn unig arolygu, ond natur y sefydliad, ei ddiwylliant a'i rôl. Yn amlwg, ni ellir ei wneud dros nos ac rwy'n credu ein bod yn ymateb yn gadarnhaol i'r hyn y mae'r Gweinidog wedi'i ddweud eisoes, o ran y ffordd y mae'n awyddus i ddatblygu rhai o'r pethau hyn.

Fodd bynnag, yn ystod yr ymchwiliad, cefais fy nrysu braidd ynghylch statws Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, yn enwedig wrth edrych arni ochr yn ochr ag arolygiaethau eraill Cymru. Mae'n ymddangos yn rhyfedd-ac y rwy'n deall bod hyn yn hanesyddol ac yn mynd yn ôl at dymor cyntaf y Cynulliad-ei bod wedi'i chyfansoddi o fewn yr adran iechyd i bob pwrpas. Mae'n ymddangos yn rhyfedd nad oes ganddi'r ystod ehangach o bwerau ymyrryd y gallai fod ganddi. Mae'n ymddangos yn rhyfedd nad yw'r cysyniad o fesurau arbennig wedi'i ddiffinio'n effeithiol ac mae'n ymddangos yn rhyfedd nad yw AGIC yn cael llythyr cylch gwaith blynyddol gan y Gweinidog yn y ffordd y byddai llythyr cylch gwaith blynyddol yn cael ei roi i Estyn, dyweder, ac felly nid oes darpariaeth ar gyfer deialog reolaidd. Hynny yw, rwy'n siŵr bod deialog reolaidd ar waith ond nid oes darpariaeth ar gyfer cyfarfodydd ffurfiol fel y cyfryw ar sail reolaidd rhwng AGIC a'r Gweinidog fel sy'n digwydd gydag arolygiaethau eraill. Nid wyf yn meddwl y gellir datrys unrhyw un o'r pethau hyn mewn dadl y prynhawn yma neu yn sgîl adroddiad; mae angen rhoi sylw iddynt a'u hadolygu'n effeithiol dros amser er mwyn eu cael yn iawn.

Rwy'n pryderu am nifer o bethau a ddywedodd prif weithredwr a dirprwy brif weithredwr AGIC yn eu tystiolaeth, gan gynnwys y ffordd y dywedasant na allent roi'r mathau o sicrwydd y deallent y byddem yn eu disgwyl ganddynt ar nifer o faterion penodol. Felly, yn fyr—nid wyf am ailadrodd yr hyn y mae pawb arall wedi'i ddweud y prynhawn yma—rwy'n meddwl bod yna broblem y mae angen i'r Llywodraeth ymateb iddi. Fodd bynnag, rwyf am orffen drwy annog y Gweinidog i beidio â drysu rôl arolygu â rôl cynghorau iechyd cymuned sydd yn ychydig yn wahanol. Mae perygl o ddrysu rhwng y rolau yn ôl yr hyn a ddywedwyd mewn un neu ddau o'r cyfraniadau y prynhawn yma. Mae angen i ni sicrhau bod y drefn arolygu'n iawn; rhaid iddi fod yn annibynnol a rhaid i bobl gael hyder ynddi.

Diolch am y cyfle i gyfrannu at y ddatl bwysig hon, er nad wyf yn aelod o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r adroddiad hwn yn peri cryn ofid i'r rhai ohonom na wrandawodd ar y dystiolaeth yn y pwyllgor ond sydd wedi cael cyfle i ddarllen yr adroddiad. Yn bendant, rydym ni fel grŵp yn credu nad yw'r system bresennol o arolygu'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn addas at y diben, fel y dywedodd David Rees. Rwy'n meddwl bod angen cyfundrefn gadarn a rhagweithiol, ond hefyd un sy'n annibynnol. Mae nifer o'r materion a godwyd gan Leighton Andrews ynglŷn â'r patrwm hanesyddol sydd wedi creu'r sefyllfa rydym yn darganfod ein hunain ynddi heddiw yn werth eu hystyried, fel y dywedodd, fel rhan o'r adolygiad cynhwysfawr.

Fodd bynnag, mae'n rhaid inni ofyn cwestiynau ynglŷn â'r holl drafod ymysg y cyhoedd sy'n delio â'r gwasanaeth iechyd ar hyn o bryd. Mae'n rhaid inni ofyn pam rydym yn darganfod ein hunain mewn sefyllfa lle, yn ystod y dystiolaeth a gafwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, roedd yn derbyn y dylai arolygu ysbytai cymunedol unwaith bob tair blynedd, ond y trefniant presennol sy'n cael ei dderbyn gan yr arolygiaeth a Llywodraeth Cymru yw bod hwn yn digwydd bob pum mlynedd. Er ei fod wedi dweud y dylai symud tuag at gyfundrefn lle y byddai ysbytai cyffredinol dosbarth yn cael eu harolygu yn flynyddol, nid yw hynny'n digwydd ond bob tair blynedd.

Rwyf hefyd am ategu'r hyn a ddywedodd David Rees, fel y Cadeirydd, bod yn rhaid inni ofyn, oherwydd yr holl sylw sy'n cael ei roi â'r holl bryderon sy'n cael eu mynegi o ran y gwasanaeth iechyd ar hyn o bryd, a yw'n ddigonol inni ddweud y bydd yr adolygiad yn cymryd rhyw ddwy flynedd. Byddai o ddiddordeb inni ddarganfod pam y mae'r Llywodraeth yn credu bod hynny'n dderbyniol.

Mae'n rhaid inni gyfaddef bod achosion yn cael eu creu lle, efo'r holl drafferthion yn y bwrdd iechyd yn y gogledd y llynedd, wrth gwrs, mae patrwm lle mae gwaith ychwanegol yn cael ei roi ar yr arolygiaeth o dro i dro gan y Llywodraeth. Bydd gwaith ychwanegol yn deillio o adroddiad Andrews ynglŷn â'r pryderon ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Hoffwn hefyd ategu'r hyn a ddywedodd Leighton Andrews. Mae'n rhaid gofyn y cwestiwn: pe bai Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn awdurdod lleol, a yw'n debygol y byddai'r bwrdd iechyd, flwyddyn diwethaf, yn wynebu mesurau arbennig? Mae'n rhaid inni ofyn pam rydym yn creu sefyllfa lle rydym yn dal at yr hen batrymau. Rwy'n meddwl bod llawer iawn o'r gweithwyr o fewn y gwasanaeth iechyd a'r cyhoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth iechyd eisiau sicrwydd bod y gwasanaeth yn un diogel.

Rwy'n falch bod y Gweinidog wedi derbyn yr argymhelliad, er fy mod eisieu clywed ganddo pam y mae'n awyddus i aros ryw ddwy flynedd. Mae perygl ein bod yn creu sefyllfa lle mae o'n hunan-fodlonrwydd o ran Llywodraeth Cymru. Mae'n rhaid gofyn hyn: os yw'r Llywodraeth yn derbyn yr argymhelliad yn gyffredinol, o ran camau gweithredu Llywodraeth Cymru, pam na chymerwyd camau ynghynt o ran y sefyllfa bresennol? Os oedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol nad oedd yr arolygiaeth yn gallu ymgymryd â'r gwaith arolygu, ers pa bryd yr oedd hynny?

Thank you for the opportunity to contribute to this important debate, even though I am not a member of the Health and Social Care Committee. This report causes some concern to those of us who did not hear the evidence gathered in the committee but have had an opportunity to read the report. Certainly, we as a group believe that the current system of inspecting the health service in Wales is not fit for purpose, as David Rees has said. I believe that we need a robust and proactive regime, but also one that is independent. Many of the issues raised by Leighton Andrews regarding the historical pattern that has led us to the position in which we find ourselves today are worth taking into account, as he said, as part of the comprehensive review.

However, we have to ask questions regarding all of the debate that has happened among the public about the health service at present. We must ask why we find ourselves in a situation where, during the evidence gathered from Healthcare Inspectorate Wales, it accepted that the inspection of community hospitals should happen every three years, but the current arrangement accepted by the inspectorate and the Welsh Government is that this happens every five years. Although it says that it should move towards a regime where district general hospitals are inspected on an annual basis, that currently happens only on a three-yearly basis.

I would also like to endorse the comments made by David Rees, as the Chair, that we must ask, because of all of the coverage being given to and the concerns being expressed about the health service at present, whether it is sufficient for us to say that the review will take around two years to complete. I would like to hear why the Government believes that is acceptable.

We should admit that there are cases where, given all of the difficulties in the health board in north Wales last year, of course, there is a pattern where additional work is placed on the inspectorate from time to time by the Government. There will be additional work emerging from the Andrews report on concerns in Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board. I would also like to endorse the comments made by Leighton Andrews. We have to ask the question: if Betsi Cadwaladr University Local Health Board was a local authority, is it likely that the health board, last year, would have found itself in special measures? Therefore, we have to ask why we find ourselves in a situation where we are sticking to the old modus operandi. Many of the staff working in the health service and the public who make use of the health service want certainty that the service is safe.

I am pleased that the Minister has accepted the recommendation, although I want to hear from him why he is eager to wait two years. There is a risk that we create a situation where there is an element of complacency on the part of the Welsh Government. We have to ask this: if the Government accepts the recommendation in general, in terms of the action taken by the Welsh Government, why were no steps taken sooner given the current situation? If the Welsh Government was aware that the inspectorate could not undertake its inspection responsibilities, for how long has that been the case?

Rydym ni, fel plaid, yn credu bod angen i Lywodraeth Cymru ystyried diwygio'r gyfundrefn yn llwyr. Credaf fod angen gwneud hynny cyn diwedd y ddwy flynedd. Credaf fod angen i'r cyhoedd, a ni fel Aelodau Cynulliad, gael rhyw fath o sicrwydd bod hyn yn flaenoriaeth o ran ein Llywodraeth ar hyn o bryd.

We, as a party, believe that the Welsh Government needs to consider reforming the system in a root-and-branch manner. I think that it needs to do that before the two years are up. I believe that the public, and ourselves as Assembly Members, need to have some sort of an assurance that this is a priority for our Government at present.

16:30 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I call the Minister for Health and Social Services to speak—
Mark Drakeford.

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol i siarad—Mark Drakeford.

16:30 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch o gael cyfle i ymateb i'r ddadl hon, a diolch i aelodau'r pwyllgor am yr adroddiad maent wedi ei gyhoeddi. Mae adroddiad y pwyllgor yn ddadansoddiad cytbwys o sefyllfa Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ddegawd ar ôl ei sefydlu. Mae'r cynigion yn rhai blaengar ac yn anelu at sicrhau bod yr arolygiaeth yn gryfach yn y dyfodol.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I am pleased to have the opportunity to respond to this debate, and I thank the members of the committee for the report that they have published. The committee's report provides a balanced analysis of the position of HIW a decade after its formation. Its proposals are forward looking and aim to secure a stronger inspectorate for the future.

Mae'r adroddiad yn cael effaith yn barod. Bydd yr Aelodau hynny sydd wedi darllen cynllun gwaith yr arolygiaeth ar gyfer 2014-15 a gyhoeddwyd diwedd mis Mawrth yn gweld sefydliad sydd ag adnoddau gwell, yn ariannol ac o ran recriwtio staff allweddol; sydd mewn sefyllfa well i adlewyrchu safbwynt y cyhoedd drwy gyfraniad carfan newydd sy'n dod o'r cyhoedd; sydd â chysylltiadau gwell â gwaith cyrff rheoleiddio eraill, yn enwedig CSSIW a Swyddfa Archwilio Cymru; sydd felly yn fwy parod i gynnal rhaglen drylwyr o'r arolygiadau, ac sydd yn gallu adrodd ar yr arolygiadau hyn yn fwy amserol.

The report is already having an impact. Those Members who have read the HIW work plan for 2014-15 published at the end of March, will see an organisation that is better resourced, both financially and in terms of key staff recruitment; that is better placed to reflect the public perspective through the involvement of a new cadre of lay inspectors; that is better connected to the work of other regulatory bodies, particularly CSSIW and the Wales Audit Office; that is better prepared, therefore, to undertake a thorough programme of inspections, and that is better able to report on these inspections in a timely fashion.

Yn y flwyddyn i ddod, bydd HIW yn cynnal llawer mwy o arolygiadau, gan gynyddu ei phresenoldeb a gwneud ei hun yn fwy amlwg. Bydd adroddiadau drafft yn cael eu cyhoeddi o fewn tair wythnos a bydd adroddiadau llawn yn cael eu cyhoeddi ar wefan newydd HIW o fewn tri mis i gynnal yr arolygiad. Yn arbennig, mae HIW yn cynyddu y rhaglen graidd o arolygiadau urddas a gofal hanfodol di-rybudd, gan ymdrin ag o leiaf 50 o wardiau neu leoliadau eraill ym mhob bwrdd iechyd lleol.

The coming year will see a significant rise in the volume of HIW's inspection activity, increasing both its presence and visibility. Draft reports will be issued within three weeks and a report published on the new HIW website within three months of an inspection having taken place. In particular, HIW is enhancing its core programme of unannounced dignity and essential care inspections, with a minimum of 50 wards or other settings covered in all local health boards.

Wrth gwrs, nid yw rôl a chylich gwaith HIW yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n digwydd yn ein hysbytai yn unig, fel roedd Darren Millar yn ei ddweud, ac mae hynny'n gwbl gywir. Mae'n hanfodol bwysig fod y gwaith yn ymestyn i ystod llawer ehangach o wasanaethau yn y gymuned, lle mae'r mwyafrif helaeth o gyswllt rhwng cleifion a gwasanaethau iechyd yn digwydd.

Of course, the role and remit of HIW does not focus solely on what goes on in our hospitals, as Darren Millar said, and that is entirely right. It is vital that its work extends into that far wider range of services in the community, where the vast bulk of contacts between patients and the NHS take place.

Fel y mae adroddiad y pwyllgor yn ei ddweud yn glir, mae angen i HIW gyfleu ei chanfyddiadau mewn ffordd agored i'r rhai sydd â diddordeb yn y canfyddiadau hynny. Mae'r wefan newydd a lansiwyd ym mis Ebrill eleni yn ddechreuad pwysig o ran ei gwneud yn haws i'r cyhoedd gael gweld gybodaeth am y gwaith mae HIW yn ei wneud.

As the committee's report makes clear, HIW then needs to communicate its findings in an outward facing way to those who have an interest in those findings. The new website, which came into operation in April of this year, is a significant start in providing more accessible information to the public about the work HIW carries out.

I want to concentrate now on the single recommendation that the committee made that is directed at Government. It is important to be clear that the most fundamental feature of HIW is that it has always operated as an independent inspectorate, independent of the national health service and independent of the Minister for health. There is a fine line between commentary on the work of the organisation and interference in that independence, and I think that the committee's report gets that balance quite right. The recommendation asks for a fundamental review of HIW to reform, develop and improve its regulatory and inspection functions. The Government has accepted this recommendation. Ten years after its creation, and now with a very different set of powers available to this National Assembly, the time is right for such a review.

In the decade of its operation HIW has, undoubtedly, acquired a series of additional responsibilities. The review will consider whether its remit is now sufficiently coherent, and look for ways in which it may be able to be streamlined and certainly to be strengthened. The committee also explicitly suggests that the review should consider the statutory basis of HIW. The Government also accepts this aspect of the recommendation. Given that a review on this basis could lead to legislation, I believe that it is important that it should, in itself, include a strong independent element.

I am pleased to be able to say this afternoon, therefore, that Ruth Marks, formerly the older people's commissioner for Wales, and author of the 'Dignified Care?' report, has agreed to provide independent oversight of this work. She will review the existing role, function and legislative base for HIW, taking into account the changes that have occurred to it during its 10-year history. She will have the independent ability and authority to meet, visit, explore and discuss with anyone anything that she believes to be relevant to the advice that she will provide.

The committee has called for the review to be conducted as a matter of urgency, as we have heard this afternoon. I simply have to say that that proposal has to be considered in the context of the substantial legislative programme before this Assembly in the final two years of this term and the need for the reform of HIW to be consistent with other parts of the Government's work, including the audit, inspection and regulation review, which is being undertaken by the Minister for local government, the regulation and inspection Bill, which the Deputy Minister for Social Services intends to bring before the Assembly, the reforms that are being carried out to CHCs, as a number of Members have noted this afternoon, and recognising the actions arising from the Williams commission.

Rwyf am ganolbwyntio yn awr ar yr un argymhelliad a wnaed gan y pwyllgor sydd wedi'i gyfeirio at y Llywodraeth. Mae'n bwysig bod yn glir mai nodwedd fwyaf sylfaenol AGIC yw ei bod bob amser wedi gweithredu fel arolygiaeth annibynnol, yn annibynnol ar y gwasanaeth iechyd gwladol ac yn annibynnol ar y Gweinidog iechyd. Llinell denau sydd yna rhwng y sylwadau ar waith y sefydliad ac ymyrryd â'r annibyniaeth honno, a chredaf fod adroddiad y pwyllgor yn sicrhau'r cydbwysedd hollol gywir. Mae'r argymhelliad yn gofyn am adolygiad sylfaenol o AGIC er mwyn diwygio, datblygu a gwella ei swyddogaethau rheoleiddio ac arolygu. Mae'r Llywodraeth wedi derbyn yr argymhelliad hwn. Ddeng mlynedd ar ôl creu'r arolygiaeth, a gyda chyfres wahanol iawn o bwerau ar gael i'r Cynulliad Cenedlaethol hwn bellach, dyma'r amser iawn ar gyfer cynnal adolygiad o'r fath.

Yn ystod y degawd y bu'n weithredol, mae AGIC yn ddi-os wedi mabwysiadu cyfres o gyfrifoldebau ychwanegol. Bydd yr adolygiad yn ystyried a yw ei chylch gwaith yn awr yn ddigon cydlynol, ac yn chwilio am ffyrdd y gellid ei symleiddio, a'i chryfhau yn sicr. Mae'r pwyllgor hefyd yn awgrymu'n benodol y dylai'r adolygiad ystyried sail statudol AGIC. Mae'r Llywodraeth hefyd yn derbyn yr agwedd hon ar yr argymhelliad. O gofio y gallai adolygiad ar y sail hon arwain at ddeddfwriaeth, rwy'n credu ei bod yn bwysig ei fod yn cynnwys elfen annibynnol gref ynddo'i hun.

Rwy'n falch o allu dweud y prynhawn yma felly fod Ruth Marks, cyn gomisiynydd pobl hŷn Cymru ac awdur yr adroddiad 'Gofal gydag Urddas?', wedi cytuno i ddarparu goruchwyliaeth annibynnol o'r gwaith hwn. Bydd yn adolygu rôl bresennol, swyddogaeth a sylfaen ddeddfwriaethol ar gyfer AGIC gan ystyried y newidiadau a ddigwyddodd iddi yn ystod y 10 mlynedd y bu'n weithredol. Bydd ganddi allu ac awdurdod annibynnol i gyfarfod ac ymweld ag unrhyw un, i archwilio ac i drafod unrhyw beth y mae'n credu ei fod yn berthnasol i'r cyngor y bydd yn ei roi.

Mae'r pwyllgor wedi galw am gynnal yr adolygiad ar fyrder, gel y clywsom y prynhawn yma. Rhaid i mi ddweud yn syml fod angen i'r cynnig gael ei ystyried yng nghyd-destun y rhaglen ddeddfwriaethol sylweddol sydd gerbron y Cynulliad hwn yn ystod dwy flynedd olaf y tymor hwn a'r angen i'r gwaith o ddiwygio AGIC fod yn gyson â rhannau eraill o waith y Llywodraeth gan gynnwys yr adolygiad o'r gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio sy'n cael ei gynnal gan y Gweinidog Llywodraeth leol, y Bil rheoleiddio ac arolygu y mae'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn bwriadu ei gyflwyno gerbron y Cynulliad, y gwaith ar ddiwygio cynghorau iechyd cymuned fel y nododd nifer o'r Aelodau y prynhawn yma, a chydabod y camau gweithredu sy'n deillio o gomisiwn Williams.

Let me be clear that, having said that, the review itself will begin without delay. Ruth Marks will begin her work within the month. If she has proposals that can strengthen the operation of HIW in the short term, we will act on these as they become available. That can certainly include views on parallels with Estyn's independence of action, raised by Darren Millar. I do not expect to wait until the end of the review to bring about improvements that can be brought about in the short term. Thinking of Lindsay Whittle's point, my hesitation is not about trying to extend the process; it is about trying to make sure that the process can be conducted in an orderly fashion. The committee itself refers, as the Chair did this afternoon, to aspects of the regulatory landscape in Wales being cluttered and opaque. I feel that it is important for me to avoid the risk of adding to this complexity and opacity, rather than reducing it.

I repeat the commitment given in my response to the committee's report that the Government will bring forward a Green Paper, outlining reform proposals for HIW, before the end of this Assembly term. That Green Paper will form the basis of legislation to secure a strengthened, independent regulatory remit for HIW in an NHS quality Bill, ready for introduction in the early part of the post-2016 period. In doing so, I believe that we will respond to the committee's important work in the most positive way possible.

Gadewch i mi fod yn glir ar ôl dweud hynny y bydd yr adolygiad ei hun yn dechrau yn ddi-oed. Bydd Ruth Marks yn dechrau ar ei gwaith o fewn y mis. Os oes ganddi gynigion a all gryfhau gweithrediad AGIC yn y tymor byr, byddwn yn gweithredu ar y rhain wrth iddynt ddod ar gael. Gall hynny'n sicr gynnwys safbwyntiau ar yr hyn sy'n debyg i annibyniaeth weithredol Estyn a godwyd gan Darren Millar. Nid wyf yn disgwyl aros tan ddiwedd yr adolygiad i sicrhau gwelliannau y gellir eu rhoi ar waith yn y tymor byr. Gan ystyried y pwynt a wnaeth Lindsay Whittles, nid wyf yn oedi er mwyn ceisio ymestyn y broses; rwy'n oedi er mwyn ceisio gwneud yn siŵr y gellir cynnal y broses mewn modd trefnus. Mae'r pwyllgor ei hun yn cyfeirio, fel y gwnaeth y Cadeirydd y prynhawn yma, at agweddau anniben ac aneglur ar y dirwedd reoleiddio yng Nghymru. Rwy'n teimlo ei bod yn bwysig i mi osgoi'r risg o ychwanegu at gymhlethdod ac aneglurder o'r fath, yn hytrach na'i leihau.

Rwy'n ailadrodd yr ymrwymiad a roddais yn fy ymateb i adroddiad y pwyllgor y bydd y Llywodraeth yn cyflwyno Papur Gwyrdd yn amlinellu cynigion diwygio ar gyfer AGIC cyn y daw tymor y Cynulliad hwn i ben. Bydd y Papur Gwyrdd yn sail i ddeddfwriaeth i sicrhau cylch gwaith wedi'i gryfhau a'i reoleiddio'n annibynnol ar gyfer AGIC mewn Bil ansawdd GIG yn barod i'w gyflwyno yn rhan gyntaf y cyfnod ar ôl 2016. Wrth wneud hynny, rwy'n credu y byddwn yn ymateb i waith pwysig y pwyllgor yn y ffordd fwyaf cadarnhaol posibl.

16:38 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Chair of the Health and Social Care Committee to reply—David Rees.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ymateb—David Rees.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:38 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd, a diolch i'r holl Aelodau a siaradodd yn y ddadl heddiw ac i'r Gweinidog am ei ymateb.

Thank you, Deputy Presiding Officer, and I thank all the Members who spoke in today's debate and the Minister for his response.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

We have had very similar themes throughout all the conversations, and I will just highlight a couple of points. On the issue around resourcing, it is not just about the funding, but the staffing and the skills available. In a complex situation, that is important. I think, Minister, that you mentioned that you were looking at putting a new team of inspectors in place within HIW for that. I am very pleased to hear that.

Rydym wedi cael themâu tebyg iawn drwy gydol yr holl sgyrsiau ac rwyf am dynnu sylw at un neu ddau o bwyntiau. O ran adnoddau, nid yw'n ymwneud ag arian yn unig, ond â'r staff a'r sgiliau sydd ar gael. Mewn sefyllfa gymhleth, mae hynny'n bwysig. Weinidog, rwy'n meddwl eich bod wedi sôn eich bod yn ystyried sefydlu tîm newydd o arolygwyr o fewn AGIC ar gyfer gwneud hynny. Rwy'n falch iawn o glywed hynny.

Intelligence sharing is critical. I think that Lindsay Whittle highlighted the fact that we heard that there was very little intelligence sharing between CHCs and HIW. I think they mentioned that only three ever gave reports in. That is critical and it is important that we address that particular issue, not just between CHCs and HIW, but across all regulatory bodies. As Darren highlighted, when the WAO and HIW worked jointly in north Wales, the intelligence sharing worked to provide a good response. That has highlighted how important that is.

Mae rhannu gwybodaeth yn hanfodol. Credaf fod Lindsay Whittle wedi tynnu sylw at y ffaith ein bod yn clywed mai ychydig iawn o rannu gwybodaeth sy'n digwydd rhwng Cynghorau Iechyd Cymuned ac AGIC. Rwy'n credu eu bod wedi crybwyll mai dim ond tri ohonynt a gyflwynodd adroddiadau erioed. Mae hynny'n allweddol ac mae'n bwysig ein bod yn mynd i'r afael â'r mater penodol hwnnw, nid yn unig rhwng cynghorau iechyd cymuned ac AGIC, ond ar draws yr holl gyrff rheoleiddio. Fel yr amlygodd Darren, pan oedd Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn gweithio ar y cyd yng ngogledd Cymru, llwyddwyd i sicrhau ymateb da drwy rannu gwybodaeth. Mae hynny wedi amlygu pa mor bwysig yw hyn.

I will also perhaps mention—it has been highlighted, but the report did not highlight it often enough—the primary care aspects. This is a move that we need to look forward to. Although we did not discuss it in the report, I think it is important that the role of HIW in that arena be looked at.

Darren, I agree with you about all those points. The link in Betsi Cadwaladr last summer showed that, in fact, it can be achieved. So, we are not saying that it cannot be done. We are saying that there are examples of where it can be done. We just want to see more of that happening. Rebecca also highlighted the need to co-ordinate work and deliver on agreed schedules, which again was a very important point made to us. The auditor general highlighted concerns that, if schedules are not agreed, there is a problem but, if they are agreed, they also have to be delivered so that gaps do not appear because of whatever reason. As Lindsay pointed out, it is important that we see change quickly, but we also recognise your comments, Minister, about the time it takes. This has also highlighted the formal meetings, which Leighton supported, that perhaps should happen with you. I hope that you will take that on board to look at how that can happen to get that more formal process in place.

Leighton also recognised, as I think we all agree, that actions cannot be taken overnight. We do recognise that it takes time. However, Leighton also mentioned a very important point, which I omitted from my comments, about the ability to intervene, what the intervention powers are and what it means—what HIW can actually do in intervention positions. Can it put things in special measures? What does that actually mean? So, I think that it is important to look at that. Aled also commented. Aled, I appreciate that you were not a member of the committee but, clearly, you have a very strongly held view in this arena, as we all do. I know that you spoke on behalf of your party but I also understand that it was a personal view as well. I think that the robustness and consistency that you highlighted are important. It is important that we have consistency across all aspects of the inspection. For every point we talk about, it is consistency that is critical. We do not want an approach in one area being different from the approach in another area. It is important that we provide that consistency.

So, Minister, thank you very much for your response. Thank you all, Members, for your contributions. Minister you mentioned things being streamlined and strengthened. I think that that is what we want: streamlined, strengthened and actually delivering the robust inspectorate regime we all want. Finally, I look forward to Ruth Marks starting her work this month, and I am very pleased to hear that it is not just a case of work starting; if something needs to be done, you will act upon it. I am very appreciative of that, so, once again, thank you, Minister.

Efallai y gallwn sôn hefyd am yr agweddau gofal sylfaenol—roedd yr adroddiad yn tynnu sylw atynt ond ni wnaed hynny'n ddigon aml. Mae hwn yn newid y mae angen i ni edrych ymlaen ato. Er na thrafodwyd hyn gennym yn yr adroddiad, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig edrych ar rôl AGIC yn y maes hwnnw.

Darren, rwy'n cytuno â chi ynglŷn â'r holl bwytiau hynny. Dangosodd y cyswllt â Betsi Cadwaladr yr haf diwethaf fod modd cyflawni hyn mewn gwirionedd. Felly nid ydym yn dweud na ellir ei wneud. Rydym yn dweud bod enghreifftiau'n bodoli o lle y gellir ei wneud. Rydym yn awyddus i weld mwy o hynny'n digwydd, dyna'i gyd. Tynnodd Rebecca sylw hefyd at yr angen i gydgyssylltu gwaith a chyflawni yn ôl amserlenni y cytunwyd arnynt sydd unwaith eto yn bwynt pwysig iawn a wnaed. Amlygodd yr archwilydd cyffredinol bryderon ynghylch y broblem sy'n codi os na chytunir ar amserlenni, ond os cânt eu cytuno, rhaid eu cyflawni hefyd fel nad oes bylchau'n ymddangos am ba bynnag reswm. Fel y dywedodd Lindsay, mae'n bwysig ein bod yn gweld newid yn gyflym ond rydym hefyd yn cydnabod eich sylwadau, Weinidog, am yr amser y mae'n ei gymryd. Mae hyn hefyd wedi tynnu sylw at y cyfarfodydd ffurfiol a gefnogai Leighton, a ddylai ddigwydd gyda chi efallai. Rwy'n gobeithio y byddwch yn ystyried hyn er mwyn edrych i weld sut y gallai hynny ddigwydd ar gyfer gosod y broses fwy ffurfiol honno ar waith.

Cydnabu Leighton hefyd, fel y credaf ein bod i gyd yn cytuno, na ellir rhoi camau gweithredu ar waith dros nos. Rydym yn cydnabod ei bod yn broses sy'n cymryd amser. Fodd bynnag, soniodd Leighton hefyd am bwynt pwysig iawn nad oeddwn wedi'i gynnwys yn fy sylwadau, ynglŷn â'r gallu i ymyrryd, beth yw'r pwerau ymyrryd a beth y maent yn ei olygu—beth y gall AGIC ei wneud mewn gwirionedd mewn sefyllfaoedd ymyrryd. A all wneud pethau'n destunau mesurau arbennig? Beth y mae hynny'n ei olygu mewn gwirionedd? Felly rwy'n meddwl ei bod yn bwysig edrych ar hynny. Gwnaeth Aled sylwadau hefyd. Aled, rwy'n sylweddoli nad oeddech yn aelod o'r pwyllgor ond mae'n amlwg fod gennych farn gref iawn yn y maes hwn, fel sydd gennym ni i gyd. Gwn eich bod wedi siarad ar ran eich plaid ond rwy'n deall ei bod yn farn bersonol yn ogystal. Credaf fod y cadernid a'r cysondeb y tynnwch sylw atynt yn bwysig. Mae'n bwysig i ni gael cysondeb ar draws pob agwedd ar yr arolygiad. Ym mhob pwynt y siaradwn amdano, cysondeb sy'n hanfodol. Nid ydym eisiau i'r dull o weithredu mewn un maes fod yn wahanol i'r dull o weithredu mewn maes arall. Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau'r cysondeb hwnnw.

Felly, Weinidog, diolch yn fawr iawn i chi am eich ymateb. Aelodau, diolch i chi i gyd am eich cyfraniadau. Weinidog, bu i chi sôn am bethau'n cael eu symleiddio a'u cryfhau. Rwy'n meddwl mai dyna rydym ni am ei gael: symleiddio, cryfhau a darparu'r gyfundrefn arolygu gref rydym ni'n ei dymuno. Yn olaf, edrychaf ymlaen at weld Ruth Marks yn dechrau ar ei gwaith fis hwn, ac rwy'n falch iawn o glywed nad yw'n fater o ddim ond gwaith yn dechrau; os oes angen gwneud rhywbeth, y byddwn yn gweithredu. Rwy'n werthfawrogi iawn o hynny, felly, unwaith eto, diolch, Weinidog.

16:42

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you. The proposal is to note the Health and Social Care Committee's report. Does any Member object? There is no objection. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Diolch. Mae'r cynnig i nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Felly, cytunir ar y cynnig yn unol â Gorchymyn Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Yr Economi Ddigidol

Detolwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 6 yn enw Aled Roberts, a gwelliannau 2, 3, 4 a 5 yn enw Elin Jones.

Welsh Conservatives Debate: The Digital Economy

The following amendments have been selected: amendments 1 and 6 in the name of Aled Roberts, and amendments 2, 3, 4 and 5 in the name of Elin Jones.

16:42

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Galwaf ar William Graham i gynnig y cynnig.

I call on William Graham to move the motion.

Cynnig NDM5520 Paul Davies

Motion NDM5520 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd yr economi ddigidol, ac yn datblygu seilwaith i'w chynnal.

1. Recognises the importance of the digital economy, and the development of infrastructure to support it.

2. Yn gresynu bod ardaloedd yng Nghymru o hyd lle nad oes fawr ddim darpariaeth band eang neu 3G, os o gwbl, a'r effaith andwyol y mae hyn yn ei chael ar fusnesau ac unigolion.

2. Regrets that there are still areas of Wales which experience poor or no broadband or 3G coverage and the adverse impact this has upon businesses and individuals.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi manylion ynghylch sut y bydd y£12 miliwn o'r cyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU ar gyfer Cyflymu Cymru yn cael ei ddyrannu.

3. Calls on the Welsh Government to detail how the £12m additional funding from the UK Government for Superfast Cymru will be allocated.

16:42

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

Thank you, Deputy Presiding Officer. Mahatma Gandhi once said that there is more to life than simply increasing its speed. Not that I would like to be at odds with this view, but speed is obviously essential for the digital economy in Wales. This is why we need to develop the necessary infrastructure to support and expand our digital economy. We acknowledge the progress towards achieving the Superfast Cymru target of providing access to fibre broadband to 96% of premises in Wales by 2016 and the United Kingdom Government's target that the whole of the United Kingdom have the best superfast broadband network in the EU by 2015. In welcoming the initial investment of £425 million for the programme to roll out fibre broadband to areas of Wales that would not be commercially viable with private funding alone, it is worth noting that, of this investment of £425 million, 51% is funded by British Telecom, 21% comes from European funding, 14% from the Welsh Government, and 14% from the United Kingdom Government, in addition to the additional £12 million it invested last February.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Dywedodd Mahatma Gandhi unwaith fod mwy i fywyd na dim ond cynyddu ei gyflymder. Nid yr hoffwn fynd yn groes i'r farn hon, ond mae cyflymder yn amlwg yn hanfodol ar gyfer yr economi ddigidol yng Nghymru. Dyma pam y mae angen i ni ddatblygu'r seilwaith angenrheidiol i gefnogi ac ehangu ein heconomi ddigidol. Rydym yn cydnabod y cynnydd tuag at gyrraedd targed Cyflymu Cymru sef darparu mynediad at fand eang ffeibr i 96% o safleoedd yng Nghymru erbyn 2016 a tharged Llywodraeth y Deyrnas Unedig fod y cyfan o'r Deyrnas Unedig yn cael y rhwydwaith band eang cyflym iawn gorau yn yr UE erbyn 2015. Wrth groesawu'r buddsoddiad cychwynnol o £425 miliwn ar gyfer y rhaglen i gyflwyno band eang ffeibr i ardaloedd yng Nghymru na fyddai'n fasnachol hyfyw gyda chyllid preifat yn unig, mae'n werth nodi, o'r buddsoddiad hwn o £425 miliwn, fod 51% yn cael ei ariannu gan British Telecom, 21% yn dod o gyllid Ewropeaidd, 14% gan Lywodraeth Cymru, a 14% gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, yn ogystal â'r £12 miliwn ychwanegol a fuddsoddodd fis Chwefror diwethaf.

On completing the Superfast Cymru programme, BT Openreach will have laid 17,500 km of optical fibre cable and installed around 3,000 new fibre broadband cabinets across Wales. Currently, more than 80 communications providers are trialling or offering fibre broadband over BT's network. A recent UN report on broadband provision identified that, as a result of this level of competition, the United Kingdom has among the lowest cost broadband provision in the world. I note the deliberations over fibre-to-cabinet and fibre-to-premises provision and that BT recommends that fibre to cabinet offers the most cost-effective method for achieving a significant Wales-wide increase in speed. In Japan and Australia, the fibre-to-premises service was 10 times the cost, but three times the speed. The use of fibre to cabinet establishes and sustains broadband infrastructure, allowing the option to choose fibre to premises. The Welsh Conservatives focus attention on the digital economy, because Wales and the United Kingdom will have a short window of time to take advantage of what will be a world-leading network completed before other countries in Europe have their own fibre infrastructure in place.

To take full advantage of this, we need to ensure that we increase awareness and take-up of this enhanced system. Ofcom has identified that Wales has the lowest take-up levels of broadband in the UK—66% compared with a UK average of 75%. Internet usage is also lower in Wales—around 13.6 hours a week compared with a UK average of 16.8 hours. This low take-up creates a social-digital divide. Ofcom identified that 76% of owner-occupied homes have internet access; it is 75% in private rented households, but only 54% in social housing. Single pensioner households are least likely to have internet access with only 33% connected.

Businesses are increasingly dependent upon reliable, efficient and high-speed access to the internet and advanced digital communications. We appreciate these challenges, and because of the topography in Wales, providing a countrywide service and system is difficult. It impedes the creation and growth of Welsh businesses, with some of the lowest broadband speeds in the United Kingdom.

Llantarnam Road in Cwmbran, with an average download speed of just 1.10 MB per second, has been identified as having the third slowest speed in Wales and the thirteenth slowest in the United Kingdom. This road is not in a rural area; it is near one of the most densely populated areas of south Wales.

Ar ôl cwblhau'r rhaglen Cyflymu Cymru, bydd BT Openreach wedi gosod 17,500 km o gebl ffeibr optegol a gosod tua 3,000 o flychau band eang ffeibr newydd ar draws Cymru. Ar hyn o bryd, mae mwy na 80 o ddarparwyr cyfathrebu yn treialu neu'n cynnig band eang ffeibr dros rwydwaith BT. Nododd adroddiad diweddar gan y Cenhedloedd Unedig ar ddarpariaeth band eang fod gan y Deyrnas Unedig, o ganlyniad i'r lefel hon o gystadleuaeth, y ddarpariaeth band eang gyda'r rhataf o ran cost yn y byd. Nodaf y trafodaethau ynghylch y cysylltiad ffeibr i'r blwch a ffeibr i'r safle a bod BT yn argymhell mai cysylltiad ffeibr i'r blwch sy'n cynnig y dull mwyaf costeffeithiol o gyflawni cynnydd sylweddol mewn cyflymder ledled Cymru. Yn Japan ac Awstralia, roedd gwasanaeth ffeibr i'r safle 10 gwaith yn ddrutach, ond dair gwaith yn gynt. Mae'r defnydd o gysylltiad ffeibr i'r blwch yn sefydlu ac yn cynnal seilwaith band eang, gan ganiatáu'r opsiwn o ddewis cysylltiad ffeibr i'r safle. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn canolbwyntio eu sylw ar yr economi ddigidol, oherwydd y bydd gan Gymru a'r Deyrnas Unedig gyfnod byr o amser i fanteisio ar rwydwaith a fydd gyda'r gorau yn y byd, a fydd wedi'i chwblhau cyn i wledydd eraill yn Ewrop gael eu seilwaith ffeibr eu hunain yn barod.

I fanteisio'n llawn ar hyn, mae angen i ni sicrhau ein bod yn cynyddu ymwybyddiaeth a'r defnydd o'r system ragorach hon. Mae Ofcom wedi nodi mai Cymru sydd â'r lefelau defnyddio band eang isaf yn y DU—66% o'i gymharu â chyfartaledd y DU o 75%. Mae'r defnydd o'r rhyngwyd hefyd yn is yng Nghymru—tua 13.6 awr yr wythnos o'i gymharu â chyfartaledd y DU o 16.8 awr. Mae'r lefelau defnyddio isel hyn yn creu rhaniad cymdeithasol-digidol. Nododd Ofcom fod gan 76% o gartrefi sy'n eiddo i berchen-feddiannwyr fynediad i'r rhyngwyd; ei fod yn 75% ar aelwydydd rhent preifat, ond dim ond 54% mewn tai cymdeithasol. Aelwydydd pensïynwyr sengl yw'r lleiaf tebygol o fod â mynediad i'r rhyngwyd gyda dim ond 33% wedi'u cysylltu.

Mae busnesau yn gynyddol ddibynnol ar fynediad dibynadwy, effeithlon a chyflym i'r rhyngwyd a chyfathrebu digidol uwch. Rydym yn cydnabod yr heriau hyn, ac oherwydd y topograffi yng Nghymru, mae darparu gwasanaeth a system ym mhob cwr o'r wlad yn anodd. Mae'n amharu ar y gallu i greu a datblygu busnesau yng Nghymru, gan fod cyflymder band eang mewn rhai ardaloedd gyda'r isaf yn y Deyrnas Unedig.

Mae Ffordd Llantarnam yng Nghwmbrân, gyda chyflymder lawrlwytho ar gyfartaledd sy'n ddim ond 1.10 MB yr eiliad, wedi'i nodi fel yr ardal sydd â'r cyflymder araf ond dau yng Nghymru a dyma'r trydydd ar ddeg mwyaf araf yn y Deyrnas Unedig. Nid yw'r ffordd mewn ardal wledig; mae'n agos i un o'r ardaloedd mwyaf poblog yn ne Cymru.

In parallel to the optical fibre network, there has been significant growth in the 4G mobile provision. Almost 40% of 16 to 43-year-olds rank their smartphones as their most important device for internet access. Equality of reception across Wales is, again, a challenge for those service providers, as illustrated in their proposals for advised planning regulations for larger, mounted antennae and small cell antennae. Wales must take advantage of the window of opportunity arising from this world-leading network provision. It coincides with the United Kingdom Government's reviving of the economy and encouraging growth, together with providing additional funding for enhancing internet provision. Therefore, all of the support and investment is in place for economic growth and business creation.

We strongly request that the Welsh Government works in partnership with all sectors and the United Kingdom Government to realise these opportunities and to maintain a prosperous future for Wales.

Ochr yn ochr â'r rhwydwaith ffeibr optegol, bu twf sylweddol yn y ddarpariaeth symudol 4G. Mae bron 40% o bobl 16-43 mlwydd oed o'r farn mai eu ffôn clyfar yw eu dyfais bwysicaf ar gyfer defnyddio'r rhyngwrwd. Mae sicrhau derbyniad cyfartal ledled Cymru, unwaith eto, yn her i'r darparwyr gwasanaeth hynny, fel y gwelir yn eu cynigion wrth roi cyngor ar reoliadau cynllunio ar gyfer gosod antenau mwy o faint ac antenau celloedd bach. Rhaid i Gymru achub ar y cyfle a ddaw yn sgîl y ddarpariaeth rhwydwaith flaengar hon. Mae'n cyd-daro ag ymdrechion Llywodraeth y Deyrnas Unedig i adfywio'r economi ac annog twf, ynghyd â darparu cyllid ychwanegol ar gyfer gwella darpariaeth y rhyngwrwd. Felly, mae'r holl gefnogaeth a buddsoddiad yn eu lle ar gyfer twf economaidd a chreu busnes.

Rydym yn gofyn yn gryf bod Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â phob sector a Llywodraeth y Deyrnas Unedig i wireddu'r cyfleoedd hyn ac i gynnal dyfodol llewyrchus i Gymru.

16:47

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwyf wedi dethol y chwech gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Eluned Parrott i gynnig gwelliannau 1 a 6, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

I have selected the six amendments to the motion. I call on Eluned Parrott to move amendments 1 and 6, tabled in the name of Aled Roberts.

Gwelliant 1—Aled Roberts

Amendment 1—Aled Roberts

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Insert as new point 2 and renumber accordingly:

Yn gresynu at y ffaith mai Cymru sydd â'r gyfran fwyaf o safleoedd mewn mannau gwan posibl ac mai yng Nghymru y mae'r argaeledd isaf o ran gwasanaethau band eang cyflym iawn o'i gymharu â gweddill y DU.

Regards that Wales has the largest proportion of premises in potential not-spots and the lowest availability of superfast broadband services in the UK.

Gwelliant 6—Aled Roberts

Amendment 6—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i roi diwedd ar honiadau camarweiniol gan gwmnïau band eang sy'n gweld cwsmeriaid yng Nghymru yn talu am wasanaeth cyflym nad ydynt yn gallu ei gael.

Calls on the Welsh Government to work with the UK Government to end misleading claims by broadband companies which see customers in Wales paying for a high speed service which they cannot receive.

16:47

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I move amendments 1 and 6 in the name of Aled Roberts.

Cynigaf welliannau 1 a 6 yn enw Aled Roberts.

I would like to thank the Welsh Conservatives for bringing this debate today. It is a subject on which I have a significant amount of casework. The issue of connectivity, as you mentioned, not only by internet but by mobile phones, is one that many of my constituents have raised with me.

Hoffwn ddiolch i'r Ceidwadwyr Cymreig am gyflwyno'r ddatl hon heddiw. Mae'n bwnc y mae gennyf gryn dipyn o waith achos amdano. Mae mater cysylltedd, fel i chi sôn, nid yn unig dros y rhyngwrwd, ond gan ffonau symudol, yn un y mae llawer o fy etholwyr wedi'i godi gyda mi.

The importance of our digital economy, of course, is something that we have discussed on many occasions. I am sure that all Members here would agree that, in order to build not only the Welsh economy but also the Welsh society of the future, we have to invest in that underpinning infrastructure, so that people are able, not only to build businesses that can access the internet but also basic public services, such as being able to file tax returns or get their cars tax online and all those other kinds of things. Sadly, though, as stated in our amendment 1 today, Wales has further to travel in this regard than other parts of the UK according to Ofcom's communications market report for 2013, which states that Wales has the largest proportion of premises in potential notspots and the lowest availability of superfast broadband across the UK.

For people who live in rural Wales, this leaves them feeling doubly isolated in modern society, I would suggest, because we see this trend that local services, such as banks and council offices, are withdrawing from small high streets in favour of an internet presence, which people in those rural communities with poor internet access cannot access either. However, as I have also stated previously, it is not only a rural issue in Wales; it is an issue that a number of urban areas face as well. I have raised the issue of the Penylan notspot in the heart of Cardiff in my region on a number of occasions.

While the Superfast Cymru broadband programme aims to tackle rural notspots, there are a significant number of businesses and homes in urban notspots that have not been helped by this programme, or indeed by commercial interventions to date. So I do welcome the Deputy Minister's open market review into the 4% of people who are not currently reached. However, I wonder whether he would be in a position today to tell us when the public consultation that he had previously mentioned on that issue will open so that we can all—

Mae pwysigrwydd ein heconomi ddigidol, wrth gwrs, yn rhywbeth rydym wedi'i drafod ar sawl achlysur. Rwyf yn siŵr y byddai pob Aelod yma yn cytuno, er mwyn adeiladu economi Cymru yn ogystal â chymdeithas Cymru yn y dyfodol, bod yn rhaid inni fuddsoddi yn y seilwaith sylfaenol hwnnw, fel bod pobl nid yn unig yn gallu adeiladu busnesau sy'n gallu cael mynediad at y rhyngwrwyd, ond hefyd at wasanaethau cyhoeddus sylfaenol, megis y gallu i gyflwyno ffurflenni treth neu gael eu treth ceir ar-lein a'r holl fathau eraill hynny o bethau. Yn anffodus, fodd bynnag, fel y nodwyd yn ein gwelliant 1 heddiw, mae gan Gymru ffordd bellach i fynd yn hyn o beth na rhannau eraill o'r DU yn ôl yr adroddiad ar y farchnad gyfathrebu gan Ofcom ar gyfer 2013, sy'n datgan mai Cymru sydd â'r gyfran fwyaf o safleoedd sy'n fannau gwan posibl a'r argaeledd isaf o fand eang cyflym iawn ar draws y DU.

O ran y bobl sy'n byw yng nghefn gwlad Cymru, awgrymw'n fod hyn yn eu gadael i deimlo'n ynysig ar ddaud gyfrif, oherwydd y gwelwn y duedd hon, sef bod gwasanaethau lleol, megis banciau a swyddfeydd y cyngor, yn tynnu allan o brif strydoedd bach o blaid presenoldeb ar y rhyngwrwyd, ac na all pobl yn y cymunedau gwledig hynny sydd â mynediad rhyngwrwyd gwael gael mynediad i'r naill na'r llall. Fodd bynnag, fel rwyf hefyd wedi datgan eisoes, nid dim ond mater i'r Gymru wledig ydyw; mae'n fater y mae nifer o ardaloedd trefol yn ei wynebu hefyd. Rwyf wedi codi'r mater ynglŷn â'r man gwan ym Mhenylan yng nghanol Caerdydd yn fy rhanbarth sawl gwaith.

Er bod y rhaglen band eang Cyflymu Cymru yn ceisio mynd i'r afael â manau gwan gwledig, mae nifer sylweddol o fusnesau a chartrefi mewn manau gwan trefol nad ydynt wedi cael eu helpu gan y rhaglen hon, neu yn wir gan ymyriadau masnachol hyd yn hyn. Felly, rwyf yn croesawu adolygiad marchnad agored y Dirprwy Weinidog i'r 4% o bobl nad ydynt yn cael eu cyrraedd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, tybed a fyddai ef mewn sefyllfa heddiw i ddweud wrthym pryd y bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus y bu iddo ei grybwyll eisoes ar y mater hwnnw yn agor er mwyn i ni i gyd—

16:50

Kenneth Skates [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology

Today.

Heddiw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:50

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is today. That is fantastic news. Thank you very much, Deputy Minister. I will be sure to tell some of my constituents about that.

Heddiw. Mae hynny'n newyddion gwych. Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Weinidog. Byddaf yn siŵr o roi gwybod i rai o fy etholwyr am hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

This leads on to the other issue that I have raised in amendment 6 today, one that a number of those constituents have also raised with me. Another issue of huge concern is that there seems to be a huge amount of confusion among customers as to exactly what internet speed they are able to access in reality, due to the inaccuracy of some advertising claims. I worry when I hear residents say to me that they have signed up for a broadband provision and they have checked the provider's checker, which tells them that they will get a certain speed, but when they have come to access it in person, they are not getting the service that they believed that they have bought. I am very concerned about this particular issue.

Mae hyn yn arwain ymlaen at y mater arall rwyf wedi'i godi yng ngwelliant 6 heddiw, sy'n fater y mae nifer o'r etholwyr hynny hefyd wedi'u codi gyda mi. Mater arall sy'n peri pryder mawr yw ei bod yn ymddangos bod llawer iawn o ddryswch ymysg cwsmeriaid ynglŷn â pha gyflymder rhyngwrwyd yn union y gallant ei gael mewn gwirionedd, oherwydd anghywirdeb rhai honiadau hysbysebu. Rwyf yn poeni pan fyddaf yn clywed trigolion yn dweud wrthyf eu bod wedi cofrestru ar gyfer darpariaeth band eang a'u bod wedi gwirio gwiriwr y darparwr, sy'n dweud wrthynt y byddant yn cael cyflymder penodol, ond pan fyddant wedi mynd ati i'w ddefnyddio'n bersonol, nid ydynt yn cael y gwasanaeth y credent eu bod wedi ei brynu. Mae'r mater penodol hwn yn gryn pryder i mi.

Members may not know, but the Advertising Standards Agency's guidance on this matter actually allows internet service providers to advertise a broadband speed as being 'up to' a certain level, if it is achievable for just 10% of their customers. That, of course, means that the headline speed can be advertised, and that is the one that they are going to promote. It is not 'from' such-and-such a speed; it is 'up to' this wonderful speed, even if 90% of their customers cannot get it. That hardly seems fair. It hardly seems balanced that those kinds of advertising claims are being made. Just last month, BT was instructed to remove its availability checker for BT Infinity from its consumer-facing website after, again, the ASA ruled that even though the rules are so weak, the estimates that it was providing were not accurate enough and could not be substantiated. This is a huge area of concern for people. Even when they take the trouble to check the information, going through the process of checking on the ISP's website, they still cannot get an accurate level of information.

Some of it comes down to the fact that assumptions are made about the infrastructure that is underpinning the broadband services in some of these places. There is an assumption that there will be copper wiring when, in some places, there is not. However, the truth of it is that we need to make sure that consumers are aware that they need to go through the process of checking and to challenge the internet service providers. Ofcom has a scheme available to which they can go to get released within the first three months of the service if it is not as it was advertised.

Efallai nad yw Aelodau'n sylweddoli, ond mae canllawiau'r Asiantaeth Safonau Hysbysebu ar y mater hwn mewn gwirionedd yn caniatáu i ddarparwyr gwasanaethau rhynggrwyd hysbysebu cyflymder band eang gyda'r geiriau 'hyd at' lefel benodol, pan fo hyn yn bosibl ar gyfer dim ond 10% o'u cwsmeriaid. Mae hynny, wrth gwrs, yn golygu y gall y prif gyflymder gael ei hysbysebu, a dyna'r un y maent yn mynd i'w hyrwyddo. Nid yw'n rhoi'r cyflymder lleiaf; mae'n dweud ei fod 'hyd at' ryw gyflymder gwyach, er nad yw 90% o'u cwsmeriaid yn gallu cael y cyflymder hwnnw. Prin fod hynny'n deg. Go brin y gellir dweud bod honiadau hysbysebu o'r fath yn rhai cytbwys. Dim ond fis yn ôl, rhoddwyd cyfarwyddyd i BT dynnu ei wiriwr argaeledd ar gyfer BT Infinity oddi ar ei wefan i ddefnyddwyr ar ôl i'r ASA, unwaith eto, ddyfarnu, er bod y rheolau mor wan, nad oedd yr amcangyfrifon yr oedd yn eu darparu yn ddigon cywir ac na ellid eu cadarnhau. Mae hyn yn gryn bryder i bobl. Hyd yn oed pan fyddant yn mynd i'r drafferth i wirio'r wybodaeth, mynd trwy'r broses o wirio ar wefan yr ISP, maent yn dal i fethu â chael lefel gywir o wybodaeth.

Mae hyn i raddau'n seiliedig ar y ffaith bod tybiaethau'n cael eu gwneud am y seilwaith sy'n sail i'r gwasanaethau band eang mewn rhai o'r lleoedd hyn. Mae rhagdybiaeth y bydd gwifrau copr ar gael mewn rhai mannau, pan nad oes. Fodd bynnag, mewn gwirionedd mae angen i ni wneud yn siŵr bod defnyddwyr yn ymwybodol bod angen iddynt fynd drwy'r broses o wirio a herio'r darparwyr gwasanaethau rhynggrwyd. Mae gan Ofcom gynllun ar waith sy'n eu galluogi i gael eu rhyddhau o fewn tri mis cyntaf y gwasanaeth os nad yw'n cyfateb i'r hyn a hysbysebwyd.

16:52

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Galwaf ar Alun Ffred Jones i gynnig gwelliannau 2, 3, 4 a 5, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

I call on Alun Ffred Jones to move amendments 2, 3, 4 and 5, tabled in the name of Elin Jones.

Gwelliant 2—Elin Jones

Amendment 2—Elin Jones

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Insert as new point 3 and renumber accordingly:

Yn gresynu at y penderfyniad i gynnig gwasanaeth band eang Ffeibr i'r Cabinet yn hytrach na gwasanaeth Ffeibr i'r Safleoedd.

Regards the decision to offer a Fibre to the Cabinet broadband service rather than a Fibre to the Premises service.

Gwelliant 3—Elin Jones

Amendment 3—Elin Jones

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi cynlluniau ar waith i gyflwyno band eang cyflym iawn i'r 4% o safleoedd na fyddant yn cael eu gwasanaethu gan ymrwymiadau presennol.

Calls on the Welsh Government to implement plans to deliver superfast broadband to the 4% of premises that will remain uncovered by existing commitments.

Gwelliant 4—Elin Jones

Amendment 4—Elin Jones

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi ac annog busnesau i fanteisio ar y cyfleoedd y mae cysylltedd digidol yn eu cynnig.

Gwelliant 5—Elin Jones

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i gynllun cyflwyno er mwyn cael darpariaeth 4G lawn ledled Cymru.

Calls on the Welsh Government to support and encourage businesses to take advantage of the opportunities presented by digital connectivity.

Amendment 5—Elin Jones

Add as new point at end of motion:

Calls on the Welsh Government to commit to a roll out plan for full 4G coverage across Wales.

16:53

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Cynigiau welliannau 2, 3, 4 a 5.

Diolch am y cyfle i gymryd rhan yn y ddatl a chynnig y gwelliannau. Yn amlwg, bydd amryw o'm sylwadau yn ailddweud pethau sydd wedi cael eu dweud gan Eluned Parrott a hefyd gan William Graham achos mae'r themâu a'r problemau yn gyffredin ym mhob rhan o Gymru. Mae ehangu ac uwchraddio ein seilwaith digidol yn gwbl allweddol i sicrhau economi gryfach a chynaliadwy. Mae pawb yn gytûn ar hynny. Mae'r seilwaith hwnnw yn ddiffygiol iawn ar hyn o bryd. Mae pawb hefyd yn cytuno, byddwn i'n tybio, bod angen hyrwyddo defnydd band eang yng Nghymru. Mae lefelau gweithgarwch yn isel iawn yng Nghymru o'u cymharu ag ardaloedd eraill yn y Deyrnas Unedig. Byddwn i'n hoffi clywed beth mae'r Llywodraeth yn mynd i'w wneud ynglŷn â hynny—hyrwyddo a gwella'r defnydd o fand eang.

Rwyf eisiau cyfeirio fy sylwadau yn bennaf at ddwy agwedd o'r pwnc, sef hyn a helynt y 4% na fydd y rhaglen Cyflymu Cymru yn cyrraedd ac rwyf hefyd am gael gwybodaeth well a chywirach am y cynnydd yn y rhaglen mae BT yn gyfrifol amdani. I ddechrau gyda rhaglen BT, mae gwybodaeth ddiweddaraf Ofcom yn dangos darlun digalon iawn, efo tua hanner tiriogaeth Cymru yn cael ei dynodi yn gategori 5, hynny yw y categori gwaethaf o ran perfformiad band eang. Felly, ble ydym ni ar hyn o bryd gyda'r rhaglen? Os ydych chi'n edrych ar ddiweddariad diwethaf BT, fe welwch ei fod yn cynnwys nifer o ffeithiau sydd, os ydym nhw i gyd yn wir, yn rhyfedd iawn. Hynny yw, mae'n dweud bod 135,000 o anheddau wedi cael eu cysylltu bellach. Mae'n mynd ymlaen i ddweud:

'by the end of spring 2014, 480,000 properties will be covered.'

Mae bellach yn ddiwedd gwanwyn 2014, ac fe hoffwn wybod a yw'r Llywodraeth yn gytûn bod 0.5 miliwn o anheddau wedi'u cysylltu fel rhan o'r rhaglen. Mae BT yn mynd ymlaen i ddweud ei fod, o'i arian ei hun, wedi cysylltu 600,000 o anheddau yng Nghymru. Os yw'r ffigurau yna i gyd yn gywir, yna rydym yn wir yn symud ymlaen yn llwyddiannus iawn. Fodd bynnag, mae gennyf fy amheuan am hynny, o'm profiad fel Aelod yn lleol. Mae angen inni gael diweddariad mwy cywir, er mwyn inni allu rhoi'r wybodaeth gywir i'n hetholwyr.

I move amendments 2, 3, 4 and 5.

Thank you for the opportunity to participate in this debate and to move the amendments. Clearly, many of my comments will rehearse points already made by Eluned Parrott and William Graham because the themes are common and the problems tend to be the same throughout Wales. Expanding and upgrading our digital infrastructure is crucial to ensure a stronger and sustainable economy. Everyone would agree on that. That infrastructure is very deficient at present. Everyone would also agree, I would assume, that we need to promote the use of broadband in Wales. Activity levels are very low in Wales as compared with other areas in the United Kingdom. I would like to hear what the Government will do about that—promoting and improving the use of broadband.

I want to direct my comments mainly to two aspects of the issue, namely the story of that 4% that the Superfast Cymru programme will not reach and I also want better and more accurate information about the progress in the programme that BT is responsible for. To start with the BT programme, the latest information provided by Ofcom shows a very depressing picture, with around half of the territory of Wales described as being category 5, which is the worst category in terms of broadband performance. So, where are we at present with the programme? If you look at the most recent BT update, you will see that it includes a number of facts, which, if they are all accurate, seem very strange. That is, it states that 135,000 properties have been connected to date. It goes on to state:

'erbyn diwedd gwanwyn 2014, bydd 480,000 o eiddo yn cael eu cynnwys.'

It is now the end of spring 2014, and I would like to know whether the Government agrees that 0.5 million properties have now been connected in line with the programme. BT goes on to say that it has connected, from its own funds, 600,000 properties in Wales. If those figures are all accurate, then we truly are making successful progress. However, I have my doubts about that from my experience as a Member locally. We need a more accurate update in order for us to provide accurate information to our constituents.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Mae gwelliant 5 yn canolbwyntio ar ddatblygu strategaeth debyg i'r un ar gyfer band llydan ym maes data symudol 4G. Byddai gwneud hynny o bosibl yn mynd ychydig o'r ffordd tuag at ateb problemau y 4%. Hoffwn ddod at hynny yn awr. Os bydd BT yn llwyddo i gyrraedd ei nod o sicrhau gwasanaeth band cyflym i 96% o anheddau a busnesau yng Nghymru, bydd 4% yn weddill. Roedd BT, a ddaeth gerbron y pwyllgor tua blwyddyn yn ôl, yn eithaf hyderus ynglŷn â'r ffigwr hwnnw, a'n sôn hefyd bod datblygiadau diweddar yn golygu ei fod yn gallu cyrraedd lleoedd nad oedd yn meddwl y gallai eu cyrraedd. Fodd bynnag, nid dyna'r dystiolaeth ar lawr gwlad.

Felly, y cwestiwn yw hyn: beth a ddaw o'r 4%? Beth yw cynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer y 4%? Mae amryw o'r 4% yng nghefn gwlad, fel rydym wedi'i glywed, ond maent hefyd mewn cymoedd poblog ôl-ddiwydiannol ac mewn rhai ardaloedd yn ein dinasoedd, fel y dywedodd Eluned Parrott. Beth bynnag a fydd yn digwydd, mae amryw o anheddau yn mynd i gael band eang gwell, ond oherwydd y llinellau copr i'r cabinet a phellter, ni fydd y cyflymder yn cyrraedd y lefelau aruchel yr oeddem wedi gobeithio eu cyrraedd. Beth fydd yn digwydd i'r 4%? Dyna'r cwestiwn yr hoffwn gael ateb yn ei gylch gan y Dirprwy Weinidog heddiw. Mae'n bosibl y byddai ehangu'r rhwydwaith 4G yn cynnig un ateb i'r broblem honno, ond, hyd y gwn i, nid oes strategaeth gynhwysfawr gan y Llywodraeth i ehangu'r rhwydwaith honno ychwaith. Felly, er bod newyddion da, rydym eisiau cael ein sicrhau bod y Llywodraeth hefyd yn edrych ar yr ardaloedd hynny na fydd yn elwa o'r rhaglen bresennol.

Amendment 5 concentrates on developing a similar strategy to the one for broadband in terms of 4G coverage. Doing so could possibly go some of the way towards solving some of the problems faced by that 4% that I mentioned earlier. I will come to that now. If BT manages to succeed in supplying 96% of properties and businesses in Wales with a broadband connection, there will be a remaining 4%. BT, appearing before the committee around a year ago, was relatively confident about that figure, and also mentioned that recent developments would mean that it could reach areas that it had not, in the past, believed to be accessible. However, that is not the evidence on the ground.

So, the question is this: what will happen to this 4%? What are the Government's plans for the 4%? Many of the 4% are in rural areas, as we have already heard, but they are also in highly populated post-industrial valleys and, as Eluned Parrott said, in some areas of our cities. Whatever happens, a number of properties will get improved broadband, but because of the copper to cabinet lines and distances, the speeds will not actually attain the higher levels that we had hoped for. However, what happens to that 4%? That is the question to which I want a response from the Deputy Minister today. It is possible that enhancing that 4G network could provide one solution to that problem, but, as far as I know, there is no comprehensive strategy by the Government to enhance that network either. So, while there is some good news, we need some reassurance that the Government is also looking at those hard-to-reach areas that will not benefit from the current programme.

16:58 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call Antoinette Sandbach.

Galwaf Antoinette Sandbach.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:58 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am pleased to have an opportunity to contribute to this afternoon's debate on the digital economy. A strong digital economy is key to the future of Wales, and we cannot afford to be left behind. Without this economy being vibrant and performing well, the traditional Welsh economy will also suffer. Interestingly enough, Deputy Minister, the Policy Exchange has released today its technology manifesto, which has a number of proposals for Government to assist in the development of the digital economy and digital inclusion. Many of those are suggestions that could be, or are devolved to the Welsh Government. I invite you to have a look at that manifesto because it identifies that people using the internet can save £560 per year. For a family on a low income, that is a very significant annual saving. I acknowledge the work that the Welsh Government has put into the superfast broadband projects, but, of course, much of the funding has come from the UK Government. It is a good example of partnership working that delivers for Wales.

Rwyf yn falch o gael cyfle i gyfrannu at y ddatblygu a prynawyd yma ar yr economi ddigidol. Mae economi ddigidol gref yn allweddol i ddyfodol Cymru, ac ni fynnwn gael ein gadael ar ôl. Heb i'r economi hon fod yn un fywiog sy'n perfformio'n dda, bydd economi draddodiadol Cymru hefyd yn dioddef. Yn ddi-ddorol ddigon, Ddirprwy Weinidog, mae'r Gyfnewidfa Polisi heddiw wedi cyhoeddi ei manifesto dechnoleg, sydd â nifer o gynigion ar gyfer y Llywodraeth i gynorthwyo yn natblygiad yr economi ddigidol a chynhwysiant digidol. Mae llawer o'r rheini'n awgrymiadau y gellid bod wedi neu sydd wedi eu datganoli i Lywodraeth Cymru. Rwyf yn eich gwahodd i fwrw golwg ar y manifesto hwnnw am ei fod yn nodi y gall pobl sy'n defnyddio'r rhyngwyd arbed £560 y flwyddyn. I deulu ar incwm isel, mae hynny'n arbediad blynyddol sylweddol iawn. Rwyf yn cydnabod y gwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi ei gyfrannu at brosiectau band eang cyflym iawn, ond, wrth gwrs, mae llawer o'r arian wedi dod gan Lywodraeth y DU. Mae'n enghraifft dda o waith partneriaeth sy'n cyflawni dros Gymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

However, as Alun Ffred Jones has just highlighted, we still have a long way to go. It is the rural aspect that I want to focus my contribution on today. A report prepared by the Royal Society of Edinburgh on digital inclusion—and, again, Deputy Minister, I recommend that you have a look at that—has stated that many of the poorest in society, and those living in remote and rural communities, are unable to take advantage of the new economy and the new society made possible by digital communication. Although this was written about Scotland, this sentiment also rings true for vast amounts of my region in north Wales. We are focusing not just on broadband issues today, but on poor mobile phone reception. I know that many colleagues across the Chamber have raised problems relating to this, with 42% of mobile users saying that they have experienced no signal or reception on their mobile phones. This further demonstrates the challenges that we face. We need to think about those people who live and work or operate businesses in those rural areas where there is poor broadband communication and poor mobile signals. Deputy Minister, I would ask that you look at those areas—the notspots—and ensure that those are targeted for the next section of roll-out, in terms of connectivity. The Welsh Affairs Committee, two years ago, noted that significant variations remain within the country in terms of broadband coverage. Although take-up of broadband in rural areas has increased over recent years, the speed that rural users are receiving, in terms of megabits per second, is not recorded.

The Welsh Conservative manifesto in the 2011 Assembly elections pledged distance-busting IT, and I would recommend that you look at it, particularly around the need for effective communication infrastructure in rural Wales. With the advent of 4G and the reduction in the number of 3G masts as a result of that, there are likely to be significant implications again for large parts of rural Wales. Broadband is no longer a luxury. It is a basic service in a modern-day life. We need to question why certain sectors of our society are put at a disadvantage due to limited broadband coverage. We know that the Minister for Natural Resources and Food recently announced that all farmers, for example, will need to complete their forms online. However, my own experience indicates that if you do not have a Windows platform and are operating from a Mac platform, you cannot access that online service. So, it is important that there is proper integration.

In terms of identifying the notspots, that needs to be done quickly. That 4% needs to be identified quickly. I know that the Welsh Government has recently invested, via Finance Wales, £1.2 million in Xwavia. I am concerned that there are issues around giving one specific company that is developing the Access Broadband Cymru scheme an advantage over other private providers in the area. I would like to know what steps were taken by you, Deputy Minister, to ensure that private service providers in my region were not competitively disadvantaged by that investment by Finance Wales, given the importance of the Access Broadband Cymru scheme. There are a lot of other questions that I have, Minister, but I think that I will have to write to you with them because I can see from the Deputy Presiding Officer that I am out of time.

Fodd bynnag, fel y mae Alun Ffred Jones newydd bwysleisio, mae gennym ffordd bell i fynd. Mae ffocws fy nghyfraniad heddiw ar yr agwedd wledig. Mae adroddiad a baratowyd gan Gymdeithas Frenhinol Caeredin ar gynhwysiant digidol—ac, unwaith eto, Ddirprwy Weinidog, rwyf yn argymhell eich bod yn edrych ar hwnnw—wedi dweud bod llawer o'r tlotaf mewn cymdeithas, a'r rhai sy'n byw mewn cymunedau anghysbell a gwledig, yn methu â manteisio ar yr economi newydd a'r gymdeithas newydd a wnaed yn bosibl gan gyfathrebu digidol. Er i hyn gael ei ysgrifennu am yr Alban, mae'n taro tant hefyd ar gyfer ardaloedd helaeth o fy rhanbarth yng ngogledd Cymru. Nid dim ond ar faterion band eang rydym yn canolbwytio arnynt heddiw, ond ar dderbyniad ffôn symudol gwael. Gwn fod llawer o gydweithwyr ar draws y Siambr wedi codi problemau yn ymwneud â hyn, gyda 42% o ddefnyddwyr ffonau symudol yn dweud eu bod heb gael unrhyw signal neu dderbyniad ar eu ffonau symudol. Mae hyn yn dangos ymhellach yr heriau sy'n ein hwynebu. Mae angen i ni feddwl am y bobl hynny sy'n byw ac yn gweithio neu'n rhedeg busnesau yn yr ardaloedd gwledig hynny lle mae cyfathrebu band eang gwael a signalau symudol gwael. Ddirprwy Weinidog, gofynnaf i chi edrych ar yr ardaloedd hynny—y manau gwan—a sicrhau bod y rheini'n cael eu targedu yn y cyfnod cyflwyno nesaf, o ran cysylltedd. Nododd y Pwyllgor Materion Cymreig, ddwy flynedd yn ôl, fod amrywiadau sylweddol yn parhau ymhob cwr o'r wlad o ran argaeledd band eang. Er bod y defnydd o fand eang mewn ardaloedd gwledig wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, nid yw'r cyflymder y mae defnyddwyr gwledig yn ei gael, o ran megabit yr eiliad, yn cael ei gofnodi.

Roedd manifesto'r Ceidwadwyr Cymreig yn etholiadau'r Cynulliad yn 2011 yn addo TG a oedd yn trechu pellter, a byddwn yn argymhell eich bod yn edrych arno, yn enwedig ynghylch yr angen am seilwaith cyfathrebu effeithiol yn y Gymru wledig. Gyda dyfodiad 4G a gostyngiad yn y nifer o fastiau 3G o ganlyniad i hynny, mae'n debygol y bydd goblygiadau sylweddol eto ar gyfer rhannau mawr o'r Gymru wledig. Nid moethusrwydd yw band eang bellach. Mae'n un o wasanaethau sylfaenol yr oes fodern. Mae angen i ni holi pam y mae rhai sectorau yn ein cymdeithas yn cael eu rhoi o dan anfantais o ganlyniad i ddarpariaeth band eang cyfyngedig. Gwyddom fod Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd yn ddiweddar wedi cyhoeddi y bydd angen i bob ffermwr, er enghraifft, gwblhau ei ffurflenni ar-lein. Fodd bynnag, mae fy mhrofiad fy hun yn awgrymu, os nad oes gennych blatfform Windows a'ch bod yn gweithredu o blatfform Mac, na allwch gael gafael ar y gwasanaeth hwnnw ar-lein. Felly, mae'n bwysig bod integreiddio priodol.

O ran nodi'r manau gwan, y mae angen ei wneud yn gyflym. Mae angen canfod y 4% yn gyflym. Gwn fod Llywodraeth Cymru yn ddiweddar drwy Gyllid Cymru wedi buddsoddi £1.2 miliwn yn Xwavia. Rwyf yn pryderu bod amheuon ynglŷn â rhoi mantais i un cwmni penodol sy'n datblygu'r cynllun Mynediad Band Eang Cymru dros ddarparwyr preifat eraill yn yr ardal. Hoffwn wybod pa gamau a gymerwyd gennych chi, Ddirprwy Weinidog, i sicrhau nad yw darparwyr gwasanaethau preifat yn fy rhanbarth dan anfantais gystadleuol gan y buddsoddiad gan Gyllid Cymru, o ystyried pwysigrwydd cynllun Mynediad Band Eang Cymru. Mae gennyf llawer o gwestiynau eraill, Weinidog, ond credaf y bydd yn rhaid i mi ysgrifennu atoch i'w cyflwyno oherwydd gallaf weld gan y Dirprwy Lywydd fod fy amser ar ben.

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Our debate today looks at how we can ensure that our economy is geared up for the future. The digital technology revolution has not only changed—and is changing—how we talk and communicate with loved ones and friends, but it is also rapidly changing how we do business, how we interact with the Government and public bodies and how we compete as a nation in the world. Increasingly, consumers are spending more and more online, with 62% of internet users now shopping online—myself included—sparking a new generation of entrepreneurs and wealth generators. Therefore, our debate today focuses on ensuring that individuals, communities and businesses are enabled and empowered to take advantage of the advances in the digital technology changing our society.

Previously, the Welsh Government estimated that 34% of all adults in Wales were digitally excluded, and it set a target to reduce this to 25% by 2015. I welcome the news that this broad target is progressing. However, concerns still linger that one quarter of Welsh adults are still digitally excluded. Two particular segments of our nation that are more likely to miss out on the digital revolution that is steaming ahead are rural communities and our older generation. In Wales, approximately 79% of adults aged 18 and over have access to the internet at home. This stands in stark contrast to single pensioner households, where the figure is just 33%. While lack of interest is the primary reason given for not wishing to use the internet, a significant number also cite a lack of skills and knowledge. Indeed, for those who are digitally excluded, a lack of skills is given as the most common barrier to being digitally engaged. This leads to the view that there is a strong need for specific ICT training to enable digital inclusion. The national survey for Wales highlights the need for the Welsh Government to specifically consider those aged 65 and over for targeted policy action to combat digital exclusion and isolation, which follows on from the Welsh Government itself identifying older people as a priority group for support. An important method to deliver such vital training is through the use of local colleges, and adult community centres for the delivery of training.

I am very concerned to hear that such training is now being withdrawn. In my own constituency, I am currently acting on behalf of several constituents of the older generation who have contacted me to say that local training courses for adults had been withdrawn. Now, how can those who are suffering from digital exclusion have the education and training that they need withdrawn? I would ask the Minister to give some reasons as to why this is happening.

Mae ein dadl heddiw yn edrych ar sut y gallwn sicrhau bod ein heconomi yn barod ar gyfer y dyfodol. Mae chwyldro'r dechnoleg ddigidol, nid yn unig wedi newid—ac yn newid—sut rydym yn siarad a chyfathrebu gydag anwyliaid a ffrindiau, ond mae hefyd yn newid yn gyflym ein ffordd o wneud busnes, sut rydym yn rhyngweithio gyda'r Llywodraeth a chyrrff cyhoeddus a sut rydym yn cystadlu fel cenedl yn y byd. Yn gynyddol, mae defnyddwyr yn gwario mwy a mwy ar-lein, gyda 62% o ddefnyddwyr y rhyngwrwyd bellach yn siopa ar-lein—gan fy nghynnwys i—ac yn sbarduno cenhedlaeth newydd o entrepreneuriaid a chynhyrchwyr cyfoeth. Felly, mae ein dadl heddiw yn canolbwyntio ar sicrhau bod unigolion, cymunedau a busnesau yn cael eu galluogi a'u grymuso i fanteisio ar y datblygiadau yn y dechnoleg ddigidol sy'n newid ein cymdeithas.

Yn flaenorol, amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru fod 34% o'r holl oedolion yng Nghymru wedi eu hallgáu'n ddigidol, ac mae'n gosod targed i leihau hyn i 25% erbyn 2015. Rwyf yn croesawu'r newyddion bod y targed eang hwn yn mynd rhagddo. Fodd bynnag, mae pryderon yn dal i lechu bod chwarter o oedolion Cymru wedi eu hallgáu'n ddigidol o hyd. Dwy garfan benodol o'n gwlad sy'n fwy tebygol o gollu allan wrth i'r chwyldro digidol ruthro yn ei flaen sef y cymunedau gwledig a'n cenhedlaeth hŷn. Yng Nghymru, mae tua 79% o oedolion 18 oed a throsodd â mynediad at y rhyngwrwyd gartref. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu'n fawr ag aelwydydd pensynwyr sengl, lle mae'r ffigur yn ddim ond 33%. Er mai diffyg diddordeb yw'r brif reswm a roddwyd dros beidio â defnyddio'r rhyngwrwyd, mae nifer sylweddol hefyd yn nodi diffyg sgiliau a gwybodaeth. Yn wir, ar gyfer y rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol, diffyg sgiliau sy'n cael ei roi fel y rhwystr mwyaf cyffredin i ddefnyddio cysylltiadau digidol. Mae hyn yn arwain at y farn bod angen mawr am hyfforddiant TGCh penodol er mwyn galluogi cynhwysiant digidol. Mae'r arolwg cenedlaethol ar gyfer Cymru yn tynnu sylw at yr angen i Lywodraeth Cymru ystyried yn benodol a chael polisi gyda chmau gweithredu sy'n targedu pobl 65 oed a throsodd er mwyn mynd i'r afael ag allgáu ac ynysu digidol, sy'n ganlyniad i Lywodraeth Cymru ei hun yn nodi pobl hŷn fel grŵp blaenoriaeth ar gyfer cymorth. Mae defnyddio colegau lleol, a chanolfannau oedolion yn y gymuned ar gyfer darparu hyfforddiant yn ddull pwysig o gyflwyno hyfforddiant mor hanfodol.

Rwyf yn bryderus iawn o glywed bod hyfforddiant o'r fath yn awr yn cael ei dynnu'n ôl. Yn fy etholaeth fy hun, rwyf wrthi'n gweithredu ar ran nifer o etholwyr y genhedlaeth hŷn sydd wedi cysylltu â mi i ddweud bod cyrsiau hyfforddi lleol ar gyfer oedolion wedi cael eu dynnu'n ôl. Nawr, sut y gall y rhai sy'n dioddef allgáu digidol gael yr addysg a'r hyfforddiant sydd eu hangen arnynt wedi'i dynnu'n ôl? Byddwn yn gofyn i'r Gweinidog roi rhai rhesymau pam y mae hyn yn digwydd.

This moves on to the issues facing our rural communities as they attempt to play a full role in our digital society. The ability to access the internet is arguably even more important for our rural communities, as they may not be able so easily to pop to the shops or visit a bank as those who live in our towns—something that is reinforced by the statistics, which show a higher proportion of those who live rurally. While the roll-out of fibre broadband, as part of the superfast programme, has moved forward, there remain many areas of Wales that do not have access to this network, which means that they are in increasing danger of slipping behind the rest of Wales, particularly as rural areas, such as Aberconwy, have more elderly residents. Now, I welcome the recent announcement of £1.2 million awarded to the broadband company Xwavia, which is using a variety of technologies to help the roll-out of broadband in Conwy, which will soon, hopefully, provide benefits to residents and businesses. However, I am concerned that the Superfast Cymru website advises simply to keep checking when we might be able to receive fibre-optic broadband in the area, and there is generally a consensus of confusion now. Regularly, every day, we have people contacting us who are very concerned and very confused.

Limited availability of broadband is a significant challenge for our rural communities, businesses and farmers. The Wales Office in 2011 found that one third of farmers could not gain access to broadband at all. As the administration of our agriculture moves increasingly online, including CAP application processes, it is imperative that farmers and Welsh agriculture do not suffer as a result of poor digital infrastructure.

It is obvious to me that the digital economy is set to play an increasing role in driving our economy as a whole. It will affect everyone in Wales and, indeed, beyond borders. Therefore, I urge Members to support the motion today, recognising this fact and calling on the Welsh Government to provide further information on its exact plans to enable all Welsh communities, businesses and individuals to play a part, regardless of age, location or background.

17:08

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am going to focus my contribution mainly on superfast broadband and, particularly, the Superfast Cymru project. I think that the Welsh Lib Dem amendment points to Wales's historic situation in relation to digital communications infrastructure and is a perfectly fair observation to make. Leaving the Superfast Cymru project to one side for the moment, it is true to say that Wales is relatively poorly served by standard and superfast broadband. Representing Montgomeryshire, I am acutely aware of the lack of broadband infrastructure and how slow connection speeds are, thereby making local businesses uncompetitive, particularly when compared with towns just over the border, which is having a detrimental impact right across the mid Wales economy.

Mae hyn yn symud ymlaen at y materion sy'n wynebu ein cymunedau gwledig wrth iddynt geisio chwarae rhan lawn yn ein cymdeithas ddigidol. Gellir dadlau bod y gallu i gael mynediad at y rhyngwrdd hyd yn oed yn bwysicach i'n cymunedau gwledig, oherwydd efallai na fydd mor hawdd iddynt fynd i'r siop neu i'r banc â phobl sy'n byw yn ein trefi—rhywbeth sy'n cael ei ategu gan yr ystadegau, sy'n dangos cyfran uwch o'r rhai sy'n byw yng nghefn gwlad. Er bod y broses o gyflwyno band eang ffeibr, fel rhan o'r rhaglen gyflym iawn, wedi symud ymlaen, mae llawer o ardaloedd yng Nghymru yn dal heb fynediad at y rhwydwaith hwn, sy'n golygu eu bod mewn perygl cynyddol o lithro y tu ôl i weddill Cymru, yn enwedig gan fod gan ardaloedd gwledig, megis Aberconwy, fwy o drigolion oedrannus. Yn awr, rwyf yn croesawu'r cyhoeddiad diweddar am yr £1.2 miliwn a ddyfarnwyd i'r cwmni band eang Xwavia, sy'n defnyddio amrywiaeth o dechnolegau i helpu'r broses o gyflwyno band eang yng Nghonwy, a fydd cyn bo hir, gobeithio, yn darparu manteision i drigolion a busnesau. Fodd bynnag, rwyf yn pryderu mai unig gyngor gwefan Cyflymu Cymru yw i ni gadw i wirio pryd y byddwn yn gallu derbyn band eang ffeibr opteg yn yr ardal, ac erbyn hyn, yn gyffredinol, mae yna gonsensws o ddryswch. Yn rheolaidd, bob dydd, mae pobl yn cysylltu â ni sydd yn bryderus iawn ac yn ddryslud iawn.

Mae argaeledd cyfyngedig band eang yn her sylweddol i'n cymunedau gwledig, i fusnesau ac i ffermwyr. Darganfu Swyddfa Cymru yn 2011 na allai un rhan o dair o ffermwyr gael mynediad at fand eang o gwbl. Gan fod gweinyddiaeth ein hamaethyddiaeth yn symud fwyfwy ar-lein, gan gynnwys prosesau ymgeisio PAC, mae'n hanfodol nad yw ffermwyr ac amaethyddiaeth yng Nghymru yn dioddef o ganlyniad i seilwaith digidol gwael.

Mae'n amlwg i mi y bydd yr economi ddigidol yn chwarae rôl gynyddol o ran sbarduno ein heconomi yn gyffredinol. Bydd yn effeithio ar bawb yng Nghymru ac, yn wir, y tu hwnt i'w ffiniau. Felly, rwyf yn annog yr Aelodau i gefnogi'r cynnig heddiw, gan gydnabod y ffaith hon a galwaf ar Lywodraeth Cymru i ddarparu rhagor o wybodaeth am ei hunion gynlluniau i alluogi'r holl gymunedau, busnesau ac unigolion yng Nghymru i chwarae rhan, waeth beth fo'u hoedran, lleoliad neu gefndir.

Rwyf yn mynd i ganolbwyntio fy nghyfraniad yn bennaf ar fand eang cyflym iawn ac yn arbennig, y prosiect Cyflymu Cymru. Credaf fod gwelliant Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cyfeirio at sefyllfa hanesyddol Cymru mewn perthynas â seilwaith cyfathrebu digidol ac mae'n sylw ddigon teg i'w wneud. O roi prosiect Cyflymu Cymru o'r neilltu am y tro, mae'n wir dweud bod Cymru'n cael ei gwasanaethu yn gymharol wael o ran band eang safonol a chyflym iawn. Rwyf fi'n cynrychioli Sir Drefaldwyn, ac yn ymwybodol iawn o'r diffyg seilwaith band eang a pha mor araf yw cyflymderau cysylltu, sy'n gwneud busnesau lleol yn anghystadluel, yn enwedig o gymharu â threfi cyfagos dros y ffin, ac mae hyn yn cael effaith andwyol iawn ar draws yr economi yng nghanolbarth Cymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

While people in some urban locations look forward to ultrafast broadband access through the 4G spectrum, there are 90,000 homes in Wales without access to broadband altogether, the majority of which are in rural areas. I am aware, of course, that there are pockets in urban areas that are not well served, but a disproportionate impact still befalls rural Wales, and that effect is considerable.

Going back to Superfast Cymru, I am pleased to see the progress that has been made, with BT stating that it is ahead of schedule—although I know that there is a lot of challenging terrain in rural Wales that remain to be done, including my constituency in mid Wales. The project is funded in three ways. A large part of the funding is through the EU. That funding needs to be spent at certain milestones during the project. Given the work that is still to be done, is the Deputy Minister confident that the project is moving at the appropriate pace, that the EU-funding deadlines will be met by the end of March next year, and is there any danger of some of that EU funding returning to Brussels? It is also good to hear about the new additional engineering jobs across Wales, and I wonder whether the Deputy Minister can state what the expectation of additional jobs is. Is there an anticipated ceiling and what is the long-term projection for the sustainability of these jobs at the end of the project?

I would also be interested to hear the Minister's response to Plaid's amendment on the 4%. In the most recent BT Wales briefing, it is still not clear which individual premises will fall outside of the project's scope. The briefing also implies that the technology is not yet on the market to fulfil the needs of that 4%, so I would be interested to hear the Deputy Minister's response. What is important, beyond laying the infrastructure, is that sufficient demand is created. While I understand what BT is saying in that we, as representatives, have a role to play in raising awareness, the Welsh Government and BT must tangibly demonstrate that they are stimulating both domestic and business demand to utilise that technology properly when it is fully installed. Unless that is done in parallel, the project will fundamentally fail. If the Deputy Minister could flesh out further what BT has stated in its briefing on encouraging take-up, I would be grateful for that.

The Deputy Minister will also be aware that I have invited him to the next meeting of the cross-party group on digital communication—I can see that he is nodding. A bit of a plug here, but that is taking place on Tuesday 1 July to update Members on the progress that the Welsh Government has made. So, I hope that the Minister will be able to accommodate that request. I know that a number of Members want the opportunity to field some more questions—indeed, Antoinette Sandbach ran out of time to ask her questions—so there would be an opportunity in that session for Members to ask more detailed questions that you, Deputy Minister, do not have the time to answer fully today. I hope that the Deputy Minister will respond positively to that.

To conclude, I welcome progress but let us not take our eye off the ball. There is still a lot to be done and I think that we all want this project to be successful.

Tra bod pobl mewn rhai lleoliadau trefol yn edrych ymlaen at fynediad at fand eang cyflym tu hwnt drwy'r sbectrum 4G, nid oes gan 90,000 o gartrefi Cymru fynediad at fand eang o gwbl, y rhan fwyaf ohonynt mewn ardaloedd gwledig. Rwyf yn ymwybodol, wrth gwrs, fod pocedi mewn ardaloedd trefol nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n dda, ond mae effaith anghymesur yn parhau ar y Gymru wledig, ac mae'r effaith honno'n sylweddol.

Wrth edrych eto ar Cyflymu Cymru, rwyf yn falch o weld y cynnydd a wnaed, gyda BT yn dweud eu bod ar y blaen i'r amserlen—ond gwn fod llawer o dir heriol yn y Gymru wledig sy'n parhau heb ei wneud, gan gynnwys fy etholaeth yng nghanolbarth Cymru. Mae'r prosiect yn cael ei ariannu mewn tair ffordd. Mae rhan fawr o'r arian drwy'r UE. Mae angen gwario'r cyllid hwnnw erbyn rhai cerrig milltir yn ystod y prosiect. O ystyried y gwaith sydd i'w wneud o hyd, a yw'r Dirprwy Weinidog yn hyderus bod y prosiect yn symud ar gyflymder priodol, y bydd terfynau amser cyllid yr UE yn cael eu bodloni erbyn diwedd mis Mawrth y flwyddyn nesaf, ac a oes unrhyw berygl y bydd cyfran o'r cyllid UE hwnnw'n gorfod cael ei ddychwelyd i Frwsel? Mae hefyd yn dda clywed am y swyddi peirianeg ychwanegol newydd ledled Cymru, a hoffwn ofyn tybed a all y Dirprwy Weinidog ddatgan beth yw'r disgwyliadau o ran y swyddi ychwanegol hyn. A oes terfyn a ragwelir a beth yw'r amcanestyniad hirdymor ar gyfer cynaliadwyedd y swyddi hyn ar ddiwedd y prosiect?

Hoffwn hefyd glywed ymateb y Gweinidog i welliant Plaid Cymru ynglŷn â'r 4%. Yn y papur briffio diweddaraf gan BT Cymru, mae'n parhau'n aneglur pa safleoedd unigol a fydd yn disgyn y tu allan i gwmpas y prosiect. Mae'r papur briffio hefyd yn awgrymu nad yw'r dechnoleg eto ar y farchnad i ddiwallu anghenion y 4%, felly byddai gennyf ddi-ddordeb clywed ymateb y Dirprwy Weinidog. Yr hyn sy'n bwysig, y tu hwnt i osod y seilwaith, yw bod digon o alw yn cael ei greu. Er fy mod yn deall yr hyn y mae BT yn ei ddweud sef bod gennym ni, fel cynrychiolwyr, ran i'w chwarae o ran codi ymwybyddiaeth, rhaid i Lywodraeth Cymru a BT ddangos yn bendant eu bod yn ysgogi galw domestig a galw busnesau er mwyn defnyddio'r dechnoleg yn briodol ar ôl gorffen ei gosod. Oni bai bod hyn yn cael ei wneud ar y cyd, bydd y prosiect yn y bôn yn methu. Pe gallai'r Dirprwy Weinidog ymhelaethu ar ddatganiad BT ynghylch annog pobl i ddefnyddio'r ddarpariaeth, byddwn yn ddiolchgar am hynny.

Bydd y Dirprwy Weinidog hefyd yn ymwybodol fy mod wedi ei wahodd i gyfarfod nesaf y grŵp trawsbleidiol ar gyfathrebu digidol—gwelaf ei fod yn nodio ei ben. Hoffwn hysbysu pawb am y cyfarfod, ddydd Mawrth 1 Gorffennaf, i ddiweddarau'r Aelodau am y cynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud. Felly, rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw. Gwn fod nifer o Aelodau am gael y cyfle i ofyn rhagor o gwestiynau—yn wir, nid oedd gan Antoinette Sandbach ddigon o amser i ofyn ei chwestiynau—felly, byddai cyfle yn y sesiwn honno i Aelodau ofyn cwestiynau mwy manwl nad oes gennych chi, Ddirprwy Weinidog, ddigon o amser i'w hateb yn llawn heddiw. Rwyf yn gobeithio y bydd y Dirprwy Weinidog yn ymateb yn gadarnhaol i hynny.

I gloi, rwy'n croesawu cynnydd, ond gadewch inni beidio â cholli golwg ar y nod. Mae llawer i'w wneud o hyd, a chredaf ein bod i gyd am i'r prosiect hwn lwyddo.

17:13

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, Ken Skates.

I call on the Deputy Minister for Skills and Technology, Ken Skates.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:13

Kenneth Skates [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology

Thank you, Deputy Presiding Officer. I very much welcome this debate today and support the motion. I thank William Graham and others for eloquent and insightful contributions this afternoon. It is clear that we share the same views on this matter and the determination to address market failure through state intervention—it feels rather as though we are all left-leaning today. I also have to say that it is as a consequence of us being in Europe and part of the UK that we are able to address this very grave problem. I very much agree that fast broadband should not be considered a luxury. I would urge all Members to bookmark the Superfast Cymru website and I would also urge their constituents to do likewise, for regular updates on the roll-out of the programme. Our vision is to establish Wales as a connected economy with both a domestic and international reputation as a place to start, grow and sustain a business. In that regard, the Welsh Government is progressing well to make Wales the most connected country in western Europe, and this is in spite of the fact that Wales is starting from a relatively low position.

Our Superfast Cymru programme is the largest partnership of its kind in the UK. We aim to reach, as Members have quoted, 96% of properties by 2016. England and Scotland will reach 90% and 85% respectively later than Wales. The programme is progressing well and is on schedule. The latest figures show that 135,000 premises have been passed, tested and verified, and by spring of next year this number will have reached almost 0.5 million. This will help create an environment that supports our existing businesses and attracts new high-growth, high-value companies to Wales. It will transform the broadband landscape and propel many businesses towards a distinct competitive advantage over others in the UK.

Next week, I intend issuing a statement that will update members on speeds available through Superfast Cymru and the complementary scheme Access Broadband Cymru. The statement will also detail uptake rates. Next week, Digital 2014 will recognise the importance of the digital economy and will bring together global brands with Welsh businesses to explore the use and uptake of digital technologies. There will be a clear focus on economic growth and potential opportunities to support this.

We are working with the mobile industry, with Ofcom and with the UK Government to improve mobile coverage across Wales through the UK Government's mobile infrastructure project. We are also investigating other options to improve mobile coverage—including, for example, on the rail network. Furthermore, we are working with mobile operators following the 4G licence awarded to Telefonica O2, which carries a coverage obligation of at least 95% of the population in Wales by 2017.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Croesawaf y ddatl hon heddiw yn fawr iawn ac rwyf yn cefnogi'r cynnig. Diolchaf i William Graham ac eraill am gyfraniadau huawdl a chraff y prynhawn yma. Mae'n amlwg ein bod yn rhannu'r un farn ar y mater hwn ac yn sgil y penderfyniad i fynd i'r afael â methiant y farchnad drwy ymyrraeth y wladwriaeth—mae yma deimlad ein bod i gyd heddiw fel pe baem yn pwyso i'r chwith. Rhaid i mi hefyd ddweud mai'r ffaith ein bod yn rhan o Ewrop a'r DU sy'n ein galluogi i fynd i'r afael â'r broblem ddirifol hon. Cytunaf yn llwyr na ddylid ystyried darpariaeth band eang cyflym fel moethusrwydd. Byddwn yn annog pob Aelod i roi nod tudalen ar wefan Cyflymu Cymru a byddwn hefyd yn annog eu hetholwyr i wneud yr un peth, er mwyn cael diweddariadau rheolaidd ar y broses o gyflwyno'r rhaglen. Ein gweledigaeth yw sefydlu Cymru fel economi gysylltiedig gydag enw da gartref ac yn rhyngwladol fel lle i ddechrau, tyfu a chynnal busnes. Yn hyn o beth, mae Llywodraeth Cymru yn gwneud cynnydd da o ran sicrhau mai Cymru yw'r wlad fwyaf cysylltiedig yng ngorllewin Ewrop, a hyn er gwaethaf y ffaith bod Cymru yn dechrau o sefyllfa gymharol isel.

Ein rhaglen Cyflymu Cymru yw'r bartneriaeth fwyaf o'i bath yn y DU. Ein nod yw cyrraedd, fel y mae Aelodau wedi dyfynnu, 96% o eiddo erbyn 2016. Bydd Lloegr a'r Alban yn cyrraedd 90% a 85% yn eu trefn yn hwrach na Chymru. Mae'r rhaglen yn dod yn ei blaen yn dda a phrydlon. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod 135,000 o safleoedd wedi cael eu pasio, eu profi a'u dilysu, ac erbyn gwanwyn y flwyddyn nesaf bydd y nifer hwn wedi cyrraedd 0.5 miliwn bron. Bydd hyn yn helpu i greu amgylchedd sy'n cefnogi ein busnesau presennol ac yn denu cwmnïau twf uchel a gwerth uchel newydd i Gymru. Bydd yn trawsnewid y sefyllfa gan roi mantais gystadleuol amlwg dros eraill i lawer o fusnesau yn y DU.

Yr wythnos nesaf, rwy'n bwriadu cyhoeddi datganiad a fydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y lefelau cyflymder sydd ar gael drwy Cyflymu Cymru a'r cynllun cyflenwol Allwedd Band Eang Cymru. Bydd y datganiad hefyd yn rhoi manylion y cyfraddau defnyddio. Yr wythnos nesaf, bydd Digital 2014 yn cydnabod pwysigrwydd yr economi ddigidol a bydd yn dod â brandiau byd-eang â busnesau Cymru ynghyd i archwilio'r defnydd a graddau manteisio ar dechnolegau digidol. Bydd ffocws clir ar dwf economaidd a chyfluoedd posibl i gefnogi hyn.

Rydym yn gweithio gyda'r diwydiant symudol, gydag Ofcom a chyda Llywodraeth y DU i wella darpariaeth symudol ar draws Cymru drwy brosiect seilwaith symudol Llywodraeth y DU. Rydym hefyd yn ymchwilio i opsiynau eraill i wella derbyniant symudol—gan gynnwys, er enghraifft, ar y rhwydwaith rheilffyrdd. Ar ben hynny, rydym yn gweithio gyda gweithredwyr darpariaeth symudol yn dilyn dyfarnu'r drwydded 4G i Telefonica O2, sydd â rhwymedigaeth o ddarparu ar gyfer o leiaf 95% o'r boblogaeth yng Nghymru erbyn 2017.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Of course, despite our ambitious plans, up to 4% of premises will not be covered by superfast broadband through Superfast Cymru. In February, a review was conducted to identify locations not covered by either commercial or Superfast Cymru roll-outs. The review process will conclude with a public consultation, which I have just said went live today. We have been allocated £12.1 million from the UK Government to help address these premises. We intend to start work as soon as possible after the completion of the public consultation and receipt of state-aid approvals. The resulting superfast broadband infill project will be delivered in two phases: the first to deploy superfast broadband to areas defined through the consultation, and the second to those premises within the Superfast Cymru intervention area not passed as part of that programme, plus remaining premises not covered by phase 1. The first phase will complement the current roll-outs with rapid provision of superfast broadband with comparable speeds, service provision and the same target end date as Superfast Cymru. The second phase project will commence once Superfast Cymru concludes.

My officials have been working with the local telecoms industry and national organisations on ambitious plans to build an internet exchange in Wales. This critical piece of infrastructure will transform the way in which Welsh businesses connect to the internet. I hope to be able to say more about this very soon.

Turning to the amendments, we have always acknowledged that Wales is starting from a lower point than the rest of the UK, because of the free market. However, as I outlined earlier, we are making great strides to put Wales at the forefront. Our agreement with BT sets out our speed requirements. It is up to BT to determine the appropriate technology to deliver those speeds. Fibre to the premises would have cost up to five times the £205 million that we are already investing. In any case, the average speed capability of the premises already enabled under Superfast Cymru is more than twice the EU strategic target of 30 Mbps for all premises by 2020. I have already outlined our plans for the extra £12.1 million, and I will be issuing a further written statement, as I say, next week.

As I have already set out, driving adoption and exploitation by businesses is a vital part of realising the return on our investment. The roll-out of 4G mobile signal is a matter for mobile operators and for Ofcom. Although not a devolved matter, we would not want to see Welsh consumers disadvantaged by misleading pricing practices. Our Superfast Cymru contract includes a detailed testing and verification exercise to ensure that the speeds achieved are in line with contractual targets. It also stipulates that the wholesale cost of premises we enable is benchmarked against major urban areas across the UK.

Wrth gwrs, er gwaethaf ein cynlluniau uchelgeisiol, ni fydd hyd at 4% o safleoedd yn cael darpariaeth band eang cyflym iawn drwy Cyflymu Cymru. Ym mis Chwefror, cynhaliwyd adolygiad a oedd yn nodi lleoliadau nad ydynt yn cael eu cwmpasu gan naill ai ddarpariaethau newydd masnachol neu Cyflymu Cymru. Bydd y broses adolygu'n dod i ben gydag ymgynghoriad cyhoeddus a aeth yn fyw heddiw, fel y soniais eisoes. Rydym wedi cael £12.1 miliwn gan Lywodraeth y DU i helpu i fynd i'r afael â'r safleoedd hyn. Ein bwriad yw dechrau ar y gwaith cyn gynted â phosibl ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad cyhoeddus a chael cymeradwyaeth ar gyfer cymorth gwladwriaethol. O ganlyniad, cyflwynir y prosiect cyflenwi band eang cyflym iawn mewn dau gam: y cyntaf i gyflwyno band eang cyflym iawn i ardaloedd a ddiffiniwyd drwy'r ymgynghoriad, a'r ail i'r safleoedd hynny o fewn yr ardal ymyrraeth Cyflymu Cymru na chawsant eu pasio fel rhan o'r rhaglen honno, yn ogystal â safleoedd sy'n weddill nad ydynt yn rhan o gam 1. Bydd y cam cyntaf yn ategu'r gwaith cyfredol o gyflwyno band eang cyflym iawn yn gyflym gyda chyflymder cymharol, darpariaeth gwasanaeth a'r un dyddiad targed terfynol â Chyflymu Cymru. Bydd ail gam y prosiect yn dechrau yn syth ar ôl i brosiect Cyflymu Cymru ddod i ben.

Mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio gyda'r diwydiant telathrebu lleol a sefydliadau cenedlaethol ar gynlluniau uchelgeisiol i adeiladu cyfnewidfa ryngwlad yng Nghymru. Bydd y darn allweddol hwn o seilwaith yn trawsnewid y ffordd y mae busnesau yng Nghymru yn cysylltu â'r rhyngwlad. Rwy'n gobeithio gallu dweud mwy am hyn yn fuan iawn.

Gan droi at y gwelliannau, rydym bob amser wedi cydnabod bod Cymru yn cychwyn o bwynt is na gweddill y DU, oherwydd y farchnad rydd. Fodd bynnag, fel yr amlinellais yn gynharach, rydym yn cymryd camau breision i roi Cymru ar flaen y gad. Mae ein cytundeb gyda BT yn amlinellu ein gofynion cyflymder. BT sydd i benderfynu ar y dechnoleg briodol i ddarparu'r cyflymderau hynny. Byddai ffeibr i'r adeilad wedi costio hyd at bum gwaith y £205 miliwn rydym eisoes yn ei fuddsoddi. Mewn unrhyw achos, mae gallu cyflymder y safle ar gyfartaledd sy'n cael ei alluogi eisoes trwy Cyflymu Cymru yn fwy na dwywaith targed strategol yr UE, sef 30 Mbps ar gyfer pob adeilad erbyn 2020. Rwyf eisoes wedi amlinellu ein cynlluniau ar gyfer y £12.1 miliwn ychwanegol, a byddaf yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig pellach, fel y dywedais, yr wythnos nesaf.

Fel rwyf eisoes wedi nodi, mae ysgogi busnesau i ddefnyddio a manteisio yn rhan hanfodol o wireddu'r elw ar ein buddsoddiad. Mae'r broses o gyflwyno signal symudol 4G yn fater ar gyfer gweithredwyr ffonau symudol ac ar gyfer Ofcom. Er nad yw'n fater sydd wedi'i ddatganoli, ni fyddem am weld defnyddwyr yng Nghymru dan anfantais oherwydd arferion prisio camarweiniol. Mae ein contract Cyflymu Cymru yn cynnwys profion manwl ac ymarfer gwirio i sicrhau bod y cyflymder a gyflawnir yn unol â thargedau cytundebol. Mae hefyd yn nodi bod cost gyfanwerthol eiddo rydym yn ei alluogi yn cael ei feincnodi yn erbyn ardaloedd trefol mawr ledled y DU.

It is clear that Wales will not just become one of the most connected countries in the world by 2016; it is going further, faster and quicker in reaching this ambitious goal. This represents a real opportunity for our businesses to steal a march on our competitors and to help us create a digital economy that the rest of Europe will envy.

Mae'n amlwg nad dim ond dod yn un o'r gwledydd mwyaf cysylltiedig yn y byd y bydd Cymru erbyn 2016; mae am fynd ymhellach, yn gyflymach a chyrraedd y nod uchelgeisiol yn gynt. Dyma gyfle gwirioneddol i fusnesau ennill y blaen ar ein cystadleuwyr a'n helpu i greu economi ddigidol y bydd gweddill Ewrop yn eiddgeddus ohoni.

17:20 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Mark Isherwood i ymateb i'r ddadl.

I call Mark Isherwood to respond to the debate.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:20 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am sure that you will appreciate that I have been rapidly making notes from the very valued contributions. I thank everybody who has spoken today, in what I think was generally a very well balanced and constructive debate.

Rwy'n siŵr y byddwch yn deall imi wneud nodiadau cyflym o'r cyfraniadau gwerthfawr iawn a gawsom. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi siarad heddiw, mewn dadl y byddwn i'n ei hystyried yn gytbwys ac adeiladol iawn ar y cyfan.

I will turn to William Gandhi—I am sorry; I mean William Graham—to start. [Laughter.] As he said, to be world leaders, we need to ensure awareness and take-up of broadband. He asked the Welsh Government to work in partnership with all sectors and the UK Government to realise digital inclusion opportunities for Wales.

Trof at William Gandhi—mae'n ddrwg gennyf; William Graham—i ddechrau. [Chwerthin.] Fel y dywedodd ef, i fod ar flaen y gad, mae angen i ni sicrhau bod pobl yn ymwybodol o fand eang ac yn ei ddefnyddio. Gofynnodd i Lywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth gyda phob sector a chyda Llywodraeth y DU i wireddu cyfleoedd cynhwysiant digidol i Gymru.

Looking across to Eluned Parrott, she said that people in rural Wales are doubly isolated if they are left with poor internet access, as wider services are withdrawn from their communities. She talked of the need to tackle urban and rural hotspots. She said that customers are unclear about the services that they are buying, and that it is unfair when headline speeds are advertised, if, as she quoted, 91% of customers cannot get those speeds. There is a need to ensure that customers are made aware of that and to challenge suppliers if the customers are not receiving the service advertised and required.

Rwy'n edrych draw ar Eluned Parrott a ddywedodd fod pobl yn y Gymru wledig ddwywaith mor ynysig o'u gadael â mynediad gwael at y rhyngwrwyd, gan fod gwasanaethau ehangach yn cael eu tynnu allan o'u cymunedau. Soniodd am yr angen i fynd i'r afael â manau gwan trefol a gwledig. Dywedodd fod cwsmeriaid yn aneglur am y gwasanaethau y maent yn eu prynu, a'i bod yn annheg pan fydd prif gyflymder yn cael ei hysbysebu, pan na all 91% o gwsmeriaid gael y cyflymder hwnnw, yn ôl yr hyn a ddyfynnir ganddi. Mae angen sicrhau bod cwsmeriaid yn cael eu gwneud yn ymwybodol o hynny ac i herio cyflenwyr os nad yw'r cwsmeriaid yn derbyn y gwasanaeth gofynnol a hysbysebwyd.

Alun Ffred Jones talked of the need to promote broadband use in Wales, especially in areas with lower levels of economic activity. He referred to Ofcom figures showing that half of the households in Wales were in areas of the lowest broadband performance and expressed doubts about the figures on the numbers of households that will be able to access fast broadband provided by the Welsh Government. He asked what plans the Welsh Government has for the 4% of properties that will not be covered, which is something that the Deputy Minister referred to in his reply.

Siaradodd Alun Ffred Jones am yr angen i hyrwyddo'r defnydd o fand eang yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd â lefelau is o weithgarwch economaidd. Cyfeiriodd at ffigurau Ofcom a oedd yn dangos bod hanner cartrefi Cymru mewn ardaloedd o berfformiad band eang isaf a mynegodd amheuan am y ffigurau ar gyfer nifer yr aelwydydd a fydd yn gallu cael y band eang cyflym a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Gofynnodd pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y 4% o eiddo na fydd yn cael eu cynnwys, sy'n rhywbeth y cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog ato yn ei ateb.

My colleague Antoinette Sandbach talked of the strong digital economy being key to the future of Wales. She referred to the UK Government funding being a good example of partnership working with the Welsh Government but of there being a long way to go. She said that those living in remote and rural areas are unable to take advantage of the digital economy, with 42% of mobile users having experienced no signal or reception on their phone. She referred to the impact of that on businesses, including farmers in rural areas. She said that the take of broadband in rural areas has increased over recent years, but speed remains a key issue. She concluded by saying that broadband is no longer a luxury but a basic service and that people should not be disadvantaged.

My colleague Janet Finch-Saunders talked of the rapid changes in how we do business and how we live our lives, shopping online and paying our bills and so on. However, she said that a quarter of adults in Wales are still digitally excluded. She talked of the impact on older residents, where just a third of single pensioner households are digitally included. She mentioned the need for specific IT training to enable digital inclusion but said that local courses are being withdrawn. She asked the Deputy Minister to respond to that; I do not think that I heard reference to that in his reply. Although it is not technically within his brief, it would be appreciated if a reply could be made to Members subsequently. Janet also referred to a third of farmers being unable to access broadband, based on 2011 figures, and stated, quite rightly, that agriculture must not suffer.

Russell George talked of his constituents being poorly served by the broadband infrastructure by comparison with their neighbours across the border in England. He mentioned that 90,000 houses or homes in Wales are without access to broadband altogether, falling disproportionately in rural areas. He mentioned the need to raise domestic and business demand by raising awareness. He concluded by highlighting, as chair of the cross-party group on digital communication—I have very high regard for people who chair cross-party groups, so congratulations—that the group's next meeting will provide an update on progress made in somewhat greater detail than we have been able to cover today. Therefore, I commend that meeting with him to all Members. He said that everybody in the Chamber wants this to be successful, but let us not take our eyes off the ball.

The Deputy Minister, Ken Skates, referred to addressing market failure through state intervention. He defined that as left-leaning, but I define it as common sense, and I welcome the fact that this initiative is a partnership. We should, perhaps, live less in the past and learn a little bit more from it. He talked about the fact that he will update Members on broadband speeds next week, and we look forward to that. He also said that we need to focus on economic growth—Amen to that—and mentioned working with Ofcom, the industry and the UK Government to improve mobile coverage, which is good and we look forward to continued updates on that.

Soniodd fy nghydweithwraig, Antoinette Sandbach fod economi ddigidol gref yn allweddol i ddyfodol Cymru. Cyfeiriodd at sut roedd y cyllid a gafwyd gan Lywodraeth y DU yn enghraifft dda o weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, ond bod yna ffordd bell i fynd. Dywedodd fod y rhai sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell a gwledig yn gallu manteisio ar yr economi ddigidol, gyda 42% o ddefnyddwyr ffonau symudol heb brofi unrhyw signal neu dderbyniad ar eu ffôn. Cyfeiriodd at effaith hynny ar fusnesau, gan gynnwys ffermwyr mewn ardaloedd gwledig. Dywedodd fod y niferoedd sy'n manteisio ar fand eang mewn ardaloedd gwledig wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, ond bod cyflymder yn parhau i fod yn broblem allweddol. Gorffennodd trwy ddweud nad moethusrwydd yw band eang bellach ond gwasanaeth sylfaenol ac na ddylai pobl fod dan anfantais.

Siaradodd fy nghydweithiwr Janet Finch-Saunders am y newidiadau cyflym yn y ffordd rydym yn gwneud busnes a sut rydym yn byw ein bywydau, siopa ar-lein a thalu ein biliau ac ati. Fodd bynnag, dywedodd fod chwarter oedolion Cymru yn dal i ddioddef allgau digidol. Mae'n sôn am yr effaith ar drigolion hŷn, lle mai dim ond traean o aelwydydd pensynwyr sengl sy'n cael eu cynnwys yn ddigidol. Soniodd am yr angen am hyfforddiant TG penodol i alluogi cynhwysiant digidol ond dywedodd fod cyrsiau lleol yn cael eu tynnu'n ôl. Gofynnodd i'r Dirprwy Weinidog ymateb i hynny; nid wyf yn credu imi glywed cyfeiriad at hynny yn ei ateb. Er nad yw hyn yn rhan dechnegol o'i gylch gwaith, byddem yn gwerthfawrogi pe gallech ateb yr Aelodau maes o law. Cyfeiriodd Janet hefyd at y ffaith nad yw un rhan o bob tair o ffermwyr yn gallu cael band eang, yn seiliedig ar ffigurau 2011, a dywedodd, yn gwbl briodol, na ddylai amaethyddiaeth ddioddef.

Soniodd Russell George am ei etholwyr yn cael eu gwasanaethu'n wael gan y seilwaith band eang o'u cymharu â'u cymdogion ar draws y ffin yn Lloegr. Soniodd fod 90,000 o dai neu gartrefi yng Nghymru heb fynediad at fand eang yn gyfan gwbl, gan effeithio'n anghymesur ar ardaloedd gwledig. Soniodd am yr angen i godi'r galw gan aelwydydd a busnesau trwy godi ymwybyddiaeth. Daeth i ben drwy gyhoeddi, fel cadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar gyfathrebu digidol—ac mae gennyf barch mawr iawn at bobl sy'n cadeirio grŵpiau trawsbleidiol, felly derbyniwch fy llongyfarchiadau—y bydd cyfarfod nesaf y grŵp yn cynnwys diweddariad ychydig manylach ar y cynnydd a wnaed nag y bu modd i ni ei wneud heddiw. Felly, rwy'n argymhell y cyfarfod hwnnw gydag ef i'r holl Aelodau. Dywedodd fod pawb yn y Siambr yn awyddus i hyn lwyddo, ond na ddylem golli golwg ar y nod.

Cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog, Ken Skates, at fynd i'r afael â methiant yn y farchnad drwy ymyrraeth y wladwriaeth. Diffiniodd hyn fel pwyso i'r chwith, ond rwy'n ei ddiffinio fel synnwyr cyffredin, ac rwy'n croesawu'r ffaith bod y fenter hon yn bartneriaeth. Dylem, efallai, fyw llai yn y gorffennol a dysgu ychydig mwy ganddo. Roedd yn siarad am y ffaith y bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am gyflymder band eang yr wythnos nesaf, ac rydym yn edrych ymlaen at hynny. Dywedodd hefyd fod angen i ni ganolbwyntio ar dwf economaidd—a dywedaf Amen i hynny—a soniodd am weithio gydag Ofcom, y diwydiant a Llywodraeth y DU i wella darpariaeth symudol, sy'n syniad da ac edrychwn ymlaen at gael diweddariadau parhaus ar hynny.

The Deputy Minister referred to launching a public consultation to identify areas not covered by the roll-outs of high-speed broadband, and they will need state-aid approval. The plan to build an internet exchange in Wales is very interesting and, once again, we look forward to hearing more as that moves forward. As he acknowledges, Wales is starting from a lower point than the rest of the UK. He said that this was because of the free market, but I would argue that it is because the wealth-generating private and independent sectors in Wales are too small and Wales fell from being the top destination for inward investment to, I believe, its current position as second from bottom. However, that is something that we all must address and, as he said, we must focus on economic growth. The Deputy Minister then referred to Welsh Government action to ensure that speeds are achieved within contractual targets; of course, we would all endorse that.

In the twenty-first century, information literacy is a prerequisite for digital engagement. It is increasingly important that digital skills are taught in schools and older people are more likely to be digitally excluded. Those with additional learning needs are helped significantly by using technology in their lessons, but ICT is not currently a core subject in schools. We have heard that, according to Ofcom, Wales has the lowest take-up levels of broadband in the UK—66% against a UK average of 75%.

17:27 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

ICT may not be a core subject, but it is a key skill, and it is taught as a key skill up to the age of 18 within the school sector. It is also one of the key skills that are a part of the Welsh baccalaureate.

17:27 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much for that clarification.

Ofcom has said that there is a joint, vendor-neutral Welsh Government and BT marketing team, which we welcome, but I know that Ofcom has emphasised the need for demand-stimulation activity for broadband and a programme to raise public awareness of the ability to connect.

We heard the figures on Superfast Cymru and that 135,000 premises are already able to access the fast fibre broadband service, and that the Welsh Government expects this to rise to around 0.5 million by around March 2015, rather than the end of 2014. However, we heard Alun Ffred's scepticism about those figures.

Soniodd y Dirprwy Weinidog ei fod yn lansio ymgynghoriad cyhoeddus i nodi ardaloedd nad ydynt wedi eu cwmpasu gan y gwaith o gyflwyno band eang cyflymder uchel, a bydd angen cael cymeradwyaeth cymorth gwladwriaethol ar eu cyfer. Mae'r cynllun i adeiladu cyfnewidfa ryngrwyd yng Nghymru yn ddi-ddorol iawn ac, unwaith eto, rydym yn edrych ymlaen at glywed mwy wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Mae'n cydnabod bod Cymru yn cychwyn o bwynt is na gweddill y DU. Dywedodd fod hyn oherwydd y farchnad rydd, ond byddwn i'n dadlau mai oherwydd bod y sectorau preifat ac annibynnol sy'n cynhyrchu cyfoeth yng Nghymru yn rhy fach a bod Cymru wedi syrthio o fod y gyrcfan uchaf ar gyfer mewnfuddsoddi, rwy'n credu, i'w safle presennol o fod yn ail o'r gwaelod. Fodd bynnag, mae hynny'n rhywbeth y mae'n rhaid i ni i gyd fynd i'r afael ag ef, ac fel y dywedodd, rhaid inni ganolbwyntio ar dwf economaidd. Cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog wedyn at gamau gweithredu Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cyflymderau targedau contractiol yn cael eu cyflawni; wrth gwrs, byddem i gyd yn ategu hynny.

Yn yr unfed ganrif ar hugain, mae llythrennedd gwybodaeth yn rhagofyniad ar gyfer ymgysylltu digidol. Mae'n gynyddol bwysig bod sgiliau digidol yn cael eu haddysgu mewn ysgolion a bod pobl hŷn yn fwy tebygol o gael eu hallgáu'n ddigidol. Mae'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu helpu yn sylweddol drwy ddefnyddio technoleg yn eu gwersi, ond nid yw TGCh ar hyn o bryd yn bwnc craidd mewn ysgolion. Rydym wedi clywed, yn ôl Ofcom, mai Cymru sydd â'r lefelau defnydd isaf o fand eang yn y DU—66% o gymharu â chyfartaledd y DU o 75%.

Efallai nad yw TGCh yn bwnc craidd, ond mae'n sgil allweddol, ac mae'n cael ei ddysgu fel sgil allweddol hyd at 18 oed yn y sector ysgolion. Mae hefyd yn un o'r sgiliau allweddol sy'n rhan o fagloraeth Cymru.

Diolch yn fawr iawn am yr eglurhad hwnnw.

Mae Ofcom wedi dweud bod cyd-dim marchnata gwerthwr-niwtral Llywodraeth Cymru a BT, ac rydym yn croesawu hynny, ond gwn fod Ofcom wedi pwysleisio'r angen am weithgarwch i ysgogi'r galw am fand eang a rhaglen i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r gallu i gysylltu.

Clywsom y ffigurau ar gyfer Cyflymu Cymru a bod 135,000 o adeiladau eisoes yn gallu cael mynediad at y gwasanaeth band eang ffeibr cyflym, a bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl i hyn godi i tua 0.5 miliwn erbyn tua mis Mawrth 2015, yn hytrach na diwedd 2014. Fodd bynnag, clywsom amheuaeth Alun Ffred ynghylch y ffigurau hynny.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

As we heard, the Superfast Cymru programme aims to provide 96% of Wales with coverage, but urban areas are racing ahead of rural areas. Superfast Cymru, as we heard, was triggered when the Prime Minister announced £57 million of UK Government seed funding in the Chamber, levering in the £425 million that William Graham referred to. In February, the UK Government announced an additional £12 million in the Superfast Cymru project for local projects, particularly in rural areas. However, as BT stated in its briefing to Members for this debate, it is not yet clear how the Welsh Government will be spending the £12 million on the Superfast Cymru extension programme. I know that the Deputy Minister made some reference to that, but we look forward to hearing a lot more.

I will conclude by referring to something that I do not believe was mentioned, namely the FibreSpeed network. Last November, the Minister for Economy, Science and Transport wrote to all Members regarding the FibreSpeed network and the Superfast Cymru programme, and FibreSpeed then wrote to Members in consequence. The programme, FibreSpeed, is assisted by the Welsh Government's broadband support scheme. However, with regard to FibreSpeed, I noted that the Minister had stated that this included industrial estates and business parks, which were excluded from the original footprint of Superfast Cymru. Therefore, I entered the postcode for, in this case, Alcontrol Hawarden's location into the Superfast Cymru site, which revealed that the exchange was servicing the location and accepting orders for the Superfast Cymru project. As they said, Superfast Cymru is already overbuilding fibre-speed investment. That is a concern, it should not be happening, they made the claim and we need to know the facts regarding that.

So, let us support this motion recognising the importance of the digital economy to Wales, and the development of the infrastructure to support it, regretting that there are still areas in Wales in which poor or no broadband or 3G coverage is available, and calling on the Welsh Government to detail how the £12 million additional funding from the UK Government will be allocated. Thank you very much indeed.

Fel y clywsom, nod rhaglen Cyflymu Cymru yw darparu gwasanaeth i 96% o Gymru, ond mae'r ardaloedd trefol ymhell o flaen yr ardaloedd gwledig. Cychwynwyd Cyflymu Cymru, fel y clywsom, pan gyhoeddodd y Prif Weinidog £57 miliwn o gyllid sbarduno gan Lywodraeth y DU yn y Siambr, gan ddenu'r £425 miliwn y cyfeiriodd William Graham ato. Ym mis Chwefror, cyhoeddodd Llywodraeth y DU £12 miliwn ychwanegol yn y prosiect Cyflymu Cymru ar gyfer prosiectau lleol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Fodd bynnag, fel y dywedodd BT yn ei nodyn briffio i Aelodau ar gyfer y ddatl hon, nid yw'n glir eto sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gwario £12 miliwn ar y rhaglen i ymestyn Cyflymu Cymru. Gwn fod y Dirprwy Weinidog wedi gwneud rhyw gyfeiriad at hynny, ond edrychwn ymlaen at glywed llawer mwy.

Rwyf am gloi trwy gyfeirio at rywbeth nad wyf yn credu iddo gael ei grybwyll, sef y rhwydwaith FibreSpeed. Fis Tachwedd diwethaf, ysgrifennodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth at yr holl Aelodau ynghylch y rhwydwaith FibreSpeed a'r rhaglen Cyflymu Cymru, ac yna ysgrifennodd FibreSpeed at Aelodau o ganlyniad. Mae'r rhaglen, FibreSpeed, yn cael ei chynorthwyo gan gynllun cymorth band eang Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, o ran FibreSpeed, nodais fod y Gweinidog wedi datgan bod hyn yn cynnwys ystadau diwydiannol a pharciau busnes, a gafodd eu heithrio o ôl troed gwreiddiol Cyflymu Cymru. Felly, wrth i mi fewngofnodi'r cod post ar gyfer lleoliad Alcontrol ym Mhenarlâg, yn yr achos hwn, i mewn i safle Cyflymu Cymru, roedd yn dangos bod y gyfnewidfa'n gwasanaethu'r lleoliad ac yn derbyn archebion ar gyfer y prosiect Cyflymu Cymru. Fel y dywedasant, mae Superfast Cymru eisoes yn goradeiladu buddsoddiad cyflymder-ffeibr. Mae hynny'n peri pryder, ni ddylai fod yn digwydd, gwnaethant yr honiad ac mae angen i ni wybod y ffeithiau ynglŷn â hynny.

Felly, gadewch i ni gefnogi'r cynnig hwn gan gydnabod pwysigrwydd yr economi ddigidol i Gymru, a datblygiad y seilwaith i'w chefnogi, gan resynu bod ardaloedd yng Nghymru o hyd lle mae'r ddarpariaeth yn wael neu nad oes band llydan neu 3G ar gael o hyd, a galw ar Lywodraeth Cymru i roi manylion sut y bydd £12 miliwn o arian ychwanegol gan Lywodraeth y DU yn cael ei ddyrannu. Diolch yn fawr iawn.

17:30

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y cwestiwn yw y dylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod, felly gohiriaf y bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

The question is that the motion without amendment be agreed. Are there any objections? There is objection, therefore voting on this item will be deferred until voting time.

Voting deferred until voting time.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:30

Cyfnod Pleidleisio

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Before I conduct the vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5520](#)

Derbyniwyd y cynnig: O blaid 37, Yn erbyn 14, Ymatal 0.

Voting Time

Cyn i mi gynnal y bleidlais, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes.

[Result of the vote on motion NDM5520](#)

Derbyniwyd y Cynnig: O blaid 37, Yn Erbyn 14, Ymatal 0.

Y [Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:31	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography		Senedd.tv Fideo Video
	Will those Members who are going to leave the Chamber please do so quickly and quietly?	A wnaiff yr Aelodau hynny sy'n bwriadu gadael y Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel os gwelwch yn dda?	
17:32	Dadl Fer: Atebolrwydd Rheolwyr GIG Cymru	Short Debate: Management Accountability in the Welsh NHS	Y Senedd.tv Fideo Video
	Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography		
	I call on Bethan Jenkins to speak on the topic that she has chosen.	Galwaf ar Bethan Jenkins i siarad ar y pwnc y mae wedi'i ddewis.	
17:32	Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography		Senedd.tv Fideo Video
	Thank you. I have given a minute to Darren Millar, Kirsty Williams and Andrew R.T. Davies.	Diolch. Rwyf wedi rhoi munud i Darren Millar, Kirsty Williams ac Andrew R. T. Davies.	
	I would like to begin this debate by casting this Chamber's minds back to 1 February 2012, over two years ago. The significance of this date is that it was the day that Sir Fred Goodwin became plain old Fred Goodwin. The former chief executive of the Royal Bank of Scotland had already paid with his job for crashing his business in 2008 and nearly the economy with it, yet the Government with the full backing of, among others, the Labour leader, advised the Queen to annul his knighthood too. You are paid well for two things, I hope—experience and responsibility. This is well understood by the private sector, where the men and women with their hands on the tiller are compelled to go when it all goes pear shaped.	Hoffwn ddechrau'r ddadl hon drwy atgoffa'r Siambr hon o 1 Chwefror 2012, dros ddwy flynedd yn ôl. Arwyddocâd y dyddiad hwn yw mai dyma'r dydd y colodd Syr Fred Goodwin ei deitl ac y trodd yn Fred Goodwin cyffredin. Yn 2008, roedd cyn-brif weithredwr y Royal Bank of Scotland eisoes wedi colli ei swydd fel cosb am chwalu ei fusnes gan fynd â'r economi i'r dibyn fwy neu lai hefyd. Eto, cynghorodd y Llywodraeth y Frenhines i'w ddiarddel fel marchog hefyd, gyda chefnogaeth lawn arweinydd y Blaid Lafur, ymhlith eraill. Rydych yn cael eich talu'n dda am ddau beth, gobeithio—profiad a chyfrifoldeb. Mae'r sector preifat yn deall hyn yn iawn, gan fod y dynion a'r merched sydd â'u dwylo ar y llyw yn cael eu gorfodi i fynd pan fydd yr hwch yn mynd drwy'r siop.	
	RBS was important to the UK economy. Had it collapsed, payrolls would have been threatened, along with mortgages, paying the bills and finding the money to eat. Despite some of the end-of-the-world prophecies at the time, no-one said anyone would die, and that, after all, is the most important thing to all of us. Money can be replaced—life cannot.	Roedd RBS yn bwysig i economi'r DU. Pe bai wedi methu, byddai cyflogresi yn y fantol, ynghyd â morgesi, talu biliau a dod o hyd i'r arian i brynu bwyd. Er gwaethaf rhai o'r proffwydoliaethau diwedd-y-byd a gafwyd, ni ddywedodd neb y byddai rhywun yn marw, a dyna, wedi'r cyfan, yw'r peth pwysicaf i ni i gyd. Gallwch adennill arian a gollwyd—ond ni chewch ail fywyd.	
	On the day that Fred Goodwin lost his knighthood, Lilian Williams was still alive; then, nine months later, she was not. The grave dereliction of her care at two hospitals in my region—the Princess of Wales Hospital in Bridgend and Neath Port Talbot Hospital—led to a still ongoing campaign by her family, part of the 'vexatious' minority highlighted by the Minister, to lift the veil on her care and that of other patients. It is a veil partly, but certainly not wholly lifted by the 'Trusted to Care' report published last month.	Ar y diwrnod y cafodd Fred Goodwin ei ddiarddel fel marchog, roedd Lilian Williams yn dal yn fyw; naw mis yn ddiweddarach, roedd hi wedi marw. Mae'r esgeulustod dybryd yn y gofal a gafodd mewn dau ysbyty yn fy rhanbarth—Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot—wedi arwain at ymgyrch sy'n dal i fynd yn ei blaen gan ei theulu, rhan o'r lleiafrif 'blinderus' y tynnodd y Gweinidog sylw ato, i godi'r llen ar ei gofal hi ac ar ofal cleifion eraill. Mae'r llen wedi'i godi'n rhannol ond yn sicr nid yn llwyr gan yr adroddiad 'Ymddiried mewn Gofal' a gyhoeddwyd y mis diwethaf.	
	The report did not delve into the historical issues, as we know, of mistreatment and neglect, to the understandable anger and dismay of carers. If this was not the case for this report, when is it time to look at these historical accounts of people's mistreatment?	Fel y gwyddom, nid oedd yr adroddiad yn ymchwilio i'r materion hanesyddol o gamdriniaeth ac esgeulustod, i'r dicter dealladwy a siom gofalwyr. Os nad dyna oedd yn wir yn achos yr adroddiad hwn oedd yr amser priodol, pryd y bydd hi'n amser i edrych ar yr adroddiadau hanesyddol hyn o gam-drin pobl?	

The report's authors, at a loss to explain where the anger among relatives was coming from, referred to their wish for heads to roll and the current bullying language they frequently used. In spite of the narrow remit and the time spent bringing this report forward, which perhaps explains the authors' mystification over the way that relatives have manifested their frustration at having spent years trying to get adequate answers, and in spite of finding after finding that screamed management failure, they professed themselves satisfied that the current board would prove capable of turning this tanker. However, I would like to know why, especially when we know that there is more to come out, and especially when we know that Professor Andrews did not know the full extent of how many nurses were suspended or arrested, despite what Paul Roberts may have said to AMs recently.

Take a step outside, take a walk down the street and ask anybody, including all those people who are happy with the health service, which the overwhelming majority of the people who have come to hear this debate from the victim support group recognise, if a health service with systematic failures should be the responsibility of those at the top. What do you think they will say? If only it was that simple. The fact is that this idea that ABMU, the Welsh Government and anyone else with responsibility for care in South Wales West has shied away from making heads roll is totally untrue, because heads are rolling.

Depending on who you speak to—in an earlier indicator of confidence we should place in the board, AMBU has hardly proved itself reliable in reporting an accurate figure here—either three nurses have been arrested, or more, or 11 have been suspended, or 17. Nobody actually knows. We are told that it is a HR issue. Is it really? When blood glucose levels are being falsified, people are being left in their own excrement and people are not being hydrated, that should be of public interest. For the Minister to speak of patients and relatives destroying morale among the NHS workers, everyone should ask themselves how they would feel if their bosses stuffed up and they copped all the blame for it.

'Trusted to Care' states—this was quoted by the Minister in his statement on the report—that the collective responsibility of those inside the system, those charged with regulation and the public, should not be to catch out and blame, but to identify, correct, prevent and resolve issues constructively, so that the way hospitals work and services are provided improves. Now that we know that it is only those at the coal face who are shouldering the entire blame for what has happened, it begs the question why exactly we are paying senior executives as much as £200,000 a year, when they refuse to accept the ultimate responsibility, when they cannot even rise to the low standard of honour set by Fred Goodwin.

Heb wybod sut i egluro o ble roedd y dicter ymhlith perthnasau yn dod, cyfeiria awduron yr adroddiad at eu dymuniad i weld pobl yn cael eu cosbi ac at yr iaith ormesol y byddent yn aml yn ei defnyddio. Er gwaethaf y cylch gwaith cul a'r amser a dreuliyd ar lunio'r adroddiad hwn, sydd efallai'n esbonio syndod yr awduron ynglŷn â'r ffordd y mae perthnasau wedi amlygu eu rhwystredigaeth o fod wedi treulio blynyddoedd yn ceisio cael atebion digonol, ac er bod un canfyddiad ar ôl y llall yn gweiddi bod methiant ar lefel rheoli, aethant yn eu blaenau i broffesu eu bod yn fodlon y byddai gan y bwrdd presennol y gallu i ymdrin â'r anghenfil hwn. Fodd bynnag, hoffwn wybod pam, yn enwedig â ninnau'n gwybod bod rhagor o wybodaeth i'w ddatgelu, ac yn arbennig gan ein bod yn gwybod nad oedd yr Athro Andrews yn gwybod yn union faint o nyrsys a gafodd eu gwahardd o'u gwaith neu eu harestio, er gwaethaf yr hyn i Paul Roberts o bosibl ei ddweud wrth ACau yn ddiweddar.

Cymerwch gam y tu allan, ewch am dro i lawr y stryd a gofynnwch i unrhyw un, gan gynnwys yr holl bobl hynny sy'n fodlon gyda'r gwasanaeth iechyd, ac y mae mwyafrif llethol y bobl sydd wedi dod i glywed y ddatl hon gan y grŵp cymorth i ddiodefwyr yn cydnabod, a dylai gwasanaeth iechyd gyda methiannau systematig fod yn gyfrifoldeb i'r rhai ar y brig. Beth ydych chi'n meddwl y byddant yn ei ddweud? O na fyddai mor syml â hynny. Y gwir yw bod y syniad hwn bod PABM, Llywodraeth Cymru ac unrhyw un arall sydd â chyfrifoldeb am ofal yng Ngorllewin De Cymru wedi osgoi eu dyletswydd o ran sicrhau bod pobl yn talu am eu camweddau, yn anwiredd llwyr, oherwydd mae pobl yn cael eu cosbi.

Yn dibynnu gyda phwy rydych chi'n siarad—mewn arolwg cynharach o'r hyder y dylem ei ddangos yn y bwrdd, nid yw PABM wedi rhoi argraff ddibynadwy wrth adrodd ffigurau cywir yma—naill ai mae tair nyrs wedi cael eu harestio, neu fwy, neu mae 11 wedi cael eu gwahardd o'r gwaith, neu 17. Nid oes neb yn gwybod mewn gwirionedd. Dywedir wrthym yw ei fod yn fater Adnoddau Dynol. A yw hynny'n wir? Pan fydd lefelau glwcos yn y gwaed yn cael eu ffugio, a phobl yn cael eu gadael yn eu carthion eu hunain a phobl ddim yn cael eu hydradu'n briodol, dylai hynny fod o ddiodeb i'r cyhoedd. Pan ddywed y Gweinidog fod cleifion a pherthnasau'n difetha morâl ymhlith gweithwyr y GIG, dylai pawb ofyn iddynt eu hunain sut y byddent yn teimlo pe baent hwy'n gorfod ysgwyddo'r bai i gyd pan fo'u penaethiaid wedi methu.

Mae 'Ymddiried mewn Gofal' yn datgan—dyfynnwyd hyn gan y Gweinidog yn ei ddatganiad ar yr adroddiad—na ddylid ystyried mai cyfrifoldeb cyfunol y rhai o fewn y system, y rhai sy'n gyfrifol am reoleiddio a'r cyhoedd, yw dal a beio, ond yn hytrach, nodi, cywiro, atal a datrys materion yn adeiladol, fel bod y ffordd y mae ysbytaï'n gweithio a'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu yn gwell. Gan ein bod bellach yn gwybod mai dim ond y rheini ar wyneb y gwaith sy'n ysgwyddo'r bai i gyd am yr hyn sydd wedi digwydd, rhaid gofyn y cwestiwn pam yn union rydym yn talu cymaint â £200,000 y flwyddyn i uwch swyddogion gweithredol sy'n gwrthod derbyn cyfrifoldeb yn y pen draw pan nad ydynt hyd yn oed yn gallu codi i'r safon isel o anrhydedd a osodwyd gan Fred Goodwin.

I will give you another example. The last chief executive of Cardiff and Vale health board left her job with a pension pot of £1 million plus, after raiding future budgets to balance the books while she was still in office. She did so fully in the knowledge—if she did not know, it lends further weight to my argument—that those settlements that her successor would manage were going to be reduced through austerity. The Welsh Government rewarded her decision with a chair of a health innovation board.

In the recently published 'New Medicines and the NHS in Wales' report by the Welsh Institute for Health and Social Care, I found the following:

'The ability to anticipate significant additional new medicines was generally felt to be a key element in ensuring their successful introduction...This suggested that a significant financial obstacle often lay not in a simple shortage of money, but rather in the ability of the NHS to assimilate forewarning, which could result in the inability to deploy resources from one budget to another in sufficient time.'

It also said:

'Others suggested that in the current climate of austerity there was reluctance by leaders to advance or even consider plans for change as this might adversely affect morale and/or require non-existent resources.'

This took me back to the Minister's predecessor and her promise to get tough on bail-outs. Whatever has happened to that? We want to know who takes responsibility for what happened. The previous Minister was also very fond, in replying to health questions, of saying that it was a matter for the local health board. It draws a parallel with the so-called light-touch regulation that successive UK Governments were criticised for in the wake of the RBS collapse. If you take that through to its logical conclusion, then managers should take responsibility for their actions.

Rhoddaf enghraifft arall i chi. Gadawodd prif weithredwr diwethaf bwrdd iechyd Caerdydd a'r Fro ei swydd gyda phot pensiwn o dros £1 miliwn ar ôl ysbeilio cyllidebau'r dyfodol er mwyn mantoli'r llyfrau pan oedd yn dal yn y swydd. Gwnaeth hynny gan wybod yn iawn—os nad oedd hi'n gwybod, mae'n cryfhau fy nadl—y byddai'r setliadau hynny y byddai ei holnydd yn eu rheoli yn cael eu lleihau trwy fesurau caledi. Gwobrwyodd Llywodraeth Cymru ei phenderfyniad drwy roi cadeiryddiaeth bwrdd arloesi ym maes iechyd iddi.

Yn adroddiad Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, 'New Medicines and the NHS in Wales', a gyhoeddwyd yn ddiweddar, deuthum o hyd i'r canlynol:

'Teimlwyd yn gyffredinol fod y gallu i ragweld meddyginiaethau newydd ychwanegol arwyddocaol yn elfen allweddol o ran sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus... Awgrymai hyn nad diffyg arian syml oedd yn creu rhwystr ariannol sylweddol yn aml, ond yn hytrach, deilliai o anallu'r GIG i gydweddu rhybuddion ymlaen llaw a allai arwain at anallu i symud adnoddau o un gyllideb i'r llall mewn digon o amser.'

Roedd hefyd yn dweud:

'Yn yr hinsawdd bresennol o galedi, awgrymai eraill fod arweinwyr yn amharod i hyrwyddo neu hyd yn oed i ystyried cynlluniau ar gyfer newid gan y gallai hyn gael effaith andwyol ar forâl a/neu greu angen am adnoddau nad ydynt yn bodoli.'

Roedd hyn yn fy atgoffa am ragflaenydd y Gweinidog a'i haddewid i drin ymadawiadau cyfleus yn llym. Beth yn y byd sydd wedi digwydd i hynny? Rydym eisiau gwybod pwy sy'n cymryd cyfrifoldeb am yr hyn a ddigwyddodd. Roedd y Gweinidog blaenorol hefyd, wrth ateb cwestiynau iechyd, yn hoff iawn o ddweud mai mater i'r bwrdd iechyd lleol ydoedd. Mae'n cyfateb i'r hyn a elwir yn rheoleiddio ysgafn y beirniadwyd Llywodraethau olynol y DU amdano yn sgil cwmp RBS. Os dilynwch hynny drwodd i'w ben draw rhesymegol, yna dylai rheolwyr gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd.

What we have instead are confusing promises of action made by the Welsh Government and ABMU in the wake of 'Trusted to Care'. They are vague, because it appears to me, sadly, as if they were more intent on defending their managerial reputations rather than getting to the root of the issue. They are confusing because many of the report's recommendations show considerable similarities to those made in both the Commissioner for Older People in Wales's report, 'Dignified Care?', back in 2010, and the National Assembly Public Accounts Committee's report into nutrition in hospitals, published in February 2012. These are highly remunerated public servants with vitally important roles to fulfil, as we all know here. No-one in this Chamber should make any apology, in my view, or accept any criticisms from Ministers for expecting them to have the highest standards in Wales. Not only does the strict financial climate demand it, the moral duty to deliver the very highest quality of services and so prevent patients and their families from enduring the episodes they have faced in ABMU hospitals should be central to public service DNA.

In spite of 'Trusted to Care' and in spite of the selective public relations blitz conducted by ABMU and the quite frankly alarming assertions from it and the Welsh Government that this was no Mid Staffs—because you do not know that yet—none of the families that came to me as their AM to raise these concerns in the Chamber are convinced that anything less than a public inquiry into ABMU is needed, so that we can go back to look at the historical happenings in ABMU and know and be certain that we have fully investigated it. As an Assembly Member, I am not sure that we know that yet, and that is why we are here today—because we are all concerned about the future of the health service here in Wales.

Yr hyn sydd gennym yn lle hynny yw addewidion dryslyd o gamau gweithredu gan Lywodraeth Cymru a Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn sgîl 'Ymddiried mewn Gofal'. Maent yn amwys, oherwydd, yn anffodus, ymddengys i mi fel pe baent yn fwy awyddus i amddiffyn eu henw da fel rheolwyr yn hytrach na mynd at waidd y mater. Maent yn ddryslyd gan fod llawer o argymhellion yr adroddiad yn dangos tebygrwydd sylweddol i'r rhai a wnaed yn adroddiad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, 'Gofal gydag Urddas?' yn 2010, ac adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol ar faeth mewn ysbytai a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2012. Mae'r rhain yn swyddogion cyhoeddus ar gyflogau bras gyda swyddogaethau hanfodol bwysig i'w cyflawni, fel y gwyddom oll yma. Yn fy marn i, ni ddylai unrhyw un yn y Siambr hon ymddiheuro na derbyn unrhyw feirniadaeth gan Weinidogion am ddisgwyl iddynt arddel y safonau uchaf yng Nghymru. Nid yn unig y mae'r hinsawdd ariannol lem yn mynnu hynny, dylai'r ddyletswydd foesol i ddarparu gwasanaethau o'r ansawdd uchaf un ac felly atal cleifion a'u teuluoedd rhag dioddef y pethau a wynebwyd ganddynt yn ysbytai Abertawe Bro Morgannwg, fod yn rhan ganolog o wead gwasanaethau cyhoeddus.

Er gwaethaf 'Ymddiried mewn Gofal' ac er gwaethaf y ffrwydrad cysylltiadau cyhoeddus detholus a roddwyd ar waith gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a'r honiadau ynddo a gan Lywodraeth Cymru nad oedd hyn yr un fath â Chanolbarth Swydd Stafford—a oedd yn frawychus a dweud y gwir, gan nad ydych yn gwybod hynny eto—mae pob un o'r teuluoedd a ddaeth ataf fel eu Haelod o'r Cynulliad wedi'u hargyhoeddi na wnaiff unrhyw beth yn llai nag ymchwiliad cyhoeddus i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg y tro, er mwyn i ni allu mynd yn ôl i edrych ar y digwyddiadau hanesyddol yn y bwrdd iechyd a gwybod yn bendant ein bod wedi'i ymchwilio yn llawn. Fel Aelod o'r Cynulliad, nid wyf yn siŵr ein bod yn gwybod hynny eto a dyna pam rydym yma heddiw—oherwydd ein bod i gyd yn poeni am ddyfodol y gwasanaeth iechyd yma yng Nghymru.

I want to congratulate Bethan Jenkins on her passionate speech. She is quite right to be passionate about this issue because nobody wants to see the sorts of failings that we have seen both in north Wales and ABMU happen again in the Welsh national health service. Just to draw a distinction between the aftermath of the situation in north Wales and the situation in ABMU, in north Wales we saw the chair of the organisation resign and go, we saw the vice-chair resign, and we saw the departure of the chief executive. Now, I have not called for heads to roll at the health board in south Wales, but it is a remarkable difference in terms of the response of those who are at the top of the organisation. I will just say this, and I would appreciate an answer to this, Minister, in your response to the debate: if this is a matter of public confidence, how can the public be confident about the fact that the former nurse director of ABMU is now the project manager of the delivering safe and compassionate care review, which has been set up to look at nursing care standards and other healthcare standards across the NHS? How can the public have confidence that that is the right individual to undertake the task, given what we now know about the situation at ABMU on these individual wards that were looked at by Professor Andrews? Will you also confirm that, given what were clear governance failings at this particular health board, all of the wards in all of the hospitals in that health board area will be subject to an independent audit at some point in the very near future, so that patients can have confidence that, when they go to those hospitals, they are going to receive safe and compassionate care?

Rwyf am longyfarch Bethan Jenkins ar ei haraith angerddol. Mae hi'n hollol iawn i fod yn angerddol am y mater hwn gan nad oes neb am weld y mathau o fethiannau rydym wedi'u gweld yng ngogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn digwydd eto yn y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru. I wahaniaethu rhwng canlyniadau'r sefyllfa yn y gogledd a'r sefyllfa ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, yng ngogledd Cymru gwelsom gadeirydd y sefydliad yn ymddiswyddo a mynd, gwelsom yr is-gadeirydd ymddiswyddo a gwelsom ymadawiad y prif weithredwr. Yn awr, nid wyf wedi galw am ben neb yn y bwrdd iechyd yn ne Cymru, ond mae'n wahaniaeth rhyfeddol o ran ymateb y rhai sydd ar frig y sefydliad. Rwyf am ddweud hyn, a byddwn yn gwerthfawrogi ateb i hyn, Weinidog, yn eich ymateb i'r ddadl: os mai mater o hyder cyhoeddus yw hyn, sut y gall y cyhoedd fod yn hyderus ynglŷn â'r ffaiith fod cyn gyfarwyddwr nyrsio Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg bellach yn rheolwr prosiect yr adolygiad ar ddarparu gofal diogel a gofal tosturiol a sefydlwyd i edrych ar safonau gofal nyrsio a safonau gofal iechyd eraill ar draws y GIG? Sut y gall y cyhoedd fod yn hyderus mai dyna'r unigolyn cywir i ymgymryd â'r dasg, o ystyried yr hyn a wyddom bellach am y sefyllfa ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ar y wardiau unigol yr edrychodd yr Athro Andrews arnynt? O ystyried yr hyn a oedd yn fethiannau llywodraethu amlwg yn y bwrdd iechyd penodol hwn, a wnewch chi hefyd gadarnhau y bydd yr holl wardiau ym mhob un o'r ysbytai yn ardal y bwrdd iechyd yn destun archwiliad annibynnol ar ryw adeg yn y dyfodol agos iawn fel y gall cleifion fod yn hyderus wrth fynd i'r ysbytai hynny eu bod yn mynd i gael gofal diogel a thosturiol?

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

May I thank Bethan Jenkins for allowing me to contribute to her debate and commend her on the content of her speech this afternoon? I want to make it quite clear that being an NHS manager is an extremely challenging job, and the NHS needs high-quality, good management staff if we are to deliver an NHS that we can all be proud of. I also want to make clear that many people on the boards of our NHS trusts and organisations are there not necessarily because they are paid to be there as professionals, but because they too care deeply about delivering good NHS care for their communities. However, to do so, they need adequate training and adequate support so that, when they see that things are going wrong, they know how they can bring that to the attention of the right people and take action to address it. I am concerned to read in the Andrews report that people were aware that things were going on, but that nobody seemed to be in a position to be able to do anything about it. Could the Minister outline to me what measures are in place to actively performance manage chairs of local health boards and senior executives within LHBs? I am very familiar with what those processes are, for instance, for a headteacher in a school that is deemed to be in special measures and failing. That is quite an easy, understandable and open process. There seems to be a lack of accountability and transparency when it comes to issues around the LHBs. I am concerned that the only people who are losing their jobs in Abertawe Bro Morgannwg, potentially, are front-line nurses. Now, I do not want to excuse any poor behaviour on their behalf, but it does beg the question of whether we are truly saying that they were the only people who were responsible.

Hoffwn ddiolch i Bethan Jenkins am ganiatáu i mi gyfrannu at ei dadl ac rwy'n ei chymeradwyo ar gynnwys ei haraith y prynhawn yma. Rwyf am ei gwneud yn gwbl glir fod bod yn rheolwr GIG yn waith heriol iawn ac mae angen staff rheoli da o ansawdd uchel ar y GIG os ydym yn mynd i ddarparu GIG y gallwn oll fod yn falch ohono. Rwyf hefyd am ei gwneud yn glir fod llawer o bobl ar fyrddau ein hymddiriedolaethau a'n sefydliadau GIG yno, nid o reidrwydd oherwydd eu bod yn cael eu talu i fod yno fel gweithwyr proffesiynol, ond oherwydd eu bod yn malio'n ddwfn ynglŷn â darparu gofal GIG da i'w cymunedau. Er mwyn gwneud hynny, fodd bynnag, mae angen hyfforddiant digonol a chefnogaeth ddigonol arnynt er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod, pan welant fod pethau'n mynd o chwith, sut y gallant ddod â hynny i sylw'r bobl gywir a rhoi camau ar waith i ymdrin â'r mater. Testun pryder i mi oedd darllen yn adroddiad Andrews fod pobl yn ymwybodol fod pethau'n digwydd, ond nad oedd neb i'w weld mewn sefyllfa i allu gwneud dim yn ei gylch. A allai'r Gweinidog amlinellu i mi pa fesurau sydd ar waith i fynd ati i reoli perfformiad cadeiryddion byrddau iechyd lleol ac uwch swyddogion gweithredol o fewn y byrddau iechyd lleol? Rwy'n gyfarwydd iawn â'r prosesau hynny ar gyfer pennaeth mewn ysgol sy'n destun mesurau arbennig ac yn methu, er enghraifft. Mae honno'n broses sy'n eithaf hawdd, yn ddealladwy ac yn agored. Mae'n ymddangos bod diffyg atebolrwydd a thryloywder pan ddaw i faterion yn ymwneud â Byrddau Iechyd Lleol. Rwy'n pryderu mai'r unig bobl sy'n colli eu swyddi yn Abertawe Bro Morgannwg, o bosibl, yw nyrsys rheng flaen. Nawr, nid wyf am esgusodi unrhyw ymddygiad gwael ar eu rhan ond mae'n rhaid gofyn a ydym wir yn dweud mai dyma'r unig bobl a oedd yn gyfrifol.

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am very grateful to Bethan Jenkins for giving me the time to put some comments on the record in this debate. I commend the activities of the action group from Bridgend, which has come here today, for the work that it has done in raising the profile of this particular issue.

I think that most people, when they read the Andrews report, ask the question, 'Where is the accountability?' We are seeing, time and again, front-line staff taking the flak for this and not many weeks go by when we do not hear of more suspensions of front-line staff. That is not to cast aspersions, because no-one has been charged yet, as I understand it. However, where does the buck stop? What I am concerned about here is whether this is a historical issue that needs to be looked at, because the Andrews report looked at a specific period of time. Is it the current board that needs to answer these questions and be called to account? In which case, in fairness, it is only the Minister who has the power to do that, and I think that the Minister needs to front up on that. I do question what has to go wrong for someone to fall on their sword and take responsibility for this. That is not about wishing someone to do that, and calling for someone's scalp for the sake of someone's scalp, but, if you have the front-line staff bearing the brunt of this, where is the executive responsibility? Where is the executive accountability?

Diolch yn fawr iawn i Bethan Jenkins am roi'r amser i mi gofnodi rhai sylwadau yn y ddadl hon. Rwy'n cymeradwyo gweithgareddau'r grŵp gweithredu o Ben-y-bont ar Ogrwr a ddaeth yma heddiw am y gwaith a wnaeth ar godi proffil y mater penodol hwn.

Rwy'n meddwl bod y rhan fwyaf o bobl sy'n darllen adroddiad Andrews yn gofyn y cwestiwn, 'Ble mae'r atebolrwydd?' Dro ar ôl tro, gwelwn staff ar y rheng flaen yn cael eu beirniadu am hyn ac nid oes llawer o wythnosau'n mynd heibio heb i ni glywed am ragor o staff rheng flaen yn cael eu gwahardd. Nid yw hynny'n bwrw sen ar neb gan nad oes neb wedi'i gyhuddo eto, yn ôl yr hyn a ddeallaf. Fodd bynnag, lle mae pen draw'r cyfrifoldeb? Rwy'n pryderu a yw hyn yn fater hanesyddol y mae angen edrych arno, oherwydd edrychychi adroddiad Andrews ar gyfnod penodol o amser. Ai'r bwrdd cyfredol a ddylai ateb y cwestiynau hyn a chael eu dwyn i gyfrif? Ac os felly, er tegwch, dim ond y Gweinidog sydd â'r pŵer i wneud hynny a chredaf fod angen i'r Gweinidog wynebu hynny ar ei ben. Rwy'n cwestiynu beth sy'n rhaid iddo fynd o'i le cyn i rywun gyfaddef ei fai a chymryd cyfrifoldeb am hyn. Nid yw'n fater o ddyddio i rywun wneud hynny a galw am ben rhywun er mwyn gwneud hynny'n unig ond os oes gennych staff ar y rheng flaen sy'n ysgwyddo'r baich hwn, lle mae'r cyfrifoldeb gweithredol? Lle mae'r atebolrwydd gweithredol?

I hope that the Minister, when he replies to this debate, will also indicate whether he is prepared to increase the scope of the look back or the review that Andrews looked into, to see how far back some of these concerns and allegations go, historically.

I did ask the Minister whether he would make Professor Andrews available to talk to AMs. I have to say, when my office rang Professor Andrews's office to see whether she would come here, I was told that it would cost £1,200, because that is her fee to come to this building. I did get a call back two days later to rectify that. So, I would be most grateful if the Minister could use his offices to make sure that Professor Andrews comes back and speaks to AMs face to face in a committee room here, much like his predecessor, Edwina Hart, very often used to arrange, because I know that there are many questions that Members would like to ask her.

Wrth iddo ymateb i'r ddatl hon, rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog hefyd yn nodi a yw'n barod i gynyddu cwmpas yr hyn yr edrychodd Andrews arno neu'r hyn a adolygodd er mwyn gweld pa mor bell yn ôl y mae rhai o'r pryderon a'r honiadau hyn yn mynd yn hanesyddol.

Gofynnais i'r Gweinidog a fyddai'n sicrhau bod yr Athro Andrews ar gael i siarad ag Aelodau'r Cynulliad. Rhaid i mi ddweud, pan ffoniodd fy swyddfa i swyddfa'r Athro Andrews i weld a fyddai hi'n dod yma, dywedwyd wrthyf y byddai'n costio £1,200 am dyna yw ei ffi am ddod i'r adeilad hwn. Cefais alwad yn ôl ddeuddydd yn ddiweddarach i gywiro hynny. Felly byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallai'r Gweinidog ddefnyddio'i ddylanwad i wneud yn siŵr bod yr Athro Andrews yn dod yn ôl ac yn siarad ag ACau wyneb yn wyneb mewn ystafell bwyllgor yma, yn debyg iawn i'r cyfarfodydd yr arferai ei ragflaenydd, Edwina Hart, eu trefnu oherwydd gwn fod llawer o gwestiynau y byddai'r Aelodau yn hoffi eu gofyn iddi.

17:47

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister for Health and Social Services to reply to the debate—Mark Drakeford.

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ymateb i'r ddatl—Mark Drakeford.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:47

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

Diolch, Ddirprwy Lywydd. It is important that I begin by reminding Members of the immediate past history of the structures and accountability structures within which the NHS operates.

The current NHS operates to a system that was introduced on 1 October 2009, with the seven integrated local health boards and the three trusts that we now have replacing 22 local health boards and seven trusts. This was a product of the 'One Wales' agreement, of which Bethan Jenkins was a supporter. The accountability arrangements that the NHS has today were set out in legislation for which she voted. The changes were the first step in the NHS becoming an integrated healthcare system that works closely with local government and the third sector. They reflected the 'One Wales' document, which was clear that the NHS in Wales needed to be structured better to support improved health outcomes and the delivery of effective care with its patients.

The principle role of LHBs is to ensure the effective planning and delivery of the local NHS system. They are corporate bodies and their functions must be carried out in accordance with their statutory powers and duties, which are mainly contained in the National Health Service (Wales) Act 2006, and you will find them there.

Each trust and LHB is overseen by a board. The composition, responsibilities and accountabilities of these boards are not a matter for debate, because they are set out in statute. They are there on the statute book. Non-executive posts are filled through the independent public appointments process. Each board has a chair and each chair reports directly to me as the Minister for health.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae'n bwysig fy mod yn dechrau drwy atgoffa'r Aelodau o hanes diweddar y strwythurau a'r strwythurau atebolrwydd y mae'r GIG yn gweithredu o'u mewn.

Mae'r GIG ar hyn o bryd yn gweithredu yn unol â system a gyflwynwyd ar 1 Hydref 2009, gyda'r saith bwrdd iechyd lleol integredig a'r tair ymddiriedolaeth sydd gennym bellach wedi disodli'r 22 o fyrddau iechyd lleol a saith ymddiriedolaeth. Ffrwyth cytundeb 'Cymru'n Un' oedd hwn, cytundeb yr oedd Bethan Jenkins yn ei gefnogi. Nodwyd y trefniadau atebolrwydd sydd gan y GIG heddiu yn y ddeddfwriaeth y pleidleisiodd hi drosti. Y newidiadau oedd y cam cyntaf yn y daith i'r GIG ddod yn system gofal iechyd integredig sy'n gweithio'n agos gyda llywodraeth leol a'r trydydd sector. Maent yn adlewyrchu'r ddogfen 'Cymru'n Un', a oedd yn glir bod angen strwythuro'r GIG yng Nghymru'n well i gefnogi canlyniadau iechyd gwell a darparu gofal effeithiol gyda'i gleifion.

Prif rôl y Byrddau Iechyd Lleol yw sicrhau bod y gwaith o gynllunio a chyflwyno system y GIG yn lleol yn effeithiol. Maent yn gyrrff corfforaethol ac mae'n rhaid cyflawni eu swyddogaethau yn unol â'u gwahanol bwerau a dyletswyddau statudol, sydd wedi'u cynnwys yn bennaf yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, a byddwch yn dod o hyd iddynt yno.

Mae bwrdd yn goruchwyllo pob ymddiriedolaeth a BILL. Nid yw cyfansoddiad, cyfrifoldebau ac atebolrwydd y byrddau hyn yn fater i'w drafod, oherwydd maent wedi'u nodi mewn statud. Maent yno ar y llyfr statud. Mae swyddi anweithredol yn cael eu llenwi drwy'r broses penodiadau cyhoeddus annibynnol. Mae gan bob bwrdd gadeirydd ac mae pob cadeirydd yn adrodd yn uniongyrchol i mi fel y Gweinidog Iechyd.

NHS bodies are required to carry out all business in a manner consistent with Welsh Government standards for public service delivery. Those standards are set out in the Welsh Government's national governance framework, and that makes it clear that all services are to be driven by patient needs and the local needs of populations. It requires all NHS bodies to have sound and transparent internal assurance processes in place that monitor and improve the quality and safety of the services that they provide.

Each year, an annual delivery framework is agreed with the Welsh Government. This sets out the macro context for NHS Wales, the priorities set for it, the level of improvements that are required, and how the NHS will report its performance against these requirements to the Welsh Government. The framework includes a range of measures that are focused on the monitoring of safety, with clear escalation arrangements where performance may give cause for concern.

My officials have regular quality and delivery meetings with each NHS organisation in order to monitor performance. These are supplemented by six monthly joint executive team meetings between the Welsh Government and NHS organisation executives. Quality and safety are key features of these meetings—

Mae'n ofynnol i gyrrff y GIG gyflawni eu holl waith mewn modd sy'n gyson â safonau Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r safonau hynny wedi'u nodi yn fframwaith llywodraethu cenedlaethol Llywodraeth Cymru, ac mae hwnnw'n ei gwneud yn glir bod yr holl wasanaethau'n cael eu gyrru gan anghenion cleifion ac anghenion lleol poblogaethau. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i holl gyrrff y GIG fod â phrosesau sicrwydd mewnol tryloyw a chadarn yn eu lle sy'n monitro ac yn gwella ansawdd a diogelwch y gwasanaethau a ddarparant.

Bob blwyddyn, cytunir ar fframwaith cyflawni blynyddol gyda Llywodraeth Cymru. Mae hwn yn nodi'r cyd-destun macro ar gyfer GIG Cymru, y blaenoriaethau a osodwyd ar ei gyfer, lefel y gwelliannau sydd eu hangen, a sut y bydd y GIG yn adrodd ar ei berfformiad yn erbyn y gofynion hyn i Lywodraeth Cymru. Mae'r fframwaith yn cynnwys ystod o fesurau sy'n canolbwyntio ar fonitro diogelwch, gyda threfniadau trosglwyddo i lefel uwch clir pe bai perfformiad yn peri pryder.

Mae fy swyddogion yn cael cyfarfodydd ansawdd a chyflawni rheolaidd gyda phob sefydliad GIG er mwyn monitro perfformiad. Mae'r rhain yn cael eu hategu gan chwe chyfarfod tîm gweithredol ar y cyd misol rhwng Llywodraeth Cymru a swyddogion gweithredol sefydliadau'r GIG. Mae ansawdd a diogelwch yn nodweddion allweddol yn y cyfarfodydd hyn—

- | | | | |
|-------|---|---|--|
| 17:50 | Kirsty Williams Bywgraffiad Biography
Will the Minister give way? | A wnaiff y Gweinidog ildio? | Senedd.tv
Fideo Video |
| 17:50 | Mark Drakeford Bywgraffiad Biography
I understood— | Deallais— | Senedd.tv
Fideo Video |
| 17:50 | Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography
You are permitted to give way. | Caniateir i chi ildio. | Senedd.tv
Fideo Video |
| 17:50 | Mark Drakeford Bywgraffiad Biography
Oh, I will give way. | O, byddaf yn ildio. | Senedd.tv
Fideo Video |
| 17:50 | Kirsty Williams Bywgraffiad Biography
I am grateful, Minister. That is a very clear setting out of the rules. Could you let the Chamber know whether, during those meetings, your officials at any time raised concerns with the management at ABMU about standards of care at the Princess of Wales and Neath Port Talbot hospitals? | Rwyf yn ddiolchgar, Weinidog. Mae hynny'n amlinelliad clir iawn o'r rheolau. A allech chi roi gwybod i'r Siambr a wnaeth eich swyddogion ar unrhyw adeg, yn ystod y cyfarfodydd hynny, godi pryderon gyda'r rheolwyr yn PABM am safonau gofal yn ysbytai Tywysoges Cymru a Chastell-nedd Port Talbot? | Senedd.tv
Fideo Video |
| 17:51 | Mark Drakeford Bywgraffiad Biography
These are entirely iterative processes, in which concerns are regularly raised about a whole range of issues that occur right across Wales. | Mae'r rhain yn brosesau cwbl ailadroddus, gyda phryderon yn cael eu codi'n rheolaidd am ystod eang o faterion sy'n digwydd ar draws Cymru gyfan ynddynt. | Senedd.tv
Fideo Video |

Dirprwy Lywydd, let me now set out a series of different ways in which, over the last 12 months, further actions have been taken to strengthen and improve accountability. In September of last year, for the first time, all health boards and trusts published their first annual quality statements. These are available on their websites and provide a public account of the organisations' approaches and commitment to quality. A peer review tested the robustness of these statements. It was led by Professor Rosemary Kennedy, formerly a Chief Nursing Officer for Wales and currently chair of the Velindre trust. It involved staff from a range of disciplines as well as lay and patient representatives. There will be an all-Wales annual quality statement that I will publish later this year, and that will capture the all-Wales actions in this field.

In a second development, Academi Wales, the organisation responsible for senior leadership in the public sector in Wales, has developed an extensive programme of training and development focused on improving leadership across all sectors of the NHS. A number of developments have taken place over the last 12 months and they include, to answer a point that Kirsty Williams raised earlier, a series of governance classes specifically aimed at equipping members of NHS boards in Wales to discharge their important responsibilities.

In a third development, the work of the mortality and transparency taskforce, which was established in April of last year, has ensured that more data on the performance of NHS Wales are published in an accessible and understandable format. The result of the work of the taskforce is the My Local Health Service website. It was launched last September, and provides members of the public in Wales with key information on the performance of their local health services in order that they too can play a part in ensuring that the performance of the Welsh NHS is held accountable.

In a fourth development, last July, the NHS in Wales received the all-Wales raising concerns policy. It was developed very carefully and directly within the context of the findings of the Francis review, and it remains a document that is under development. The older persons' commissioner for Wales, for example, is currently contributing to the next iteration of the policy. Her work suggests that the word 'whistleblowing', which was contained in the heading of the previous policy, has become seriously tainted, that it induces feelings and uncertainties that cause worry and actually acts to inhibit staff's willingness to raise concerns, rather than, as we wish the policy to do, to help them to find new and better ways in which their concerns can be raised and in which they can feel confident that they will receive a constructive response.

In a fifth development, we continue to enhance and strengthen the role of community councils. The Longley review produced a series of recommendations that have been debated on the floor of the Assembly. They require a series of amendments to the community health regulations

Dirprwy Lywydd, gadewch i mi yn awr nodi cyfres o ffyrdd gwahanol, dros y 12 mis diwethaf, y cymerwyd camau gweithredu pellach fel rhan ohonynt i gryfhau a gwella atebolrwydd. Ym mis Medi y llynedd, am y tro cyntaf, cyhoeddodd pob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth eu datganiadau ansawdd blynyddol cyntaf. Mae'r rhain ar gael ar eu gwefannau ac yn darparu cyfrif cyhoeddus o ddulliau ac ymrwymiad y sefydliadau i ansawdd. Bu adolygiad gan gymheiriaid yn profi cadernid y datganiadau hyn. Cafodd ei arwain gan yr Athro Rosemary Kennedy, Prif Swyddog Nyrsio Cymru gynt a chadeirydd presennol Ymddiriedolaeth Felindre. Roedd yn cynnwys staff o amrywiaeth o ddisgyblaethau yn ogystal â lleygion a chynrychiolwyr cleifion. Bydd datganiad ansawdd blynyddol Cymru gyfan, y byddaf yn ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni, a fydd yn amlinellu camau gweithredu Cymru gyfan yn y maes hwn.

Mewn ail ddatblygiad, mae AcademiWales, sef y sefydliad sy'n gyfrifol am uwch arweinyddiaeth yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, wedi datblygu rhaglen helaeth o hyfforddiant a datblygu sy'n canolbwyntio ar wella arweinyddiaeth ar draws pob sector o'r GIG. Cafwyd nifer o ddatblygiadau dros y 12 mis diwethaf, ac maent yn cynnwys, i ateb pwynt a wnaed gan Kirsty Williams yn gynharach, gyfres o ddsosbarthiadau llywodraethu wedi'u hanelu'n benodol at roi'r sgiliau i aelodau byrddau'r GIG yng Nghymru fel y gallant gyflawni eu cyfrifoldebau pwysig.

Mewn trydydd datblygiad, mae gwaith y tasglu marwolaethau a thryloywder, a sefydlwyd ym mis Ebrill y llynedd, wedi sicrhau bod mwy o ddata ar berfformiad GIG Cymru yn cael eu cyhoeddi mewn fformat hygyr a dealladwy. Ffrwyth gwaith y tasglu yw gwefan Fy Ngwasanaeth Iechyd Lleol. Fe'i lanswyd fis Medi diwethaf, ac mae'n darparu'r cyhoedd yng Nghymru â gwybodaeth allweddol ar berfformiad eu gwasanaethau iechyd lleol er mwyn iddynt hwy hefyd allu chwarae eu rhan i sicrhau bod perfformiad y GIG yng Nghymru yn cael ei ddwyn i gyfrif.

Mewn pedwerydd datblygiad, fis Gorffennaf diwethaf, derbyniodd y GIG yng Nghymru y polisi codi pryderon Cymru gyfan. Fe'i datblygwyd yn ofalus iawn ac yn uniongyrchol o fewn cyd-destun canfyddiadau adolygiad Francis, ac mae'n parhau i fod yn ddogfen sy'n cael ei datblygu. Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, er enghraifft, ar hyn o bryd yn cyfrannu at fersiwn nesaf y polisi. Mae ei gwaith yn awgrymu bod y term, 'chwythu'r chwiban', a gafodd ei gynnwys ym mhennawd y polisi blaenorol, wedi cael ei lygru'n ddifrifol, i'r fath raddau fel ei fod yn ysgogi teimladau ac ansicrwydd sy'n achosi pryder ac mewn gwirionedd yn atal parodrwydd staff i godi pryderon, yn hytrach na'u helpu, fel y byddem am i'r polisi ei wneud, i ddod o hyd i ffyrdd newydd a gwell o allu codi eu pryderon a lle y gallant deimlo'n hyderus y byddant yn derbyn ymateb adeiladol.

Mewn pumed datblygiad, rydym yn parhau i wella a chryfhau rôl cynghorau cymuned. Cynhyrnodd adolygiad Longley gyfres o argymhellion sydd wedi cael eu trafod ar lawr y Cynulliad. Maent yn gwneud cyfres o ddiwygiadau i'r gymuned rheoliadau iechyd yn ofynnol—

17:54	Suzy Davies Bywgraffiad Biography Will you take an intervention, Minister?	A wnewch chi dderbyn ymyriad, Weinidog?	Senedd.tv Fideo Video
17:54	Mark Drakeford Bywgraffiad Biography Yes, of course.	Iawn, wrth gwrs.	Senedd.tv Fideo Video
17:54	Suzy Davies Bywgraffiad Biography I really appreciate your taking this intervention. You are talking about community health councils now. Are you 100% confident that the Andrews report involved direct consultation with community health councils in the ABMU area?	Rwy'n gwerthfawrogi'n fawr eich bod yn derbyn yr ymyriad hwn. Rydych yn sôn am gynghorau iechyd cymuned yn awr. A ydych yn 100% hyderus bod adroddiad Andrews wedi cynnwys ymgynghoriad uniongyrchol â chynghorau iechyd cymuned yn ardal PABM?	Senedd.tv Fideo Video
17:55	Mark Drakeford Bywgraffiad Biography I cannot give an immediate answer to that question. Certainly, the Andrews review comments very directly on the role of community health councils. She has concerning things to say about the role of the CHC in that area in relation to what she found. Part of what we have to do in strengthening CHCs is to make sure, where there are concerns that members of the public report in relation to health services, that CHCs are fully equipped to act as their watchdog, as they are intended to be, and make sure that those concerns are raised in the places that they need to be raised. I now turn to the independent review of how the NHS in Wales handles complaints and concerns. Members will know that I have asked Keith Evans, the former chief executive officer of Panasonic UK and Ireland, to undertake a review of these.	Ni allaf roi ateb sydyn i'r cwestiwn hwnnw. Yn sicr, mae adolygiad Andrews yn rhoi sylwadau uniongyrchol iawn ar rôl cynghorau iechyd cymuned. Mae ganddi bethau sy'n peri pryder i'w ddweud am rôl y CIC yn yr ardal honno mewn perthynas â'r hyn a ddaeth i'w sylw. Pan fo pryderon bod aelodau'r cyhoedd yn adrodd mewn perthynas â gwasanaethau iechyd, rhan o'r hyn sydd gennym i'w wneud o ran cryfhau Cynghorau Iechyd Cymuned yw sicrhau bod y Cynghorau Iechyd Cymuned yn gwbl alluog i weithredu fel eu corff gwarchod, fel y bwriadwyd iddynt fod, a gwneud yn siŵr bod y pryderon hynny'n cael eu codi yn y manau y mae angen iddynt gael eu codi. Trof yn awr at yr adolygiad annibynnol o sut y mae'r GIG yng Nghymru yn ymdrin â chwynion a phryderon. Bydd yr Aelodau yn gwybod fy mod wedi gofyn i Keith Evans, cyn brif swyddog gweithredol Panasonic yn y DU ac Iwerddon, i gynnal adolygiad o'r rhain.	Senedd.tv Fideo Video
17:56	Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography We have listened to you for nearly nine minutes. I spoke for a substantial amount of time based on evidence from people. You have not once directly reflected on anything that I have said. I think that the people who have come here today deserve that from you, as Minister. [Interruption.]	Rydym wedi gwrandao arnoch am naw munud bron. Rwyf yn siarad am gyfnod sylweddol o amser yn seiliedig ar dystiolaeth gan bobl. Nid ydych wedi cyfeirio unwaith yn uniongyrchol at unrhyw beth rwyf wedi ei ddweud. Credaf fod y bobl sydd wedi dod yma heddiw yn haeddu hynny gennych, fel Gweinidog.[Torri ar draws.]	Senedd.tv Fideo Video
17:56	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography Order, order. I have to tell people in the gallery that they are not to make any gestures. If you applaud again, I will have to clear the public gallery, which is not something that I want to do. The Minister is permitted to reply in the manner that he sees fit. There is nothing out of order in his response. [Interruption.] Order. There is nothing out of order in his response. He has set out matters that he considers relevant. They clearly are relevant. He may not be covering every item that you want him to cover, but I have to protect his right to stick to his script and his speech in terms of what he feels is most relevant for this debate. I call the Minister.	Trefn, trefn. Mae'n rhaid i mi ddweud wrth bobl yn yr oriel nad ydynt i ymateb mewn unrhyw fodd. Os byddwch chi'n cymeradwyo eto, bydd yn rhaid i mi glirio'r oriel gyhoeddus, ac nid yw hynny'n rhywbeth rwyf am ei wneud. Caniateir i'r Gweinidog ymateb fel y gwêl yn dda. Nid oes unrhyw beth allan o drefn yn ei ymateb. [Torri ar draws.] Trefn. Nid oes unrhyw beth allan o drefn yn ei ymateb. Mae wedi amlinellu materion y mae'n eu hystyried yn berthnasol. Mae'n amlwg eu bod yn berthnasol. Efallai nad yw'n rhoi sylw i bob eitem yr hoffech iddo roi sylw iddynt, ond rhaid i mi amddiffyn ei hawl i gadw at ei sgript a'i araith o ran yr hyn y mae'n teimlo sydd fwyaf berthnasol ar gyfer y ddadl hon. Galwaf ar y Gweinidog.	Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I was reminding Members of the work that Keith Evans has been asked to undertake in exploring the way in which the NHS in Wales handles complaints and concerns. I have asked him to do that because of issues that have been raised with me by members of the public who have experienced the process as it currently operates. That report will be available very shortly. It will be a matter of interest, I know, to members of the public, and it is designed to bolster the answerability of the health service here in Wales.

Earlier this afternoon, we debated Healthcare Inspectorate Wales. Members here will know, as a result, of the measures that we want to take in order to strengthen that body and to make sure that it too is able to make the contribution that an expert independent regulator can bring to both board and executive responsibility.

I turn now to the 'Trusted to Care' report. I have said many times in this Chamber that when serious concerns emerge I will take action to make sure that they are addressed. That is why I commissioned an independent review into care standards at the Princess of Wales and Neath Port Talbot hospitals. I repeat here what I have said previously to Members, that, in my view, that is a report that we have to accept in its entirety, as the report itself recommends. It is simply not good enough to pick those parts of the report that chime with views that Members already have and then to ignore those parts of the report that do not happen to reinforce the views that Members already hold. In my position, I believe that accepting the report in its entirety is the right thing to do, and that is what I intend to act upon.

Finally, we talked earlier today about the relationship between the different inspectorates in Wales and the need for them to act together to make sure that, where concerns emerge, they are able to work openly and closely together routinely to share information, and to make sure that action is taken, including targeted intervention, and, ultimately, if serious failures persist, in taking special measures. The escalation and intervention arrangements newly agreed between Welsh Government, the Wales Audit Office, and Healthcare Inspectorate Wales were published in March of this year, and they set out—I believe—a very clear set of processes that answer some of the points that Members have raised this afternoon.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Roeddwn yn atgoffa'r Aelodau o'r gwaith y gofynnwyd i Keith Evans ymgymryd ag ef yn archwilio'r ffordd y mae'r GIG yng Nghymru yn ymdrin â chwynion a phryderon. Rwyf wedi gofyn iddo wneud hynny oherwydd materion a godwyd gyda mi gan aelodau'r cyhoedd sydd wedi cael profiad o'r broses fel y mae'n gweithredu ar hyn o bryd. Bydd yr adroddiad ar gael yn fuan iawn. Bydd yn fater o ddiddordeb, mi wn, i aelodau'r cyhoedd, a'r bwriad yw y bydd yn cryfhau atebolrwydd y gwasanaeth iechyd yma yng Nghymru.

Yn gynharach y prynhawn yma, bu inni drafod Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. O ganlyniad, bydd Aelodau sy'n bresennol yn gwybod am y mesurau rydym am eu cymryd er mwyn cryfhau'r corff hwnnw gan sicrhau y gall hefyd wneud y cyfraniad y byddai rheoleiddiwr annibynnol arbenigol yn gallu ei wneud i'r cyfrifoldeb gweithredol ar bwrdd fel ei gilydd.

Trof yn awr at yr adroddiad 'Ymddiried mewn Gofal'. Rwyf wedi dweud sawl gwaith yn y Siambr hon pan ddaw pryderon difrifol i'r amlwg y byddaf yn cymryd camau i sicrhau eu bod yn cael sylw. Dyna pam y bu imi gomisiynu adolygiad annibynnol o safonau gofal yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot. Rwyf yn ailadrodd yma yr hyn rwyf wedi ei ddweud o'r blaen wrth yr Aelodau, sef, yn fy marn i, fod yr adroddiad hwnnw yn un y mae'n rhaid inni ei dderbyn yn ei gyfanrwydd, fel yr argymhellir yn yr adroddiad ei hun. Nid yw'n ddigon da ein bod yn dewis a dethol y rhannau hynny o'r adroddiad sy'n cyd-daro â safbwyntiau sydd eisoes gan Aelodau ac yn anwybyddu'r rhannau hynny o'r adroddiad nad ydynt yn digwydd ategu'r safbwyntiau sydd eisoes gan Aelodau. Yn fy sefyllfa, rwy'n credu mai derbyn yr adroddiad yn ei gyfanrwydd yw'r peth cywir i'w wneud, a dyna sut rwyf yn bwriadu gweithredu.

Yn olaf, bu inni siarad yn gynharach heddiw am y berthynas rhwng y gwahanol arolygiaethau yng Nghymru a'r angen iddynt weithredu gyda'i gilydd i wneud yn siŵr, pan ddaw pryderon i'r amlwg, eu bod yn gallu gweithio'n agored ac yn agos at ei gilydd fel mater o drefn i rannu gwybodaeth, ac i wneud yn siŵr bod camau'n cael eu cymryd, gan gynnwys ymyrraeth wedi'i thargedu, ac, yn pen draw, os bydd methiannau difrifol yn parhau, i roi mesurau arbennig ar waith. Cyhoeddwyd y trefniadau ar gyfer trosglwyddo i lefel uwch ac ymyrryd a gytunwyd yn ddiweddar rhwng Llywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ym mis Mawrth eleni—a chredaf—eu bod yn nodi set glir iawn o brosesau sy'n ateb rhai o'r pwyntiau a godwyd gan Aelodau y prynhawn yma.

Finally, let us remember that anyone who works in or for the NHS, whatever their role, has a personal responsibility and accountability for their actions that is commensurate with the part that they play. All must act within their codes of conduct, and there are systems in place to deal with lapses in required standards when those take place. The board of each NHS organisation is accountable for ensuring the quality, safety and effectiveness of all of the services that it plans and provides. It is for them to ensure that there is also a supportive organisational culture that promotes openness with its staff, with its patients and its citizens, and that we work with the grain of our patients here in Wales. Where they see things go wrong, they will want to bring them to attention—not because of the benefit that they themselves may derive from that, but because of their wish to make sure that the things that may have gone wrong in their lives and in their care are not replicated in what may happen to others.

Yn olaf, dylem gofio bod gan unrhyw un sy'n gweithio yn y GIG, neu i'r GIG, beth bynnag eu rôl, gyfrifoldeb ac atebolrwydd personol am fo'u gweithredoedd sy'n gymesur â'r swyddogaeth sydd ganddynt. Rhaid i bawb weithredu o fewn eu codau ymddygiad, ac mae systemau ar waith i ymdrin â diffygion mewn safonau gofynnol pan fydd hynny'n digwydd. Mae bwrdd pob sefydliad GIG yn atebol am sicrhau ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd yr holl wasanaethau y mae'n eu cynllunio a'u darparu. Mater iddynt hwy yw sicrhau bod diwylliant sefydliadol cefnogol hefyd ar waith sy'n hyrwyddo agwedd o fod yn agored gyda'u staff, eu cleifion a'u dinasyddion, a'n bod yn gweithio gyda'r graen gyda'n cleifion yma yng Nghymru. Pan welant bethau'n mynd o chwith, byddant am dynnu sylw atynt—nid oherwydd y budd a allai ddod iddynt hwy eu hunain, ond oherwydd eu bod am sicrhau na chaiff y pethau a allai fod wedi mynd o'i le yn eu bywydau ac yn eu gofal hwy eu hailadrodd yn yr hyn a allai ddigwydd i eraill.

18:01

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. That concludes today's proceedings.

Diolch. Dyna ddiwedd y trafodion heddiw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Daeth y cyfarfod i ben am 18:01.

The meeting ended at 18:01.